



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>




1840.

199.

1840.

199.





HYMNAU A SALMAU.

YR

H Y M N A U

GAN MWYAF O WAITH

Y PARCH. WILLIAM WILLIAMS,

O BANTYCELYN;

A'R

S A L M A U

GAN

Y PARCH. EDMUND PRYS,

O FEIRIONYDD.

Wedi eu casglu ar ddymuniad ac at wacanaeth

Y

Methodistiaid Calfnaidd

YN LIVERPOOL,

GAN

RICHARD WILLIAMS A JOSEPH WILLIAMS.

"Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf byw: canaf i'm Duw tra fyddwyf."
SALM CIV. 33.

LIVERPOOL:

PRINTIWDYD DROS YR ENWAD UCHOD
GAN R. LL. MORRIS.

1840.

199.



ENTERED AT STATIONERS' HALL.

RHAGYMATRODD.

Os gofynir paham y daw y Casgliad hwn allan pan y mae cynifer o Gasgliadau o'r fath wedi eu cyhoeddi yn barod, nid oes genym ateb gwcell i'w roddi na'n bod wedi cymeryd y gorchwyl ar ddymuniaid Cyfarfod Misol pregethwyr a henuriaid y Methodistiaid Caisnaidd yn Liverpool.

Pe ceisiasai ein brodyr genym wneyd newidiadau neu ddiwygiadau mewn synwyr neu farddoniaeth yn Hymnau Williams, ac ereill, diau y buasem yn cilio yn ol meicn arswyd, rhag cymeryd arnom y fath orchwyl. A phe gofynasid i ni gymeryd yr Hymnau fel y maent wedi eu diwygio gan ereill, y mae archwaeth pobl mor wahanol, a'r diwygiadau ar yr un pennillion mor amryw, fel y buasai yn anhawdd iawn gwybod pa ddiwygiad i'w ddeuwis: ond gan mae eu cais ydoedd cael odlau yr hen Brydyddion Cymreig heb eu newid, ni a gydsyniasom i ymaflwyd yn y gwaith, gan hyderu nad ydym, wrth gyhoeddi Hymnau yr hen bobl yn eu gwisg gyntaf, yn rhoddi achlysur teg i neb dramgwyddo.

Ac felly ni bydd neb i'w beio am wall-synwyr, neu gam-brydyddiaeth yr Hymnau hyn, ond eu cyfansoddwyr gwreiddiol: er y bydd yr holl feiau detholiadol ac orgraffyddol wrth ddrysau y casglyddion. Beiau orgraffyddol, meddwn, oblegid ein bod, er mwyn unffurfaeth, wedi ymgais at ddilyn yr un orgraff trwy yr holl lyfr.

Tuag at wneuthur y Casgliad hwn yn fuddiol ac yn dderbyniol, yr ydym wedi defnyddio pob mantais a ymddangosai i ni yn mhob casgliad ac y gwyddem am dano: ond os

ydym wedi dilyn un o honynt mwy nag ereill, "Grawn-sypiau Canaan," gan y diweddar Barch. Robert Jones, yw hwnw; oblegid mai dyna y llyfr Hymnau sydd wedi bod mewn mwyaf o arferiad yn mhllith y Methodistiaid, yn Ngogledd Cymru y deugain mlynedd diweddaf; ac felly y gall y nifer mwyaf yn ein plith gaffael unrhyw bennill a ddewisont, wrth fod y llyfr ar y cynllun hwnw, yn haws, ysgatfydd, na phe buasai ar ryw gynllun arall.

Ni ddymunem osod un rheol bendant i lawr am y modd y dylid rhoddi allan a chanu y pennillion hyn. O bydd rhai yn dewis y dull Seisnig o ganu Hymn gyfan ar y tro, ceisiasom drefnu yr Hymnau yn gyfleus i hyny, trwy eu gwneyd yn gymedrol o ran hyd, a gochel rhag i'r naill ran o Hymn fod yn mhell iawn o ran mater, oddiwrth y rhan arall. Ond os bydd rhai yn dewis yr hen ddull Methodistaidd o ganu dim ond un pennill neu ddau ar y tro, a dyblu a threblu, yn ol y blas a gaffer, ar yr un geiriau—"dywedyd eilwaith Aleluia," &c. ceisiasom gyfaddasu y llyfr at wasanaeth y rhai hyny hefyd, drwy roddi Dangoseg o bob pennill yn niwedd y llyfr.

Bellach gadawn i hyn o lyfryn fyned allan i blith ein cydgenedl, a dywedwn wrtho ar ei gychwyniad, "Dos a'r Arghwydd a fyddo gyda thi." Bydded i hynawsedd y rhai a'th dderbyniont, guddio dy holl ffaeleddau—bydded i'th ddarllenwyr dderbyn trwot, lawer o hyfrydwoch ac adeiladaeth—a bydded i'th ganiadau fod yn nghynulleidfaoedd y saint,

"Fel pe disgynai gwllith Hermon,
Yn dô dros Sion fynydd;
Lle rhwymodd Duw fywyd a gwllith,
Ei fendith yn dragywydd."

Liverpool,
Hyd. 20, 1840.

RICHARD WILLIAMS.
JOSEPH WILLIAMS.

CYNNWYSIAD YR HYMNAU.

Adnewyddiad, erfyniad am	325	Crist, aberth	82
Addoldy, agoriad	28, 160	adgyfodiad	315, 316
Afon iachawdwriaeth	98, 341	angeu	33, 86, 196
Afradlawn, dychweliad yr	279	breniniaeth	128
Ailymweliad	337	buddugoliaeth	124, 254
Angeu, a'r bedd	148	cariad	27, 71, 94, 125, 136
digon erbyn	185	202, 221, 236, 245	
neshad	301	cnawdoliad	274
Angladd y Cristion	123	dyoddefaint	55, 80, 125
Anialwch, dyfod o'r	63, 79, 280	207, 219, 265, 267	
	336	dyrchafiad	237
taith yr	78, 84, 96, 278	etriolaeth	245, 255, 262, 315
	332	esgyniad	158, 184, 192, 227
Anwylid yr eglwys	37, 187, 261	genedigaeth	154, 319, 354
	278	golud	40, 284
Archoffeiriad mawr	45	haeddiant	146, 169, 207
Arweiniad i'r Ganaan nefol	13	245, 255, 274, 309	
Awelon nefol	153	person	47, 165
"Awn a meddiannwn y		pwrcau	219
wlad"	186, 309	rhagoroldeb	68, 165, 177
"Awn rhagom"	101	179, 197, 242, 281, 335	
Babilon, cwmp	353	yn bob peth	29, 103, 112
Barn	62, 149, 173, 258	122, 209, 235, 253, 296, 304	
Bedydd	133, 174	yn ddigon yn angeu	4, 231
Bibl, swm y	243	yn gysgod i bechadur	60
"Bod gyda Christ"	321	140, 204	
Buddugoliaeth trwy Grist	302	Cristion, claddedigaeth y	356
Bugail da	339	cwynfan y	97, 102, 145
Byd, gwagedd y	138	dymuniadau'r	21, 52, 75
"Byw i mi yw Crist"	155	107, 176, 220	
"Bywyd yn helaethach"	263	dyogelwch y	126
Calafia, pen	26, 234, 352	dysgwiliad y	77, 130, 311
syllu ar	53, 282	gweddi y	50, 76, 98, 214
Cân dragwyddol	248	hiraethog	95
Canaan nefol	325	human-ymholiad	336, 347
Caniadau mynydd Sion	83, 206	hyder y	90, 98, 102, 113
Canu am gariad Crist	229	116, 154, 162, 183	
Cariad, grym	14	marwolaeth y	355
Cartref tragwyddol	346	penderfyniad y	109
Ceidwad mawr	68	pererindod y	108, 111
Cenadol, yr achos	47, 48, 66, 70	profiad y	61, 141
72, 74, 82, 104, 133, 151, 173		uchelgais y	144, 264
224, 261, 275, 285, 328, 330		Croes Crist, buddugoliaeth	28
343, 345, 353		54, 87, 106	
Codi'r groes	90	ffyniant	23
Credadyn, concwest y	39, 121	rhinweddau	17, 134, 209
cysur y	269	211, 230, 272, 275, 285,	
deisyfiad y	45	322, 336	

Ymddiried yn Nuw	323	Ysbryd Glan, arweiniad yr	181
Ymhyfrydu yn Nuw	296	dylanwadau yr	69
Ymnerthu yn yr Arglwydd		erfyniad am yr	195
	57, 222	Ysgol Sabbathol, yr	28, 157
Ymwared, erfyn am 16, 20		"Y tlawd hwn a lefodd"	
	58, 224		178, 317
Ysbryd arall	189		

ERRATA.

- Yn lle *Arweinydd yr Ysbryd*, tudalen 181, darllener *Arweiniad yr Ysbryd*.
- Yn lle *W. W.* tudalen 191, darllener *D. M.*
- Yn lle *Yw'm sylfaen o barhau*, tudalen 219, darllener *Yw'm sylfaen i barhau*.
- Yn lle *M. C.* tudalen 198, darllener *M. B.*
- Yn lle *sydd yn ei feddiant nef*, tudalen 315, darllener *sydd yn ei feddiant Ef*.
- Yn lle *A fodd 'tiffeddion* 309, tudalen 408, darllener *A fodd 'tiffeddion* 307.
- Yn lle *Anfeidrol ydyw* 898, tudalen 409, darllener *Anfeidrol ydyw* 198.
- Yn lle *Angeu yw terfyn* 357, tudalen 409, darllener *Angeu yw terfyn* 375.
- Yn lle *Ar Dduw yn Arglwydd* tudalen 409, darllener *Ar Dduw yn Arglwydd*.
- Yn lle *Da genyf wrando'r* 370, tudalen 413, darllener *Da genyf wrando'r* 395.
- Yn lle *'Dai 'nofyn haeddiant* 113, tudalen 413, darllener *'Dai 'nofyn haeddiant* 183.

A adawyd allan o'r Dangoseg.

Angel ein Duw a dry 369 | Ceisiwch yr Arglwydd... 391

H Y M N A U.

HYMN I. (8. 7. D.)

Duw a Digon.

- 1 **O** AM nerth i dreulio'm dyddiau,
Y'nghynteddoedd tŷ fy Nhad ;
Byw y'nghanol y goleuni,
Tywyllwch obrŷ tan fy nhraed :
Byw heb fachlud haul un amser,
Byw heb gwmwl, byw heb boen,
Byw ar gariad anorchfygol,
Pur y croeshoeliedig Oen.
- 2 Dyro olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas râd ;
Brynwyd i mi ac a seliwyd,
Seliwyd i mi â dy waed :
Rho i mi gyrchu tuag ati,
Peidio byth a llwfrhau,
Ar fy nhaith ni cheisiaf genyt,
Ond yn unig dy fwynhau.
- 3 Ac ni cheisia'i drysor arall,
Ond tydi tr'wy' yn y byd ;
'Rwyt ti'n ddigon byth dy hunan,
Dim ond ti a lanw 'mryd :
Nid oes gystudd byth wna niwed,
Pan bwy'n pwyso ar dy rym ;
Hebot nid oes rwyd gan Satan,
Na wna'n rhyw fodd niwed im'.
- 4 Gyda thi mi âf trwy'r fyddin,
Gyda thi mi âf trwy'r tân ;
Nid ofnaf ymchwydd yr Iorddonen,
Ond i ti fyn'd o fy mlaen :
Ti yw'm hamddiffynfa gadarn,
Ti yw 'Mrenin a fy Nhad ;
Ti dy hunan oll yn unig,
Yw fy iachawdwriaeth râd.

W. W.

HYMN II. (8. 7. D.)

Gruddfan mewn tywyllwch.

- 1 **G**WLAD o d'wllwch wyf yn trigo,
 Aipht yw'r mân lle'r wyf yn byw,
 Y mae tywyllwch wedi'm d'rysu,
 Tywyllwch anorchfygol yw :
 Cyfod haul cyfiawnder goleu,
 'Nawr llewyrcha yn dy nerth,
 Danfon feddyginiaeth rasol,
 Dros y creigydd mawrion serth.
- 2 D'wed pa bryd ca'i yfed dyfroedd,
 Dyfroedd gloyw sy'n iachâu,
 Pob rhyw bleser wedi darfod,
 Ond yn unig dy fwynhau :
 Pwyso'm henaid ar dy fynwes,
 Edrych yn dy wyneb llôn,
 Caru nes anghofio'r oriau,
 Sy i mi ar y ddaear hôn.
- 3 Ffynnon wyt o bob tosturi,
 Nid oes gwybod faint dy râs,
 Dy haelioni sydd yn cynnal,
 Pob peth dân yr awyr lân :
 Dal fy ysbryd gwân i fynu,
 Edrych ar y bryniau mawr,
 Sydd yn pwyso ar fy nghalon,
 Ac yn ceisio'm doddi lawr.
- 4 Os gwaredi fi o'm cyfyngder,
 Ac os sefi ar fy rhan,
 Os gostegi rym y storom,
 Os cynheli fi i'r lân ;
 Ti gai nhafod, ti gai nghalon,
 Ti gai feddwyf yn y byd,
 Ti gai'r clod, a thi gai'r moliant,
 Ti gai'r enw i ti' gyd.

W. W

HYMN III. (8. 7. D.)

*Hiraeth am gymdeithas á Duw.*1 **O** IACHAWDWR pechaduriaid,

Sydd a'r gallu yn dy law ;
 'Rho oleuni hwylia'm henaid,
 Dros y cefnfor garw draw :
 Gad i'r wawr fod o fy wyneb,
 Rho fy enaid llesg yn rhydd,
 Nes i'r haulwen ddysglaer godi,
 Tywys fi wrth y seren ddydd.

2 Bellach minau'n ëon deuaf,
 Mi ymgrymaf wrth dy draed,
 Ac mi blediaf am drysorau,
 Wedi eu haddo oll yn rhad ;
 Nid oes neb o dan yr wybr,
 Mewn mwy diffyg, mewn mwy trai,
 Tlawd o'r cyfan, ond yn benaf,
 Tlawd wyf Arglwydd o'th fwynhau.

3 O foreu-ddydd y briodas,
 Gwyn fyd welai'r ddedwydd awr ;
 Gwel'd wyneb-pryd y priod-fab,
 Clywed llais y delyn fawr :
 Awn tân ganu tros y moroedd,
 Meithion tua'r hyfryd wlad,
 Ac anghofiwn hen gariadau,
 Gwag bleserau tŷ fy nhad.

4 Bliniais ar afonydd Babel,
 Nid oes yno ond wylo i gyd,
 Llais telynau hyfryd Sïon,
 Sydd yn gyson dynu 'mryd :
 Tyr'd a ni yn dorf gariadus,
 O gaethiwed Babel fawr,
 Ac nes bo'm ar fynydd Sïon,
 Na'd ni osod clun i lawr.

W. W.

HYMN IV. (8. 7. D.)

Crist yn ddigon yn angeu.

- 1 **P**A fodd yr âf i trwy'r Iorddonen,
 Oni ddeui di dy hun,
 Yno i dori grym y tonau,
 Ac i gynnal eiddil un :
 Dal fy mhen i'r làn yn gadarn,
 Pan bo angeu'n fawr ei rym,
 Pledia'n wrol yn ei wyneb,
 Pan na bwyf yn gallu dim.
- 2 Mae 'nghyfeillion wedi myned,
 Draw yn lluoedd o fy mlaen,
 Rhai sy'n myn'd trwy ddyffryn Baca,
 Gyda mi i Salem lân ;
 Yn y dyffryn tywyll garw,
 Ffydd i'r làn a'u daliodd hwy,
 Mae'r addewid lawn i minau,
 Pa'm yr ofna'm henaid mwy.
- 3 A oes neb o'm holl gyfeillion,
 A ddaw'n ddiddig gyda mi,
 Ac a orwedd wrth fy ochr,
 Obrŷ ya y ddaear ddu ?
 A yw cyfaill ddim ond hyny,
 Taffu dagrau, newid gwedd,
 Pan bo'r pridd, a'r clai, a'r cerig,
 Arnai'u cwympo yn y bedd.
- 4 Ffarwel i chwi gynt a gerais,
 Nid yw'ch cwmni, nid yw'ch gwedd,
 Nid yw'r cariad sy'n eich calon,
 Ragor, na d'od hyd y bedd ;
 Pan ddel angeu chwi fflowch ymaith,
 Da i mi fod genyf Dduw,
 Ffrind fo gydaf wedi marw,
 Uwnw garaf fi yn fyw.

W. W.

HYMN V. (8. 7. D.)

Gwagedd y byd.

- 1 **O** YNFYDRWYDD! O ffolineb!
 I mi erioed i roddi mryd,
 Ar un tegan, ar un pleser,
 Welais i etto yn y byd;
 Y mae'r byd yn myned heibio,
 A'i deganau o bob rhyw,
 Tan y nef ni thâl ei garu,
 Wrthddrych arall ond fy Nuw.
- 2 **O** derchafa'm henaid egwan,
 Y mae bellach yn hwyrhau;
 Hir yw'r amser i och'neidio,
 Gwna fi o'r diwedd lawenhau:
 Moroedd mawr a bryniau lawer,
 Pellder annyoddefol sŷ;
 Ac anialwch maith digymhar,
 Rhyngof a'm Hanwylyd cu.
- 3 **D**ysgwyl pethau gwych i ddyfod,
 Croes i hyny maent yn dôd;
 Meddwl forŷ daw gorfoledd,
 Forŷ'r tristwch mwya' erioed;
 Meddwl byw ac etto marw,
 Yw'r lleferydd dân fy mron,
 Bob yn ronyn mi rof ffarwel,
 Ffarwel glân i'r ddaear hon.
- 4 **T**ragwyddoldeb mawr yw d' enw,
 Ti mae'n debyg yw fy lle,
 Huriwr un diwrnod ydwyf,
 Frŷ mae'm cartref yn y ne';
 Mae'm diwrnod bron a gorphen,
 Mae fy haul bron myn'd i lawr,
 Mae pob awel yn fy chwythu,
 Tu a'r tragwyddoldeb mawr.

W. W.

HYMN VI. (8. 7. D.)

Ffordd iachawdwriaeth.

- 1 **N**ID oes angel, nid oes seraph,
 Yn y nefoedd fawr a gaed,
 All'sai *ffeindio* allan foddion,
 I fy enaid gael iachâd ;
 Mae yma ddyfnder o ddirgelion,
 Maith goruchel iawn eu rhyw,
 A ddyfeisiwyd cyn bod amser,
 Gan ddoethineb bur fy Nuw.
- 2 Mae'm cydwybod oedd mewn terfysg,
 Ac yn ofni'n arw iawn,
 Heddyw'n dechreu a llonyddu,
 Wel'd y Meichai'n talu'n llawn ;
 Taliad holl ofynion Duwdod,
 Ag sydd o anfeidrol fri,
 Taliad holl ofynion cyfraith,
 Taliad sicr iawn i mi.
- 3 O ddyfnderoedd ! O ddoethineb !
 O ddyfnderoedd maith o ras !
 O ddyfnderoedd anchwiliadwy !
 Fythol uwch eu chwilio maes :
 Mae seraphiaid nef yn edrych,
 Gyda syndod bob yr un,
 Ar ddyfnderoedd cariad dwyfol !
 Duw yn marw tros y dyn !
- 4 Fyth i'r Tad y bo'r gogoniant,
 Roi a derbyn y fath rodd ;
 Fyth i'r Mab y bo'r un moliant,
 Am ddisgyn yma 'lawr o'i fodd !
 Fyth i'r Ysbryd bo'r anrhydedd,
 Am ddatguddio'r ddyfais râd ;
 Ac am selio a rhoi ernes !
 Fod Eiriolwr gyda'm Tâd.

W. W.,

HYMN VII. (8. 7. D.)

Goruchafsaeth ffydd.

- 1 **T**YRED Arglywydd i'r anialwch,
 Yma buost ti o'r blaen,
 Arwain b'rerin llesg difedr,
 A dy golofn niwl a thân ;
 Dal fy ysbryd sy'n llewygu,
 Gan ryw ofnau o bob màn,
 Yn dy allu 'rwyf yn gadarn,
 Hebot ti nid wyf ond gwân.
- 2 Cyfod haul sy'n rhwygo'r t'wyllwch,
 Cyfod nerth sy'n briwio chwant,
 Gyr holl ofnau anghrediniaeth,
 Fel rhyw niwlen fygddu' bant ;
 Rho i'm wel'd yr ardal hyfryd,
 Man lle mae fy ngobaith gwell,
 A chael pleser yn yr anial,
 I edrych ar y gwledydd pell.
- 3 Dysg fi gerdded trwy'r afonydd,
 Ac na'm hofner gan y llif,
 Na bwy'n ildio gyda'r tônau,
 Temtasiynau fwy na rhif ;
 Cadw 'ngolwg ar y bryniau,
 Uchel hardd tu draw i'r dw'r,
 Cadw 'ngafael yn yr afon,
 Ar yr Iesu'r blaenaf ŵr.
- 4 Cân fy enaid mwy bydd lawen,
 Minau ddof er tonau maith,
 Cynddeirioca eu rhyw a'u pwysau,
 Cyn bo hir i ben fy nhaith ;
 Mi gâf orphen dyrys anial,
 Mi gaf lanio i mewn i'w plith,
 A chaf fod heb ddim i'm blino,
 Yn eu cwm'ni dedwydd byth.

W. W.

HYMN VIII. (8. 7. D.)

Golwg ar wlad well.

- 1 **D**YN dyeithr ydwyf yma,
 Draw mae'm genedigol wlad,
 Draw i'r moroedd mawr tymhestlog,
 Ac o fewn i'r Ganaan rād :
 'Stormydd hir o demtasiynau,
 A 'ngyrodd i fel hyn mor bell,
 Tyred ddeheu-wynt pereiddiaf,
 Chwyth fi i'r Baradwys well.
- 2 **A**c er gwaetha' grym y tonau,
 Sydd yn curo o bob tu,
 D'of trwy'r 'storom, d'of trwy'r gwyntoedd
 Ryw bryd i'r Baradwys fry ;
 Gair fy Nuw sy'n drech na'r moroedd,
 Gair fy Nuw sy'n drech na'r don,
 Ac mi anturiaf oll a feddwyf,
 Bythoedd i'r addewid hon.
- Ac ni fyddai'n hir cyn gorphen,
 Ddim yn hir cyn lanio fry ;
 Pob gorchymyn, pob bygythiad,
 Pob addewid sydd o'm tu :
 Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan,
 Gwn y deuaif yn y man,
 'Nol fy ngolchi gan y tonau,
 Yn ddiangol iawn i'r lan.
- 4 **'R**wyf yn foddlon iawn i 'mado,
 Trefna'r awr, a threfna'r fân,
 Ond yn ymchwydd yr Iorddonen,
 Dal fy ysbryd llesg i'r lân ;
 Na'd fi soddi tan y tonau,
 Pan bo angeu yn fawr ei rym,
 'Mafael ynof yn dy freichiau,
 Nad i'm henaid ofni dim.

W. W.

HYMN IX. (8. 7. D.)

Dianc am dy einioes.

1 **Y** MAE'R oriau yn fy ngalw,
 'N ddyfal beunydd i bar'tôî,
 Tân sy'n dod ar ddinas dystryw,
 Tua Soar i mi ffoi;
 Arglwydd 'mafael vnwi'n fuan,
 Onidê ni ddeuaf dyth:
 Tra b'o'r tân yn llosgi Sodom,
 Yn y bryniau gwna fy nyth.

2 Dianc wnes i maes o Sodoni,
 Ar y gwastad 'rwyf yn byw,
 Mae fy nghefn i ar Gomorra,
 Fy wyneb tua gwlad fy NUW;
 Fynu i'r bryniau'r wyf am ddianc,
 Maes o sawr y mwg a'r tân;
 Rho dy law Dywysog bywyd,
 Tyn fy enaid yn y blaen.

3 Nerth os câf mi frysiaf mwyach,
 Fynu tua'm gwlad fy hun,
 Lle mae fy NUW yn gwisgo'n gyson,
 Mewn gogoniant natur dyn:
 Na enwer i mi gartref bellach,
 Fangre arall ond y Ne',
 Neb yn Dad, na neb yn Briod,
 Neb yn Arglwydd ond efe.

4 Yno boed fy mwyd a'm diod,
 Tân ganghenau gwych y pren,
 Sydd a'i wreiddyn ar y ddaear,
 Ei frigau yn y nefoedd wen:
 Dyn a'r Duwddod ynddo'n trigo,
 Ffrwythau arno'n tyfu'n llawn,
 Cysgod tano i'r ffyddloniaid,
 O foreuddydd hyd brydnawn.

W. W.

HYMN X. (8. 7. D.)

Gwaredigaeth trwy Grist.

- 1 **I**ESU llawnder mawr y nefoedd,
 Gwranddo lef un eiddil gwàn,
 Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd,
 Ac yn codi ei lef i'r làn :
 Mae 'ngelynion heb rifedi,
 Yn fy nghuro o bob tu ;
 Ac nid oes a all fy achub,
 Is y nefoedd ond tydi .
- 2 Yn dy glwyfau y mae bywyd,
 Tyllau'r hoelion yw fy nyth,
 'D ofna'i fyd, na chnawd, na phechod,
 Nac euogrwydd yno byth :
 Gwaed fy Mhriod wedi ei golli,
 Archoll fawr y wayw-ffon,
 Yw fy nghraig a'm dinas noddfa,
 Sicr ar y ddaear hon.
- 3 Marchog Iesu yn llwyddiannus,
 Gwisg dy gleddyf ar dy glun,
 Ni all daear dy wrthsefyll,
 'Chwaith nac uffern fawr ei hun :
 Mae dy enw mor ardderchog,
 Pob rhyw elyn gilia draw ;
 Mae dy arswyd trwy'r grëadigaeth,
 Tyr'd am hyny maes o law.
- 4 Ac am hyny ti gai'r enw,
 Ti gai'r fuddugoliaeth lawn,
 Ti gai'r clôd, y nerth, a'r gallu,
 A'r gogoniant fore a nawn ;
 Fe gaiff seintiau ac angylion,
 A cherubiaid pur yn un,
 Swnio maes i drag'wyddoldeb,
 It' wneyd pabell gyda dyn.

HYMN XI. (8. 7. D.)

Erfyniad am sylwedd.

- 1 **C**OFIA f' enaid cyn it' dreulio,
 D' oriau gwerthfawr yn y byd,
 Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,
 Pa un a ge'st y trysor drud ;
 Y'mha ardal bydd fy lletý,
 Fath pryd hyny fydd fy ngwedd,
 P'un a'i llawen a'i cystuddiol,
 Fyddaf y tu draw i'r bedd.
- 2 O gyflawnder pur trag'wyddol,
 O gyflawnder maith didrai !
 Rhaid i'm henaid noeth newynllyd,
 Gael yn fuan dy fwynhau ;
 Rho dy wisg ddysgleirwen oleu,
 Cuddia'm noethni hyd y llawr,
 Fel nad ofnwyf mwy ymddangos,
 Byth o flaen dy orsedd fawr.
- 3 O anialwch maith o dd'rysni,
 O afonydd mawr eu grym,
 Pa faint o amser roddwyd i chwi,
 Fod yn ddigalondid im' ?
 Derfydd t'w'llwch, derfydd galar,
 Derfydd pechod o bob rhyw,
 Nid yw'r wlad cáf ynnddi drigo,
 Ddim ond presennoldeb Duw.
- 4 Duw yn unig sydd o'm hochr,
 Ni thal dynion i mi ddim,
 Llauer trymach ydyw 'maichai,
 Nag yw'r cawri'r byd o rym ;
 IESU ddeil fy maich er cymaint,
 IESU ei hunan laesa'm loes,
 Eitha' llid y nef ac uffern,
 Ddaliodd unwaith ar y groes.

W. W.

HYMN XII. (8. 7. D.)

Ymdrech y Cristion.

- 1 **CYFARWYDDA'M** henaid Arglwydd,
 Pan bwy'n teithio y'mlaen o hyd,
 Llwybrau culion dyrys anhawdd,
 Sydd i'w cerdded yn y byd ;
 Cnawd ac ysbryd sy'n rhyfela,
 Weithiau cariad, weithiau câs,
 Tòn ar dòn sydd yn gorchuddio,
 Egwyddorion nefol râs.
- 2 Cul yw'r llwybr i mi gerdded,
 Is fy llaw mae dyfnder mawr,
 Ac 'rwy'n ofni yn fy nghalon,
 Rhag i'm traed i lithro' i lawr :
 Yn dy law y gallaf sefyll,
 Yn dy law y dof i'r lan,
 Yn dy law byth ni ddiffygiaf,
 Er nad ydwyf fi ond gwan.
- 3 Am fy mod i yn y rhyfel,
 Yn y rhyfel nos a dydd,
 Dyna pa'm yr wy'n hiraethu,
 Cymaint am gael cario'r dydd ;
 Maith rifedi fy ngelynyon,
 Wnaeth i'm ganu'n drist fel hyn,
 A fy nghwmpo'r hyd y creigydd,
 Wnaeth i'm frefu am Sion fryn.
- 4 Nid oes enw y'mhlith angylion,
 Y'mhlith dynion, ac ni chaed,
 All fod i mi'n ddinas noddfa,
 Yn unig ond Iachawdwr rhâd :
 Mae'r afonydd 'rwy'n myn'd trwyddynt,
 Ac mae'r tonau mawr mor grŷf,
 Nad oes dim ond nerth trag'wyddol,
 Ddeil fy enaid yn y llif.

HYMN XIII. (8. 7. D.)

Arweiniad i'r Ganaan nefol.

- 1 **T**YR'D i fynu o'r anialwch,
 Wedi aros yno'n hir,
 Sypiau grawnwin mawrion addfed,
 Sy'n dy aros yn y tir:
 Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
 Cymer galon, mentra 'mlaen,
 Ffordd nis colli, mae'n dy arwain,
 Gwmwl niwl, a cholofn dân.
- 2 Nid fy nef yw ar y ddaear,
 Pe goreu man tan gwmpas haul;
 Fy nef yw tawel bresennoldeb,
 Wyneb siriol Adda'r ail:
 Gwena arna'i Arglwydd grasol,
 Gwaedda'i allan digon yw,
 Yna 'nghanol cyfyngderau,
 Byth yn llawen bydda'i byw.
- 3 Gwnes y dewis goreu wnaethpwyd,
 Dewis Brenin nefoedd wen,
 Yn Dad, yn Briod, ac yn Gyfaill,
 Yn Frawd, yn Geidwad, ac yn Ben,
 Cyfoeth mawr, didrai difesur,
 Sydd 'nghadw i mi'n stôr,
 A bendithion oll pe rhifid,
 Megis tywod mân y môr.
- 4 Môr sydd ynot o fendithion,
 Heb waelodion iddo'n bod,
 Y mae'n llanw 'mlaen bob mynyd,
 Nid oes diwedd ar dy glôd;
 Dy enw beunydd sy'n helaethu,
 Beunydd yn ymdaenu 'macs;
 Bydd telynau'n canu iddo,
 Fel rhifedi gwellt y macs.

W W.

HYMN XIV. (8. 7. D.)

Grym cariad.

- 1 **M**AE fy nghalon am ehedeg,
 Urwaith etto fynu fry,
 I gael profi'r hen gymdeithas,
 Gynt fu rhyngof a thydi :
 Mi grwydrais anial garw,
 Heb un gradd o oleu'r dydd ;
 Un wreichionen o dy gariad,
 Wna fy rhwymau oll yn rhydd.
- 2 **O** dystawa 'nghalon ynfyd,
 Na chais wrthddrych arall mwy ;
 Digon, mwy na digon ydyw,
 A ddyoddefodd farwol glwy :
 Ffarwel ddaear a'i theganau,
 Nid y'ch ond y twyll i gyd,
 Uwch yr wybren mae'r Blaguryn,
 Dâl roi arno'm serch a mryd.
- 3 **I**esu hawddgar 'rwy'n dy ddewis,
 Nerth i ddilyn ôl dy droed,
 Yna caiff fy enaid 'hedeg,
 I'r hapusrwydd uwch y rhod ;
 Ni raid teithio'r ddaear mwyach,
 Y'mhlith pryfed gwael y llawr,
 Ond dysgleirio 'mhlith myrddiynau,
 'Gylch yr orsedd fel y wawr.
- 4 **Ac** er mwyn y gwaed a gollwyd,
 Cymysg ddw'r o'i ystlys E',
 Tŷn bob cwmwl dudew tywyll,
 Ag sydd rhyngwy'n awr a'r ne' ;
 Maddeu i mi feiau mawrion,
 Beiau lawer fwy na rhi',
 Dim ond edrych ar Galfaria,
 Nid wrth edrych arnaf fi.

W. W.

HYMN XV. (8. 7. D.)

Golwg ar y nef.

- 1 **D**ACW'R ardal, dacw'r hafan,
 Dacw'r nefol hyfryd wlad,
 Dacw'r llwybr pur yn amlwg,
 'R awrhon tua thŷ fy nhad ;
 Y mae hiraeth yn fy nghalon,
 Am fod heddyw draw yn nhre',
 Gyda'r myrdd sy'n canu'r anthem,
 Anthem cariad iddo fe.
- 2 Bynag beth a welodd llygad,
 Neu a deimlwyd is y rhod,
 Bynag beth a glywodd clustiau,
 Neu beth bynag a all fod ;
 Holl wrthddrychau'r ddaear isod,
 Mewn un fynyd darfu 'nghyd,
 Er pan cês yr olwg leia',
 Ar Iachawdwr mawr y byd.
- 3 Mae fy hwyliau heddyw yn chwarcu,
 Yn llawen yn yr awel bur,
 Ac 'rwy'n clywed swm caniaidau,
 Peraidd baradwysaidd dir ;
 Ffarwel haul, a lloer, a thrysor,
 Ffarwel ddaear, ffarwel ddyn ;
 Nid oes dim o dan yr wybren,
 Ag sy'n fawr ond Duw ei hun.
- 4 Cauwch lygaid, nac agorwch,
 Ar un gwrthddrych is y ne' ;
 Craffa f'enaid olwg syml,
 Ar ei ogoniant dwyfol E' ;
 Mae ei hanfod, mae ei enw,
 Mae ei berson sanctaidd pur,
 Ceuwch oddiar deganau natur,
 Ag yw'r nefoedd uwch y tir.

W. W.

HYMN XVI. (8. 7. D.)

Gruddfan am ymward.

- 1 **T**YWYNED haul-wen ar fy enaid,
 Blinaiſ ganwaith gan y nos ;
 Nid yw 'mhleser, na 'nheganau,
 Na'm heilunod, ond fy nghrocs ;
 Mynwes Iesu yw'm hapusrwydd,
 O na chawn i yno fod !
 Fe roi cariad dwyfol perffaith,
 Fy mhleserau tân fy nhroed.
- 2 Yn y rhyfel mi arosa',
 Yn y rhyfel mae fy lle,
 Boed fy ngenau wrth y ddaear,
 Boed fy llygaid tua'r ne' ;
 Doed y goncwest pryd y delo,
 Dysgwyl wrth fy Nuw a wnaſ,
 Nes o'r diwedd wel'd yn trengu,
 Pechod ag oedd bron fy lladd.
- 3 Etto unwaith mi dderchafaf,
 Un ochenaid tua'r nef,
 Ac a wylaf dda'rau'n hidl,
 Am ei bresenoldeb ef ;
 Pwy a wŷr na wrendy clustiau,
 'R Hwn a greodd dda'r a nen ;
 Ac na ddaw fy nymuniadau,
 Trist hiraethlon oll i ben.
- 4 Mi feddylia' fod y wawr-ddydd,
 Wen, ar godi maes o law ;
 Mi dybygaf trwy'r cymylau,
 Gwelai oleu'r ochr draw ;
 Tyred wyntoedd mwyn y dëau,
 Gwthiwch y cymylau o'u lle,
 I'm gael gwel'd yn ei ogoniant,
 Bresenoldeb Brenin Ne'.

W. W

HYMN XVII. (8. 7. D.)

Rhinweddan croes Crist.

- 1 **O** NA chlywn yr udgorn arian,
 Yn cyhoeddi'n eglur iawn,
 Bellach i fy enaid llwythog,
 Heddwch a maddeuant llawn :
 O na ddeuai nerth i waered,
 Fel llifeiriant mawr ei rym,
 Fel na allai'm nwydau penaf,
 Mwyach ei wrthsefyll ddim.
- 2 **Mi** edrychaf ar i fynu,
 Deued t'wyllwch, deued nos ;
 Os daw heddwch im' o un lle,
 Fe ddaw o haeddiant gwaed y groes ;
 Dyna'r man y gwnai fy nhrigfan,
 Dyna'r man gobeithia'i mwy,
 Nid oes iechyd byth i'm henaid,
 Ond mewn dwyfol farwol glwy.
- 3 **Nid** oes ffynnon wedi ei hagog,
 Ag all olchi'r euog hyn ;
 Ond y ffynnon a agorodd,
 Cariad ar Galfaria fryn :
 Gwaed all dalu'n llwyr am feiau,
 Gwaed all agor porth y nef ;
 Ac nid oes foddlonar' nefoedd,
 Ond ei haeddiant dwyfol Ef.
- 4 **Dacw'r** un sydd a thosturi,
 Fe fu'n hongian ar y groes ;
 Fe fu'n gruddfan dan dywyllwch,
 Tywyllwch dudew fel y nos :
 Mil o boenau wasgodd arno,
 Etto darfu iddo eu dwyn,
 Aeth i garchar gan yr angeu,
 Ran o dridiau er fy mwyn

W. W.

HYMN XVIII. (8. 7. D.)

Taith y Pererin.

- 1 **M**AE fy Nuw yn fy ngheryddu,
 Ond fy ngharu y mae ef,
 Ergyd ddoe, ac ergyd heddyw,
 I fy nghofio am y nef;
 Nid oes awr o boen a dolur,
 Nid oes mynyd fach nad yw,
 Fel ffynnonau'n tarddu allan,
 O drag'wyddol hedd fy Nuw.
- 2 Rhaid cael rhyw beth i fy nghofio,
 Onidê mi winga o hyd,
 Mi gofleidia ddelw yn union,
 Pleser cnawd, neu bleser byd;
 Rhaid fy nghosbi â chystuddiau,
 Onidê mi gysga hûn,
 Ac mi hepia' mewn esmwythder,
 Pan fo angeu wrth fy nglun.
- 3 Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,
 A'r eilunod pena' 'rioed;
 Mi'ch tyngheda 'ngwydd y nefoedd,
 Na ddilynoch ôl fy nhroed;
 Myn'd rwy'n llwm tua thir y bywyd,
 Ffon yn unig yn fy llaw,
 Mi a mlaen dros yr Iorrdonen,
 Mae 'nghyfeillion anwyl draw
- 4 Mi gaf yfed yno gariad,
 Ffirwyth gwinwydden nef y nef,
 Yr un cariad nefol hyfryd,
 Ag oedd yn ei gwpan ef,
 Cariad wna fyrdd o fyrddiynau,
 Mewn rhyw gwllwm cryf yn un,
 Ac â mlaen i drag'wyddoldeb,
 Yn ei Ysbryd ef ei hun.

W. W.

HYMN XIX. (8. 7. D.)

O flaen Pregeth.

- 1 **O** LLEFARA addfwyn Iesu,
 Mae dy eiriau fel y gwîn ;
 Oll yn dwyn i mewn dangnefedd,
 Ag sy o anfeidrol rîn :
 Mae holl leisiau'r grëedigaeth,
 Holl ddeniadau cnawd a byd,
 Wrth dy lais hyfrydaf tawel,
 Yn dystewi a myn'd yn fûd.
- 2 Nis gall holl hyfrydwch natur,
 A'i melusdra penaf maes,
 Byth gymharu â lleferydd,
 Hyfryd pur maddeuol râs ;
 Gad im' glywed swm dy eiriau,
 Awdurdodol eiriau'r nef,
 Oddimewn yn creu hyfrydwch,
 Nad oes mo'i gyffelyb ef.
- 3 Gwedd dy wyneb sy'n rhagori,
 Ar drysorau'r India draw,
 Mae awelon pur dy gariad,
 Yn dwyn gwobr yn eu llaw ;
 Perffaith bleser heb ddim diwedd,
 Perffaith gysur heb ddim trai,
 Yn ystormydd mawr cynddeiriog,
 Yw yn unig dy fwynhau.
- 4 Achub achub, mae'n ddiweddar,
 Nid oes geny' ond byr brydnawn,
 Ac mae'r fyddin sydd i'm herbyn,
 Yn cynnyddu'n danbaid iawn :
 Danfon allan saethau'r nefoedd,
 Cyfod fi, dod fi yn dy gol,
 A thro'r llu sy'n erbyn Sion,
 Gan ryw ddychryn yn eu hol.

W. W

HYMN XX. (8. 7. D.)

Llefain am Waredigaeth.

- 1 **M**AE rhyw foroedd o drugaredd,
 Arglwydd ynot ti dy hun ;
 Annherfynol a thrag'wyddol,
 Yw dy gariad at y dyn !
 Mewn cyfyngder buost ffyddlon,
 Yno rho'ist dy nerth i maes,
 Yn y dyfnder mawr 'rwyf finau,
 'Nawr yn llefain am dy ras.
- 2 Codi'm llygaid 'rwyf i fynu,
 Edrych beunydd tua'r nef,
 Felly'r wyf yn treulio'r oriau,
 Dim ond dysgwyl wrtho ef;
 Dagrau ac och'neidiau trymion,
 Yw fy mywyd yn y byd,
 Nid oes dyben ar riddfanau,
 Heb gael gwel'd dy wyneb pryd.
- 3 Tyred Iesu i'r anialwch,
 At bechadur gwael ei lun,
 Ganwaith dd'rysodd mewn rhyw rwydau,
 Rhwydau weithiodd ef ei hun :
 Llog fieri sydd o'm cwmpas,
 Rho fi sefyll ar fy nhraed,
 Moes dy law ac arwain drosodd,
 F' enaid gwan i dir ei wlad.
- 4 Mae'r anialwch wedi mlino,
 Chwant sydd arnaf wel'd y tir,
 Roddwyd i mi gan fy Arglwydd,
 Cadarn mewn addewid wir ;
 Gwlad o oleuni heb dywyllwch,
 Gwlad o gariad heb ddim trai,
 Gwlad heb hawddfyd na phleserau,
 Ond yn unig ei fwynhau.

W. W.

HYMN XXI. (8. 7. D.)

Dymuniad y Cristion.

- 1 **B**RYD ca'i wel'd y tir dymunol,
Hyfryd Baradwysaidd wlad;
Lle mae brodyr i mi filiwn,
Lle mae Mhriod a fy Nhad;
Lle cai orphwys o fy llafur,
A gwellhau fy nghlwyfau yn rhad,
A chael gwledd dragwyddol berffaith,
Ar ben fy nhaith yn nhŷ fy Nhad.
- 2 Manna nefol sy arnaf eisieu,
Dw'r rhedegog gloyw byw,
Sydd yn tarddu o tan riniog,
Teml sanctaidd bur fy Nuw;
Golchi'r aflan, canu'r Ethiop,
Gwneyd yr euog brwnt yn lân,
Ti gai'r clod ryw fyrdd o oesoedd,
'Nol i'r ddaear fyn'd yn dân.
3. Y mae nefoedd yn ei gwmni,
Y mae bywyd yn ei wedd;
Ag sy'n gwneuthur angeu'n gyfaill,
Ag sy'n peri concro'r bedd:
Rho'th gyfeillach Iesu addfwyn,
Dyna 'wy'n ei geisio i gyd;
Ac mi fyddaf foddlon ddiddig,
I oll a gwrddwyf yn y byd.
- 4 Y mae meddwl am ei haeddiant,
Meddwl am ei gariad pur;
Fel rhyw ffynnon o lawenydd,
Llawn o ddyfroedd gloyw clir;
Fe ei hunan yw'm gogoniant,
Fe yw'm hymffrost a fy ngrym,
Enw pawb o dan yr wybren,
Ond ei hunan elo'n ddim.

W. W.

HYMN XXII. (8. 7. D.)

Y Nefoedd.

- 1 **R**WY' fi'n dechreu teimlo eisoes,
 Beraroglau'r gwledydd draw,
 Gyda'r awel bur yn hedeg,
 Diau fod y wlad gerllaw ;
 Dere'r tir dymunol hyfryd,
 Dere'r ardal sydd heb drai,
 Dy bleserau o bob rhywiau,
 Gad i'm bellach eu mwynhau.
- 2 'Rwyf yn teimlo gwynt y dehau
 Yn anadlu awel bur,
 Ac yn ysgafn gario f' enaid,
 Draw i fryniau'r Ganaan dir ;
 Aeth y gaua' garw heibio,
 Darfu'r oer dymhestlog wynt,
 Na ddoed mwy'r cawodydd duon
 I fy mlino megys gynt.
- 3 Tyred f' enaid ar i fynu,
 Allan o'r anialwch maith ;
 Hiraeth sy arnaf am gael gweled,
 Gwledydd hyfryd pen fy nhaith :
 Blino teithio'r creigydd geirwon ;
 Lle 'rwy'n wastad yn cael briw ;
 Ac fe'm clwyfid i farwolaeth,
 On' ba'i cariad rhad fy Nuw.
- 4 Draw mi wela'r ardal hyfryd,
 Lle mae'm trysor, lle mae 'mryd ;
 Lle mae'm henw i yn guddiedig,
 Lle mae nghysur oll i gyd :
 Draw fy mhriod, draw fy nghariad,
 Draw fy anwylyd, draw fy nhad ;
 A fy nghartref nefol tawel,
 Yn y baradwysaidd wlad.

W. W.

HYMN XXIII. (8. 7. D.)

Ffyniant y groes.

- 1 **P**RIOD y drag'wyddol hanfod,
 Welai'n hongian ar y pren,
 Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo,
 'N barod grymu lawr ei ben,
 Gwelaf etto fwy rhyfeddod,
 Yn ei wyneb angeu loes ;
 Hedd yn rhedeg tros Galfaria,
 Fel yr afon tan y groes.
- 2 Er mai bechan yw ei dechreu,
 Mae'n cynyddu byth i'r lân,
 Cododd eisoes cuwch a'r fferau,
 At y gwddf daw yn y mân :
 Cod nes ffaelu'n lân a'i rhydio,
 Yna lleinw'r ddaear gron ;
 Llawn o bysgod mawr a bychain,
 'Fengyl heddwch ydyw hon.
- 3 Iesu ti wyt ffynnon bywyd,
 Bywyd dedwydd i barhau,
 Pob cysuron is y nefoedd,
 Ynot ti dy hun y mae ;
 Nis gall croes, na gwae, na chystudd,
 Wneuthur niwed iddynt hwy,
 Gafodd nerth i wneyd eu noddfa,
 Yn dy ddwyfol farwol glwy'.
- 4 Yn dy haeddiant 'rwyf yn gyflawn,
 Yn d'oleuni gwelai'n glir ;
 Yn dy wisgoedd dwyfol dysglaer,
 Byddai'n ogoneddus bur ;
 Yn dy iachawdwriaeth gyflawn,
 Er môr waned wyf yn awr,
 Ceir fy ngweled ryw ddiwrnod,
 Yn dysgleirio fel y wawr.

W. W.

HYMN XXIV. (8. 7. D.)

Gorfoledd y Nef.

- 1 **M**INAU bryfyn gwael o'r ddaear,
 'Rof fy llais yn mhlith y llu,
 Saint, Cerubiaid, ac Angylion,
 A'r Seraphiaid bywiog fry !
 O na chawn i ymgymysgu,
 A Sêr y boreu mewn un dôn,
 Rhown fy llais i mewn i'r anthem,
 Am ddyoddefaint addfwyn Oen.
- 2 Mi gâf glywed cydsain hyfryd,
 Digrëedig TRI yn UN,
 Yn cyhoeddi heddwch nefol,
 Perffaith wrthyf fi fy hun ;
 Saint, Seraphiaid, ac Angylion,
 Mewn rhyw gydsain bena' erioed
 Gyda mi yn seinio'r Anthem,
 O anfeidrol ddwyfol glôd.
- 3 Yno caf fi ddechreu hanes,
 Hanes o lawenydd pur,
 Byth ni chlywir diwedd arno,
 Yn y paradwysaidd dir ;
 Bob mynydyn bydd yn dechreu,
 Swnio maes heb dewi a sôn,
 Ddoniau maith anfeidrol hyfryd,
 Croeshoeliedig addfwyn Oen.
- 4 Yno llenwir fy nymuniad,
 Er ei faint ac er ei gri,
 Fy holl wagter wneir i fynu,
 Gyda'r Duwdod, UN yn DRI ;
 Mi gaf yfed o ffynnonau,
 Pleser ag sy'n dyfrhau,
 A datguddiad pur o fywyd,
 A llawenydd i barhau.

HYMN XXV. (8. 7. D.)

Yr Enaid ofnog.

- 1 **O**FNI'R wyf nas ce's faddeuant,
 Ac nas caf faddeuant mwy,
 Ofni'n fynych na che's olwg,
 Etto ar dy farwol glwy';
 Ofni bod fy meiau'n taro,
 Yn erbyn iachawdwriaeth rād,
 Ac na chaiff fy enaid egwan,
 Byth ei olchi yn y gwaed.
- 2 Gweled ereill yn trafeilio,
 Fynu fry i ben y bryn,
 Mi'n trybaeddu yn y pechod,
 Pechod acw'r pechod hyn;
 Gwneyd fy hunan heddyw'n euog,
 Heno'n ceisio difarhau,
 Ofni marw sy'n rheoli,
 Etto'n ffaelu ufuddhau.
- 3 Annyoddefol ydyw meddwl,
 Marw, heb im' wybod p'un,
 A bod dy gyfiawnder perffaith,
 Wrth fy enaid bach y'nglyn;
 Dyna'r awr wyf fi'n ei hofni,
 Dyna'r awr yn gyfyng sydd,
 Rho i'm nerthoedd y pryd hyny,
 Nes bo im' ddiengu'n rhydd.
- 4 Tyred yr awelon hyfryd,
 Tyred dros y bryniau pell,
 Tan eich hadain dawl rasol,
 Dygwch y newyddion gwell;
 Dygwch newydd at fy enaid,
 Fy enw inau yno gaed,
 Dedwydd enw'n argraffedig,
 Yn yr iachawdwriaeth rād.

W. W.

HYMN XXVI. (8. 7. D.)

Pen Calfaria.

- 1 **D**EUED pechaduriaid truain,
 Yn finteioedd mawr y'nghyd,
 Deued 'nysoedd pell y moroedd,
 I gael gwel'd dy wynebpryd ;
 Cloffion, deillion, gwywedigion,
 O bob enwau, o bob gradd,
 I Galfaria un prydawn-gwaith,
 Wel'd yr Oen sydd wedi ei ladd.
- 2 Dacw'r nefoedd fawr ei hunan,
 'Nawr yn dyodde' angeu loes,
 Dacw obaith yr holl ddaear,
 Heddyw yn hongian ar y groes,
 Dacw noddfa pechaduriaid,
 Dacw'r meddyg, dacw'r fân,
 Caf fi wella'r holl archollion,
 Dyfnion sy ar fy enaid gwan.
- 3 Dacw'r unig feddyginiaeth,
 Gadarn i druenus ddyn,
 Mae pob gobaith wedi darfod,
 Maes o hono ef ei hun ;
 Trwm a llwythog yw fy meichiau,
 Poen euogrwydd sydd yn fawr,
 Nid oes fân ond pen Calfaria,
 Galla'i ddodi mhen i lawr.
- 4 Mi nis gallaf wneyd fy hunan,
 Ddyddiau meithion ronyn gwell,
 Pob egwyddor yn fy enaid,
 Beunydd sydd am fyn'd yn mhell ;
 Nid oes dim ond i ti faddeu,
 Gwneyd yr Ethiop du yn wyn,
 Wna i'm henaid gofio'th angeu,
 Poenus, ar Galfaria fryn.

W. W.

HYMN XXVII. (8. 7. D.)

Cariad a dyoddefaint Crist.

- 1 **F**E ro'w'd arno bwys euogrwydd,
 Pwys nas gall ei ddâl mo ddyn,
 Cosb pechodau myrdd o ddynion,
 Heb un pechod ynddo ei hun ;
 Do, fe'i gwisgwyd â chystuddiau,
 Ffrwyth fy meiau fawr a mân,
 Fel cawn inau wael bechadur,
 Aflan, euog, fod yn lân.
- 2 **A**c yn nyfnder grym ei boenau,
 Tan ergydion angeu loes ;
 Fe weddiodd am faddeuant,
 Maddeu i mi ar y groes :
 Fe gofleidiodd f'enaïd aflan,
 Rhwng y ddaear fawr a'r nèn,
 Do, fe ngharodd, ac fe nghofiodd,
 Tan yr hoelion ar y prèn.
- 3 **O** anfeidrol berffaith gariad !
 Cariad nas gall dawn na gras,
 Dynion, na'r angylion penaf,
 Byth yn hollol ddodi maes ;
 Cariad fydd yn sylfaen gadarn,
 O bob Anthem yn y nef,
 Seintiau ac Angylion draphlith,
 Canant am ei gariad ef.
- 4 **A**c ni fydd mo drag'wyddoldeb
 Ddim yn ormod er ei hÿd,
 I ddatguddio hen ddyfnderoedd,
 Cariad Iesu maes i gyd ;
 Holl rinweddau maith ei glwyfa u,
 Poenau'r hoelion meinion llym,
 A wna oesoedd i fyn'd heibio,
 Etto heb eu gweled ddim.

W. W.

HYMN XXVIII. (8. 7. D.)

Agoriad Addoldy.

- 1 **G**OSOD babell y'ngwlad Gosen,
 Dere Arglwydd yno dy hun ;
 Gostwng o'r uchelder goleu,
 Gwna dy drigfa gyda dyn:
 Trig yn Sion, aros yno,
 Lle mae'r llwythau yn dod y'nghyd ;
 Byth na 'mad oddiwrth dy bobl,
 Nes yn ulw yr elo'r byd.

W. W.

HYMN XXIX. (8. 7. D.)

Yr Ysgol Sabbathol.

- 1 **P**A'M y caiff bwystfilod rheibus,
 Dori'r egin mân i lawr ;
 Pa'm caiff blodau peraidd ieuainc,
 Fethu gan y sychder mawr ;
 Dere a'r cafodydd hyfryd,
 Sy'n cynnyddu'r egin grawn,
 Cafod hyfryd yn y bore,
 Ac un arall y prydawn. W. W.
- 2 Dowch blant bychain braf yw'ch gweled,
 Ar y drydedd awr o'r dydd ;
 Dowch ieuenetid ar y chweched,
 Galwad i chwi i'r winllan sydd ;
 Dowch rai ereill ar y nawfed,
 Cyn yr elo hi'n brydnawn ;
 Dowch hen bobl cyn ddeuddegfed,
 Hi aeth yn ddiweddar iawn.

HYMN XXX. (8. 7. D.)

Buddugoliaeth y groes.

- 1 **C**APTEN mawr ein hiachawdwriaeth,
 Welaf yn y frwydr hon ;
 Holl elynion ei ddyweddi,
 Yn gorfod plygu ger ei fron :

Plant afradlon sy'n dod adre',
 A fu 'mhell o dir eu gwlad ;
 Y rhai fu'n fudion sy'n clodfori,
 Duw, am iachawdwriaeth rad.

- 2 Wele'r IESU pen rhyfelwr,
 Yn dod i'r làn o Edom wlad ;
 Ei wisg yn goch, ei fraich yn rymus,
 A'r ddraig yn glwyfus, dan ei draed ;
 Am yr hyfryd fuddugoliaeth,
 Mi gana' ronyn ar y llawr,
 Hyd nes delo'r hyfryd fore,
 Ca'i ganu'n nhragwyddoldeb mawr.

M. R.

- 3 Draw ar gopa bryn Golgotha,
 Bu'r ymladdfa fwy a 'rloed ;
 R'Oen heb gleddau na grym arfau,
 'N sathru'r dreigiau tân ei droed :
 Ef mewn lludded mawr a syched,
 Yn gorchfygu uffern lu ;
 Etto ffynnon yn ei galon,
 I olchi'n wyn yr Ethiop du. ANHYSBYS.

- 4 Pan bo Sinai i gyd yn mygu,
 A sain yr udcorn uchaf radd ;
 Câf fyn'd i wledda dros y terfyn,
 Y'ngrym yr aberth heb fy lladd ;
 Mae ynddo yn trigo bob cyflawnder,
 Llon'd gwagle colledigaeth dyn :
 Yn yr adwy rhwng y ddwyblaid,
 Gwnaeth gymmod trwy offrymu ei hun.

A. G.

—◆—
 HYMN XXXI. (8. 7. D.)

Crist yn bob peth.

- 1 WYNEB siriol fy anwylyd,
 Yw fy mywyd yn y byd ;
 Ffarwel bellach bob eilunod,
 Iesu Mhriod aeth a 'mryd :

Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
 Ffrind mewn môr o ofid yw ;
 Ni chais f' enaid archolledig,
 Neb yn feddyg ond fy Nuw.

2 'Rwy'n teimlo f' enaid 'nawr yn caru,
 'R Oen ogwyddodd droswy ei ben ;
 Dywedodd Iesu mawr Gorphenwyd,
 Wrth dalu 'nyled ar y pren ;
 'Rwy'n caru hardd lyth'renau ei enw,
 Efe fu farw yn fy lle ;
 'Does gyfaill yn y byd rwy' ynddo,
 A bery'n ffyddlon fel efe.

3 Dyddiau blin fy mhererindod,
 Sydd ar ddarfod yn ddi lai ;
 Ffarwel yfed dyfroedd Mara,
 I ddinas arall 'rwy'n neshau :
 Teimlo f' enaid 'rwy'n ymadael
 A'r creaduriaid ar y llawr ;
 Fy hiraeth beunydd sy am fyn'd adref
 I'r dedwydd dragwyddoldeb mawr.

M. R.

—◆—

HYMN XXXII. (8. 7. D.)

Y cyfaill goreu yn angeu.

1 **Y**N y dyfroedd mawr a'r tônau,
 Nid oes neb a ddeil fy mhen,
 Ond y ffyddlawn Archoffeiriad,
 A fu farw ar y pren ;
 Cyfaill yw yn afon angeu,
 Ddeil fy mhen uwchlaw y dòn ;
 Golwg arno wna i mi ganu,
 Yn yr afon ddofn hon.

- 2 O anfeidrol rym y cariad !
 Anorchfygol ydyw'r gras !
 Digyfnewid yw'r addewid,
 Pery byth o hyn i maes !
 Hyn yw'm hangor ar y cefnfor,
 Na chyfnewid meddwl Duw :
 Fe addawodd na chawn farw,
 Y'nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw. D. W.
- 3 Cyfnewidiol yw fy mhrofiad,
 Weithiau'n galed fel y graig ;
 Weithiau byddai'n gorfoleddu,
 O gariad Iesu, had y wraig ;
 Weithiau'n dywyll, weithiau'n oleu,
 Weithiau'n gaeth, ac weithiau'n rhydd
 A chan fy mod i'n hollol felly,
 Mae'n dda fod Iesu yr un bob dydd.

HYMN XXXIII. (8. 7. D.)

Arfaeth rasol Duw.

- 1 **D**RAW mi welaf ryfeddodau,
 Dyfnion bethau Tri yn Un ;
 Cyn bod Eden ardd na chodwm,
 Grasol fwriad Duw at ddyn :
 Ethol Meichai cyn bod dyled,
 Trefnu Meddyg cyn bod clwy',
 Caru gelyn heb un haeddiant—
 Fe gaiff y clod tragwyddol mwy.
- 2 O dragwyddol iachawdwriaeth,
 Yn yr arfaeth gafodd le,
 I godi i fynu blant marwolaeth,
 I etifeddiaeth bur y Ne' ;
 Cariad boreu mor ddiddechru,
 Ag yw hanfod Tri yn Un,
 Yn cofleidio meibion Adda,
 Yn yr Alpha mawr ei hun.

Yn lle damnio pentewynion,
 Haeddodd fod yn uffern dân ;
 Gwisg a gwledd sydd i'r afradlon,
 Bellach noethion seiniwn gân,
 Y marw yn derbyn bywyd yma,
 Wele ffynnon i'w lanhâu,
 Ffordd dragwyddol rād i faddeu,
 Cyfoeth Meichai i'w ryddhau.

- 4 Dyma'r lle i farweiddio pechod,
 Byw tan gysgod Crist a'i groes ;
 Yna derfydd caru sorod,
 Cael profi cymmod angeu loes :
 Rhyw gofleidio Crist, ac wylo,
 Dyfal deithio tua'r wlad,
 Lle mae cariad yn preswyllo,
 Hedd tragwyddol ei barhad.



HYMN XXXIV. (8. 7. D.)

Rhyfeddodau'r iachawdwriaeth.

- 1 **D**YMA babell y cyfarfod,
 Dyma gymmod yn y gwaed ;
 Dyma noddfa i lofruddion,
 Dyma i gleifion feddyg rhad :
 Dyma fan yn ymyl Duwdod,
 I bechadur wneyd ei nyth ;
 A chyfiawnder pur y nefoedd,
 Yn siriol wenu arno byth.
- 2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser,
 I gael diangfa o ddrygau'r ddraig ;
 Mewn addewid gynt yn Eden,
 Fe gyhoeddwyd Had y Wraig :
 Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol,
 Ffordd i godi'r marw yn fyw,
 Ffordd gyfreithlon i droseddwr,
 I hedd a ffafr gyda Duw.

- 3 Wele Sinai a Chalfaria,
 Heddyw wedi dod y'nghyd ;
 Sylwedd mawr yr holl gysgodau,
 Yn wynebu'r dwyfol lid ;
 Dacw'r cleddyf wedi deffro,
 Biliau'r ddeddf yn dod y'mlacn ;
 Dacw aur y gwaredigion,
 Wedi ei buro yn y tân.
- 4 O ddyfnderoedd iachawdwriaeth.
 Dirgelwch mawr duwioledeb yw !
 Duw y duwiau wedi ymddangos,
 Y'ngghnawd a natur dynolryw :
 Dyma'r Person a ddyoddefodd,
 Yn ein lle ddigofaint llawn,
 Nes i gyfiawnder waeddi, Gollwng
 Ef yn rhydd, mi gefais iawn.
- 5 Dyma Frawd a anwyd i ni,
 Erbyn c'ledi a phob clwy ;
 Ffyddlon ydyw, llawn tosturi,
 Fe haeddai gael ei foli'n fwy :
 Rhyddhawr caethion, Meddyg cleifion,
 Ffordd i Sion union yw !
 Ffynnon loyw, bywyd meirw,
 Arch i gadw dyn, yw Duw. A. G.

—◆—

HYMN XXXV. (8. 7. D.)

Rhinweddau angeu Crist.

- 1 **B**YDD melys gofio y cyfammod,
 Draw a wnaed gan Dri yn Un ;
 Tragwyddol syllu ar y person,
 A gym'rodd arno natur dyn ;
 Wrth gyflawni yr ammodau,
 Trist iawn hyd angeu ei enaid oedd ;
 Dyma gân y saith ugein-mil,
 Tu draw i'r llen, mewn llawen floedd.

- 3 Fy enaid trist wrth gofio'r frwydr,
 Yn llamu o lawenydd sydd :
 Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,
 A'r pechadur brwnt yn rhydd :
 Rhoi awdwr bywyd i farwolaeth,
 A chladdu'r adgyfodiad mawr ;
 A dwyn i mewn dragwyddol heddwch,
 Rhwng nef y nef a daear lawr.
- 3 Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
 Dyoddefodd yno angeu loes ;
 Nerthodd freichiau ei ddihenyddwyr,
 I'w hoelio yn greulon ar y groes :
 Wrth dalu dyled pechaduriaid,
 Ac anrhydeddu deddf ei Dad ;
 Cyfiawnder oedd yn hardd ddysgleirio,
 • A ninau yn rhydd trwy'r cymod rhad.
- 4 O f' enaid gwel y fân gorweddodd,
 Pen breninoedd, Awdwr hedd ;
 Y grëedigaeth ynddo yn symud,
 Yntau'n farw yn y bedd ;
 Rhan a bywyd colledigion,
 Rhyfeddod holl angylion nef :
 Gwel'd Duw mewn cnawd, a'i gyd addoli,
 Mae'r côr gan waeddi, Iddo Ef.
- 5 O ddedwydd ddydd tragwyddol orphwys,
 Oddiwrth fy llafur yn fy rhan,
 Y'nghanol môr o ryfeddodau,
 Heb waelod, terfyn byth, na glân :
 Mynediad helaeth mwy i bara
 O fewn trigfanau TRI yn UN ;
 Dw'r i nofio, heb fyn'd trwyddo,
 Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.

A. G.

—◆—

HYMN XXXVI. (8. 7. D.)

Digon i Bechadur.

- 1 **P**ECHADUR aflan yw fy enw,
 O ba rai y pena'n fyw ;
 Rhyfeddaf byth fe drefnwyd pabell.
 I'm gael yn dawel gwrdd â Duw :

Yno y mae yn llon'd ei gyfraith,
 I'r troseddwr i gael gwledd ;
 Duw a dyn yn gwaeddi Digon,
 Yn yr Iesu'r aberth hedd.

2 Anturiaf ato yn hyderus,
 Teyrnwialen aur sydd yn ei law,
 Estyniad hon sydd at bechadur,
 Ni wrthodir neb a ddaw :
 Af y'mlaen dan'waeddi, Pechais,
 Af a chwypaf wrth ei draed,
 Am faddeuant, am fy ngolchi,
 Am fy nghànu yn y gwaed.

3 Nid eill moroedd mawrion llydain,
 Guddio pechod o unrhyw ;
 Ac ni allodd dylif cadarn,
 Ei foddi'n wir mae'n awr yn fyw :
 Ond gwaed yr Oen fu ar Galfaria,
 Haeddiant Iesu a'i farwol glwy',
 Ydyw 'r môr lle caiff ei guddio,
 Byth na welir mo'no mwy.

4 Ffrydiau tawel byw rhedegog,
 O tan riniog ty fy Nuw,
 Sydd yn llanw ac yn llifo,
 O fendithion o bob rhyw :
 Dyfroedd gloyw fel y grisial,
 I olchi 'r euog, nerthu 'r gwan ;
 Ac a gâna 'r Ethiop dua',
 Fel yr eira yn y man.

5 Byw heb wres na haul yn taro,
 Byw heb ofni marw mwy ;
 Pob rhyw alar wedi darfod,
 Dim ond canu am farwol glwy' ;
 Nofio yn afon bur y bywyd,
 Bythol heddwch sanctaidd Dri ;
 Tan d'wniadau digymylau
 Gwerthfawr angeu Calfari.

A. G.

HYMN XXXVII. (8. 7. D.)

Yr eglwys yn yr anialwch.

- 1 **C**OFIA, Arglwydd, dy ddyweddi,
 Llana ati fel yr hydd ;
 Ac na âd i'w holl elynion,
 Arni yn hollol gael y dydd :
 O datguddia y colofnau,
 Wnaed i'w chynnal yn y nos,
 Addewidion diammadol,
 Duw, ar gyfrif gwaed y groes.
- 2 Mae bod yn fyw yn fawr ryfeddod,
 ● Mewn ffwrneisiau sydd mor boeth ;
 Ond mwy rhyfeddod, wedi 'mhrofi,
 Y do'f o'r cystudd fel aur coeth :
 Amser canu, diwrnod nithio,
 Etto yn dawel heb ddim braw ;
 Y gwr sydd i mi yn ymguddfa,
 Sydd a'r wyntyll yn ei law.
- 3 O am dynu o'r anialwch,
 I fynu fel colofnau mwg,
 Yn uniongyrchol at ei orsedd,
 Nid oes yn ei wedd ef ŵg :
 Alpha, Omega, tyst ffyddlonaf,
 Yw ein IOR,—a'i air yn un ;
 Dysgleirio y mae gogoniant TRINDOD,
 Yn achubiaeth marwol ddyn.
- 4 Mae 'r dydd yn d'od i'r had breninol,
 I gael mordwyo tu a'u gwlad ;
 O gaethiwed y priddfeini,
 I deyrnasu gyd â'u Tad :
 Eu ffydd yno a dry 'n olwg,
 A'u gobaith eiddil yn fwynhad ;
 Annherfynol fydd yr anthem,
 Derchafu 'r Oen a'i werthfawr waed.

- 5 Bererin lleag gan rym ystormydd,
 Cyfod d'olwg, gwel y wawr,
 Yr Oen yn gweini 'r swydd gyfryngel
 Mewn gwingoedd lleision hyd y llawr:
 Gwregys euraidd o ffyddlondeb,
 Wrth ei odre, clychau'n llawn;
 Llwyf faddocant i bechadur,
 Ar gyffwrdd ei anfeidrol iawn. A. G.

—◆—
 HYMN XXXVIII. (8. 7. D.)

Anwylid yr Eglwys.

- 1 **N**ID oes gwrthddrych ar y dddear,
 A leinw'm bennaid gwrthdewr drud
 Fy unig bleaser a'm dydddarwoh,
 Yw hyfryd wedd dy wyneb-pryd:
 Gwedd dy wyneb dyr y c'lymau,
 A phob creadur ar y llawr,
 A gwna enw car a chyfaill
 Yn ddim, er mwyn ei enw mawr.
- 2 Nis diehon byd a'i holl deganau,
 Foddloni fy serchriadau'n awr;
 A ennillwyd, a eangwyd,
 Yn nydd nerth fy Arglwydd mawr:
 Efe nid' llai, a all eu llenwi,
 Er mai di-amgyffred yw;
 O am syllu ar ei Berson
 Rhyfedded pob rhyfeddod yw.
- 3 Arogl'n beraidd mae fy *Nardus*,
 Wrth wledda ar y cariad rhad,
 Sel yn tanio 'n ebyn pechod,
 Caru delw saneteiddhad:
 Tynu ymaith law a llygad,
 Ynghyd ag uchel drem i lawr;
 Neb ya deilwng o'i dderchafu,
 Ond fy Iesu, Frenin mawr.

- 4 O am yfed yma beunydd,
 O ffrydiau'r iachawdwriaeth fawr;
 Nes fy nghwbl ddisychedu,
 Am ddarfodedig bethau'r llawr,
 Byw dan ddysgwyl am fy Arglwydd,
 A bod pan ddelo yn effro iawn,
 I agoryd iddo'n ebrwydd,
 A mwynhau ei ddelw yn llawn.
- 5 Rhyfeddu a wnafl, a mawr ryfeddod,
 Pan ddel i ben y ddedwydd awr;
 Câf wel'd fy meddwl sy yma'n gwibio,
 Ar ol teganau gwael y llawr;
 Wedi ei sefydlu yn gyfan,
 Ar wrthddrvch mawr ei Berson ef,
 A diysgog gyd-ymffurfio,
 A phur a sanctaidd ddeddfau'r nef.
- A. G.

◆

HYMN XXXIX. (8. 7. D.)

Hiraeth y Cristion.

- 1 **L**LWYBR cwbl groes i natur,
 Yw fy llafur yn y byd;
 Ei deithio wnafl er hyny'n dawel,
 Ond i mi gael dy wyneb-pryd:
 Codi'r groes, a'i chyfri'n goron,
 Mewn gorthrymderau, llawen fyw;
 Ffordd unionaf er mor arw,
 I ddinas gyfanneddol yw.
- 2 Addurna'm henaid â dy ddelw,
 Gwna fi'n ddychryn yn dy law,
 I uffern, llygredd, a chnawdolrwydd,
 Wrth edrych arnaf yma a thraw:
 O am gymdeithasu â'r enw,
 Ennaint tywalltedig yw,
 Yn halltu'r byd, gan ber-arogli,
 O hawddgar ddoniau Crist fy Nuw.

- 3 O rhwyga'r tew gymylau duon,
 Sy'n cuddio gwedd dy wyneb gwiw ;
 Nid oes bleser a'm dyddana,
 Ond yn unig ti fy Nuw :
 Môr didrai o hob trugaredd,
 Yw 'th iachawdwriaeth fawr ei dawn,
 A lanwodd, ac a lifodd allan,
 Ar Galfaria un prydawn.
- 4 Mae fy nghalon am ymadael,
 A phob eilunod, fach a mawr ;
 Am fod arni 'n argraffedig,
 Ddelw gwrthddrych uwch y llawr :
 Anfeidrol deilwng i'w addoli,
 Ei garu, a'i barchu yn y byd ;
 Bywyd myrdd o safn marwolaeth,
 A gafwyd yn ei angeu drud. A. G.

—◆—
 HYMN XL. (8. 7. D.)

Concwest y Credadyn.

- 1 OS rhaid wynebu'r afon donog,
 Mae un i dori grym y lli' ;
 Iesu f'Archoffeiriad ffyddlon,
 Dyna ddigon byth i mi ;
 Yn ei waed caf waeddi concwest,
 Ar angeu, uffern, byd, a'r bedd,
 Tragwyddoldeb byth heb bechu,
 Yn ogoneddus ar ei wedd.
- 2 Yn lle cario corph o lygredd,
 Cyd-dreiddio â'r côr yn danbaid fry ;
 I ddiderfyn ryfeddodau,
 Iachawdwriaeth Calfari ;
 Byw i wel'd yr anweledig,
 Fu farw, ac sydd etto yn fyw ;
 Tragwyddol anwahanol undeb,
 A chymdeithas â fy Nuw.

- 3 Yno caf dderchafu'r Person,
 A osododd Duw yn Iawn ;
 Heb ddychymyg, llen na gorchudd,
 A'm henaid ar ei ddelw yn llawn ;
 Y'ng hymdeithas y dirgelwch,
 Dadguddiedig yn ei glwy' ;
 Addoli'r Mab i dragwyddoldeb,
 Heb golli 'ngolwg arno mwy.
- 4 O am bara i uchel yfed,
 O ffrydiau'r iachawdwriaeth fawr ;
 Nes fy hollol ddisychedu,
 Am ddarfodedig bethau'r llawr ;
 Byw tan ddysgwyl am fy Arglwydd,
 Bod pan ddel yn effro iawn :
 I agoryd iddo yn ebrwydd,
 A mwynhau ei ddelw'n llawn. A. G.

—◆—

HYMN XLI. (8. 7. D.)

Golud Crist.

- 1 O AM dreiddio i'r adnabyddiaeth,
 O'r unig wir a bywiol Dduw ;
 I'r fath raddau a fyddo'n lladdfa,
 I ddych'mygion o bob rhyw ;
 Credu y gair sy'n d'weyd am dano,
 Am ei natur sanctaidd wiw ;
 Yn farwolaeth i bechadur,
 Heb gael iawn i'w gadw'n fyw.
- 2 Mae Duw anfeidrol mewn gogoniant,
 Er mai Duw y cariad yw ;
 Wrth ei gofio i mi'n ddychryn,
 I mi'n ddolur, ac yn friw ;
 Ond yn mhabell y cyfarfod,
 Mae'fe yno yn llawn o hedd :
 Yn Dduw cymmodlon wedi eistedd,
 Heb ddim ond heddwch yn ei wedd.

- 3 Yno mae fy mwyd a'm diod,
 Fy noddfa a'm gorphwysfa wiw :
 Fy meddyginiaeth a fy nhrysor,
 Twr cadarn anfethedig yw;
 Yno mae fy holl arfogaeth,
 Y'ngwyneb fy ngelynion cas,
 Mae 'mywyd yno yn guddiedig,
 Pan bwy'n ymladd ar y maes.
- 4 Cael Duw yn Dad, a Thad yn noddfa,
 Noddfa yn graig, a'r graig yn dŵr,
 Mwy nis gallaf ei ddymuno,
 Yn dd'ogelwch im' mewn tân a dwr,
 O hono ef mae fy nigonedd,
 Ac ynddo trwy fyddinoedd âf,
 Hebdo eiddil gwan a dinerth,
 Colli'r dydd yn wir a wnaf. A. G.

—◆—

HYMN XLII. (8. 7. D.)

Priod Sion.

- 1 **P**AN esgynodd 'r hwn ddiagynodd,
 Wedi gorphen yma'r gwaith ;
 Pwrth oedd yn derchafu eu penau,
 Dan orfoleddu yn eu hiaith ;
 Dorau'n agor, côr yn plygu,
 I Dduw mewn enawd yr ochr draw ;
 A'r Tad yn siriol a'i gwahoddai,
 I eistedd ar ei ddeheu-law.
- 2 Digon mewn llifeiriant dyfroedd,
 Digon yn y fflamau tân ;
 O am nerth i lynu wrtho,
 A phara byth yn ddiwahan ;
 Ar dd'ryslyd lwybrau tir Arabia,
 Lle mae gelynion fwy na rhi',
 Rho' gymdeithas dyoddefiadau,
 Gwerthfawr angeu Calfari.

- 3 Pan fo'm henaïd 'n fwyaf gwresog,
 Yn danlyd garu'n fwyaf byw,
 Mae'r pryd hyny yn fyr o gyrhaedd,
 Perffaith sanctaidd gyfraith Duw :
 O am nerth i'w hanrhydeddu,
 Trwy dderbyn iachawdwriaeth râd,
 A'r cymmundeb mwyaf diddig,
 Yn hyfryd felys yn y gwaed.
- 4 Mae hiraeth arnaf am ymadael,
 Bob dydd ar y gwaedlyd faes ;
 Nid â'r arch nac Israel dirion,
 Ond â'm hunan ymchwydd cas ;
 Cael dod yn hŷ at fwrdd y Brenin,
 A'm gwahodd yno i eiste'n uwch,
 A minau'n para'n wan ac eiddil,
 A byth am garu yn y llwch.
- 5 O na chawn i dreulio 'nyddiau,
 Yn fywyd o dderchafu'i waed ;
 Llechu'n dawel dan ei gysgod,
 Byw a marw wrth ei draed :
 Cario'r groes a phara'i chodi,
 Am mai croes fy Mhriod yw ;
 Ymddifyru yn ei Berson,
 A'i addoli ef fy Nuw. A. G.

HYMN XLIII. (8. 7. D.)

Hyder Pererin cystuddiol.

- 1 **DYFAIS** fawr trag'wyddol gariad,
 Ydyw'r iachawdwriaeth lawn ;
 Cyfammod hedd yw'r sylfaen gadarn,
 'R hwn nis derfydd byth mo'i ddawn ;
 Dyma'r fan y gorphwys f'enaïd,
 Dyma'r fan y byddai fyw,
 Mewn tangnefedd pur heddychol,
 'Mhob ryw 'stormydd gyd a'm Duw.

- 2 Syfled iechyd, syfled bywyd.
 Cnawd a chalon yn gytun;
 Byth ni syfia ammod heddwch,
 Hen gytundeb TRI yn UN;
 Dianwadal yw'r addewid,
 Cadarn byth yw cynghor Duw;
 Cysur cryf sy'r neb a gredo,
 Yn haeddiant Iesu i gael byw.
- 3 Bum yn wyneb pob gorchymyn,
 Bum yn wyneb angeu glas;
 Gwelais Iesu ar Galfaria,
 Yn gwbl wedi cario'r maes;
 Mewn cystuddiau 'rwyf yn dawel,
 Y fuddugoliaeth sydd o'm tu;
 Nid oes elyn wna im' niwed,
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd fry.
- 4 Pethau chwerwon sydd yn felys,
 A'r t'wyllwch sydd yn oleu clir;
 Mae'm cystuddiau i mi'n fuddiol,
 Ond darfyddant cyn bo hir;
 Cyfammod hêdd, bereiddia'r cwbl,
 Cyfammod hêdd a'm cwyd i'r lân
 I gael gwel'd f'etifeddiaeth,
 A'i meddiannu yn y man.
- 5 Fy natur egwan sydd yn soddi,
 Wrth deimlo prawf o'th ddwyfol hêdd;
 Ac yn boddi gan ryfeddod,
 Wrth edrych 'chydig ar dy weidd;
 O am gorph a hwnw'n rymus,
 I oddef pwys gogoniant Duw;
 Ac i'w foli byth heb dewi,
 A chydag ef dragwyddol fyw.

T. C.

HYMN XLIV. (8. 7. D.)

Hyfrydwch y Nef.

- 1 **O** PA bryd y daw yr amser,
 Amser hyfryd dedwydd bryd,
 Câf glodfori fyth heb gwmwl,
 Enw prynwr mawr y byd !
 Ond nid amser yw ei enw,
 Tragwyddoldeb maith barhad ;
 Lle na flinir gan elynion,
 Etifeddion Canaan wlad.
- 2 Ffarwel holl wrthddrychau amser,
 Byd o brofiad lle'r wy'n byw ;
 Cael rhyddhad o bob gofidiau,
 Cael gorphwyso gyda Duw :
 Derfydd teithio glyn wylofain,
 Pan derfyno'r farwol chwyth,
 Frŷ nid oes un gwaith ond caru,
 Canu a rhyfeddu byth!
- 3 Pa'm y caraf mwy wrthddrychau,
 Rhai a adawaf cyn bo hir ;
 Ni estynant i mi gysur,
 Pan b'wy'n teithio'r isel dir :
 Bywyd brau a chyfnewidiol,
 Yn y byd amserol sy',
 Yma'n wir mae mynych dristwch,
 Mae hyfrydwch nefol frŷ !
- 4 Ynof fi nid oes ond gwendid ;
 Yn yr Iesu mawr mae grym :
 Anniffygiol yw ei allu,
 Ef sy'n llawn gadernid im' :
 Ef a rwygodd deyrnas Satan,
 Drylliodd gloiau, barau'r bedd ;
 Ef ei hun a ddaeth drwy'r gorchwyl,
 Anwyl, anwyl, yw ei wedd.

- 5 Ni ordeiniwyd fy serchiadau,
 I goffeidio pethau'r byd ;
 Ond i garu'r Iesu tirion ;
 Ef sydd deilwng o fy mryd:
 Ef sy'n derbyn moliant miloedd,
 Yn y bydoedd mawr uwch ben,
 Iesu, brenin y gogoniant,
 Piau'r moliant byth. Amen.

—◆—
 HYMN XLV. (8. 7. D.)

Archoffeiriad mawr.

- 1 **A** RCHOFFEIRIAD uwch na'r nefoedd,
 Yw ein harchoffeiriad ni ;
 Er mor ddirmygiedig ydoedd,
 Pan yn marw ar Galfari :
 O ddyfnderoedd ei drallodion,
 Esgyn wnaeth i nef y nef ;
 Priod a Gwardwr Sïon,
 A'i chyflawnder ydyw Ef.
- 2 Priod mawr, a Phen yr Eglwys,
 Ydyw Iesu, Brenin nef ;
 Pob credadyn sy'n ymorphwys
 Ar ei Iawn anfeidrol Ef :
 Er ystormydd a llif-ddyfroedd,
 Tra bo Iesu byw yn ben,
 Dwg ei etholedig luoedd,
 Adre'n iach i'r nefoedd wen. IAGC

—◆—
 HYMN XLVI. (8. 7. D.)

Deisyfiad y credadyn.

- 1 **O** NA byddai cariad Iesu,
 Megys fflam angerddol gref,
 Yn fy nghalon i'w chynhesu,
 Fel y carwn inau Ef ;
 O na chawn i brofi nerthol
 Weithrediadau'r Ysbryd Glân,
 Fel y gallwn yn wastadol,
 Yn lle cwyno, seinio cân !

- 2 Oer a marwaidd yw fy nghalon,
 Gwàn a diffwrth yw pob gras ;
 O na chwythai yr awelon
 Sydd yn gwywo llygredd cas ;
 Dyred, Iesu bendigedig,
 Bugail mawr y defaid oll,
 Dychwel f'enaid gwrthgiledig,—
 O na âd im' fyn'd ar goll.
- 3 Gwna fy enaid fel cerbydau
 Amminadib, buain iawn,
 Gâd im' gael dy ymweliadau,
 Llanw fi à'th nefol ddawn :
 Yn y gwin-dŷ gâd im' wleda,
 Dan dy faner, cariad yw ;
 Megys Brenin mawr gorsedda
 Yn fy nghalon, O fy Nuw !
- 4 Gwna fi'n ffrwythlawn yn fy hennaint,
 Tîrf ac iraidd gâd im' fod,
 Dan y gwllith a'r nefol ennaint,
 Gwna imi rodio er dy glod ;
 O na âd im' ymgaledu,
 Na diffwrtho yn dy dŷ,
 Trin fi, Arglwydd, nes addfedu
 F' enaid i'r ardaloedd fry. IAGO.

—♦—

HYMN XLVII. (8. 7. D.)

Galwad yr Efengyl.

- 1 **B**ETH yw 'r udgorn glywai 'n seinio ?
 Brenin Silo sydd yn gwa'dd :
 Pwy sy'n cael eu galw ganddo ?
 Pechaduriaid o bob gradd :
 Adre, adre, blant afradlawn,
 Gadewch gibau gweigion ffol ;
 Clywaf lais y Brenin heddyw
 'N para i alw ar eich hol.

HYMN XLVIII. (8. 7. D.)

Person Crist.

- 1 **I**ESU Grist un rhyfedd ydyw,
 Perffaith Dduw a pherffaith ddyn,
 Mae dwy natur cyflawn ynddo,
 Etto'r person 'dyw ond un ;
 O ddirgelwch mawr duwioldeb,
 Duw mewn undeb a gwir gnawd,
 'Rhwn sydd yn preswyllo'n uchel,
 I rai isel sydd yn frawd. J. H.
- 2 Dyma'r Câr a'r Cyfaill goreu,
 I feibion Adda fedd y nef ;
 Mae E 'n derbyn pechaduriaid,
 Ymddiried, f' enaid, ynddo Ef :
 Gwaed yr Oen ar ben Calfaria
 A'm cadwodd i o'r fflamau tân ;
 Chwant sydd arnaf ganu moliant,
 Fyth i'r fath Waredwr glân.

HYMN XLIX. (8. 7. D.)

Yr achos Cenhadol.

- 1 **D**YMA'R dyddiau wedi gwawrio,
 Clywir llais yr udgorn mawr ;
 Llais efengyl fwyn yn seinio,
 Dros holl Barthau daear lawr :
 Y mae'r swper heddyw'n barod,
 Allan aed cenhadon hedd,
 A chymheller pawb i ddyfod ;
 Mae cyflawnder yn y wledd.
- 2 Rheded afon iachawdwriaeth
 I ardaloedd pella'r byd ;
 Llified dros bob anial diffaith,
 I ffrwythloni'r rhai'n i gyd :
 Trigfa dreigiau a'u gorweddfa,
 Dont yn gyfle cyrs a brwyn ;
 A'r bwystfilod fu'n dyfetha,
 Gwelir hwythau fel yr wyn.

- 3 Mae'r cynhauaf yn addfedu,
 Yn mhob ardal is y nef;
 Ac fe gesglir llafur Iesu,
 Gwerthfawr ffrwyth ei angeu ef:
 Arglwydd, anfon weithwyr allan,
 I bob cwr o'r ddaear faith;
 Ti gei'r enw oll dy hunan,
 Am bob llwyddiant yn y gwaith,

P. J.

—◆—
 HYMN L. (8. 7. D.)

Yr achos Cenhadol.

- 1 **F**E ddyrchefir mynydd Sïon,
 Bydd goruwch holl fryniau'r byd;
 A'r cenedloedd o bob gwledydd,
 A ddylifant ato i gyd:
 Glŷn wrth odrau gwr o Iuddew,
 Ddeg o ddynion o bob iaith,
 Deuant oll i gyd addoli,
 O bob cwr i'r ddaear faith.
- 2 Bydd breninoedd yn dadmaethod,
 Llon i'r eglwys cyn bo hir;
 Yr un wedd, daw breninesau,
 Yn fammaethod iddi'n wir:
 Pendefigion uchaf daear,
 Ymostyngant i Dduw Ner;
 Eu holl olud a gyssegrant
 At wasanaeth Sïon bêr.
- 3 Fe ymâd cenfigen Ephraim:
 Ni chaiff Juda elyn mwy:
 Ni bydd neb i ddrygu Sïon,
 Nac i roddi iddi glwy:
 Fe fydd undeb a brawdgarwch
 Yn mhob man yn llenwi'r byd;
 Hedd a chariad a deyrnasa,
 Dros y ddaear faith i gyd.

P. J.

HYMN LI. (8. 7. D.)

Galwad yr Iuddewon.

- 1 **D**OED Iuddewon cyndyn bellach,
 I hoffi llais efengyl hedd ;
 Boed i swm yr udgorn arian,
 'Nawr agoryd pyrth y bedd :
 Aed eu dyddiau diffwrwyth heibio,
 A'u caethiwed, doed i ben ;
 Hwytbau'n credu'n llu ar unwaith,
 Yn yr hwn fu ar y pren.
- 2 Doed y pedwar gwynt, anadlant
 Ar y lladdedigion hyn :
 O eithafoedd pella'r gwledydd,
 Gwelant ben Calfaria fryn ;
 Ac wrth swm yr udgorn arian,
 Pyrth a barau Babel fawr,
 Fyddo'n agor, nes bo'r caethion,
 O'u carcharau oll yn awr.
- 3 Impier hwynt i'w holewydden,
 Profent o'u rhinweddau pêr ;
 Doed yr Iuddew mud i ganu,
 Mwy am ras anfeidrol Ner :
 Cariad heb gyfnewid etto,
 A ffyddlondeb mawr didrai ;
 Gras fel moroedd o Galfaria,
 Digon byth i gladdu bai.
- 4 Doed y dydd i gynnull Israel,
 O'u gwrthgiliad pell yn ol,
 Gyda galar ac wylofain,
 Am eu hymadawriad ffol ;
 Lluoedd gwasgaredig Juda,
 Doent o gyrau pella'r byd,
 At y Siloh gwir dan gredu,
 A derchafu'r angeu drud.

- 5 Wele'r faner wen i fynu,
 Yn arwyddo fod rhyddhad—
 Dyma'r dydd, doed yr Iuddewon
 'Nol i Sion i fwynhad
 O fendithion y cyfammod,
 Wnaed âg Abraham cyn hyn,
 Ac a seliodd Crist â'i angeu,
 Ië, ar Galfaria fryn.

R. J.

HYMN LII. (8. 7. 4.)

Gweddi'r Cristion yn yr anialwch.

- 1 **A**RGLWYDD arwain trwy'r anialwch,
 Fi bererin gwael ei wêdd,
 Nad oes ynof nerth na bywyd,
 Fel yn gorwedd yn y bêdd;
 Hollalluog, Ydyw'r un a'm cwyd i'r lân.
- 2 Rho'r golofn dân y nos i'm harwain,
 A rho'r golofn niwl y dydd;
 Dal fi pan bwy'n teithio'r manau,
 Geirwon yn fy ffordd y sydd;
 Rho i mi fanna, Fel na bwyf i lwfrhau.
- 3 Agor y ffynnonau melus,
 Sydd yn tarddu o'r graig i maes,
 'R hyd yr anial mawr canlyned,
 Afon iachawdwriaeth gras;
 Rho i mi hyny, Dim i mi ond dy fwynhau.
- 4 Mi ymddiriedaf yn dy allu,
 Mawr yw'r gwaith a wne'st erioed;
 Ti ge'st angeu, ti ge'st uffern,
 Ti ge'st Satan tan dy droed;
 Pen Calfaria, Nac aed hwnw byth o'm cof.

- 5 Pan bwy'n myned trwy'r Iorddonen,
 Angeu creulon yn ei rym,
 Ti 'est trwyddi gynt dy hunan,
 Pa'm yr ofnaf bellach ddim?
 Buddugoliaeth, Gwna i mi waeddi yn y l

W. V

HYMN LIII. (8. 7. 4.)

Y filwriaeth ysbrydol.

- 1 **M**I feddyliais yn y bore,
 Buaswn amser maith cyn hyn,
 Wedi maeddu fy mhechodau,
 Ac yn canu ar Sïon fryn;
 Sw'n y rhyfel, Ydyw'r mà'n 'rwy etto'n byw.
- 2 Llawn euogrwydd, llawn o ddychryn,
 Llawn o boen, yw'm henaid gwan;
 Anghrediniaeth cryf yn haeru,
 Byth na ddof oddiyma i'r làn;
 Balm yn Gilead, Unig ag all wella nghlwyf.
- 3 Maith yw'r nos a mawr yw'r tywyllwch,
 P'odd y galla'i threulio maes,
 Arglwydd heb gael dy gwmpeini,
 Nerth dy anorchfygol ras;
 Gormod gofid, Hebot allu yma i fyw.
- 4 Yr wy'n ofni temtasiynau,
 Nid wyf fi ond llesg erioed,
 Mae'r un wana'n ddigon abl,
 Fyn'd a'm henaid tan ei throed;
 Gwaed yn llifo, Ar Galfaria a'm deil i'r làn.
- 5 Er bod arnaf ofnau filoedd,
 Pan y delo'r drwg y'mlaen,
 F'allai caf fi nerth i sefyll,
 Fel y graig y'nghanol tân;
 Gwaed yn llifo, Ar Galfaria a'm deil i'r làn.

- 6 Paid fy enaid gwan ag ofni,
 Nid rhyw ddrygau sy'n neshau,
 Newydd da sy o dir y bywyd,
 Lle mae cariad yn parhau;
 Gwaed yn llifio, Ar Galfaria a'm deil i'r lan.

W. W.

—◆—
 HYMN LIV. (8. 7. 4.)

Dymuniadau'r Cristion.

- 1 **D**YSGWYL 'rwyf ar hyd yr hirnôs,
 Dysgwyl am y bore ddydd,
 Dysgwyl clywed pyrth yn agor,
 A chadwynau'n myn'd yn rhydd;
 Dysgwyl goleu, Pur yn nh'wyllwch tewa'r nos.
- 2 Nid oes arnaf faich yn gorphwys,
 Dim ond eisieu dy fwynhau,
 Nid oes arall dan y nefoedd,
 All yn hollol fy iachâu;
 Rho dy gwm'ni, Cyn im' fyn'd i'r cefn-fôr glâs.
- 3 Tyn yr ofnau hên o farw,
 Sydd yn llechu tan fy mron:
 Rho i mi heddwch, rho orfoledd,
 Tra f'wyf ar y ddaear hon;
 Na therfysged, F'enaid gwan y'ngrym y dw'r.
- 4 Dyma'n gwbl fy neisyfiad,
 I mi gael bod yn dy gôl,
 Er na theithiais etto nemawr,
 N'ad fi dynu hyny'n ol;
 Gwna i mi gadw, 'Ngolwg tua'r hyfryd wlad.
- 5 Dal fy llygad, dal heb wyro,
 Dal ef ar dy addewid wir,
 Dal fy nhraed heb gynnyg ysgog,
 Allan o dy gyfraith bur;
 Boed d'orch'mynion, I mi'n gysur ac yn hedd.

- 6 Mi gâf yn y wlad 'rwy'n myned,
 Ddiengu'n lân i maes o'm poen ;
 Gorphwys draw i derfyn gofid,
 Gydâ'r addfwyn anwyl Oen ;
 Ni ddaw tristwch, Byth i mewn dros furiau'r nef.

—◆—
 HYMN LV. (8. 7. 4.)

Syllu ar Galfaria.

- 1 'CHEISIAIS Arglwydd ddim ond hyny,
 Dim ond treulio'm dyddiau maes,
 I dy garu a'th ryfeddu,
 Ac ymborthi ar dy räs ;
 Dyna ddigon, 'Cheisiai 'nabod dim ond hyn.
- 2 Os agori im' dy fynwes,
 I gael gwel'd y cariad llawn,
 Lifodd allan fel y moroedd,
 Ar Galfaria un prydawn ;
 Ti gai 'r cwbl, Roddaist i mi yn fy rhan.
- 3 Cudd fy meiau rhag y werin,
 Cudd hwy rhag cyfiawnder nê ;
 Cofia'r gwaed unwaith a gollwyd,
 Ar y croesbren yn fy lle ;
 Yn y dyfnder, Bôdd y cyfan sŷ ynwy'n fai.
- 4 Dyma'r euog ofnus aflan,
 Etto'n chwennych bod yn wyn,
 Yn yr afon gymysg liwiau,
 Dorodd allan ar y bryn ;
 Balm o Gilead, Anghydmorol yw dy waed.
- 5 Mi ddysgwyliaf doed a ddelo,
 Deued bore, deued nos,
 Deued corwynt, deued tymhestl,
 Nes cael teimlo gwaed y groes ;
 Gwel'd dy glwyfau, Yw'r dedwyddaf awr i mi.
 W. W.

HYMN LVI. (8. 7. 4.)

Buddugoliaeth y groes.

- 1 **F**'ENAID egwan paid ag ofni,
'Dyw dy elynion bob yr un,
Ond rhai eisoes wedi eu conc'ro,
Gan a wisgodd natur dyn;
Fe fyn weled, Pob rhyw elyn dan fy nhraed.
- 2 Gwaed dy groes sy'n codi fynu,
'R eiddil yn goncwerwr mawr,
Gwaed dy groes sydd yn darostwng,
Cawri cedyrn fyrdd i lawr;
Gâd i'm deimlo, Awel o Galfaria fryn.
- 3 Dechre canu, dechre canmol,
Y'mhen mil o filoedd maith,
Iesu, bydd y pererinion,
Hyfryd draw ar ben eu taith;
Ni cheir diwedd, Byth ar swm y delyn aur.
- 4 Yno caf fi dd'weyd yr hanes,
P'odd y dringodd eiddil gwan,
Trwy afonydd, a thros greigydd,
Dyrys anial serth i'r lan;
Iesu ei hunan, Gaiff y clôd trwy eitha'r nef.
- 5 Gwawrddydd, gwawrddydd, yw fy mywyd,
Gwel'd y wawrddydd 'rwyf yn iach,
Mi arosa, hyd nes delo,
Hi ddaw, hi ddaw 'mhen gronyn bach;
Dere, dere, I'm gael gwel'd fy ngwlad fy hun.

W. W.

HYMN LVII. (8. 7. 4.)

Rhagoroldeb gwir Grefydd.

- 1 **Y** MAE gwedd dy wyneb grasol,
Yn rhagori llawer iawn,
Ar bob peth a welodd llygaid,
Ar hyd wyneb daear lawn;
Rhosyn Saron, Ti yw tegwch Nef y Nef.

- 2 'Rwy'n dy garu er nas gwelais,
Mae dy gariad fel y tân,
Nis gall nwydau cryfa' natur,
Sefyll mymryn bach o'th flaen ;
Fflam angerddol, Ryw bryd ddifa'm sorod yw.
- 3 Aed y nos derfysglyd heibio,
Doed y bore cyn bo hir,
Pan y caffo'm henaid wledda,
Yn y Ganaan hyfryd bur ;
Gyda myrddiwn, O'i rai anwyl ffyddlawn ef.
- 4 O gwasgerwch dew gymylau,
I'r addewid rhoddwch le,
Nid i'r ddaear yma'm ganwyd,
Tragwyddoldeb yw fy lle ;
'Nol tywyllwch, Côd o'r diwedd fore wawr.
- 5 Mi ddymunwn wel'd yn rhwygo,
Holl gymylau du y nef,
I bechadur weled gronyn,
O'i ogoniant hyfryd ef ;
O datguddia, I mi ran o'th enw mawr.

—◆— W. W.

HYMN LVIII. (8. 7. 4.)

Dyoddefaint Crist.

- 1 O NA ba'i cystuddiau f'Arglwydd,
Yn fy nghafon i gael lle,
Pob rhyw loes a phob rhyw ddolur,
Pob rhyw fflangell gafodd ê ;
Fel ba'i mhechod, Ildio'r dydd a myn'd i maes.
- 2 O na byddai oriau mywyd,
Yn ymborthi ar oriau'th boen,
Fel y gallwyf fi gyd redeg,
A chystuddiau'r addfwyn Oen ;
Fe gai mhechod, Felly'n fuan golli'r dydd.

- 3 Arnat Iesu boed fy meddwl,
 Am dy gariad boed fy nghân,
 Dyged swm dy ddyoddefiadau,
 Fy serchiadau oll yn lân ;
 Mae dy gariad, Uwch y clywodd neb erioed.
- 4 Fe ddyoddefodd angeu creulon,
 Poenus chwerwaf angeu'r groes ;
 Ac fe gonc'rodd luoedd uffern,
 Trwy ei ddwyfol farwol loes ;
 'N awr gorphenwyd, Iachawdwriaeth ddaeth i mi.
- 5 Iesu nid oes terfyn arnat,
 Mae cyflawnder mawr dy ras,
 Yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn,
 Ganwaith nag yw mhechod cas ;
 Byth yn anwyl, Meibion dynion mwy a'th gâr.

W. W.

 HYMN LIX. (8. 7. 4.)
Ymddibyniad yr enaid ar Dduw.

- 1 **W**RTH dy orsedd 'rwyf yn gorwedd,
 Dysgwyl am y ddedwydd awr,
 Pan gaf glywed llais gorfoledd,
 Pan gaf wel'd fy meiau i lawr ;
 Ti gai enw, 'R fuddugoliaeth it' dy hun.
- 2 Doed dy heddych pryd y delo,
 Mi ddysgwyliaf-ddydd a nos,
 Annherfynol ydyw haeddiant,
 Haeddiant pur dy angeu loes ;
 Tyr'd yn fuan, Mae dy hedd yn fwy na'r byd.
- 3 Dysg y galon drist i chwerthin ;
 Dysg y mudan seinio cân,
 Dysg yr ofnus gwan i gludo,
 Uffern fawr i lawr o'i flaen ;
 Dod wylofain, Yn ganiadau Calfari.

- 4 Mil o werin chwaddai'n loyw,
 Wel'd y bore bwyf i lawr,
 Gorfoleddant pe troi'r frwydr,
 Gadarn gydag uffern fawr; [y dydd.
 Dal fy mreichiau, Trymion heddyw yn ngwres
- 5 Safed haul uwchben Gibeon,
 Safed lleuad yn y ne;
 Safed ser a'r holl blanedau
 Yn llonydd heddyw yn eu lle,
 Cyn y collo, F'enaïd gwan baradwys well.

W. W.

—◆—
 HYMN LX. (8. 7. 4.)

Ymnerthu yn yr Arglwydd.

- 1 **M**AE gelynion i mi'n chwerw,
 Cedyrn ynt a mawr eu grym,
 Ond y rhai wy'n ofni fwya,
 I ti fy Ior nid ydynt ddim; [awr.
 Gair o'th enau, Gwympa fyrdd mewn mynyd
- 2 O dystewch gynddeiriog dônau,
 Tra fwy'n gwrando llais y nef,
 Swm mwy hoff a sain mwy hyfryd,
 Glywir yn ei eiriau Ef;
 F' enaid gwrando, Lais tangnefedd pur a hedd.
- 3 Duw, nid oes ond ti dy hunan,
 Ddaw a'm henaïd llesg i'r lan,
 Sydd yn suddo mewn dyfnderoedd,
 Dyfnion tywyll y'mhob man;
 Gwna i mi gredu, Credu a cherdded ar y môr.
- 4 Draed lluddedig dewch i fynu,
 Ymestynwch ddwylo 'm laen,
 Draw mae'r wob, draw mae'r goron,
 Draw mae Mhriod hawddgar glân;
 Ffarwel bellach, 'Chofia' i ddim ond pen fy nhaith.

- 5 Mae dy Ysbryd di yn fywyd,
 Mae dy Ysbryd di yn dân,
 Fe sy'n dwyn yr holl fforddolion,
 Cywir sanctaidd pur y'mlaen ;
 Cyfarwyddwr, Pererinion arwain fi.
- 6 'Rwyffi'n caru'r pererinion,
 Ar y bryniau serth y sy,
 Ar eu traed ac ar eu dwylo,
 'N ceisio dringo fynu fry ;
 Ar fy neulin, Minau dd'of i ben y bryn.



W. W.

HYMN LXI. (8. 7. 4.)

Erfyn am ymward.

- 1 **O** SANCTEIDDIA f' enaid Arglwydd,
 Yn mhob nwyd, ac yn mhob dawn,
 Rho egwyddor bur y nefoedd,
 Yn fy ysbryd llesg yn llawn,
 N'ad fi grwydro, Draw nac yma o fy lle.
- 2 Wrth fy nghuro gan y gwyntoedd,
 Wrth fy maeddu gan y dôn,
 Wrth fy nryllio yn erbyn creigydd,
 Bliniais ar y ddaear hon ;
 O am ddyddiau, Pan ddarfyddo pechu yn lân.
- 3 Croesau geirwon sydd yn felys,
 Pan yr elo hi'n brydnawn,
 Dyfnder galar sydd yn esgor,
 Ar lawenydd hyfryd iawn ;
 O am weled, Heno dawl foreu wawr.
- 4 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,
 Diliau mel yw'th heddwch drud ;
 Gwerthfawrocach yw dy gariad,
 Na holl berlau'r India i gyd ;
 Gwlad o gyfoeth, Yw yn unig dy fwynhau.

W. W.

HYMN LXII. (8. 7. 4.)

Anchwiliadwy olud gras.

- 1 **Y** MAE rhinwedd gras y nefoedd,
O dragwyddol faith barhad,
Nid oes diwedd byth ar effaith,
Perffaith haeddiant dwyfol waed ;
Ac er golchi, Nant heb lwydo, nant heb drai.
- 2 Minau dd'of i'r ffynnon loyw,
Darddodd allan ar y bryn,
Ac mi olcha'm henaid euog,
Ganwaith yn y dyfroedd hyn ;
Myrdd o feiau, Daflai lawr i rym y dwr.
- 3 Iachawdwriaeth rād ei hunan,
Yw fy mhle o flaen y nef,
A ffarwel am dana'i fythol,
Oni chaf ei haeddiant ef ;
Iesu ei hunan, Oll o flaen y fainc i mi.
- 4 Ffordd nid oes o waredigaeth,
Ond agorwyd ar y pren,
Llwybr pechaduriaid euog,
Mewn i byrth y nefoedd wen ;
Dyma'r gefnffordd, Gwna i mi ei cherdded tra
f'wyf byw.
- 5 O na chawn ddifyru nyddiau,
Llwythog dan dy ddwyfol groes !
A phob meddwl wedi ei glymu,
Wrth dy berson ddydd a nos ;
Byw bob mynyd, Mewn tangnefedd pur a hedd.

W. W.

HYMN LXIII. (8. 7. 4.)

Hyder y credadyn yn Nuw.

- 1 **W**RTH dy orsedd 'rwyf yn gorphwys,
Llefain arnat fore a nawn,
I'm gael clywed llawn ddystawrwydd,
O'm heuogrwydd tanlyd iawn ;
A thangnefedd, Pur o mewn yn cadw ei le.

- 2 Mi ddysgwyliaf yno'n dawel,
 Ac mi greda ryw bryd daw
 Gwardedigaeth i garcharwr,
 Bur oddiyno niaes o law ;
 Doed pan ddelo, Mi ddysgwyliaf nes ei ddod.
- 3 Wrth dy orsedd di mae bywyd,
 Wrth dy orsedd di mae grym,
 Ac ni fethodd is y nefoedd,
 Ag a geisiodd genyt ddim ;
 Minau aflan, Fentraf at orseddfa hedd.
- 4 Tyr'd am hyny Iesu'n fuan,
 Saf o blaid yr euog gwan,
 Sy'n lluddedig gan gystuddiau,
 Dyfnion, trymion, y'mhob man ;
 Rho ddyddanwch, Tra fwy'n teithio'r anial dir.
- 5 Yn y ffynnon hon agorwyd,
 Yn dy ystlys ar y pren,
 'Rwyf fi'n dod a'm gwisg yn aflan
 I'w chànau yno'n hyfryd wen ;
 Mi dd'of allan, Fel yr eira ar y bryn.
- 6 Mae e'n maddeu beiau mawrion,
 Mae e'n caru yn ddidrai,
 A lle caro, mae ei gariad,
 Yn dragwyddol yn parhau ;
 Nid oes terfyn, Ar ei gariad, ar ei ras.

—◆— W. W.

HYMN LXIV. (8. 7. 4.)

Crist yn gysgod i bechadur.

- 1 **R**HO gydwybod wedi ei chànau,
 'N beraidd yn y dwyfol waed ;
 Cnawd a natur wedi darfod,
 Clwyfau wedi cael iachâd ;
 Minau'n aros, Yn fy ninas fore a nawn.

- 2 Dychwel i'm gysuron gloyw,
Fel y dyddiau goreu erioed,
Gad i'm gerdded fel yn fachgen,
Etto unwaith wrth dy droed ;
A chael aros, Tan dy gysgod nos a dydd.
- 3 Dyma'r man dymunwn aros,
O fewn pabell bur fy Nuw,
Uwch terfysgoedd ysbryd euog,
A themtasiwn o bob rhyw ;
Tan awelon, Peraidd hyfryd tir fy ngwlad.
- 4 Tan dy aden cedwir f' enaid,
Yno'n unig byddai byw,
Tan dy aden y gwaredir,
Fi o'r beiau gwaetha eu rhyw ;
'R wyt ti'n gysgod, Rhag euogrwydd yn ei rym.
- 5 Mae deng myrddiwn o rinweddau,
Dwyfol yn ei enw pur,
Yn ei wedd mae tegwch rhagor,
Nag a welodd mor na thir ;
Mo'i gyffelyb, 'Rioed ni welodd nef y nef.

—◆—
W. W.

HYMN LXV. (8. 7. 4.)

Profiad y Cristion.

- 1 **C**HWILIO am danat addfwyn Arglywydd,
Mae fy enaid yma a thraw,
Teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd,
Pan y byddoch di ger llaw ;
Gwedd dy wyneb, Yw fy mywyd yn y byd.
- 2 Mae fy nwydau wedi mlino,
Ganwaith yn yr ardal hyn,
Lle b'wyf fi, maent hwythau yno,
B'wyf ar foroedd, b'wyf ar fryn ;
O am deimlo, Rhyddid paradwysaidd dir.

- 3 Ti faddeuaist fyrdd o feiau,
 I'r pechadur gwaetha ei ryw,
 Arglwydd maddeu etto i minau,
 Ar faddeuant 'rwyf yn byw :
 Dy unig haeddiant, Yw ngorfoledd a fy ngrym.
- 4 Da yw'r groes, a da yw gwasgfa,
 Da yw profedigaeth llym,
 Oll i'm tynu o'r creadur,
 O fy haeddiant, o fy ngrym ;
 Minau'r truan, Ffo'f dan aden Brenin Nef.
- 5 Dyben nefoedd sydd yn gywir,
 Bynag beth yw dyben dyn ;
 Ac mi anturiaf fy holl fywyd,
 Ar ei eiriau ef ei hun ;
 Doed pob cystudd, Ddygwydd dim ond da i mi.

W. W.

—◆—

HYMN LXVI. (8. 7. 4.)

Dydd y farn.

- 1 **W**ELE'N dyfod ar y cwmwl,
 Mawr yw'r enw sy iddo'n awr,
 Ar ei fraich ac ar ei forddwyd,
 Ysgrifenwyd ef i lawr ;
 Haleluia, Groeso, groeso addfwyn Oen.
- 2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
 O gwmpeini hardd eu gwedd,
 Welai draw yn codi fynu,
 I'w gyfarfod ef o'r bedd ;
 Darfu galar, Dyma iachawdwriaeth lawn.
- 3 Dacw'r Brenin mawr ei hunan,
 Yn adnabod pob yr un,
 Dacw bawb yn tynu i fynu,
 Yn union ato ef ei hun :
 Cariad perffaith, Bellach gaiff deyrnasu byth.

- 4 Nid oes yno gofio beiau,
Dim ond llawn faddeuant rhad,
Poenau'r groes, a grym y cariad,
A rhinweddau maith y gwaed ;
Darfu ofni, Daeth llawenydd yn ei le.

W. W.

—◆—
HYMN LXVII. (8. 7. 4.)

Trysorau'r groes.

- 1 **CYMER** Iesu fi fel ydwyf,
Byth ni allaf fod yn well ;
Dy allu di a'm gwna yn agos,
Fy 'wyllys i yw myn'd yn mhell ;
Yn dy glwyfau, Byddai'n unig byth yn iach.
- 2 Iesu, Iesu, 'rwyf ti'n ddigon,
'Rwyf ti'n llawer mwy nâ'r byd,
Mwy trysorau sy'n dy enw,
Na thrysorau'r India'i gyd, [Duw.
Oll yn gyfan, Ddaeth i'm meddiant gyd a'm
- 3 Mwy yw d'eiriau ar y croesbren,
Geiriau gwerthfawr, geiriau drud,
Mwy yw'r sillaf leia' o honynt,
Na'm holl ddyledswyddau i gyd,
'Drychaf yno, Yno mae fy nerth a'm grym.
- 4 Cofia'th boenau ar Galfaria,
Cofia i ti gario'r groes,
Cofia gur yr hoelion llymion,
Cofia'th chwerw angeu loes ; [mwyn.
Rho i mi heddwch, Rho i mi nefoedd er eu
W. W.

—◆—
HYMN LXVIII. (8. 7. 4.)

Dyfod o'r anialwch.

- 1 **LWCH** wyf fi, o'r llwch y daethum,
Pryf yw mrawd, y ddae'r yw mam,
Etto'r wyf fi'n 'mofyn teyrnas,
Ddisigledig bur ddinam ;
Pryf y ddaear, A ddaw hwnw mewn i'r nef'.

- 2 Dof, mi ddof trwy'r anial garw,
 Dof er gwaetha'r moroedd glâs ;
 Dof trwy'r cenllysg a'r tymhestloedd,
 Sydd yn curo ar fy ngras ;
 Am mai cadarn, Ydyw'r hwn 'rwyf yn ei gôl.
- 3 Rhof ffarwel i'r holl gre'digaeth,
 Ffarwel faesydd gwych eu rhyw,
 Ffarwel deiau teg yr olwg ;
 Ffarwel ddynion goreu'n fyw ;
 Gwych gyfnwid, Duw ei hunan yn lle'r byd.
- 4 Fe ennynwyd ynwy' fflamau,
 Tân mor hyfryd, tân mor gry',
 Nid o'r ddaear daeth ei wreiddyn,
 Cariad pur y nefoedd fry ;
 Awel beraidd, O fynyddau hyfryd ras.
- 5 Chwi angylion sydd yn edrych,
 Ar ei wyneb gwridog gwyn,
 Traethwch i mi p'odd dechreuodd,
 Fflam mor berffaith bur a hyn ;
 Nef ei hunan, 'Nynodd ynwy' ei helfen bur.

W. W.

—◆—

HYMN LXIX. (8. 7. 4.)

Daioni cystudd.

- 1 **F'** ENAID egwan paid ag ofni,
 Bod rhyw ddrygau mawr gerllaw,
 Ofni gwyntoedd oer y gogledd,
 Ofni gwynt y dwyrain draw ;
 Ofni'r cwbl, Ac heb achos ofni'n bod.
- 2 Newydd mawr, a newydd llawen,
 Newydd gwir a newydd rhad,
 Sy'n marchogaeth ar y cwmwl,
 Goleu draw o dŷ fy nhad ;
 Fê faddeuwyd, Beiau rif y ser i mi.

- 3 Os daw gw'radwydd, os daw gofid,
Trwy ragluniaeth bur fy Nuw ;
Hyny fyth ni ladd fy enaid,
Cadw nghalon wna fe'n friw,
Bydd ei fflangell, Yn y diwedd fel y gwin.
- 4 Os ar wely rhaid fy rhoddi,
Ryw bryd yn y dyddiau ddaw,
I gystuddiau nes bo'm brodyr,
Goreu oll yn cilio draw ;
Mi ddof allan, Fel yr aur y seithfed tro.
- 5 Os rhaid i mi gael blynyddau,
O'r cystuddiau gwaetha eu rhyw,
Am fynyddau bach o bleser,
Ge's i dori deddf fy Nuw ;
Fe ddaw diwedd, Ar bob gofid yn y nef.

W. W.

—◆—
HYMN LXX. (8. 7. 4.)

Rhyfeddodau'r groes.

- 1 **M**I feddyliais cawn i f'Arglwydd,
Yn nghwmpeini mawrion byd,
Yn mhlith mwrddwyr, yn mhlith lladron,
Gwelais gynta'i wyneb pryd ;
Ar y croesbren, Nid yn llys breninoedd byd.
- 2 Dacw lofrudd ar ei aswy,
Dacw leidr ar ei dde,
Draw fe'i hoeliwyd yn y canol,
Frenin daear, frenin ne',
Mi apelia, At yr orsedd ar y groes.
- 3 Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,
Y mae'r nefoedd ar y pren,
Fe ddaeth mynydd hen Galfaria,
'Nawr er's dyddiau'n un â'r nen ;
Daeth Moria, 'Nawr yn ysgol *sound* i'r nef.

G. C.

- 4 Dring fy enaid i'th orphwysfa,
Y mae'r nefoedd wrth dy glun,
'Rhwn a greodd haul a lleuad,
'Nawr a wisgodd natur dyn ;
Edrych arno, Credu ydyw pen y daith.
- 5 Mae fy Mhrïod, mae f' Anwylyd,
'Nawr yn dangos i mi wlad,
Nas gall dyfais temtasiynau,
Byth i syflyd dim o'm traed :
Mi af yno, Dyna'r mân caf ddedwydd fyw.
W. W.

—◆—
HYMN LXXI. (8. 7. 4.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **D**UW teyrnasa ar y ddaear,
O'r gorllewin bell i'r de',
Cymer feddiant o'r ardaloedd,
Pella t'wylla, is y ne' ;
Haul Cyfiawnder, Llanw'r ddaear fawr a'th räs.
- 2 Doed yr India fawr gyfoethog,
Heddyw tan dywyllwch sydd,
I gael gwel'd efengyl hyfryd,
Yn dwyn drosodd oleu'r dydd ;
Nes bo heddwch, Yn teyrnasu o fôr i fôr.
- 3 Taened gweinidogion bywyd,
Iachawdwriaeth Iesu ar léd ;
Cluded moroedd addewidion,
Trosodd draw i'r rhai digrêd ;
Aed Efengyl, Ar adenydd dwyfol wynt.
- 4 Doed preswylwyr yr anialwch,
Doed trigolion bro a bryn,
Doed y rhai sydd ar y cefnfor,
I garu'r iachawdwriaeth hyn ;
Nes bo adsain, Moliant yn amgylchu'r byd.

- 5 Pur ganiadau i Frenin Sion,
 Fyddo yn llawenydd llawn,
 Draw o'r dwyrain lle mae'n codi,
 I fachludiad haul brydnawn ;
 Fyth na sonier, Ond am degwch Brenin nef.

—◆— W. W.

HYMN LXXII. (8. 7. 4.)

Lhwyddiant yr Efengyl.

- 1 **D**ROS y bryniau tywyll niwlog,
 Yn dawel f'enaid edrych draw,
 'R addewidion sydd i esgor,
 Ar ryw ddyddiau braf gerllaw ;
 Nefol Jubil, Gad im' wel'd y bore wawr.
- 2 Doed yr Indiaid, doed barbariaid,
 Doed y Negroes du yn llu,
 I ryfeddu'r ddwyfol goncwest,
 Unwaith gaed ar Galfari ;
 Swn y frwydr, Dreiddio i eitha conglau'r byd.
- 3 Ar ardaloedd maith o d'wyllwch,
 Tywynu wnelo'r haulwen lân,
 Ac ymlidied i'r gorllewin,
 Y nos o'r dwyrain draw o'i blaen ;
 Iachawdwriaeth, Ti yn unig gario'r dydd.
- 4 Gwawria, gwawria, hyfryd fore,
 Ar ddiderfyn fagddu fawr,
 Nes bo bloedd yr euraidd udgorn,
 Yn dadseinio'r nen a'r llawr ;
 Holl derfynau, Tir Immanuel i gyd.
- 5 Hed fel mellten, bur efengyl,
 A gorchfyga oll yn lân ;
 Bydded i'th gyffiniau äang,
 Ymhelaethu fyth y'mlaen ;
 A'th lywodraeth, Dros y moroedd mawr i gyd.

J. W.

HYMN LXXIII. (8. 7. 4.)

Rhagoroldeb Crist.

- 1 **WELE'N** sefyll rhwng y myrtwydd,
Wrthddrych teilwng o fy mryd;
Er o'r braidd yr wy'n adnabod,
Ei fod uwchlaw gwrthddrychau'r byd :
Henffych fore, Caf ei weled heb un llen.
- 2 Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog hardd ei bryd;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori,
O wrthddrychau pena'r byd :
Ffrynd pechadur, Dyma ein llywydd ar y mor.
- 3 Beth sydd i mi mwy a wnelwyf,
Ag eilunod gwael y llawr;
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni,
Yw cymharu â'm Iesu mawr;
O am aros, Yn ei gariad ddyddiau f'oes.
- 4 Gwelaf graig a'm deil mewn stormydd,
O gawodydd dwfr a thân;
Yn wyneb uffern a'i rhuthriadau,
Holl breswylwyr hon a gân :
Cadarn sylfaen, A osodwyd gan y Tâd.

A. G.

J. H.

HYMN LXXIV. (8. 7. 4.)

Y Ceidwad mawr.

- 1 **DYMA** Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai,
Dyma un sy'n caru maddeu,
I bechaduriaid mawr eu bai :
Diolch iddo, Byth am gofio llwch y llawr.

M. B.

HYMN LXXV. (8. 7. 4.)

O flaen Pregeth.

- 1 **A**RGLWYDD grasol dyro gymhorth,
 I gyhoeddi etto i maes,
 Dyfnder calon dyn truenus,
 Ac anfeidrol olud gras;
 Fel bo dyfnder, Byth am ddyfnder yn cael sôn.
 D. M.
- 2 Dyro'th Ysbryd i lefaru,
 Ac i wrando d' eiriau pur;
 Boed ei lewyrch nefol hyfryd,
 A'i arddeliad ar y gwir:
 O amlyga, Anorchfygol nerth dy râs.
- 3 D' air, fel gordd, a dŷr galonau
 Creigaidd iawn yn chwylyfriw mân;
 D'air, fel tân, a wir oleua,
 Ac a bura 'r brwnt yn lân:
 Gâd in' deimlo, Dwyfol nerth efengyl hêdd.



HYMN LXXVI. (8. 7. 4.)

Dylanwadau yr Ysbryd.

- 1 **N**ERTHOEDD y trag'wyddol Ysbryd,
 Yn haeddiannau'r dwyfol Iawn,
 Wna i'r fynwes ddiffaith galed,
 I ffrwythloni'n hyfryd lawn;
 O rasmusau, Pêr blanicion nefol wlad.
- 2 Creigiau tanllyd Salem waedlyd,
 Rhai fu'n bloeddio ag un llef.
 Am Dywysog mawr y bywyd,
 "Ymaith! O croeshoelier ef!"
 Gwnaeth i'r rhei'ny, Wylo edifeirwch pur.

- 3 Os disgyni, addfwyn Ysbryd,
 I ryw fynwes fel rhai hyn,
 A'i haddurno â phur ddelw,
 Y gwr fu farw ar y bryn; [hyn.
 Mawl a seinia, Trwy'r holl nefoedd fawr am
 D. C.

HYMN LXXVII. (8. 7. 4.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **A**ED newyddion iachawdwriaeth,
 Ar adenydd dwyfol wawr,
 I'r ddwy India ëang helaeth,
 I eithafoedd daear lawr;
 Brysied bore, Jubil ddydd efengyl gras.
- 2 Llifed ffrwd y dyfroedd bywiol,
 Ddaeth tan riniog teml Iôn,
 Afon bur o'r orsedd rasol,
 Glan orseddfainc Duw a'r Oen;
 Ei rhinweddau, Sy'n dwyn bywyd yn lle gwaed.
- 3 Ar ei glânau y mae'n tyfu,
 Bywiol bren a'i ffrwythau'n llawn,
 Ffrwyth a dail i wir ddiwallu,
 Lluoedd a'u rhinweddol ddawn;
 Dail er iechyd, I'r cenedloedd yw y rhai'n.
- 4 Aed effeithiol addewidion,
 Dwyfol hyd eithafoedd byd;
 Aent i gasglu prynedigion,
 Iesu ato ef i gyd;
 Ffrwyth o'i lafur, I'w ddiwallu byth, Amen.
 T. J.

HYMN LXXVIII. (8. 7. 4.)

Y Cwmwl bychan, 1 Bren. xviii. 41.

- 1 **B**ETH yw'r cynhwrf yn ein dyddiau,
 Am led-daenu geiriau Duw ?

- On'd yw hyn yn arwydd goleu,
Llaw'n o ras i ddynol ryw?
Gras y nefoedd, Sydd yn esgor ar ei ddawn.
- 2 Seiniwn gân, a llon ddiolchwn,
Cododd cwmwl bychan draw;
Mae'n ymchwyddo, mi dybygwn,
Y mae'n arwydd pwys o wlaw:
Trwst cawodydd, Dwys sydd yn addewid Duw.
- 3 Cwmwl bychan mewn cychwyniad,
Fel cledr llaw mewn lled a hyd,
O ddyfnderoedd môr mae'r tarddiad,
Daw'n llifeiriant dros y byd:
Mae'r addewid, Heddyw'n llwythog lawn o rás.
- 4 On'd oes ambell un yn erfyn,
Gan ymdrechu yn y gwaith?
Fel Elias maent yn gofyn,
Gwlaw ar ol y sychder maith;
Na ddiffygient, Daw ar fyr y seithfed tro.
- 5 Mewn ymbiliau'n daer erfyniwn,
Tra parhâo dyddiau'n hoes;
Ac mewn llafur na ddiffygiwn,
Ffrwyth a ddaw o waed y groes:
Caiff cenedloedd, Brawf o rinwedd dwyfol hwn.

T. J.

—◆—
HYMN LXXIX. (8. 7. 4.)

Nerthoedd cariad Crist.

- 1 **T**RECH yw cariad nag afonydd,
Creulonach yn ei rwysg na'r bedd;
Fflam angerddol o'r uchelder,
Cariad y cyfammod hedd:
Anorchfygol, Yw ei gariad dwyfol ef.
- 2 Cariad Tad a welai'n rhoddi,
Cariad Meichai welai'n un,

'N ymafïyd yn y gwpan chwerw,
 A'i hyfed tros y marwol ddyn:
 F'enaid cofia, Cân a diolch byth am hyn.

- 3 Llamu wnaeth dros bob mynyddoedd,
 Neidiodd tros y brynïau'n un;
 Nid oedd dyfroedd all'sai oeri,
 Ei gariad at y marwol ddyn:
 O anfeidrol, Râs ei gariad dwyfol ef.

R. J.

HYMN LXXX. (8. 7. 4.)

Nos Sabbath.

- 1 **D**UW'R bendithion yw dy enw,
 Cyfranu'r wyt yn helaeth iawn,
 'Nol cyfranu yn y boreu,
 Cyfranu eilwaith y prydawn;
 Dyro fendith, Etto'n rhagor yma i lawr.

HYMN LXXXI. (8. 7. 4.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **T**AENED gwir Genadon Iesu,
 Air y bywyd tros y byd;
 Haul cyfiawnder fo'n tywynu,
 Dros ei gonglau oll i gyd;
 Gair yr Arglwydd, Yn ei lwydd a redo 'mlaen.
- 2 Sôn am Iesu aed i ddryllo,
 Holl gyndynrwydd India fawr,
 Sôn am angeu Crist ddymchwelo,
 Gau grefyddau'r byd i lawr;
 Neb ond Iesu, Fyddo Brenin dynolryw.
- 3 Hen Efengyl f'on prysuro,
 Hilio'r byd yn gyflym iawn;
 Coder gweithwyr i ddadseinio,
 Angeu'r groes, a'i haeddiant llawn,
 Trefn Cymodi, Elo'n gyhoedd dros y byd.

- 4 Pelledigion byd fo'n clywed,
 Son am aberth Calfari;
 Rhin y ffynnon sy'n agored
 I bechodau atgas ri;
 Fel bo'r Iesu, A'i rinweddau oll yn oll.
 R. J. LL—LL.

—◆—

HYMN LXXXII. (8. 7. 6.)

Galwad yr Efengyl.

- 1 DEUWCH hil syrthiedig Adda,
 Daeth y Jubil fawr o hedd,
 'R ys yn galw pawb o'r enw,
 I fwynhau tragwyddol wledd;
 Bwrdd yn llawn, yma gawn,
 O foreu-ddydd hyd brydnawn.
- 2 Dewch y deillion, dewch y cloffion,
 Dewch y gwywedigion rai,
 Ymadewch o'r blaen ag oeddech,
 Yn cael pleser i'w fwynhâu;
 Chwi gewch win, nefol rin,
 Yma yw yfed yn ddibrin.
- 3 Ceisiwch wisgoedd y briodas,
 Gwisgoedd hyfryd hardd eu lliw,
 Nid oes enw teilwng arnynt,
 Ond cyfiawnder pur fy Nnw,
 Lliain main, ydyw'r rhai'n,
 Sydd yn cuddio pob rhyw 'staen.
- 4 Dyma'r wledd y cewch ddanteithion,
 Yma cewch faddeuant rhad;
 Yma cewch chwi brofi'r cariad,
 Hedd yn nofio yn y gwaed;
 Dewch yn awr, dyrfa fawr,
 Ac eisteddwch yma 'lawr.

- 5 Yma cewch chwi wel'd y ffynnon,
 Dwr a gwaed yn afon fawr,
 O'r archollion wnaeth y bicell,
 Ar Galfaria'n dod i lawr,
 Cewch lanhad a iachâd,
 Cewch eich beiau tan eich traed.

W. W.

—◆—

HYMN LXXXIII. (8. 7. 6.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **A** RGLWYDD anfon dy leferydd,
 Heddyw yn ei rwysg a'i rym,
 Dangos fod dy lais yn gryfach
 Nag all dyn wrthsefyll ddim ;
 Cerdd y'mlaen, nefol dân,
 Cymer yma feddiant glân.

- 2 Dere Iesu i'r ardaloedd,
 Lle teyrnasa tywyll nos,
 Na'd fod rhan o'r byd heb wybod,
 Am dy chwerw angeu loes,
 Pa'm bydd poen, addfwyn Oen,
 Am dano yn eitha'r byd heb son.

- 3 Mae'r efengyl wen yn curo,
 Ac yn codi baner gras,
 Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,
 Ar y mynydd, yn y maes ;
 Y mae llef, bur y nef,
 Yn cyhoeddi ei haeddiant ef.

- 4 Aed i'r dwyrain a'r gorllewin,
 Aed i eitha'r India draw,
 I fod hoelion dur cadarnaf,
 Yn ei draed ac yn ei law,
 Doed y'ng hyd, eitha'r byd,
 I wel'd tegwch dy wynebpryd.

W. W.

HYMN LXXXIV. (8. 7. 6.)

Dyogelwch a dymuniad y Cristion.

- 1 **D**ACW gariad fel yr afon,
 Dacw heddwch fel y llif,
 Wedi'm mrodyr gael ei feddu,
 Frodyr anwyl fwy na rhif;
 Gyda hwy, caiff fod mwy,
 F' enaid heb na briw na chlwy.
- 2 **Mi** gaf fod o flaen yr orsedd.
 Mi gaf ganu'r anthem bur,
 Pan ddarfyddo son am ddaear,
 Son am foroedd, son am dir;
 Dwyfol loes, anghu'r groes,
 Fydd y canu ddydd a nos.
- 3 **Minau** bellach orfoleddaf,
 Mae fy mywyd gwerthfawr iawn,
 Wedi ei roddi y'nghudd i gadw,
 Mewn Cyfryngwr perffaith llawn:
 Abl yw, mae fe'n Dduw,
 Ceidw f' enaid bach yn fyw.
- 4 **Rho** i mi yfed 'rwy'n sychedig,
 Ddwr y ffynnon loyw lawn,
 Darddodd allan o dy ystlys,
 Ar Galfaria un prydawn;
 Gwaed fy Nuw, unig yw,
 Ylch fy meiau dua'i rhyw. W. W.

HYMN LXXXV. (8. 7. 6.)

Y sylfaen safadwy.

- 1 **N**'AD fi adeiladu'n ysgafn,
 Ar un sylfaen is y ne',
 Na chymeryd craig i orphwys,
 Tu yma i anghu yn ei le;
 Ti fy Nuw, tra f'wy' byw,
 Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.

- 2 Dyma'r maen sydd yn y gongl,
Dyma'r gareg werthfawr bur,
Gloddiwyd allan yn y bryniau,
Bryniau trag'wyddoldeb dir :
Nid oes le, is y ne,
I adeiladu ond efe.
- 3 Byth ni dderfydd canu am dano,
Byth ni dderfydd am ei glod ;
Tra fo caru, pery canu,
Caru sydd heb ddechreu'n bod ;
Nefoedd fry'n gyson sy,
Oll yn canu i'm Harglwydd cu.
- 4 Minau'r gwaela o bechaduriaid,
Yn y diwedd ro' fy nhroed,
Ar y graig sydd yn y moroedd,
Craig gadarna fu erioed !
Ceidw hon, ar bob tòn,
Ofnau' ffwrdd o dan fy mron. W. W.

◆

HYMN LXXXVI. (8. 7. 6.)

Gweddi a hyder y Cristion.

- 1 **O** GAD i mi'n fuan Arglwydd,
Glywed geiriau dystaw'r ne',
Rhag i'm redeg heb i'm wybod,
Ar ryw law, i maes o'm lle ;
Yn dy law, heb ddim braw,
Cerddai'n union yma a thraw.
- 2 Af y'mlaen a doed a ddelo,
Tra bo hyfryd eiriau'r Nef,
Yn cyhoeddi iachawdwriaeth,
Lawn o'i sanctaidd enau ef ;
Nid yw grym, gelyn llym,
I'w anfeidrol ras ef ddim.
- 3 Dal fi'n gadarn hyd nes delo,
Amser hyfryd o ryddhau,

A chael yn lle temtasiynau,
Yn dragywydd dy fwynhau ;
Dyna'r pryd, gwyn fy myd,
Derfydd fy ngofidiau i gyd.

- 4 Angeu bellach gwna dy waetha,
Nid yw'th ddychryniadau ddim,
Mwy o hedd sy mhen Calfaria,
Nag sydd yn dy saethau o rym ;
Mi af trwy, farwol glwy',
'N erbyn tönau mawrion mwy. W. W.

HYMN LXXXVII. (8. 7. 6.)

Dysgwyliad y Cristion.

- 1 **M**I debygwn gwelai'r bore,
Haul yn codi oddi draw,
Iachawdwriaeth rad yn nesu,
Hedd a phardwn yn ei llaw,
Y mae'r wawr, hyfryd awr,
Bron a thori maes yn awr.
- 2 Minau ar y mur ddysgwyliaf,
Gwn nad oeda dim o'i droed,
Ni w'radwyddwyd is y nefoedd,
Neb ddysgwyliodd wrtho erioed ;
Pan ddel dydd, mi a'n rhydd,
O'r hyn yn fy mhoeni sydd.
- 3 O na welwn gopa'r bryniau,
Lle mae fy anwyl i yn byw,
'Rwyf yn caru'r gwynt sy'n 'hedeg,
Tros fy Nghanaan hyfryd wiw ;
'Fedd y llawr, ddim yn awr,
Leinw le fy Arglwydd mawr.
- 4 Dere bellach, dere yn ebrwydd,
Ac anadla'r gwyntoedd cry'
Sydd yn nerthu'r pererinion,
I wynebu g'lynion hy ;
Yn gwneud grym, satan lym,
Mewn mynydyn fyn'd yn ddim. W. W.

HYMN LXXXVIII. (8. 7. 6.)

Taith yr anialwch.

- 1 **A**ROS Iesu yn y rhyfel,
 F' enaid yn lluddedig sydd ;
 Ti biau drysu fy ngelynion,
 Ti biau'r enw, ti biau'r dydd :
 Yn dy ddawn, unig cawn,
 Fuddugoliaeth werthfawr iawn.
- 2 Minau gerddaf trwy'r byddinoedd,
 Ond it' gerdded o fy mlaen ;
 Mae dy gamrau'n tori'r tônau,
 Mae dy gamrau'n diffodd tân :
 'N ôl dy droed, gwna i mi ddod,
 Fy hyfrydwch mwya' erioed.
- 3 Mae dy air yn abl fy arwain,
 Trwy'r anialwch mawr yn mlaen,
 Mae e'n golofn oleu eglur,
 Weithiau o niwl, ac weithiau o dân,
 Mae'n ddible, ynddo fe,
 Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.
- 4 Da i mi fod yr addewid,
 Wedi ei rhoddi gan fy Nuw,
 A bod gair o enau'r Brenin,
 Uwch gelynion o bob rhyw ;
 Ei 'ddewid ef, gadarn gref,
 Arwain eiddil gwan i'r nef.
- 5 Tyred Arglwydd ar amseroedd,
 Mae fy enaid am fwynhau,
 Pur dangnefedd heb dymhestloedd,
 Cariad hyfryd a didrai ;
 Gwledd o hedd, tu yma i'r bedd,
 Nad oes ond dy blant a'i medd. W. W.

HYMN LXXXIX. (8. 7. 6.)

Israel yn yr anialwch.

- 1 **R**HWNG Pih'iroth a Baalsephon,
Tra f'wy' byw mi gofia'r lle,
Mewn cyfyngder eitha' caled,
Gwaeddodd f' enaid tua'r ne';
Yn ddioed, dyma'n dod,
Waredigaeth f'wya' r'ioed.
- 2 Aros ronyn (barwyd i mi,)
Ti gai weled cyn prydawn,
Fyrdd yn soddi yn y dyfnfor,
O elynion creulon iawn;
Maes o law, gwynfyd ddaw,
Ti gai ganu'r ochr draw.
- 3 Dacw'r gelyn ebe f' Arglwydd,
Ganwaith faeddodd d' enaid gwan,
'Nawr yn methu gan y tônau,
Godi ei wyneb dig i'r lân;
Tyr'd y'mlaen, dechreu'th gân,
Dy holl elynion boddi wnan.'
- 4 Y mae dyfroedd Mara yn chwerw,
Fyth i'w hyfed ddydd a nos,
Iesu gwyddost ti beth ydyw,
Dwyn y bwysig boenus groes;
Rho i mi wir, gariad pur,
Ffrwythau peraidd Canaan dir.
- 5 O gwna i mi brofi sypiau,
Sypiau peraidd rawn y wlad,
Blas maddeuant pur a heddwch,
Gwleddoedd hyfryd tŷ fy Nhad,
Dyma hwy, perlau mwy,
Gloddiwyd yn ei farwol glwy.

W. W.

HYMN XC. (8. 7. 6.)

Y Nefoedd.

- 1 **D**ACW'R hyfryd fan ca'i drigo,
Gwn ca'i drigo cyn bo hir,

Draw i'r bryniau oer tymhestlog,
Yn y sanctaidd hyfryd dir ;
Gwelai'n awr, foreu wawr,
Glir, o dragwyddoldeb mawr.

2 O ddwyreindir gras mae'n t'wynu,
Lle mae teml fawr fy Nhad,
Lle mae'r arch, a lle mae'r manna,
Lle mae'r drugareddfa råd ;
Un prydawn, chwervw gawn,
Yno wed'yn, diengu wnawn.

3 Ni gawn yno wel'd a garwn,
Mewn gogoniant llawer mwy,
Nag y gwelsom E' ar y croesbren,
Tan ei farwol ddwyfol glwy' ;
Lluoedd mawr, sydd yn awr,
Yn ei garu bob yr awr.

4 Ni gawn wel'd a'i carodd yma,
Yn y man yr ochr draw,
Oll yn gwledda ar ei gariad,
T'lynau euraidd yn eu llaw ;
Oll yn un, a chytun,
Yn moli'r Duwdod yn y dyn.

W. W.

—◆—
HYMN XCI. (8. 7. 6.)

Dyoddefaint Crist.

1 **D**ACW'R ffynnon wedi ei hagog,
A ddysgwyliwyd amryw oes ;
'Nawr yn llifo fel y grisial,
Maes o'i ystlys ar y groes ;
Dwr a gwaed, rydd iachâd,
I'r pechadur mwya' gaed.

2 Dacw'r hoelion geirwon llymion,
Wedi eu curo'n awr i dre,

Dacw'r bicell yn trywanu,
 I mewn o dan ei ystlys E';
 Dacw boen, addfwyn Oen,
 Yn rhoi'r nefoedd 'dewi son.

3 'Nawr mi glywa'r gair "Gorphenwyd!"
 Gorphen iachawdwriaeth wir!
 Ac mi wela'r gwaed yn hidlo,
 Tros ei ruddiau sanctaidd pur!
 Wele'r nef, gadarn gref,
 'Nawr yn t'wyllu wrth ei lef.

4 Dyma'r creigydd serth yn rhwygo,
 Dyma'r meirw'n codi'n fyw;
 Pwy greadur ag all ddyoddef,
 Gruddfan chwerw f' Arglwydd Dduw;
 Ochain mae, fe gadd wae,
 Fel cawn inau fy rhyddhau.

5 Minau bellach a obeithaf,
 Gobaith ag all estyn f' oes;
 Gobaith wedi ei sylfaenu,
 Ar och'neidiau pur y groes;
 Dyma wlad, caf iachâd,
 A chaf gyflawn wir ryddhad. W. W.

◆

HYMN XCII. (8. 7. 6.)

Y Prynwr mawr.

1 **WELE** cawsom y Messiah,
 Cyfaill gwerthfawroca' 'rioed;
 Darfu Moses a'r prophwydi,
 Ddweyd am dano cyn ei ddod:
 Iesu yw, Gwir Fab Duw,
 Ffrynd a Phrynwr dynolryw.

2 Hwn yw'r Oen ar ben Calfaria,
 Aeth i'r lladdfa yn ein lle;
 Swm ein dyled mawr fe'i talodd,
 Ac a groesodd *filiau*'r ne;

Trwy ei waed, i ni caed,
Fythol heddwch a rhyddhad.

- 3 Dyma gyfaill haedda'i garu,
A'i glodfori'n fwy nag un :
Pryn'u bywyd, talu'n dyled,
A'n glanhau a'i waed ei Hun !
Frodyr dewch, llawenhewch,
Diolchwch iddo, byth na thewch. D. J.

—◆—
HYMN XCIII. (8. 7. 6.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **M**AE llafur enaid y Messiah,
Yn ngwlad Caffraria yn cyffroi,
Trigolion gwylltion y mynyddoedd,
A'r dyffrynoedd yn deffroi ;
Efengyl Duw, amlwg yw,
Sy'n codi'r meirw i fynu'n fyw.
- 2 Mae'r nos yn ffoi a'r dydd yn nesu,
A'r wawr yn dechreu ymledu y'mlaen,
Mae'n mysg paganiaid meirw y'morol,
Am Ben y gongol, fywiol faen :
Rhyw lwyddiant mawr, sy'n nesu yn awr,
Ar ol cymylau, wele wawr !
- 3 Daw'r Hottentots i ganmawl Iesu,
A ninau, Gymry, yn un gân ;
Cydseiniwn am ei Iachawdwriaeth,
Ei Air, a'i Benarglwyddiaeth glân :
Daw pawb un llef, yn nheyrnas nef,
I uchel-floeddio, "Iddo Ef." E. J.

—◆—
HYMN XCIV. (8. 7. 6.)

Rhinweddau aberth Crist.

- 1 **W**ELE'N chwysu'r dafnau gwaedlyd,
Ar noswaith rewlyd yn yr ardd ;

Iesu siriol, Rosyn Saron,
 O hwn bendithion pawb a dardd ;
 Ein bara byw, a'n haberth yw,
 Dyoddefodd dân digofaint Duw.

- 2 Dod gyfiawnder y Messiah,
 I ddod am danaf i'th wýdd di ;
 A dod gyfiawnder egwyddorol ;
 Anian fywiol ynof fi :
 O na bawn, lestr llawn,
 O bob rhinweddol ddwyfol ddawn. E. J.

—◆—
 HYMN XCV. (8. 7. 6.)

Y Messiah mawr.

- 1 MAWR oedd Iesu yn yr arfaeth,
 Mawr yn y cyfammod hedd ;
 Mawr yn Methle'm a Chalfaria,
 Mawr yn adgyfodi o'r bedd ;
 Mawr a fydd, Ef rhyw ddydd,
 Pan ddel Sion oll yn rhydd.

—◆—
 HYMN XCVI. (8. 7. 6.)

Caniadau mynydd Sion.

- 1 WELE'R Oen ar fynydd Sion,
 'Nawr a'i weision gydag ef ;
 Dwyn maent enw'u Tad a'u Harglwydd,
 Dyma arwydd Brenin nef :
 Wele'r llu, sanctaidd sy
 'N teithio tua Salem fry.
- 2 Pedair mil a saith ugeinmil,
 Dyma lu ofnadwy iawn,
 Oll yn canu eu telynau,
 O foreuddydd hyd brydnawn ;
 Uchel lef, gadarn gref,
 Yn moliannu Brenin nef.

- 3 Newydd byth a fydd eu hanthem,
 Cân briodol iddynt hwy ;
 Ger bron nefoedd a'r orseddfainc,
 Canant am ei farwol glwy' ;
 Yn un llef, groyw gref,
 Oll dywedant, " Iddo Ef."
- 4 Ni wŷr neb ond sydd brofiadol,
 Am yr anthem ddwyfol hon :
 " Hedd, maddeuant glân, a chymmod,
 A thangnefedd dan fy mron ;"
 Dyma yw, rasol ryw,
 Gân holl waredigion Duw. R. J.

◆

HYMN XCVII. (8. 8. 8.)

Taith yr anialwch.

- 1 **M**^I deithiais ran o'r anial maith,
 'Dwy'n deall pellder pen fy nhaith,
 Mewn gwledydd sychion dwfr nid oedd :
 Yn awr 'rwyn dysgwyl foreu a nawn,
 O'r nefoedd ddwfr a sypiau grawn,
 Wna'm henaidd egwan wrth ei fodd.
- 2 O'r graig y mae'n dylifo maes,
 Yn afon ddysglaer loyw las,
 Sef craig yr oesoedd gadarn yw ;
 A thyna'r man y gwnaf fy lle,
 Tan gysgod tawel furiau'r Ne',
 Lle caf ddyddanwch tra f'wyf byw.
- 3 Rwy'n cofio gair fy Iesu mawr,
 Y doi'r Dyddanydd atta'i lawr,
 Na chawn i farw o dristwch mwy ;
 O Dduw cyflawna'th air i ben,
 Rho im' Arweinydd is y nen,
 Ddangoso'r ffordd, iachäo nghlwy'.
- 4 Mae brodyr i mi aeth y'mlaen,
 Trwy ddyfnach dwr a phoethach tân,
 Ac etto gorchfygasant hwy,

Dyw'r dyfroedd aethum trwyddynt ddim,
Mewn lled a dyfnder nerth a grym,
Paham yr ofnaf finau mwy ?

- 5 Yn ymchwydd yr Iorddonen gref,
Dal f' enaid afael ynddo ef ;
Mae'r tònau'n fawrion iawn eu grym,
Af trwyddynt er nad wyf ond gwan,
Os cedwi di fy mhen i'r làn,
Fydd tònau mawrion i mi ddim. W. W.

—◆—
HYMN XCVIII. (8. 8. 8.)

" Ffordd yr holl ddaear."

- 1 **M**AE dydd at ddydd yn dod i ben,
A'm taith drafferthus is y nen,
Fe ddirwyn amser at y nôd ;
Ac yno mhechod a gaiff friw,
A thyna'r pryd concweria'm Duw,
Bob rhyw ffeidd-dra fu ynwy' erioed.
- 2 Wel dere ddedwydd hyfryd ddydd,
Rho fy nghadwynau tyn yn rhydd,
Gad i mi brofi'r hyfryd wledd :
Lladd anghrediniaeth sydd yn awr,
Yn curo f' enaid bach i lawr,
Ac ymaith tyn holl ofnau'r bedd.
- 3 Os ydwyf am fy nhori i lawr,
O dwrf a dwndwr daear fawr,
A'm rhoddi i orwedd yn y bedd :
O anfon waedd ar fore-ddydd,
O'm rhwymau mawr i'm rhoddi'n rhydd,
I fyw byth bellach yn dy hedd.
- 4 Dwy'n ofni ond yr afon ddu,
Sydd rhyngwy' a fy nghartre fry,
Yr angeu glas wnaeth fyrdd yn wan :
Fy enaid 'mafael yno'n llaw,
Yr hwn ei hun aeth trwyddi draw,
Ac yn ei law mi dd'of i'r làn.

- 5 'Dwy' 'nabod dim o'r nefol le,
 Ond gwynfyd a fa'i ynddo fe,
 Rwy'n caru pawb o fewn y wlad;
 Y dymher nefol fwyn sydd fry,
 Yn awr ddymunwn genyf fi,
 Fy nghartref ydyw tŷ fy Nhad. W. W.

—◆—
 HYMN XCIX. (8. 8. 8.)

Angeu'r groes.

- 1 NIS gall angelion nef y nef,
 Fynegi maint ei gariad ef,
 Mae angeu'r groes yn drech na'u dawn:
 Bydd canu uwch am Galfari,
 Nag glywodd yr angelion fry,
 Pan ddelo Salem bur yn llawn.
- 2 Nis teimlodd neb ond ef ei hun,
 Anfeidrol werth fy enaid cun,
 Uwch da, uwch aur, uwch perlau drud;
 Ni thalai dim ond gwaed fy Nuw,
 Angeuol farwol loes a byw,
 A'm prynai o dragwyddol lid.
- 3 Y penaf drysor heddyw yw,
 O fewn y nefoedd gwaed fy Nuw,
 Holl sylwedd y caniadau i gyd:
 A thyna'r gwaed a roddodd iawn,
 I ddwyfol ddigter perffaith llawn,
 Fy hedd a'm cysur yn y byd.
- 4 Am iddo farw ar y bryn,
 Cadd f'enaid bach ei brynu'n llyn,*
 A'i dynu o'i gadwynau'n rhydd;
 Byth bellach tan ei haeddiant ef,
 Fel cysgod cedrwydden gref,
 Gorphwysai mwy y'ngwres y dydd.

* Mae y geiriau "yn llyn" ac "fel hyn" yn gyfystyr.

- 5 Boed oesoedd meithion fwy na mwy,
 Heb rif, heb ddarfod arnynt hwy,
 I ganu am dy ddirfawr boen :
 Na thawed tafod o unrhyw,
 Na dim o dan y nef sy'n byw,
 Ond sôn am goncwest addfwyn Oen.

W W.

—◆—
 HYMN C. (8. 8. 8.)

Concwest Calfaria.

- 1 **G**WNAED concwest ar Galfaria fryn,
 Am dano canodd myrdd cyn hyn,
 Fe faeddwyd uffern faith i gyd :
 Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
 Fe wnaed y ddwyblaidd ddig yn un,
 A gwaed Iachawdwr mawr y byd. M. R.
- 2 O dyma ddyfais fwya'i maes,
 Fwya'i chariad, fwya ei gras,
 Agorodd ffordd o'r ddae'r i'r nef;
 Cariad heb gymhar iddo'r un,
 A nofiodd yn ei waed ei hun,
 Trwy angeu oedd ei gariad ef.
- 3 Fe gongcrodd trwy angeuol glwy,
 O elynion creulon nerthol fwy,
 Nag all'sai byd eu congcro'n un :
 Fe faeddodd uffern eang lawn,
 Ar ben Calfaria un prydawn,
 Yn lân heb neb ond ef ei hun.
- 4 Doed bellach Indiaid pella'r byd,
 Doed gogledd, dwyrain, de y'nghyd.
 Canent ei iachawdwriaeth ef;
 Dadseinied holl dafodau'r byd,
 Ag euraidd d'lynau'r nef y'nghyd,
 Na pheidient tra fo nef y nef.

- 5 O dewch y'mlaen yn ddi-nacad,
 Mi glywa swm caniadau'r wlad,
 Peth o'r gorfoledd, peth o'r clod ;
 Difyrwch yn nghwmpceni Duw,
 Nad oes o dan y ser yn byw,
 Adnabu am ei fath erioed. W. W.

—◆—
 HYMN CI. (8. 8. 8.)

Y Cyfaill goreu.

- 1 **W**EL dyma'r cyfaill goreu gaed,
 Mae'n gan-mil gwell na mam na thad,
 Yn mhob caledi ffyddlon yw:
 Mae'n medru maddeu a chuddio bai,
 Ac o'i wir fodd yn trugarhau,
 Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw. M. R.
- 2 Y sawl a'th gaffo gwyn fyd hwy,
 Ni allant byth ddymuno mwy ;
 Ti lenwi eu heisiau' gyd o'r bron ;
 Mae môr a thir, a da a dyn,
 Oll yn dy heddwch di dy hun,
 A mwy na fedd y ddaear hon.
- 3 Anghenus wyf bechadur gwan,
 Am hyn 'rwy'n tynu tua'r lân,
 Yn gweled digon gan fy Nuw :
 Trysorau pe cawn eu mwynhau,
 A laddai ngofid, laddai ngwae,
 Ac a ngwnai'n llawen tra fawn byw.
- 4 O ddedwydd nefol hyfryd awr,
 Caf roddi meichiau trwm i lawr,
 Ag sy'n fy mlino foreu a nawn ;
 A myn'd i wlad lle nad oes bai,
 Ond cariad perffaith i barhau,
 Llawenydd pur a heddwch llawn. W. W.

HYMN CII. (8. 8. 8.)

Rhyfeddodau'r Groes.

- 1 **N**I welodd llygad dyn erioed,
 Ni chlywodd clust o dan y rhôd,
 Am neb cyffelyb iddo ef:
 O rosyn Saron, hardd ei liw,
 Pwy ddyd i maes rinweddau'm Duw,
 Efe yw bywyd nef y nef.
- 2 Mae yn ei glwyfau drysor drûd,
 I faddeu beiau pena'r byd,
 O flaen yr orsedd bura sydd:
 Ni all euogrwydd yno ddim,
 Fe gyll deddf Sinai oll ei grym.
 Maddeuant perffaith garia'r dydd.
- 3 'Does un aflendid unrhyw fai,
 Nad yw ei haeddiant yn glanhau;
 Pechodau dua' glywid son,
 A foddir yn yr afon fawr,
 Mewn amryw liwiau ddaeth i lawr,
 O ystlys addfwyn nefol Oen.
- 4 Mi gara fy anwylyd mwy,
 Dyoddefodd drosyf farwol glwy',
 Agorodd ffynnon loyw fyw;
 I olchi hen archollion wnaed,
 Gan bechod cas o'm pen i'm traed,
 Y dyfroedd dardd dan groes fy Nuw.
- 5 Fe all yr Indiaid pella gaed,
 I wel'd yr hoelion yn ei draed,
 A gwel'd ei bèn yn crymu lawr;
 Fe ylch y palledigion hyn,
 Yn ganaid fel yr eira gwyn,
 Oddiwrth eu beiau fach a mawr.

W. W.

HYMN CIII. (8. 8. 8.)

Hyder y Cristion.

- 1 **W**EL f' enaid cerdd y ffordd yn hŷ,
 Yn union tua Sion frŷ,
 A chadw'th lygaid ar y nôd;
 Calfaria fryn lle gweli'r groes,
 A'i haberth arni tan ei loes,
 Rhyfeddod mwya'r nef erioed.
- 2 Mae meddwl am yr oriau pur,
 Cáf rodio'r Baradwysaidd dŷr,
 Ac yfed pleser sy'n parhau;
 Mewn gwlad heb lewyrch haul na lloer,
 Na therfysg tŷr na thwrf y môr,
 Yn fy rhoi'n awr i lawenhau.
- 3 Datguddia'n gyflawn i mi ar frys,
 Ogoniant maith dy nefol lŷs,
 Didranc bleserau'r sanctaidd dŷr :
 O dangos im' mai ti yw'm rhan,
 A d'wed cai ddyfod yna i'r làn,
 I'th gyflawn weled cyn bo hir.
- 4 Fe welir Sion fel y wawr
 Er tloted yw eu gwêdd yn awr,
 Yn dod o'r cystudd mawr i'r làn;
 Heb glâf na chlwyfus yn eu plith,
 Yn y cyfiawnder dwyfol byth,
 Saif yn y diwedd yn eu rhan. W. W.

HYMN CIV. (8. 8. 8.)

Codi'r Groes.

- 1 **A** RAID i gystudd garw'r groes,
 I ganlyn f' ysbryd ddydd a nos?
 Os rhaid gwna fi'n foddlon iawn :
 Tan ganu gwna fi fyn'd y'mlaen,
 Sef canu yn y dwr a'r tân,
 O foreu mywyd hyd brydnawn.

- 2 **D**anfon i mi'r Dyddanydd pur,
 Y golofn dân mewn anial dir,
 Sy'n ledio'r praidd o'r Aipht i'r nef;
 Yr hwn a'i oleu perffaith sydd,
 Yn gwneuthur nos yn ganol dydd,
 Fy holl ddyddanwch ydyw ef.
- 3 **M**i dora'r c'lymau oll i gyd,
 Sydd rhyngwy' a gwrthddrychau'r byd,
 A phob cariadau gwag y llawr:
 Mi 'dawaf enwau brawd a ffrind,
 A châr a phriod anwyl fyn'd,
 Yn ddim er mwyn dy enw mawr.
- 4 **M**ae'th drugareddau maith eu rhin,
 Yn d'od i lawr fel melys win,
 O oes i oes heb dranc heb drai;
 Dy gariad sy'n anfeidrol 'stôr,
 Yn gyflawn berffaith fel y môr,
 Ac yn dragwyddol yn parhau. W. W.

—◆—

HYMN CV. (8. 8. 8.)

Y Nefoedd.

- 1 **M**I welaf fyrdd yr ochr draw.
 O rai 'maffasant yn ei law,
 Yn canu heddyw yn beraidd iawn;
 Mae ofnau yn darfod yn y wlad,
 Lle mae fy Nuw, lle mae fy Nhad,
 Ac yn eu lle llawenydd llawn.
- 2 **O** hyfryd ddedwydd nefol le,
 Gwynfyd bob rhai sydd ynndo fe,
 Y ddinas ddysglaer nefol glir;
 Y man na fu, y man nad oes,
 Na phoen, nac ing, na gwae, na loes,
 Ond heddwch llawn a chariad pur.
- 3 **A** thyma'r wlad y ffy pob gradd,
 O'r ofnau mawrion sy am fy lladd,

'Ddaw aeth nac arswyd yno ddim ;
 Y gelynion sy yma yn y byd,
 A rwymir y pryd hyny 'nghyd,
 Er maint eu rhwysg er maint eu grym.

- 4 'Ddaw anghrediniaeth cadarn cry',
 Fyth, fyth o fewn i'r Ganaan fry,
 Na chariad chwerw câs y byd ;
 A miloedd mwy gynddeiriog radd,
 Sydd yn yr anial bron fy lladd,
 Yn 'sgubau rhwymir yno 'nghyd.

W. W.

—◆—
 HYMN CVI. (8. 8. 8.)

Duw, noddfa'r Saint.

- 1 **D**UW yw fy nerth a'm noddfa lawn,
 Mewn cyfyngderau creulawn iawn,
 Pan galwom arno mae gerllaw,
 Ped ai'r mynyddoedd mwya i'r môr.
 Pe chwalai'r ddaear fawr a'i stôr,
 Nid ofnai'm henaid i ddim braw.
- 2 A phe doi'r moroedd tros y byd,
 Yn genllif garw coch i gyd,
 Nes soddi'r bryniau fel o'r blaen :
 Mae afon bur i lawenhau,
 A'i ffrydiau, ddinas Duw'n ddi-drai,
 Preswylfa ei saint, a'i babel lân.
- 3 A Duw sydd yno yn eu plith,
 Ni 'sgogir un o honynt byth,
 Fe'u cymhorth hwy yn foreu iawn ;
 Y boreu byddo mwy na mwy,
 O bob gwasgfeuon arnynt hwy,
 Ceir gwel'd ei 'ddewid ef yn llawn.
- 4 Terfysgodd cephedlaethau'r byd,
 A breniniaethau aeth yn llid,
 Yn erbyn ei Enneiniog ef ;

Ing, cyfyng-gynghor, llewygfan,
Ac arswyd ddaeth ar gedyrn rai,
Y ddaear doddodd gan ei lef.

- 5 Arglwydd y lluoedd sydd o'n plaid,
Duw Iago'n gymhorth in' wrth raid,
Gobeithiwn ynddo byth am hyn;
Dewch 'drychwch ar ei ryfedd waith,
Fath ddystryw wnaeth trwy'r ddaear faith,
Mae'n siwr bydd yn amddiffyn in'.
- 6 Fe wnaeth ryfeloedd mawr eu llid,
I beidio hyd eithafoedd byd,
Y cedyrn mawr ddychryna o'i flaen;
Fe ddryllia'r bwa dur yn glau,
Fe dŷr y waywffon yn ddau,
Fe lysg eu holl gerbydau â than.

W. W.

HYMN CVII. (8. 8. 8.)

Annog y Saint i foli Duw.

- 1 **D**DATGENWCH glod yr Arglwydd nef
Ei hen drugaredd rasol ef,
O oes i oes sydd yn parhau :
O! chwi holl waredigion Ior,
O! cenwch hyn ar dir a môr,
Mae'n para byth i drugarhau.
- 2 Rhai a waredodd ef trwy ras,
Y rhai a gasglodd, er eu câs,
O'r tiroedd gwasgaredig pell ;
O'r dwyrain a'r gorllewin dir,
O'r gogledd ac o'r dehau'n wir,
I 'mofyn am orphwysfa well.
- 3 Tywysodd hwynt hyd ffordd oedd iawn,
O'i ras a'i ddoeth ryfeddol ddawn,
I ddinas gyfanneddol glyd :

O! na foliannent hwy, bob awr,
Yr Arglwydd a'i ddaioni mawr,
Gan gofio ing Iachawdwr byd. R. J.

—◆—
HYMN CVIII. (8. 8. 8.)

Dwyn y pell yn agos.

- 1 **O!** F' ENAID gwel ar Galfari,
Ei ras a'i gariad fel y lli',
Iesu yn marw ar y pren,
Yn aberth dros yr euog rai;
Gael modd i faddeu pob rhyw fai,
Gruddfanodd ef nes rhwygo'r llen.
- 2 Unwaith, trwy ddyoddef angeu loes,
Gwnaeth ffordd agored ar y groes,
I'r pelledigion gael neshad;
Fe dynodd, do, y canol fur,
Pan yfodd waddod cwpan sur—
Mae iachawdwriaeth yn ei waed.
- 3 Mae modd i'r caethion gael rhyddhad,
A'r gwahan-gleifion wir iachad,
A'r pell eu dwyn i ddinas Duw.
O! doed y byddar, mud, yn awr,
A'r dall, i wel'd goleuni mawr—
Nesewch y'nghyd, dydd achub yw.
- 4 Mae'r cloff yn llamu fel yr hydd,
A'r meirw'n codi. Dyma'r dydd,
Gorchfygodd Iesu ar y groes:
O! chwi genhedloedd, dowch y'nghyd,
O holl ynysoedd pella'r byd,
I brofi rhinwedd dwyfol loes. R. J.

—◆—
HYMN CIX. (8. 8. 8. 6.)

Cariad Iesu.

- 1 **W**EL dyma'r cariad sydd yn awr,
Yn curo pob cariadau i lawr,

Yn llyncu enwau gwael y llawr,
 Oll yn ei enw ei hun :
 O fflam angerddol gadarn gref!
 O dân ennynwyd yn y nef,
 Trag'wyddol gariad ydyw ef,
 Wnaeth Dduw a ninau'n un.

2 Nid oes ond f' Arglwydd mawr ei ddawn,
 A leinw f' enaid bach yn llawn,
 Nis gallwn ddala mwy pe cawn,
 Mae ef yn ddigon mawr :
 A digon, digon, digon yw,
 Dy hyfryd bresennoldeb gwiw,
 Yn angeu ceidw hyn fi'n fyw,
 A boddlon wyf yn awr.

3 Wel ffowch ar ffrwst bleserau i gyd,
 Diflenwch oll wrthddrychau'r byd,
 Na bo'ch gael effaith ar fy mryd,
 I'm dwyn oddiwrth fy Nuw ;
 Doed tân a diluw yn gytun,
 Aed dwr a daear fawr yn un,
 Mi fyddaf yr hapusaf ddyn,
 Mae'm Iesu etto yn fyw.

W. W.

—◆—
 HYMN CX. (8. 8. 8. 6.)

Y Cristion hiraethog.

1 **P**AN ymddattodo'r tŷ o bridd,
 A'm henaid i ddiengu'n rhydd,
 O'r holl gadwynau cryfion sydd,
 Yn dala'n awr yn dŷn ;
 Caf deimlo pleser uwch y rhod,
 Na ddaeth i galon dyn erioed,
 I feddwl nac i gredu fod,
 Y fath fwynhad a hyn.

2 Llawenydd bythol i'w fwynhau,
 Byth ar fy nghoryn yn ddidrai,

A chariad perffaith i barhau,
 Heb 'nabod diwedd mwy;
 Galar a gruddfan ymaith ffy,
 Achwynion a chystuddiau lu,
 A 'medu yn y nefoedd fry,
 Trwy rinwedd marwol glwy.

- 3 Myfyrio am fyn'd sydd felys iawn,
 Mae f'enaïd eisoes foreu a nawn,
 Am gynnefino ei nefol ddawn,
 A chwareu ei aden bur;
 Fel pe ba'i am anturio'n hŷ,
 Trwy ganol y cymylau frŷ,
 A neidio i mewn i blith y llu,
 Lle mae'r Messiah gwir.

W. W.

—◆—
 HYMN CXI. (8. 8. 8. 6.)

Taith yr anialwch.

- 1 **PA** beth a wnaif fi yma'n byw,
 Y'mhell, y'mhell oddiwrth fy Nuw,
 Mewn gwledydd sychion drwg eu rhyw,
 Lle dianc pob mwynhau:
 Os llewyrch bach o oleuni cawn,
 Ar ol cymylau duon iawn,
 Daw tymestl eilwaith cyn prydawn,
 O ddychryn, aeth, a gwae.
- 2 Mae ngofid yn yr ardal hon,
 Yn dod y'mlaen o dòn i dòn,
 'Does ond gruddfanau dan fy mron,
 'Dwy'n gwneuthur dim lleshad;
 Y'mysg dyeithriaid ëon hŷ,
 Gelynlion duon, creulon, crŷ,
 Oddiwrth y sawl a garaf fi,
 Y'mhell o dŷ fy Nhad.
- 2 O gwna i mi wylïo bob yr awr,
 Rwy'n rhodio dan beryglon mawr,

Ac nid oes dim ond llewyrch gwawr,
 Dy wyneb gwridog gwyn ;
 A wna i mi deithio'r anial nos,
 'Rhyd llwybr cyfyng angeu'r groes,
 Myfyrio am dy farwol loes,
 Ac hefyd canu hyn. W. W.

—◆—

HYMN CXII. (8. 8. 8. 6.)

Cwynfan y Cristion.

- 1 **R**WY' bron rwy' bron a llwfrhau,
 Wrth wel'd grasusau yn llesghau,
 A'm temtasiynau yn parhau,
 Yn danllyd yn y blaen :
 O tyr'd awelon sanctaidd dir,
 Tan adain dawel Ysbryd pur,
 Disgynwch arna'i cyn bo hir,
 Diffoddwch uffern dân.
- 2 Rhaid i mi gael rhyw faint o'r grawn,
 Sy'n werthfawr ac yn felys iawn,
 Yn tarddu o'r winwydden lawn,
 A wasgwyd ar y groes :
 'Does dim a ddeil fy ysbryd gwan,
 I ddringo creigydd hyll i'r lan,
 Nes teimlwy' i mi brofi rhan,
 O'r ddwyfol farwol loes.
- 3 Rwy'n blino eisiau gwel'd y wlad,
 Roed i mi mewn addewid rad,
 A phrofi cyflawn wir fwynhad,
 O sypiau'r Ganaan wiw ;
 Awn tros fynyddau mawrion maith,
 A'r bryniau mwyaf ar fy nhaith,
 Heb flino dim na gorphwys 'chwaith,
 Nes awn i dŷ fy Nuw. W. W.

HYMN CXIII. (8. 8. 8. 6.)

Hyder a gweddi y Cristion.

- 1 **F**Y noddfa gadarn fythol yw,
Y gair a ddaeth o enau'm Duw,
Fe ddywedodd y cawn ninau fyw,
Anfeidrol yw ei ras :
Mi welaf ôl ei siriol saint,
Tan y cystuddiau mwya' eu maint,
Yn cadw eu cysur yn cadw eu braint,
Yn wyneb angeu glâs.
- 2 O addfwyn Iesu gad i'm fod,
O fewn dy gorlan dan dy nod,
A threulio mywyd er dy glod,
Yn gyflawn o dy hedd ;
Y'nghanol terfysg a phob gwae,
Croes a chystuddiau yn amlhau,
Gan fyn'd y'mlaen tan lawenhau,
Nes gorwedd yn y bedd.
- 3 Duw os wyt am ddybenu'r byd,
Cyflawna'n gynta' d'air i gyd,
Dy etholedig galw 'nghyd,
O gwmpas daear fawr :
Aed sain dy efengyl trwy bob gwlad,
A golch fyrddiynau yn dy waed,
A dyro iddynt wir iachad,
Ac yna tyr'd i lawr. W. W.

HYMN CXIV. (8. 8. 8. 6.)

Afon iachawdwriaeth.

- 1 **F**EL afon gref lifeiriol yw,
Gras a daioni'r Arglwydd Dduw ;
Efe sy'n cadw'r saint yn fyw,
Mewn troion cyfyng iawn ;

Ar sychder mawr mae'n dyfrhau,
A hyn bob moment yn parhau,
A chyda hyn mae yn glanhau,
Foreuddydd a phrydnawn.

- 2 Mae ffrydiau'r afon hon, a'i rhin,
A'i blas, yn llawer gwell na'r gwin,
Yn adnewyddu'r enaid blin,
A'i gynnal dan y groes ;
Mae'n dwyn tangnefedd nef fel lli',
Trwy waed ac aberth Calfari,
I ran yr enaid gwan ei gri,
Yn nyfnder pob rhyw loes.

R. J.

—◆—
HYMN CXV. (8. 6.)

Mawredd a gras Duw.

- 1 **L** LON'D y nefoedd, llon'd y byd,
Llon'd uffern hefyd yw ;
Llon'd trag'wyddoldeb maith ei hun
Diderfyn ydyw Duw :
Mae'n llon'd y gwagle yn ddigoll
Mae oll yn oll, a'i allu'n un ;
Anfeidrol, annherfynol Fod,
A'i hanfod ynddo ei hun.
- 2 Anfesuredig yw ei ras,
Un addas yw i ni ;
Ni a welsom ac a glywsom son,
Am droion Un yn Dri :
Ac fel y clywsom, felly y mae,
I ninau'n rhyfedd yn parhau,
Yn ddigyfnewid i'w fwynhau,
Er cymaint beiau'r byd.
- 3 Ein holl feddyliau, da a drwg,
Sydd amlwg iddo ef ;
A phob uchenaid ddystaw iawn,
Fe'i clyw, mor llawn a'r llef :

Fe edwyn galon dyn heb goll,
 A'i fwriad oll, ofered yw :
 Mae'r chwant yn weithred cyn ei gwneyd,
 Hawdd d'weyd, yn nghyfrif Duw.

- 4 Clyw, f' enaid tlawd, mae genyt dad,
 Sy'n gwel'd dy fwriad gwan,
 A brawd yn eiriol yn y nef,
 Cyn codi'th lef i'r lan :
 Cred nad diystyr gan dy dad,
 Yw gwranddo gwaedd dymuniad gwiw ;
 Pe byddai d'enau yn rhy fud,
 I'w d'wedyd ger bron Duw. E. J.

HYMN CXVI. (M. B. D.)

Hyder y Saint.

- 1 **R**WY yn terfynu nghred,
 'Nol pwyso oll y'nghyd ;
 Mai cyfnewidiol ydyw dyn,
 Ond Duw sydd un o hyd :
 Ar ei ffyddlondeb ef,
 Sy'n noddfa gref i'r gwan,
 Mi greda' do'i mhen gronyn bach,
 O'r tonau'n iach i'r lan.
- 2 Cyflawnder marwol glwy,
 A haeddiant dwyfol loes,
 Y pris, y gwerth, a'r aberth drud,
 A dalwyd ar y groes ;
 A gliria meiau'n llwyr,
 A'm gylch yn hyfryd lân,
 Ac od oes dim o tan y nef,
 A'm nertha i fyn'd ymlaen.
- 3 Mae pen ein taith ger llaw,
 Ar fyrder gwawria'r dydd,
 O fy nghadwynau caeth bob rhyw,
 Fe'm tyn fy Nuw fi'n rhydd :
-

Tros yr Iorddonen lās,
 Caf landio maes o law ;
 I fwyta ffrwythau nefol pur,
 Yr hyfryd dir sydd draw.

- 4 Cyrhaeddwn yn y blaen,
 'Nawr nes-nes at y nôd,
 Na ildiwn ddim mawr yw ein braint,
 Ni cholodd saint erioed :
 Pob peth sy'n galw am frys,
 Fyn'd tua llŷs ein Tad,
 Nyni cawn fwyta yn y man,
 Ddanteithion Canaan wlad. W. W.

—◆—
 HYMN CXVII. (M. B. D.)

"Awn rhagom."

- 1 **WEL** f'enaïd dos y'mlaen,
 'Dyw'r brynïau sydd ger llaw,
 Un gronyn uwch, un gronyn mwy,
 Na hwy a deithiaist draw ;
 Dy anghrediniaeth caeth,
 A'th ofnau maith eu rhi'
 Sy'n peri it' feddwl rhwystrau ddaw,
 Yn fwy na rhwystrau fu.
- 2 Does fodd im' fyn'd y'mlaen,
 Heibio pob gelyn llym ;
 Oni fyddi di yn niwl a thân,
 Yn gledd a tharian im' ;
 A rhwygo'r môr yn ddau,
 Palmentu'r tywod mân,
 Ac yna ei gauad ar fy ol,
 I rwystro Pharaoh y'mlaen.
- 3 Mi welaf fyrdd dan sel,
 Fu'n ofni fel fy hun,
 'N awr wedi dringo'r creigydd serth,
 I gyd trwy nerth yr un ;

Yn canu'r ochr draw,
 Heb arnynt fraw na phoen,
 Ganiadau hyfryd Calfari,
 Dyoddefaint addfwyn Oen.

- 4 'Ddaw pechod cas na phoen,
 I flino'm henaïd mwy,
 Pan landiw'i mewn i Salem dir,
 Iacheir fi'n glir o'm clwy';
 Caf yno wir ryddhad,
 Oddiw'rth pob brad a briw;
 'Ddaw gofid, gwyn, nac och, na gwae,
 I'r llŷs lle mae fy Nuw. W. W.

HYMN CXVIII. (M. B. D.)

Cwyn a hyder y Cristion.

- 1 **R**WY'N ofni'm nerth yn ddim,
 Pan elwy i rym y dôn ;
 Mae terfysg yma cyn ei ddod,
 A syndod dan fy mron ;
 Mae ofnau o bob rhyw,
 Oll fel y diluw 'nghyd,
 Yn bygwth i fy nhorï i lawr,
 Pan ddel eu hawr ryw bryd.
- 2 A minau sydd am ffoi,
 Neu ynte droi yn ol,
 Yn methu credu saif i'r lan,
 Un truan gwan a ffôl ;
 Ac etto 'rwyf o hyd,
 Yn symud peth y'mlaen,
 Nid fi yw'r cyntaf eiddil wr,
 Goncwerodd dwr a thân.
- 3 Mae'r llwybr heddyw yn rhydd,
 Ein Tywysog sydd y'mlaen,
 Yn agor holl adwyau'r ddraig,
 Oddiyma i Sïon lân ;

Bydd canu braf am hyn,
Yn Salem cyn bo hir,
Pan ddelo'r nef a'r ddaear lawr,
I seinio'r anthem bur.

- 4 Mae yr Iorddonen fawr,
Yn dal yn awr ei dwr,
Mae Israel Duw trwy ganol hon,
Yn myn'd yn llòn bob gwr ;
Mae'n sefyll ynddi'r Arch,
Yn fawr ei pharch a'i bri,
Ac yno bydd ein ffyddlon ffrynd,
Nes trosodd fyn'd â ni.

W. W

HYMN CXIX. (M. B. D.)

Iesu yn bob peth.

- 1 I'R Iesu boed y clod,
Tra byddo bod na byd,
Efe oedd cyn y diluw mawr,
Efe sy'n awr o hyd ;
Yn gyfaill ac yn Dduw,
Pob llwythau, rhyw, ac iaith,
Efe a'n harwain ni uwch nen,
Yn gryno i ben ein taith.
- 2 Mae rhinwedd yn dy waed,
I faddeu beiau mwy ;
Nag y gall angel fyth na dyn,
I rifo mo honynt hwy ;
Mae ffynnon ar y bryn,
A ylch yn wyn a glân,
Bechodau o ryw ffeiddia 'rïoed,
Rifedi'r tywod mân.
- 3 Does diwedd byth na thrai,
Ar gariad angeu loes ;
Uwch pris o'r gwerthfawroca gaed,
Yw haeddiant gwaed y groes ;

Fe gana'r Negroes du,
 Fe gana'r Indian draw,
 Fe faddeu i'r aflan oes y sy,
 Fe faddeu i'r oes a ddaw.

- 4 Ffarwel fo i haeddiant dyn,
 Ffarwel at ddyn i fyn'd ;
 Ffarwel doethineb a phob dawn,
 Fo i natur lawn yn ffrynd ;
 Aeth dyn a'i allu mawr,
 Yn awr i lawr yn ddim ;
 Iesu fydd bellach yn mhob man,
 Fy nharian a fy ngrym.

W. W.

—◆—
 HYMN CXX. (M. B. D.)

Yr achos Cenedol.

- 1 **W**EL, deuwech tua'r wlad,
 Y ffordd a gaed yn rhydd ;
 Ar ol rhyw noswaith dywyll gaeth,
 'Nawr gwawrio wnaeth y dydd,
 Oddi yma i Peru,
 Mae 'fengyl Duw'n rhoi bloedd,
 Yn cyhoeddi i'r Negroes dua eu lliw,
 Drugaredd Duw ar g'oedd.
- 2 O fore llawn o hedd,
 Bydd hon yn wledd o fri,
 Pan y cyhoeddir Jubil lawn,
 Yn hyfryd iawn i ni :
 A'r udgyrn arian glâs,
 Yn rhoddi i maes y sain,
 Fod iachawdwriaeth gyflawn gun,
 I'r gwaelaf un o'r rhai'n.
- 3 A doed breninoedd byd,
 Yn unfryd ato ef ;
 A rhoddant eu coronau lawr,
 O flaen ei orsedd gref ;

Ei enw led-led sydd,
 A'i glod ef fydd uwchlaw,
 Y cwbl ag sy yma i gyd,
 Ac yn y byd a ddaw.

W. W

—◆—
 HYMN CXXI. (M. B. D.)

Maddeuant.

- 1 **O** GWRANDO weddi'r tlawd,
 On'd ffyddlon frawd wyt ti,
 I'r rhai cystuddiol clwyfus gwan,
 Sy 'mofyn rhan o fry ?
 Ti wyddost ti fy mhla,
 Fy ngofid, a fy mhwn,
 Ac nid oes ond dy anfeidrol rym,
 All symud dim o hwn.
- 2 Mi rof fy meiau o'r bron,
 Yn gyson o dy flaen ;
 Taff hwy i fôr o anghof pur,
 Mewn anial dir yn lân,
 Na safed y rhai hyn ;
 Byth yn fy erbyn draw ;
 Pan y cyhoeddir beiau cudd,
 O fewn y dydd a ddaw.
- 3 Ond boed maddeuant llawn,
 Yn hyfryd waed yr Oen ;
 Yn destun moliant yn mhob man,
 I mi sydd dan fy mhoen ;
 Yr anthem faith ei hyd,
 Fo i gyd am Galfari ;
 A'r iachawdwriaeth fawr ei dawn,
 Roed un prydawn i mi.
- 4 Na foed im' garu mwy,
 Un gwrthddrych is y ne',
 Ond hwnw fu'n plygu ei ben,
 Ar groesbren yn fy lle ;

Does dim, does neb' ond ef,
 Mewn daear, nef, a llawr,
 Ac na cheisied neb o'r clod,
 Sy'n eiddo Iesu mawr.

W. W.

—◆—
 HYMN CXXII. (M. B. D.)

Buddugoliaeth y groes.

1 **F**E 'nillodd Iesu'r dydd,
 Mewn buddugoliaeth lawn,
 Yn erbyn uffern fawr ei hun,
 Yn loyw un prydawn ;
 Fe agorodd byrth y nen,
 O led y pen i rai,
 Cystuddiol, gorthrymedig, gwan,
 Sy'n gruddfan dan eu bai.

3 Am hyny awn yn hŷ,
 Trwy ganol lluoedd maith,
 Heb ofni dyfais, grym, na'r llid,
 Sy'n cwrddydd ar ein taith ;
 Awn yno i Galfari,
 Bu'r gwaed yn lli i'r llawr ;
 Ni gofiwn gariad pur dinam,
 Ni ganwn am yr awr.

Ni deithiwn yn y blaen,
 Cawn weled Sion fryn,
 Lle mae myrddiynau maith mewn hwyl,
 Yn cadw gwyl am hyn ;
 Cawn fyn'd i mewn i'w plith,
 I yfed byth o'i hedd,
 Anfeidrol gariad perffaith gwiw,
 Tragwyddol yw y wledd.

W. W.

4 Mi gana am waed yr Oen,
 Er maint fy mhoen a mhla,
 Ni cheisia'n wyneb calon ddu,
 Ond Iesu'r meddyg da ;

Fy mlino ge's gan hon,
 A'i throion chwerwon chwith,
 Ond dyma'm sail i am y wlad,
 Y cariad a bery byth.

—◆—
 HYMN CXXIII. (M. B. D.)

Dymuniadau'r Cristion.

- 1 O IESU'R meddyg da,
 Iachâ fy enaid caeth,
 A sicr seilia fi ar y Graig
 Sydd uwchlaw'r ddraig a'i saeth,
 Am ddianc wyf i'th gôl,
 Mae'n f'ol elynion griw,
 O cofia mod mewn anial wlad,
 A char fi'n rhad tr'wy' byw.
- 2 Sodoma, 'r Aipht, y man
 Croeshoeliwyd'r anwyl Oen,
 Yn mhell o olwg Canaan wiw,
 'Rwy'n byw mewn dygn boen,
 Yn mhlith gelynyon haid,
 Bydd im' yn blaid, fy Nuw;
 O cofia mod, &c.
- 3 Ar lan y llyn yn wir
 Y bum yn hir a maith,
 Yn dyfal ddysgwyl gwneyd yn iach,
 Fy enaid bach oedd gaeth;
 Un olwg ar dy waed
 Roiff im' iachad o'm briw;
 O cofia mod, &c.
- 4 Fy mhechod maddeu clyw,
 Er cymaint yw eu rhif;
 Mae afon bur (o'th ystlys rad)
 O ddwr a gwaed yn llif;
 Ac yma golch fi'n lân,
 Fel gwello'm ffaidd friw;
 O cofia mod, &c.

- 5 Bydd im' yn dirion ffrynd ;
 Rhaid im' gael myn'd yn rhydd :
 P'odd gallai aros yma'n hwy ?
 Fy nghlwyfau'n fwy-fwy sydd,
 Ond llefain wna' hyd fedd
 Am hyfryd hedd fy Nuw ;
 O cofia mod, &c.
- 6 N'ad i mi ofni mwy
 Fyn'd trwy'r anialwch maith ;
 Er gwaetha'r lluoedd sydd is nen,
 Dwg fi i ben fy nhaith :
 Cysura'm calon wan,
 A sypiau'r Ganaan wiw !
 O cofia mod mewn anial wlad,
 A char fi'n rhad tr'wy' byw.

W. W.

 HYMN CXXIV. (M. B. D.)
Pererindod y Cristion.

- 1 **F**Y ngweddi, dos i'r nef,
 Yn union at fy Nuw,
 A dywed wrtho ef yn daer,
 "Attolwg, Arglwydd, clyw !
 Cyflawna'th 'ddewid wych,
 I'm dwyn i'th nefoedd wen :
 Yn Salem fry par'to fy lle,
 Mewn llys o fewn i'r llen."
- 2 Pererin llesg a llaith,
 Dechreuais daith oedd bell,
 Trwy lu o elynion mawr eu brad,
 Gan geisio gwlad sydd well ;
 Am ffoi mae f'enaid tlawd,
 At f'anwyl Frawd a'm Pen :
 Yn Salem fry, &c.
- 3 Yn nglyn gwylofain drist,
 Lle bu fy Nghrist, 'rwy'n byw ;

Ac wrth ryfela a'm gelyn caeth,
 Fy nghalon aeth yn friw ;
 Iacha bob clwyf a brâth,
 A dail y bywiol bren :
 Yn Salem fry, &c.

4 Mae'm mrodyr uwch y nen,
 Yn canu ar ben eu taith,
 A minau oedais lawer awr,
 Ar siwrnai fawr a maith :
 Ond bellach tyn fi'n ddwys,
 Ar Grist dod bwys fy mhen :
 Yn Salem fry, &c.

5 Gwna im' fyn'd y'mlaen yn ddewr,
 Trwy ddyfroedd mawr a than,
 Heb ofni Satan lew na'i lu,
 Nes elwy' i Sïon lân ;
 Gan ddianc ar y byd,
 I'm cartref clud uwch ben :
 Yn Salem fry, &c.

6 'Rwy'n gwel'd yr oriau'n hir,
 I fod o dir fy ngwlad ;
 Bryd deuaf at fy mrodyr fry,
 Sy'n canu'n nhŷ fy Nhad ?
 Gael gorphen ar fy nhaith,
 A'm siwrnai faith is nen :
 Yn Salem fry par'to fy lle,
 Mewn llys o fewn i'r llen.

W W

HYMN CXXV. (M. B. D.)

Penderfyniad y Cristion.

1 **W**EL, mi ddarfyddaf mwy,
 Yn lân a haeddiant dyn ;
 Ni chym'rir iawn o flaen fy Nhad,
 Ond dwyfol waed ei hun :
 Gofynion nef sydd fwy,

A'u taliad hwy mor ddrud,
Na's tâl mynyddau'r ddaear hon,
Pe'n berlau o'r bron i gyd.

- 2 Y fan b'ost ti fy Nuw,
Anfarwol fywyd sy ;
Yn tarddu niegys dwr o'r graig,
I'r làn i'r nefoedd fry :
Rhyw wawr ddysgleirwen sydd,
Yn tywynu o hono ef,
Yn arwain trwy bob ffos a nant,
Holl ffyddlon blant y nef.
- 3 Mae'r deillion yma'n gwel'd,
A'r cloffion hefyd sydd
Wedi cael hollol lwyr iachâd,
Yn llamu â'u traed yn rhydd :
Mae rhai sy â ffiaidd friw
Uwch meddyg i'w iachâu ;
Yn cael wrth brofi'r bywiol ddwr
Eu gwella a'u glanhau.
- 4 Minau ffeiddiaf un
O'r pererinion gwan ;
Ond cael fy ngolchi oddiw'rth fy mai,
Fyth dringo wna'i i'r lan :
A dwyfol nefol loes,
Cystuddiau'r groes a'i briw,
A'm nertha fyn'd o'r byd a'i wae,
I'r man lle mae fy Nuw.
- 5 Os gelynion ddaw i'm cwrdd
A rhyw ddaearol swyn,
Edrycha'r aberth ar y pren,
Ddyoddefodd er fy mwyn :
Fe ddiffodd cariad pur
Fu ar hoelion dur bob ple
Sy gan y byd, y cnawd, a chwant,
I'm denu o ffordd y ne'.

W. W.

HYMN CXXVI. (M. B. D.)

Pererindod y Cristion.

- 1 **C**HWI bererinion glân,
 Sy'n myn'd tu a'r Ganaan wlad,
 Ni thariaf finau ddim yn ol,
 Dilynaf ol eich traed ;
 Nes elwy' i Salem bur,
 Mewn cysur llawn i'm lle :
 O Ffrynd troseddwy'r moes dy law,
 A thyn fi draw i dre'.
- 2 Mi ge's arwyddion gwir
 O gariad pur fy Nuw ;
 Ei ras a'i dawel hyfryd hedd
 I'm henaid rhyfedd yw ;
 Yn mhell o'r babell hon
 Mae 'nghalon gydag e' :
 O Ffrynd, &c.
- 3 Mae'r manna gwedi ei gael
 Mewn dyrus anial dir,
 Ymborthi câf, ond myn'd yn mlaen,
 Ar ffrwythau'r Ganaan bur :
 Mae yno sypiau grawn
 Yn llawn o fewn i'r lle :
 O Ffrynd, &c.
- 4 Wrth feddwl am y wlad
 A ragbar'tow'd i'r plant,
 A chyflawn degwch tŷ fy Nhad,
 Mae ar fy nghalon chwant
 I landio uwch y nen,
 Tu draw'r Iorddonen gre' :
 O Ffrynd, &c.

W. W.

HYMN CXXVII. (M. B. D.)

Crist yn bob peth.

- 1 **M**I wn i Grist, mi wn
 Fy ngharu cyn bod byd,
 Parhau fy ngharu gwn y gwna,
 Yn ddirai yr un o hyd ;
 Fe yw'm Tywysog hardd,
 Efe yw'r Meddyg mawr,
 Efe yw'm Harchoffeiriad gwych,
 Sydd troswy'n pledio'n awr.
- 2 Fy Mrawd yw'r Iesu da,
 Fy Mherl o uchel bris,
 Fy Nghyfaill yw a'm Cariad mwyn,
 Fy Ngobaith yn ddilys ;
 Fy Mhren y Bywyd mawr,
 Fy Nrŵs i fyn'd at Dduw,
 Fy Ffordd i fyned tu a'r wlad
 Lle mae fy Nhad yn byw.
- 3 Fy Rhosyn Saron gwych,
 Yw'r hyfryd Iesu mwyn,
 Fy Mugail yw, a mi sydd un
 O'i dirion anwyl ŵyn :
 Fy Mhrynwr yw heb lai,
 Fy Mhriod yn ddi-gêl,
 Fy Nharian gref a'm 'Fforddwr da,
 Fy sicr Ran a'm Sêl.
- 4 Omega, Alpha mawr,
 A'm Hawl yw'r anwyl Grist,
 Efe yw'm Hamddiffynfa lon,
 Efe yw'm Ffyddlon Dyst :
 Fy Mhen, fy Nghorn, a'm Tŵr,
 Fy euraidd Allor lân,
 Fy Aberth drud a'm Prophwyd mawr,
 Fe'm tywys yn y blaen.

- 5 Fe'm portha i â'i ras,
 Nes myn'd i ben fy nhaith,
 Fe ladd fy holl elynion câs,
 Câf gonc'ro uffern faith:
 Fy Arch a'm Hysgol yw
 I'm codi tu a'r nen,
 Câf ddringo 'mlaen o nerth i nerth,
 Nes dod i Sion wen. W. W.

—◆—
 HYMN CXXVIII. (M. B. D.)

Hyder y Cristion.

- 1 **F**FARWEL bleserau'r byd,
 Ei freulyd fri a'i fraw,
 Ni 'hedwn mwy fel adar mân,
 I'n trigfan treiglwn draw:
 Cawn yno hyfryd hedd,
 A rhyfedd roddion rhad;
 O dewch, O dewch, ni awn yn hy,
 Tu a'r wledd sy'n nhý ein Tad.
- 2 Henffych gyfeillion da,
 Fe ddarfu'r gaua i gyd,
 Yn awr mae llais y durtur lon,
 Lan dirion yn y byd;
 Fe ddaeth yr hyfryd haf,
 Yn beraidd braf i'n bro,
 Gogoniant fo i'r Iesu byw,
 Fe carodd Duw ni, do.
- 3 Yn awr mae'r adar man,
 Ar dân yn moli Duw,
 Yn awr mae'r haul a'r nefol hin,
 Ar rai o'r werin wiw:
 Fe ddaeth y Jubili,
 On'd braf yw'n bri a'n braint?
 Cawn fyn'd i dre' ar fyr o dro,
 I seinio gyda'r saint.

- 4 Ein brodyr sydd o'u bron,
 Yn morio i Sion wiw ;
 Mewn hyfryd hwyl yn myn'd tua'r wlad,
 Lle mae ein Tad yn byw,
 Cawn landio oll i'r lan,
 I'r hafan hyfryd fry ;
 I blith y rhai sy'n gwaeddi'n rhad,
 Am gariad Iesu cu. W. W.

—◆—
 HYMN CXXIX. (M. B. D.)

Yr yrfa ysbrydol.

- 1 **R**WYF wedi bwrw'r draul,
 I fyn'd yn mlaen o hyd,
 Nes gwelwy'r dydd yn gwawrio draw,
 Mi wn y daw ryw bryd:
 Er gwaetha'm llygredd cas,
 Mi ddianga maes o law,
 I gol fy Nuw a'm Priod cu,
 Sy'n eiriol droswyf draw.
- 2 Mewn gwlad o drafferth blin,
 Os rhaid i'm ronyn fod,
 Bu'r Iesu'n rhodio yma ei hun,
 Rwy'n dilyn ol ei droed ;
 Efe a'm gwnaiff yn rhydd,
 Ryw ddedwydd ddydd a ddaw ;
 O flaen y fainc mae Mhriod cu,
 Yn eiriol droswyf draw.
- 3 Er maint yw llid y ddraig,
 I ddenu'm henaidd llon,
 Mi wela' sanctaidd had y wraig,
 A'm henw ar ei fron :
 Dysgwyliaf etto'n wych,
 I Edrych p'odd y daw :
 O flaen, &c.

4 Does pleser geny'n awr,
 Yn un lle tan y ne',
 Mewn newyn ac mewn syched mawr,
 Rwy'n teithio tua thre' ;
 Ca'm mhorthi â manna rhad,
 O fewn i'r wlad a ddaw ;
 O flaen, &c.

5 Ffarwel deganau'r byd,
 Ddo'nt yno i'm denu mwy ;
 Mi gaf fawrhau yr Oen o hyd,
 Mewn hawddfyd gyda hwy,
 Ni welir yno un,
 Heb delyn yn ei law :
 O flaen, &c.

W. W.

—◆—
 HYMN CXXX. (M. B. D.)

"Gwlad well."

1 WEL, dacw'r hyfryd fan,
 Mewn golwg gan fy ffydd ;
 Ac fel mae'r gwyntoedd yn cryfhau,
 Mae e'n neshau bob dydd ;
 Yn siwr o gario'r dydd,
 Trwy gystudd o bob rhyw,
 Fe gur y 'storom hir barhad,
 Ni mewn i wlad ein Duw.

2 Does le in' golli'r ffordd,
 Mae niwl y dydd o'n blaen ;
 Fe'n t'wysir trwy'r anialwch hir,
 Gan golofn bur o dân ;
 Fe arwain dwyfol ras,
 Ni yn gywir maes o law,
 Trwy ganol maith sychedig dir,
 I'r Ganaan bur sydd draw.

3 Saif Moab ddim o flaen,
 Ei fraich anfeidrol gref ;
 Trech na holl ddyfais uffern faith,
 Effeithiol waith y nef ;

Y dyfroedd gloywon pur,
 Sy o Fethl'em dir yn dod,
 A'n nertha ni rai llesg a gwan,
 Gael pechod dan ein troed.

- 4 Pe ba'i teganau'r byd,
 Am hyny yn ulw mân;
 Mae nghysur ac mae nghyfoeth siwr,
 Uwch dystryw dwr a than;
 O addewidion gras,
 Ca'i dderbyn maes o law,
 Drysorau mwy tu hwnt i'r bedd,
 Nag fedd yr India draw. W. W.

—◆—
 HYMN CXXXI. (M. B. D.)

Hyder y Cristion.

- 1 **W**EL bellach, f'enaid gwan,
 Dystawa dan dy groes,
 A gwel, yn angeu Calfari,
 Oleuni dan bob loes,
 Cais drysor yn y nef,
 Gwna'th gartref gyda Duw :
 Cei fwy na'r ddaear oll is nen,
 A'r nefoedd wèn i fyw.
- 2 Cei fanna ar dy daith,
 A dysgu iaith y nef;
 Ac esgyn ryw-bryd uwch y ser,
 Yn ei gyfiawnder ef;
 Cei ddwr o'r graig yn wyrth;
 Ni syrth yr un o'r Saint :
 O f'enaid, na fydd forwyn ffol,
 I fod yn ol o'r fraint.
- 3 Ond rhodia gyda Duw,
 A thi gei heddyw hedd;

Efe a'th arwain yn ei law,
 I'th fraint tu draw i'r bedd :
 O cais ei gynghor ef,
 A chyfod lef i'r lan,
 Am gael 'i arweiniad dan y rhod,
 A'i gysgod yn mhob man.

4 'Nawr, O fy enaid, mwy,
 Gwel, edrych yn y blaen,
 A chadw'n gywir at y nôd,
 Nes dod i Salem lân,
 Nac edrych byth yn ol,
 Ar bethau bydol barch ;
 Ymgadw yn yr anial dir,
 Yn gywir gyda'r arch.

R. J.

—◆—
 HYMN CXXXII. (M. B. D.)

Etholedigaeth gras.

- 1 **M**AE 'R etholedig ryw
 Yn rhwymyn Duw, bob rhai,
 Sef rhwymyn cariad gwastad, gwir ;
 Yn gywir, sicr, sai' ;
 Nid ing, neu gyfyng gur,
 Nac angeu, eglur yw,
 Nac un rhyw dywydd cystudd caeth,
 All dori Arfaeth Duw.
- 2 Nid beiau 'r plant ychwaith,
 Na'u holl amheuaeth hwy,
 Oddiwrth eu Llywydd a'u pellha,
 Nac a'u symuda mwy :
 Fe fethodd uffern gynt,
 A'i chorwynt blin a'i chas,
 Ddiffoddi cariad Iesu cu,
 Nac 'chwaith ddirymu ei ras.
- 3 Ca'dd Satan sigo'i siol ;
 A'i glôl sydd dan ei glwy ;

Heb obaith meddyg a'i iachâ,
 Na modd i'w wella mwy:
 Ca'dd ei lywodraeth oll
 Gyd-deimlo'r archoll dwys,
 A roddodd Iesu, ar y pren,
 I'w ben, a dirfawr bwys.

E. J.

—♦—
 HYMN CXXXIII. (8au.)

Y Nefoedd.

- 1 **Y** GOLEUNI sy'n ninas ein Duw
 Sy tu hwnt i amgyffred un dyn;
 'Does neb all ei weled a byw,
 Ond y dorf ogoneddus ei hun:
 'Dyw grisial yn ngolwg yr haul,
 Neu wydr f'ai lawer mwy pur,
 I lewyrch y nefoedd ddim ail,
 Fy Iesu yw'r ffynnon yn wir.
- 2 Mae yno dri Pherson yn bod,
 Ac etto un sylwedd ond un,
 Gogyfuwch mewn gallu a chlod,
 I wared plant Adda'n gytun:
 Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sy,
 Rhy fawrion i chwilio hwy 'mlaen,
 Yn drech nâ hwynt-hwythau sy fry
 I'w gwybod hwy allan yn lân.
- 3 'Does mesur amseroedd byth fry,
 Dim oriau cyffelyb i'r byd;
 Myn'd heibio rhyw oesoedd y sy,
 Wrth ganu i'r Drindod yn nghyd:
 'R holl nefoedd wrth weled ei ras,
 Sy'n synu yn canu'n fwy hy
 Ganiadau newyddion eu blas;
 Wel, dyna'r digrifwch sydd fry! W. W.

HYMN CXXXIV. (8au.)

Caniadau tragwyddol.

- 1 **A**NGYLION, seraphiaid, a saint,
 Wrth ganu'n soniarus y'nghyd,
 Eu hadsain sydd cyfuwch ei faint,
 Mae'n crynu'r holl nefoedd i gyd :
 Neb yno yn glaiar ei gân,
 Neb yno'n addoli mewn rhith,
 A'u c'lonau sy'n llosgi fel tân,
 A gwynfyd a f'ai yn eu plith !
- 2 Caniadau newyddion sy fry,
 Tebygwn o glywed eu llef,
 Fy enaid blinedig i sy,
 Am ddysgu cerddoriaeth y nef :
 'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
 A'r parch, a'r gogoniant, a'r bri,
 Yr awr hon fel ag y bu 'rïoed,
 I'n Harglwydd yn Un ac yn Dri !
- 3 Pan gofiont eu dyddiau yn y byd,
 A'r amryw dymhestloedd o'r blaen,
 Fe 'nynna eu hysbrydoedd hwy 'gyd,
 Yn fflamau angerddol o dân ;
 Gwel'd Iesu, er cymaint eu bai,
 Eu codi o bydew mor ddu ;
 P'odd gall eu calonau hwy lai,
 Na seinio Jerusalem fry ?

W. W.

HYMN CXXXV. (8au.)

Y Nefoedd.

- 1 **M**AE'R lle sancteiddiolaf yn rhydd,
 Fe rwygodd f'Anwylyd y llen ;
 Fe yw haul y cyfiawnder y sydd,
 'N goleuo'r holl nefoedd uwchben ;
 Mae 'no dyrfa anfeidrol o faint,

- Ac etto ni welai mo'r un,
'Mhlith 'ngylion, seraphiaid, a saint,
Neb fel fy Anwylyd ei hun.
- 2 'Ddaw syched, na newyn, na phoen,
Na gofid, na galar, na chlwy',
Nac anwyd yn nheml yr Ion,
Na gwres idd' eu blino byth mwy :
Mae yno adenydd fy Ion,
Yn taenu fel nefoedd ar led,
Yn cuddio priodasferch yr Oen,
O f'enaid, i fynu ehed !
- 3 Y Baradwys af iddi cyn hir,
Mae afon y bywyd yn hon,
Yn llof fel grisial yn glir,
I ddiodi'r sychedig o'u bron,
Mae hefyd yn nghartre' fy Naf,
Afonydd o laeth ac o fel,
Wel bellach tuag yno mi af,
A deued hi fel ag y del.
- W. W.

◆

HYMN CXXXVI. (8au.)

Hiraethu am y Nef.

- 1 **W**RTH gofio'r Jerusalem fry,
Y ddinas preswylfa fy Nuw,
Y seintiau a'r angylion y sy,
Yn canu caniadau bob rhyw,
Am yno mae nhrysor i gyd,
Nghyfeillion a'm brodyr o'u bron,
Fy nghalon sy'n brefu o hyd,
Yn fuan am fyned i hon.
- 2 Fy enaid sychedig i sydd,
Wrth deithio dros fryniau mor faith,
Yn dysgwyl yn dawel bob dydd,
I gwrddydd a diwedd fy nhaith ;
Fel darffo fy ngofid a ngwae,
Fy nhrallod, fy mlinder, a mhoen,

A dechreu'm gorfoledd didrai,
Caniadau tragwyddol i'r Oen.

- 3 Mi gara f'anwylyd o hyd,
Fy mhrynwr, fy mhriod, a'm pen,
O'r diwedd fe sugnodd fy mryd,
O'r ddaear i'r nefoedd uwch ben,
Gwynfyd a fai'n gorwedd yn awr,
Yn llonydd yn ngwaelod fy medd,
Mi godwn ar doriad y wawr,
Yn fuan i weled ei wedd. W. W.

HYMN CXXXVII. (8au.)

Y goncwest ddiweddaf.

- 1 **P**ECHADUR wyf'r Arglywydd a'i gŵyr,
Pechadur a garwyd yn rhad,
Pechadur a gliriwyd yn llwyr,
Yn rhyfedd trwy rinwedd y gwaed,
Pechadur a orfu fyn'd trwy
Ryw 'stormydd o ddyfroedd a thân,
Pechadur na orphwys byth mwy,
Nes dringo i'r nefoedd yn lân.
- 2 Pryd hyny caf glywed y gair,
Y gair sydd felysach nag un,
Yn seinio ffurfafen y nef,
O enau f'anwylyd ei hun,
Dewch blant bendigedig fy Nhad,
Dewch etholedigion i gyd,
Meddiennwch y deyrnas yn rhad,
Bar'tow'd i'ch cyn seiliad y byd.
- 3 Er gofid a blinder o hyd,
A rhwystrau bob mynyd o'r awr,
Er gelynon echryslon i gyd,
Sy'n curo fy ysbryd i lawr,
Fy enaid lluddedig a ddaw,
Trwy dymhest, trwy dônau, trwy dân,
Er gwaetha pob dychryn a braw,
I'm cartref tragwyddol yn lân. W. W.

HYMN CXXXVIII. (8au.)

Trefn iachawdwriaeth.

- 1 **D**ATGUDDIWYD dirgelion i maes,
 Dirgelion cuddiedig i'r byd,
 Meddyliau trugaredd a gras,
 I'r pena' bechadur i gyd ;
 A glow'd mewn addewid sydd gref,
 Na welir fyth fythoedd ei hail,
 O ddyfnder y ddaear i'r nef,
 Mor gywir, mor sicr ei sail.
- 2 'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
 Y moliant a'r parch yn gytun,
 O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod,
 Yn gyfan i'm Harglwydd ei hun,
 Aed sw'n dy farwolaeth i maes,
 O'r dwyrain luosog i'r de',
 Helaethed terfynau dy ras :
 Mor belled ag cyrhaedd y ne'.
- 3 Aed ein Haleluia ni i'r lan,
 Trwy'r awyr anfeidrol ei maint.
 Cymysged caniadau rhai gwan,
 A thyrfa luosog o saint ;
 Ni gawsom gan cymaint a'r byd,
 Gan cymaint drachefen a hyn,
 Gan cymaint a'r nefoedd i gyd,
 Brydnawn gwaith ar Galfari fryn. W. W.

 HYMN CXXXIX. (8au.)
Crist yn bob peth.

- 1 **C**YFLAWNWYD y gyfraith i gyd,
 Fe ddofwyd ei llid heb fy lladd ;
 Cyflawnder wrth hir ofyn iawn,
 Ei daliad yn gyflawn a ga'dd ;

Cyflawnder a'r gyfraith sy'n awr,
Yn edrych i lawr yn ddi-lid ;
Mae'r Priodoliaethau mewn hedd
Yn gwaeddi trugaredd i gyd.

- 2 Ein hymborth, ein cymhorth, a'n cân,
Y'ngwyneb deddf burlan, a'r bedd ;
Ein trysor, ein hallor, a'n nerth,
Oen pridwerth, ein haberth, a'n hedd ;
Ein T'wysog galluog, a llawn ;
Ein Iawn, i ddeddf gyfiawn ddi-goll ;
Ein Brenin, a'n Prophwyd, mewn bri,
Mae'n babell i ni oll ac yn oll.

E. J.

—◆—
HYMN CXL. (8au.)

Angladd Cristion.

- 1 **M**AE'N Brawd wedi gorphen ei daith,
Ei lafur a'i waith yr un wedd ;
A Christ wedi talu ei ddylêd ;
Mae'n addfed i fyned i'w fedd :
Caiff gysgu hun dawel, nes dod,
Ryw ddiwrnod, heb bechod, yn bur,
O'r beddrod, yn hynod mewn hedd ;
Heb ffaeidd, na chamwedd, na chur.
- 2 'Ddaw gwewyr na dolur, na dîg,
Na gelyn, na pheryg' na phoen,
I'w fino'n yr ardal lle trig,
Y'ngghwmni caredig yr Oen :
Dim achos i wylu ni wêl ;
Mae'n sicr ddiogel na ddaw
Dim oerni'n ei gariad, na'i zel ;
Mae'n dawel, heb ryfel, na braw.
- 3 Ymdrechodd hardd ymdrech y ffydd,
Er uffern fawr beunydd, a'r byd ;
Gorphenodd ei yrfa, mae'n rhydd ;
Gadawodd ei gystudd i gyd ;

Mae bellach yn holl-iach mewn hedd,
 O gyr'edd ei lygredd, yn lân ;
 Dim tristwch i'w feddwl ni fydd ;
 Hosanna'n dragywydd a gân. E. J.

—◆—
 HYMN CXLI. (8au.)

Prynwr byw.

1 **M**I wn fod fy mhrynwr yn fyw.
 A'm prynodd a thaliad mor ddrud ;
 Fe saif ar y ddaear, gwir yw,
 Yn niwedd holl oesoedd y byd :
 Er ised er gwaeled fy ngwedd,
 Teyrnasu mae Mhrynwr a Mrawd,
 Ac er fy malurio'n y bedd,
 Cai weled Ef etto'n fy nghnawd.

2 Wel, arno bo'm golwg bob dydd,
 A'i daliad anfeidrol o werth ;
 Gwir Awdwr, Perffeithydd ein ffydd,
 Fe'n cynnal ar lwybrau blin serth :
 Fy enaid ymestyn yn mlaen,
 Na orphwys nes cyrhaedd y tir,
 Y Ganaan dragwyddol ei chân,
 Y Sabbath hyfrydol yn wir. T. J.

—◆—
 HYMN CXLII. (8au.)

Buddugoliaeth Crist.

1 **P**WY welaf o Edom yn dod,
 Mil harddach na thoriad y wawr,
 Yn sathru tan wadn ei droed,
 Elynion yn lluoedd i'r llawr :
 Ei wisg wedi ei lliwio gan waed,
 Ei saethau a'i gleddyf yn llym,
 Ei harddwch yn llenwi'r holl wlad,
 Yn ymdaith yn amllder ei rym.

- 2 Myfi, hwn wyf Alpha cyn byd,
 Wyf gadarn i ladd ac iachau,
 Fy ngeiriau a safant i gyd,
 Pan ballo ffyddlondeb pob rhai :
 Ond pa'm mae dy wisgoedd yn waed,
 A'th gleddyf cyn goched ei fin,
 Fel un a fai'n sathru tan draed,
 Y gwinwryf yn ngwinllan y gwin ?
- 3 Wrth weled y fyddin mor fawr,
 Dan arfau yn llawnion o lid,
 Yn llanw holl wyneb y llawr,
 Y bobl a giliodd i gyd ;
 Gadawyd fi'n unig heb ail,
 I sefyll yn wyneb fy nghas,
 Gelynon cyn amled a'r dail,
 Yn llanw holl gyrau y maes.
- 4 Mi godais i fynu fy llaw,
 Ymleddais, ennillais y dydd,
 Fy holl waredigion a ddaw,
 A'm caethion a roddir yn rhydd :
 Ennillais fath goncwest trwy waed,
 Mae genyf lywodraeth mor fawr,
 Hyd eithaf trigfanau fy Nhad,
 Mae'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r llawr.

J. W.

◆

HYMN CXLIII. (8au.)

Cariad a dyoddefaint Crist.

- 1 **P**A feddwl, pa 'maddock, pa ddawn,
 Pa dafod all osod i maes,
 Mor felys, mor helaeth, mor llawn,
 Mor gryfed ei gariad a'i ras !
 Afonydd s'yn rhedeg mor gryf,
 Nas dichon i bechod na bai,
 Wrthsefyll yn erbyn eu llif,
 A'u llanw ardderchog di drai.

- 2 Fel ffamau angerddol o dân,
 Yw cariad fy Anwylyd o hyd ;
 Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,
 Fe yfodd o'r afon i gyd :
 Ymaffodd mewn dyn ar y llawr,
 Fe'i dygodd a'r Duwdod yn un!
 Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr,
 Fe'i llanwodd a'i haeddiant ei hun. J. W.

- 3 Wrth gofio'i riddfanau'n yr ardd,
 A'i chwys fel defnynau o waed,
 Aredig ar gefen mor hardd,
 A'i daraw â chleddyf ei Dad ;
 Ei arwain i Galfari fryn,
 A'i hoelio wrth groesbren o'i fodd,
 Pa dafod all dewi am hyn !
 Pa galon mor galed na thodd.

—◆—
 HYMN CXLIV. (8au.)

Y ffynnon ysbrydol.

- 1 CAED ffynnon o ddwfr ac o waed,
 I olchi rhai duon eu lliw ;
 Hi redodd hyd ataf yn rhad,
 I'r ardal lle'r oeddwn yn byw :
 Er cymaint o rwystrau ga'dd hon,
 Grym arfaeth a'i gyrodd hi 'mlaen,
 I olchi tŷ Ddafydd o'r bron,
 Jerusalem hefyd â'n lân.

—◆—
 HYMN CXLV. (8au.)

Dyogelwch y Cristion.

- 1 A DRIGO 'nghymdeithas y Tad,
 Ei aden yn gauad a'i cudd ;
 Caiff weled trwy'r aberth a'i ras,
 Ddirgelwch ei deyrnas bob dydd :

- Dywedaf, Fy noddfa yw'm Ner,
 A'm tyner waredwr yw'r Ion,
 Ac ynddo gobeithiaf heb baid,
 Am dano fy enaid a sôn.
- 2 Nid ofni rhag dychryn y nos,
 A'r saeth ni ddaw'n agos liw dydd;
 I'th gadw di 'mlaen ac yn ol,
 Ei aden anfeidrol a fydd,
 Rhag haint a'r dinystrydd, dy Nêr,
 A'i Aden, fydd dyner i'th doi;
 A'i Enw, dy gastell di gel,
 A'th noddfa ddiogel i ffoi.
- 3 Cwmp mil wrth dy ystlys i'r llwch,
 Syrth myrddiwn wrth d'ochr i'r llawr,
 A thithau ni chyffwrdd un pla,
 Can's Duw yw dy noddfa di'n awr.
 Yn unig canfyddi fod tâl,
 A dial am bechod, ryw ddydd:
 Er uchod yw'r anwir a'i ffroen,
 Ymddiffyn i'r beilchion ni bydd.
- 4 O herwydd it' wneuthur yr Iôn,
 Yr Arglwydd goruchaf, dy nyth,
 Dy noddfa, dy gartref digel,
 A'th breswyl diogel am byth,
 Dim niweid ni ddygwydd i ti,
 Na phla i dy boeni ni bydd,
 Cysgoda dy babell yn llon,
 Tan fendith ei roddion a rydd.
- 5 Angelion y nefoedd, yn llu,
 A warchod oddeutu dy ffyrdd;
 Gorchymyn a ddyry'n dy gylch,
 Ehedant o'th amgylch di'n fyrdd,
 Rhag llithro, na tharo dy droed,
 Mor hynod eu gofal i gyd;
 Hwyt' ddygant yn dyner a doeth,
 A'u dwylaw angylaidd y'nglyd.

- 6 Ac arnaf y geilw mewn ing,
 Gwrandawaf, gwardaf y'nghyd,
 A chydag ef byddaf yn blaid,
 Digonol i'w enaid o hyd.
 Gogoniant, anrhydedd, hir oes,
 Digonaf ei einioes â hedd ;
 Trwy rym iachawdwriaeth ddiranc,
 Y dianc o feddiant y bedd.

R. J.

◆

HYMN CXLVI. (8au.)

Breniniaeth Crist.

- 1 **C**RIST Iesu o'r dyfnder a ddaeth,
 Mewn llawn fuddugoliaeth ar goedd ;
 Uwch thronau'r gogoniant i gyd,
 Efe a ddyrchafwyd â bloedd :
 Ar orsedd deheulaw y Tad,
 Mae'n uchel ei alwad yn awr ;
 Nid rhaid iddo chwysu byth mwy,
 Wrth fwrw'i elynion i lawr.
- 2 O Sion yr enfyn yr Ion,
 Ryw eglur arwyddion o'i nerth ;
 Ac ar ei elynion fe fydd
 Llywodraeth Preswlydd y berth.
 A'i eiddo a edwyn ei lais,
 Fel bugail y cais hwynt i gyd ;
 Mor iraidd ac amal â'r gwllith,
 Daw meibion y fendith y'nghyd.
- 3 O groth y goleuni gwel hâd,
 Trwy rinwedd ei alwad a'i ras ;
 Mewn harddwch sancteiddrwydd ar goedd,
 Yr enfyn ei luoedd i maes.
 Mor amlled mor laned â gwllith,
 Hiliogaeth y fendith a fydd ;
 I ddofi gwylltflod y daeth
 Trwy nerth iachawdwriaeth a'i dydd.

- 4 Offeiriad tragwyddol a fydd,
 Fe dyngodd yr Arglwydd i hyn,
 Heb newid ei ddyben a ddwg—
 A'i olwg ar Galfari fryn.
 'Nol urddas trag'wyddol cyn byd,
 Bydd Arglwydd y bywyd yn bèn;
 A'i harddwch trag'wyddol a fydd,
 Heb gwmwl, na gorchudd, na llèn.

R. J.

◆

HYMN CXLVII. (9. 8.)

Mawl am fuddugoliaeth Calfaria.

- 1 O AGOR fy llygaid i weled,
 Dirgelwch dy arfaeth a'th air,
 Mae'n well i mi gyfraith dy enau,
 Na miloedd o arian ac aur;
 Y ddaear â'n dân a'i thrysorau,
 Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;
 Y bywyd tragwyddol yw 'nabod,
 Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.
- 2 Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod,
 Yw'r ffordd a gymerodd efe,
 I gadw pechadur colledig,
 Trwy farw ei hun yn ei le!
 Fe safodd fy Mrenin ei hunan,
 Gorchfygodd awdurdod y ddraig,
 Ein Samson galluog ni ydyw:
 O caned preswylwyr y graig.
- 3 Daeth blwyddyn y caethion i ganu,
 Doed meibion y gaethglud y'nghyd,
 Ni seiniwn trwy'r nefoedd a'r ddaear,
 Ogoniant i Brynwr y byd:
 Mae Brenin y nef yn y fyddin,
 Gwae satan a'i filwyr yn awr,
 Trugaredd a hedd sy'n teyrnasu,
 Gogoniant trwy'r nefoedd a'r llawr.

- 4 Y llew o lwyth Juda, gorchfygodd,
 Pa elyn all sefyll o'i flaen ?
 Mae Sion yn teithio tuag adre,
 Mewn cerbyd dychrynlyd o dân ;
 Bydd miloedd o saint ac angelion,
 Yn dorf ogoneddus y'nghyd,
 Yn canu rhyw Anthem dragwyddol,
 O ogoniant i Brynwr y byd. M. R.



HYMN CXLVIII. (9. 8.)

Dysgwyliadau'r Cristion.

- 1 **O** FRYNIAU Caersalem ceir gweled,
 Holl daith yr anialwch i gyd ;
 Pryd hyny daw troion yr yrfa,
 Yn felys i lanw ein bryd :
 Cawn edrych ar stormydd ac ofnau,
 Ac angeu dychrynlyd a'r bedd,
 A ninau'n ddiangol o'u cyrhaedd,
 Yn nofio mewn cariad a hedd.
- 2 Cawn esgyn o'r dyrys anialwch,
 I'r beraidd Baradwys i fyw ;
 Ein henaidd lluddedig gaiff orphwys,
 Yn dawel ar fynwes ein Duw :
 Diangfa dragwyddol geir yno,
 Ar bechod, cystuddiau a phoen,
 A gwledda i oesoedd diderfyn,
 Ar gariad annhraethol yr Oen.
- 3 Mae ffrydiau gorfoledd yn tarddu,
 O ddysglaer orseddfainc y ne' ;
 Ac yno esgynodd yr Iesu,
 Ac yno yr eiriol efe ;
 Y gwaed a foddlonodd gyfiawnder,
 Daenellwyd ar orsedd ein Duw,
 Sydd yno yn beraidd yn erfyn,
 I ni y troseddwr gael byw. D. C.

HYMN CXLIX. (9. 8.)

Dyfroedd gras.

- 1 **O** ARWAIN fy enaid i'r dyfroedd,
 Y dyfroedd sy'n afon mor bur,
 Y dyfroedd a dorant fy syched,
 Er trymed fy nolur a'm cur ;
 Y dyfroedd trag'wyddol eu tarddiad,
 Y dyfroedd sy' heb waelod na thrai,
 Y dyfroedd a olchant fy enaid,
 Er dued, er amled fy mai.
- 2 Da iawn i bechadur fod afon,
 A ylch yr aflanaf yn wyn ;
 Hi darddodd o'r nefoedd yn gyson,
 Hi ffrydiodd ar Galfari fryn ;
 Hi lifodd i'r anial cenedlig,
 Hi olchodd fil miloedd yn lân,
 Hi ylch ei miliynau'n llwyr gànaid,
 Cyn rhoddi llawr daear-ar dân. T. J.

HYMN CL. (9. 8.)

"Crist yw diwedd y ddeddf."

- 1 **Y**N Sion mae cyfraith ragorol,
 Gan Dduw yno'n rheol fe'i rhoed ;
 Un weddus, ddaionus i ddynion,
 Ni bu deddf mor union erioed :
 Dim mwy na dim llai na chyfiawnder,
 Ni ofyn, ni chymer ychwaith ;
 Heb fod gyda'r Iesu mewn undeb,
 Ni dderbyn ein gwyneb na'n gwaith.
- 2 Pe byddai fy ngolwg yn berffaith,
 Mi welwn y gyfraith bob gair,
 Mor eglur y gallwn bob mynyd,
 Ei ddarllen yn mywyd Mab Mair :
 Ac hefyd wrth ddarllen y gyfraith,
 Mi welwn Dduw perffaith heb ball ;
 Os Iesu neu'r gyfraith a welwn,
 Y naill a ddarllenwn drwy'r llall.

- 3 Gwel'd cleddyf cyflawnder yn deffro,
 Oedd ryfedd i daro Mab Duw,
 Gwneyd T'wysog y nef yn anafus,
 Er mwyn i rai beius gael byw :
 Dysgleirdeb gogoniant ac union,
 Wir lun Person tirion y Tad,
 Yn ngafael deddf fanwl ofynion,
 Ini ddod yn rhyddion yn rhad.

E. J.

◆

HYMN CLI. (9. 8.)

Goruchafiaeth gras.

- 1 **M**I fum wrth borth uffern yn curo,
 Yn ceisio cael myned i mewn,
 Ond d'wedodd y gwr a'r agoriad,
 Ei bod wedi ei chauad, na chawn ;
 Ac felly er maint fy nhaerineb,
 'Roedd Iesu yn fy ateb mor fwyn,
 " Ni chai le mor gas er ei geisio,
 'Does neb all oddiyno dy ddwyn."
- 2 Wel dyma'r concwerwr a'n carodd,
 Porth uffern a fariodd efe :
 Ein Pen goruwch Fugail gorchfygodd,
 Agorodd ennillodd y ne :
 Yn awr mae drws uffern yn gauad,
 'Daiff enaid heb gennad y gŵr,
 Gan ddiafol mwy trwodd er treio,
 Mae'r lle wedi 'selio'n rhy siwr.
- 3 Ar fynydd Golgotha cilgwthiwyd,
 Cadwynwyd, fe ddrylliwyd y ddraig ;
 Rhy weiniaid oedd uffern a'i hoffer,
 I ateb i gryfder y Graig :
 Ca'dd pechod ei osod yn isaf,
 Condemniwyd yn gaethaf i gyd :
 Mae'r amser bob mynyd yn nesu,
 I'w hollol ddybenu o'r byd.

E. J.

HYMN CLII. (9. 8.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **D**AW miloedd ar ddarfod am danynt,
 O hen wlad Assyria cyn hir ;
 Preswylwyr yr Aipht ac Ethiopia,
 At Grist y Gwardwr yn wir :
 Cyflawnir y proffwydoliaethau,
 Daw'r holl addewidion i ben ;
 Fe dynir myrddiynau at Iesu,
 Ddyrchafwyd rhwng daear a nen.
- 2 Yr holl freniniaethau a dreulir,
 A'r ddelw falurir i lawr ;
 Y garreg a leinw'r holl wledydd,
 Ei chynydd fel mynydd fydd mawr :
 Ceir gweled cenedloedd y ddaear,
 Yn dyfod o bedwar cwr byd ;
 Ymofyn y ffordd tua Sion,
 Y bydd ei drigolion i gyd. P. J.

HYMN CLIII. (9. 8.)

Y Bedydd.

- 1 **C**YFAMMOD rhwng Tri o Bersonau,
 Er cadw'n heneidiau a wnaed ;
 A Duw yn y cnawd a'i cyflawnodd,
 Fe'i seliodd o'i wirfodd â'i waed :
 Rhwng nefoedd a daear gwnaed cymmod ;
 Gogoniant i'r Drindod am drefn,
 I'n codi o'r dyfnder i fynu,
 A'n cyfiawn ddyrchafu drachefn.
- 2 Daeth Crist i wellhau ein gwael gyflwr,
 Ein plaid a'n Gwardwr gwir yw ;
 Ein bedydd sy'n dangos darpariaeth,
 A llawn iachawdwriaeth ein Duw :
 Caed moddion i symud euogrwydd,
 A'n cael o'n halogrwydd yn lân :
 I'r Drindod mewn undod bo'r moliant,
 Y clod a'r gogoniant ar gân.

- 3 Dan sel y cyfainmod y'n dygwyd,
 I Grist fe'n bedyddiwyd â dwr ;
 Wrth Iesu byth glynwn mewn proffes,
 Fel gwraig a fo'n gynes i'w gŵr ;
 Fe'n galwyd gan Dduw i sancteiddrwydd ;
 Ein bedydd glân arwydd in' yw ;
 Milwriwn dan faner ein Brenin,
 Fe geidw'i holl fyddin yn fyw. P. J.

—◆—
 HYMN CLIV. (M. H. D.)

Rhinweddau'r groes.

- 1 **I** BLE'R âi 'mofyn heddwch drud ?
 At bwy greadur yn y byd ?
 Pwy laesa 'mhoen ! pwy dŷn fy maich ?
 Nid marwol, ddynol, gnawdol fraich ;
 Neb ond tydi fu ar y pren,
 Yn dyodde' rhwng y ddae'r a'r nen,
 Mil mwy na'r byd yw dafnau'th waed
 I roi i'm hysbryd esmwythâd.
- 2 Fe bwysa gwaed dy groes fy mai,
 Er cyd o amser mae'n parhau,
 Er cynddeirioced yw ei ryw,
 Ac er mor ddued yw ei liw ;
 Duw ydwyt ti, mae mynyd awr,
 O'th wasgu tan y groes i lawr,
 Yn fwy ei bris ceir gwel'd ryw bryd,
 Na holl bechodau ffeiddia'r byd.
- 3 O dere i ben ddedwyddaf ddydd,
 A gad i'm hysbryd fyn'd yn rhydd,
 Rho brawf, rho brawf, ar frys i mi,
 O ddwyfol haeddiant Calfari ;
 Fel gallwyf rodio'n ddinacad,
 Tan awel hyfryd rin y gwaed,
 A threulio'm hamser ddydd a nos,
 Mewn myfyr am dy angeu loes. W. W.

HYMN CLV. (M. H. D.)

Daioni cystudd.

- 1 **M**AE'N perthyn i mi bob rhyw bla,
 O'r pridd y des, i'r pridd yr â',
 Fe yr cystuddiau maith ryw bryd,
 Fy enaid llesg i maes o'r byd ;
 Ac mi gaf yn mhob chwerw loes,
 I wel'd yr hwn fu ar y groes,
 A chael cydymaith yn mhob man,
 A ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.
- 2 Fy enaid tua'r nefoedd 'hed,
 A thaen dy galon yno ar led,
 A doed cystuddiau mewn yn lli,
 Mi a'u tafia i dy fynwes di ;
 'Does unrhyw ofid, unrhyw boen,
 Na wasgodd ar yr addfwyn Oen,
 Ac yn ei ofid ef a'i gri,
 Mae holl esmwythder fy enaid i.
- 3 Mi wn mae'm beiau duon drud,
 Yw'r achos o'm cystuddiau gyd,
 Symud fy mai, fe gwym y ffon,
 O'th sanctaidd law y fynydd hon ;
 'Does yn dy galon ond lleshad,
 Maddeuant, hedd, a gwir iachad,
 Cymer dy ffordd, ynot yr wyf
 Yn credu'n awr, iachâ fy nghlwyf. W. W.

HYMN CLVI. (M. H.)

Newyddion da.

- 1 **N**EWYDDION braf a ddaeth i'n bro,
 Hwyl haeddent gael eu dwyn ar go';
 Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,
 Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

- 2 Mae Iesu Grist o'n hochor ni,
 Fe gollodd ef ei waed yn lli' ;
 Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach,
 I'r ochor draw 'mhen gronyn bach.
- 3 Wel, f'enaid weithian cod dy ben,
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen ;
 Mae'n gelynyion oll i gyd yn awr,
 Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

W. W.

HYMN CLVII. (M. H.)

Curiad Crist.

- 1 **W**EL Iesu garaf yn ddilai,
 Efe a'm gwarded i o'm gwae ;
 Fy Mhriod hynod yw o hyd,
 A'm cyfaill goreu yn y byd.
- 2 Doed fel y dêl, mi a'i cara o hyd,
 Dan bob rhyw drallod yn y byd,
 Yn nydd y farn, yn angeu chwith
 Mi a'i caraf yn y nefoedd byth.
- 3 Pan syrthio'r sêr fel ffygys îr,
 Pan ferwo'r môr, pan losgo'r tir ;
 Pan droir yr haul, a'r lloer yn ddu,
 Pryd hyn mi gara Mhrynwr cu.
- 4 Tra caffwyf rodio'r ddaear hon,
 Rho'th hedd fel afon dan fy mron ;
 Ac yn y diwedd moes dy law,
 I'm ledio i mewn i'r nefoedd draw.

W. W.

HYMN CLVIII. (M. H.)

"Chwant i'm dattod."

- 1 **Y**N ddystaw dysgwyl f'enaid prudd,
 O'r diwedd daw, neshau mae'r dydd,
 Pan câf roi naid i'm nefol nyth,
 Lle byddaf byw yn berffaith byth.

- 2 Mi fliniais fod mewn anial fyd,
Am fyn'd 'rwy'n glau i'm cartre' clŷd,
Lle'r aeth o'm blaen i Frenin ne',
Ac yn ei lys gwnaeth i mi le.
- 3 Lle na bydd brâd i'm mwy, na briw,
Nac wŷlo i neb, yn nhŷ fy Nuw ;
Ond gorphwys byth mewn gwledd ddiboen,
Gan edrych ar y nefol Oen.
- 4 Taw, f'enaid mwy, 'dyw'r ffordd ddim maith,
I dŷ fy Nhâd, i ben fy nhaith ;
Bydd foddlon, cai, fy enaid cu,
Nofio yn frau i'r nefoedd fry.
- 5 Ar fyr bydd lle im' uwch y llen,
Câf ddedwydd wawdd i'r nefoedd wen ;
Angylaidd wledd mewn nefol wlad,
O fanna tŷ fy Nuw a'm Tad.
- 6 Lle byddai y'mhlith y sanctaidd lu,
Yn seinio cân i'm Harglwydd cu ;
Yn berffaith lân heb bechod mwy,
Oll yn gyffelyb iddynt hwy.

W. W.

—◆—
HYMN CLIX. (M. H.)

Hiraeth am burdeb.

- 1 **D**AL fi fy Nuw, dal fi i'r lan,
'N enwedig dal fi lle 'rwy'n wan :
Dal fi yn gryf nes myn'd i maes,
O'r byd sy'n llawn o bechod câs.
- 2 Bryd cai ddinystrio'm delwan'n llawn,
Sy am lechu danai'n ddirgel iawn :
Llabyddio Agag yn ddi barch,
A Dagon gwympto o flaen yr Arch.
- 3 O anwyl Iesu brysia bydd,
Yn awr fel iwrch neu lwdn hŷdd,

O tyr'd ar frys a chluda i lawr,
Fy holl elynion fach a mawr.

- 4 Can mil o weithiau gwyn fy myd,
Gai goncwest ar fy meiau i gyd;
Gael bod yn bur trwy nefol ras,
A darfod son am bechod cas.

W. W.

HYMN CLX. (M. H.)

Erfyn am faddeuant.

- 1 **P** ECHADUR wyf, da gŵyr fy Nuw,
Llawn o archollion o bob rhyw;
Yn byw mewn eisieu o waed y groes,
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.
- 2 Gwn mai rhinweddol yw dy waed,
I bledio'm hawl o flaen y Tad;
A chlirio'm ffordd at orsedd gras,
A blotio meiau mwya' maes.
- 3 Maddeuaist ganwaith, maddeu hyn,
O Arglwydd càna fi etto'n wyn:
Rho i mi dyst f'anwlyd cu,
I'm clirio yn y nefoedd fry.
- 4 O cofia fi ger bron y Tad,
A dangos iddo werth dy waed;
O pledia'n awr y'nghanol ne',
I ti roi'th fywyd yn fy lle.

W. W.

HYMN CLXI. (M. H.)

Gwagedd y byd.

- 1 **N** ID oes un gwrthddrych yn y byd
Sydd deilwng o fy serch a'm bryd;
Mae tynfa f'enaid cànaid cu,
At drysor tragwyddoldeb fry.

- 2 Pe cawn y byd i gyd yn grwn,
A byw flynyddau fil yn hwn;
Ni fyddai hyn ond gofid blin,
Heb gaffael ffafr Duw ei hun.
- 3 Beth dâl im' roi fy serch a'm bryd,
Ar ddim a welai yn y byd;
Da, daear, dwr, pa gysur yw,
Y dydd y del digofaint Duw.
- 4 P'am carai'r byd a'i dda yn hwy,
Ond dyma wrthddrych llawer mwy?
A dâl ei garu tra ynof chwyth,
A thragwyddoldeb wedi'n byth.

W. W.

—◆—

HYMN CLXII. (M. H.)

Erfyniad am oruchafiaeth.

- 1 **G**WEDDIO 'rwyf' och'neidio yn brudd,
Rhyfela yn deg am gael y dydd;
Lleng sydd o fewn, llu sydd o faes,
O'ffernol griw am faeddu'm gras.
- 2 O nertha f'enaid gwan ei ffydd,
'Roi ofal arnat ti bob dydd;
Heb flino 'nghylch amseroedd draw,
Y rhai o bosib' byth ni ddaw.
- 3 Gronyn o'th hedd a'th gariad drud,
A etyb fy nghystuddiau gyd;
Ond rhyfedd iawn y rhinwedd sy
Mewn lleiad gradd o'r nefoedd fry.
- 4 Ei ganmol bellach wnâf o hyd,
Heb dewi mwy tra yn y byd;
Dechreuais gân a bery'n hwy,
Nag y ceir diwedd arni mwy.

W. W.

• HYMN CLXIII. (M. H.)

Crist a Phechadur.

- 1 **D**YMA gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm a Iesu'n llawn;
Myfi yn dlawd heb feddu dim,
Ac yntau'n rhoddi pob peth im'.
- 2 Dyma fi Iesu, fel yr wy',
Cuddia fi yn dy nefol glwy';
Can's dyna'r graig y gwnaf fy nyth,
Does neb yn ofni yno byth.
- 3 Melys fel manna'r nefoedd fry,
Yw hyfryd hedd f'anwylyd cu;
Mwynhad o'i gariad ef a'i ras,
Na'r diliau mel sy'n well ei flas.
- 4 Gâd i mi dreulio'm dyddiau i gyd,
I edrych ar dy wynebpryd,
Difyru'm hoes o awr i awr,
I garu fy Eiriolwr mawr.

W. W.

—◆—
HYMN CLXIV. (M. H.)

Rhedeg yr yrfa.

- 1 **R**HEDWN ar frys mawr yw y fraint,
Y nef yw diwedd gyrfa'r saint,
Er maint yw'r llid par'towd ein lle,
Yn mynwes Naf o fewn i'r ne'.
- 2 Mi âf y'mlaen er pelled yw,
I'r wlad 'rwyf am fyn'd iddi fyw;
O'r diwedd tiria'm henaid gwan,
O ddyfnder moroedd mawr i'r lân.
- 3 Saint orfoleddant bob yr un,
Pan welont arwydd Mab y Dyn;
Fel bore wawr o'r dwyrain draw
Sy'n dangos fod yr haul gerllaw.

W. W.

HYMN CLXV. (M. H.)

Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **D**OWCH addewidion, dowch yn awr,
Dyhidlwch eich trysorau lawr :
Myrddiynau ar fyrddiynau sydd,
Yn dysgwyl am eich bore ddydd.
- 2 Doed gogledd, dê, a dwyrain bell,
I glywed y newyddion gwell ;
Aed sw'n d'Efengyl Iesu 'maes,
Yn gylch o ddeutu'r ddaear lân.
- 3 Llama fel hÿdd tros fryniau pell,
Cyflawna'r addewidion gwell ;
O galw'd etholedig hâd,
I brofi rhagorfreintiau'th waed.

W. W.

HYMN CLXVI. (M. H.)

Mawl am drysorau gras.

- 1 **B**ENDIGAID fyth fo enw Duw,
'R hwn wnaeth fy enaid marw'n fyw ;
Ac a'm cyfododd fel o'r bedd,
I gael mwynhau ei ras a'i hedd.
- 2 Pan 'ro'wn yn gorwedd yn fy ngwaed,
Edrychodd Duw o'r nef yn rhad,
A dywedodd yn dy waed bydd fyw :
Rhof iddo glod, fy nyled yw.
- 3 Rhyfeddu'r wyf i'r coelbren ddod,
A'r nefoedd wen i'm rhan erioed :
Os yno'r âf mi gara'r gwaith,
O ganu i dragwyddoldeb maith.

W. W.

HYMN CLXVII. (M. H.)

Proffad y Cristion.

- 1 **Y** GRAS, yr hedd, a'r purdeb oll,
Roed i'm yn Eden aeth ar goll ;

Ni ffeindia'i bellder tra f'wyf byw,
 Fy hen 'madawiad gynt â Duw.

- 2 Rhyfeddu'r wyf, rhyfeddaf byth,
 Na buaswn 'nawr mewn 'ffernol nyth ;
 Rhyfeddaf fwy os f'enaidd ddaw,
 Trwy'r d'rysni mewn i'r nefoedd draw.
- 3 Fel dysgwyl y gwyliedydd prudd,
 O awr i awr am oleu'r dydd ;
 Ac felly finau o bryd i bryd,
 Sy'n dysgwyl am dy wyneb-pryd. W. W.

HYMN CLXVIII. (M. H.)

Iesu a'r Saint yn y nef.

- 1 **O** ARGLWYDD, dena'm serch a'm bryd,
 Ar y gwrthddrychau sy uwch y byd ;
 Trysorau hyfryd can mil gwell,
 Cuddiedig draw ar fryniau pell.
- 2 Draw mae ein Iesu mawr a'n Duw,
 A brodyr fyrddiwn i ni'n byw ;
 Oes, mae yno rai'n clodfori o hyd,
 Fu'n teithio gyda ni'n y byd.
- 3 Dringasant hwy i ben eu taith,
 Gorphen'sant ar eu llafur-waith ;
 O gwynfyd a fai yno byth,
 Yn moli'n beraidd yn eu plith !
- 4 Wel cyn bo hir ni ddown yn nghyd,
 O eithaf pedwar cwr y byd,
 O'r gogledd, de, a'r dwyrain bell,
 I gael mwynhau cymdeithas well.
- 5 Yno y derfydd poen a gwae,
 A holl gystuddiau'r duwiol rai ;
 Caiff yr holl etholedig ryw,
 Wyneb yn wyneb weled Duw. W. W.

HYMN CLXIX. (M. H.)

Dibyniad ar Grist.

- 1 **R**WY'N dewis Iesu a'i farwol glwy,
Yn Frawd a Phriod i mi mwy;
Ef yn Arweinydd ef yn Ben,
I'm ledio o'r byd i'r nefoedd wen.
- 2 Dysg fi fy Nuw, dysg fi pa fodd,
I ddweyd a gwneuthur wrth dy fodd;
Dysg fi ryfela'r ddraig heb goll,
A dysg fi goncro 'mhechod oll.
- 3 Y gwana wyf a'r rheitia ei ddwyn,
O'r defaid gwirion ac o'r wŷyn,
A diau yw mi 'rosa'n ol,
Oni chwyd y Bugail fi'n ei gol.
- 4 Pan gwelech fi yn crymu 'mhen,
At ryw wrthddrychau is y nen:
O dangos im' na thâl yr un,
I'w garu byth ond ti dy hun. W. W.

HYMN CLXX. (M. H.)

"Gwaed yr Oen."

- 1 **O** ARGLWYDD cofia'th angeu drud,
A'th boenau mawrion yn y byd!
A dadleu rhai'n âg uchel lef,
Tros f'enaid tlawd yn nghanol nef.
- 2 O cofia'th wae, a'th waed, a'th gur,
Ac ol yr hoelion llymion dur!
Dy chwys i'r llawr yn ddafnau gwaed,
A'th glwyfau mawr o'th ben i'th draed.
- 3 'Rwy'n ceisio ymdreiglo at dy waed,
Gan gwympo'n llaw trugaredd rād;

'Does gweithred dda yn eiddo fi,
All gleimio hawl i'r nefoedd fry. W. W.

—◆—
HYMN CLXXI. (M. H.)

Y Cyfaill goreu.

- 1 **Y**N fynych fynych Iesu cu,
Datguddia'th fod yn eiddo i mi ;
Mewn 'stormydd mawr yn wastad gad,
I'm ddysgu llefain Abba Dad.
- 2 Yr Oen a laddwyd ydyw rhan,
A holl hyfrydwch fy enaid gwan :
Fy Mrawd a Mhriod fydd e' mwy,
Yn mhob cyfyngder elwy' trwy.
- 3 Wrth droi fy ngolwg yma lawr,
I gyrau'r holl gre'digaeth fawr ;
Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan,
Ond Iesu i bwysu arno'n rhan.
- 4 Pwy wrendy ruddfan f'enaid gwan,
Pwy'm c'od o'm holl ofidiau i'r làn ?
Pwy garia'm baich fel Brenin ne',
Pwy gydymdeimla fel efe.
- 5 Wel, dyma un, O d'wedwch ple,
Y ffeindir arall fel efe ;
A bery'n ffyddlon im' o hyd,
Y'mhob rhyw drallod yn y byd. W. W.

—◆—
HYMN CLXXII. (M. H.)

Uchelgais y Cristion.

- 1 **O** IESU mawr y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell ;
Dysg fi i seinio maes dy glod,
Mae digyfnwid wyt erioed.

- 2 **F**e gaeff dy Enw anwyl glod,
 Pan ddarffo i'r nef a'r ddaear fod,
 Am achub un mor wael ei lun,
 Nad all'sai ei achub ond dy hun.
- 3 **R**ho i mi wel'd mai ti yw'm hedd,
 A llwyr ddifyru ar dy wedd ;
 A chym'ryd d'eiriau gwerthfawr drud,
 Yn unig bleser yn y byd.
- 4 **O** hoelia 'meddwl ddydd a nos,
 Crwydredig wrth dy nefol groes ;
 A phlana'm hysbryd yn y tir,
 Sy'n llifo o lawenydd pur. W. W.

HYMN CLXXIII. (M. H.)

Dymuniad am y nef.

- 1 **O**ND ofer ceisio gwynfyd llawn,
 Can's gwynfyd perffaith byth nis cawn,
 Nes cyrhaedd at ein Prynwr pur,
 A sengu ar y sanctaidd dir.
- 2 **O**nd teimlo ei hedd a'i fywiol ras,
 Yw'r nefoedd sy ar y ddaear las ;
 A'm nefoedd fyth yn nef y nef,
 Fydd edrych yn ei wyneb Ef.
- 3 **P**an ddysgwylf 'nabod iaith y wlad,
 A phur ganiadau tŷ fy Nhad ;
 Dechreuaf gân am farwol glwy,
 Na chlywir diwedd arni mwy. W. W.

HYMN CLXXIV. (M. H.)

Cwynfan y Cristion.

- 1 **D**OES arnaf eisiau yn y byd,
 Ond golwg ar dy haeddiant drud ;

A chael rhyw brawf o'th nefol-rin,
I 'mado'n lân â mi fy hun.

2 Er bod dy haeddiant gwerthfawr drud,
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd,
Yn rhyw anfeidrol berffaith lawn,
Rwy'n methu gorphwys arno'n llawn.

3 O flaen y drugareddfa fawr,
Yn trengu wrth dy draed i lawr,
Gwel y pechadur dua gaed,
Yn brefu am rinweddau'th waed.

4 Mae gras yn rhyw anfeidrol stôr,
A doniau ynot fel y môr;
O gâd i druenusaf ddyn,
Gael profi gronyn bach o'i rin.

5 Haul y cyfiawnder dysglaer cu,
Tywynna trwy bob-cwmwl du;
O tan dy esgyll dwyfol mae,
Y Balm o Gilead sy'n iachâu.

W. W.

HYMN CLXXV. (M. H.)

Haeddiant Crist.

1 **W**RTH edrych Iesu ar dy groes,
A meddwl dyfnder d'angeu loes;
Pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd,
A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

2 Na âd fi 'mddiried tra b'wyf byw
Ond yn dy angeu di fy Nuw;
Dy boenau a dy farwol glwy,
Gaiff fod yn ymfrost i mi mwy.

3 O feiau mawr beth all'sech fwy
Na rhoddi i Frenin nefoedd glwy,
Lladd'soch yr Oen, fe drodd y rhod,
Mae dydd cich dial, chwi yn dod.

- 4 Edrychwch arno dyma'r Dyn,
A phwy oedd ef ond Duw ei hun ;
Pechodau'r holl grediniol fyd,
A bwysodd ar ei 'sgwyddau y'nghyd.
- 5 Tystiodd fy Nuw o ganol nef,
Ce's lawn foddlondeb ynddo ef ;
A bod ei saint o fawr i fân,
Yn haeddiant Iesu oll yn lân. W. W.

—◆—
HYMN CLXXVI. (M. H.)

Y Cristion yn Peniel.

- 1 YN Peniel 'rwyf, fy enaid clyw,
Ymdrecha'n deg âg angel Duw,
Pwy wŷr na's cai cyn tori'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr.
- 2 Mi âf y'mlaen er t'wylled yw,
I'r wlad 'rwy am fyn'd iddi fyw ;
Fe gwyd y wawr mae 'ddewid bur,
O wel'd fy nghartre' cyn bo hir.
- 3 Ond boed fy nghlustiau'n gwrando o hyd,
Ddirgelion dystaw nefol fyd ;
A'm pleser unig ddydd a nos,
Yn nyfnion wirioneddau'r groes.
- 4 Pan gaffwyf wel'd dy nefol wedd,
A phrofi blas dy ddwyfol hedd ;
Rwy'n gwel'd gogoniant mwya'r byd,
Fel peth annheilwng o fy mryd. W. W.

—◆—
HYMN CLXXVII. (M. H.)

Rhyfeddodau'r groes.

- 1 MAE rhyw ddirgelwch llawer mwy,
Oes Iesu yn dy farwol glwy ;
Nag y gall sant tra ynddo chwyth,
Na seraph pur ei ddeall byth.

- 2 O holl weithredoedd nef yn un,
Y benaf oll oedd prynu dyn ;
Rhyfeddod mwyaf o bob oes,
Yw'm Iesu'n hongian ar y groes.
- 3 Os daw y gyfraith yn ei grym,
A gofyn am berffeithrwydd im' ;
'Does geny' ond dangos angeu loes,
A gwaed yn llifo ar y groes.
- 4 Ni cheisiaf loches ond dy glwy,
Tan donau mawrion fwy na mwy ;
Mae'th waed yn nyfnder culni a gwae,
Yn abl fy rhoi i lawenhau.
- 5 Y mae hapusrwydd pawb o'r byd,
Yn gorphwys yn dy angeu drud ;
Hyfrydaf waith angylion fry,
Yw canu am fynydd Calfari. W. W.

—◆—

HYMN CLXXVIII. (M. H.)

Angeu a'r bedd.

- 1 **P**A'M carai'r byd na'i wagedd mwy ?
Hyd angeu'n brin y deuant hwy ;
Gwell genyf garu'r ffrynd a ddaw,
Yn angeu i 'mafiyd yn fy llaw.
- 2 Pan byddwy'n myn'd o'r byd i maes,
Yn siglo llaw âg angeu glas ;
Pryd hyn pwy help fy enaid gwan,
I ddringo o'r anial fyd i'r lan ?
- 3 O'r dywyll wlad pan bwy'n myn'd,
Fy Iesu fydd fy ffyddlon ffrynd,
Pa frawd, pa chwaer, pa gyfaill gwell,
Ddaw'm hebrwng i'r ardaloedd pell.
- 4 O cofia fi pan b'wy'n y bedd,
A chasgla'm llwch i'r lan mewn hedd ;
O arddel fi'n y farn a ddaw,
A gosod fi ar dy ddeheulaw. W. W.

HYMN CLXXIX. (M. H.)

Y farn.

- 1 **W**EL dacw'r Brenin mawr yn dod,
Mewn rhwysg na welodd neb erioed ;
Mae angeu ac uffern fawr a'r bedd,
Yn ofni edrych ar ei wedd.
- 2 Fe lysg y byd yn ulw mân,
Fe drý'r grëedigaeth fel o'r blaen ;
Cwyp y planedau er eu maint,
Bydd Iesu'n Frenin ar ei saint.
- 3 Mi wela'n codi'r seren ddydd,
Mi glywa'r canu yno fydd ;
Angelion gyda'r saint yn un,
Yn cadw cwm'ni Mab y Dyn.

W. W.

HYMN CLXXX. (M. H.)

Duw a Digon.

- 1 **T**YDI fy Nuw, tydi i gyd,
Yw'r cwbl feddai yn y byd ;
Yr wyt ti'n well, yr wyt ti'n well,
Na'r India bell, a'i pherlau drud.
- 2 Mae'r fynyd leiaf fach o'r awr,
I garu fy Iachawdwr mawr,
Yn well rhyw ddydd, yn well rhyw ddydd,
Na'r cwbl sydd o dan yr haul.
- 3 Aed heibio'm dyddiau bob yr un,
Wrth garu'm Crewr mawr yn Ddyn ;
Fy enaid cân, fy enaid cân,
I'th Brynwr glân, a dos i'r bedd. W. W.

HYMN CLXXXI. (M. H.)

Syched am y Nef.

- 1 **Y**N mhell uwch swm daearol fyd,
Mae fy nhrysorau oll i gyd :
Y wlad lle mae, y wlad lle mae,
Rhyw fôr didrai o berffaith hedd.

- 2 Wel dacw'r man tra paro chwyth,
 Sycheda' am fod ynddo byth ;
 Fe dry fy ngwae, fe dry fy ngwae,
 Yn llawenhau yn nhŷ fy Nhad.
- 3 Mi gofïaf yno am y dydd,
 Y rhoed fy llyffetheiriau'n rhydd ;
 Ac am y gair, ac am y gair,
 Dedwyddaf bair ei gofïo byth.
- 4 O ddedwydd, hapus, berffaith le
 Mae f'enaïd eisoes ynddo fe !
 Cwmpeini Nuw, cwmpeini Nuw,
 Yw'r cyfan yw sydd yno i gael. W. W.



HYMN CLXXXII. (M. H.)

Llawenychu mewn gobaiith.

- 1 O FEWN i'r anial dyrys maith,
 Yn dysgwyl hyfryd ben fy nhaith :
 'Rwy'n gwel'd yn wir, 'rwy'n gwel'd yn wir,
 Yr oriau'n hîr, heb dy fwynhau.
- 2 Yn nyfnder pob rhyw drallod, mae
 Un radd o'th wedd yn llawenhau :
 Dyddanwch sy, dyddanwch sy,
 Yn d'wyneb cu, sydd fwy na'r byd.
- 3 Mwy yw fy mhleser, mwy fy rhodd,
 A mwy mae f'enaïd wrth ei fodd,
 I wel'd dy wedd, i wel'd dy wedd,
 A phroff'ith hedd, na'r byd i gyd.
- 4 Ffarwel i oll feddylia i fod,
 Yn hyfryd yma is y rhôd ;
 Nid da, mid dyn, nid da, mid dyn,
 Ond Iesu ei hun, sy'n fwy na'r nef. W. W

HYMN CLXXXIII. (M. H.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **O** NA ddoi dydd yr India i ben,
I wel'd yr hwn fu ar y pren;
A ninâu'n un, yn un â hwy,
Yn canu am ei farwol glwy.
- 2 O doed i ben hwnw yw'r dydd,
Nid goleu, ac nid tywyll fydd,
Nid dydd, nid nos, a Duw a'i gŵyr,
Pan dardd goleuni yn yr hwyr.
- 3 O dere i ben hapusaf ddydd,
Darfydded sôn am bethau sydd;
Na'r byd, na'i rwysg, na'i wae, na'i boen,
Ond canu byth am waed yr Oen.
- 4 O na foed ardal cyn bo hir,
O'r dwyrain draw i'r dehau dîr;
Na byddo'r iachawdwriaeth ddrud,
Yn llanw cyrau rhai'n i gyd.

W W.

HYMN CLXXXIV. (M. H.)

Ffordd newydd.

- 1 **F**FORDD newydd wnaed gan Iesu Grist,
I basio heibio i uffern drist,
Wedi ei phalmantu ganddo 'fe,
O ganol byd i ganol ne'.
- 2 Agorodd ef yn lled y pen,
Holl euraidd byrth y nefoedd wen,
Roi rhyddid yw gariadau ef,
I mewn i holl drigfanau'r nef.
- 3 Pa'm'r ofnwn dragwyddoldeb mwy;
Pa'm'r ofnwn forio atynt hwy?

Y rhai i'n tyb a glywn yn bêr
Yn canu heddyw uwch y sêr.

- 4 Os tonau gawn a 'stormydd chwith,
Mae Duw o'n tu, ni foddwn byth;
Credwn yn gryf down maes o law,
Yn iach i'r lan yr ochor draw. W. W.

—◆—
HYMN CLXXXV. (M. H.)

Cymanfa o Weinidogion.

- 1 'RYM yn dy erfyn, Arglwydd mawr;
Disgyn o entrych nef i lawr,
'Rhyd ysgol faith Jehofa'n ddyn,
'Roi bendith Jacob i bob un.
- 2 Gwna ni fel halen â dy râs,
Yn wyn, yn beraidd iawn ei flâs;
Yn foddion yn dy law o hyd,
I dynu'r adflas sy ar y byd.
- 3 Fel w̄yn yn wirion gwna ni 'gyd,
Yn mhlith y bleiddiaid sy'n y byd;
Ac fel y seirph yn gyfrwys gall
I wel'd a dadrys rhwydau'r fall.
- 4 Gwêl ni yn myn'd i maes i blith,
Gelynyon cryfion rif y gwllith;
O rho addewid i ni 'gyd
Y byddi o'n plaid hyd ddiwedd byd.
- 5 Gwna fod d'ogoniant pur dilŷth
Yn nod a dyben i ni byth;
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir
Yn wastad i ni'n rheol bur.
- 6 Gâd i ni ddod i'r mynydd fry
I'r cwmwl goleu atat ti,
Fel y dysgleirio'n hwynebpryd,
Nes synu Israel oll i gyd. W. W.

- 7 Bywyd y meirw, tyr'd i'n plith,
 A thrwy dy Ysbryd arnom chwyth ;
 Anadla'n rymus ar y glyn,
 Fel byddo byw yr esgyrn hyn. J. H.

—◆—
 HYMN CLXXXVI. (M. H.)

Yr awelon nefol.

- 1 **O** TYRED y gogleddwynt clir,
 Anadla ar dy lysiau pur;
 Ac oni ddeui mewn iawn bryd,
 Fe wywa'r grasau oll i gyd.
- 2 Tyr'd a'r awelon hyny lawr,
 Sy'n deffro'r arg'oeddiadau mawr ;
 Tyr'd dithau y deheu-wynt clud,
 Sy'n codi'n henaid uwch y byd.
- 3 Doed pob awelon yn eu lle,
 I godi'm hysbryd tua thre',
 Gwnaed pob rhyw foddion, pob rhyw ddawn,
 I'th lysiau ber-arogli'n iawn.
- 4 O tyr'd i'th ardd f'Anwylyd pur,
 Mae'r amser hebot yma'n hir,
 Bwyta dy ffrwyth o nefol rin,
 Pereiddiaf blenaist ti dy hun. W. W.

—◆—
 HYMN CLXXXVII. (M. H.)

Dedwyddwch y Gwaredigion.

- 1 **F**E syrth y ser i lawr o'r nen,
 Fe d'wylla'r bydoedd mawr uwch ben,
 Fe sych y môr, fe sych y môr,
 Bydd f'Arglwydd Ior yr un o hyd.
- 2 Bydd gwraig yr Oen, y bore hwn,
 Yn canu'n iach, heb boen, a phwn ;

Ar ddeheulaw, ar ddeheulaw,
Ei Phriod draw, heb farw byth.

- 3 Ceir gwel'd y dyrfa ddysglaer fawr,
Rifedi gwllith y fore wawr;
Heb friw na phoen, heb friw na phoen,
Yn canu i'r Oen y newydd gân.
- 4 O gwyn ei byd y dyrfa fawr,
Yn iach a 'hedodd uwch y llawr;
Marwolaeth mwy, marwolaeth mwy,
Ni chwrrd â hwy sydd fry mewn hedd.

M. R.

HYMN CLXXXVIII. (M. H.)

Hyder a gweddi'r Cristion.

- 1 **M**AE gwedd ei wyneb yn iachau,
Y cleifion, a'r dolurus rai;
Fy Meddyg yw, fy Meddyg yw,
Nis gallaf fyw, byth heb fy Ner.
- 2 O! golch fi yn y ffynnon fawr,
A redodd dan dy fron i lawr;
O ddwr a gwaed, o ddwr a gwaed,
Rho i mi'n rhad, fy llwyr lanhâu.

M. R.

HYMN CLXXXIX. (M. H.)

Genedigaeth Crist.

- 1 **O**'R nefoedd clywch ar fore clir,
Newyddion daeth i Fethle'm dir;
Fod i ni wedi ei eni un,
Yn gadarn dŵr i gadw dyn.
- 2 Fe ganodd yr angelion fry,
Wir fawrhad i'n Ceidwad cu:
A pha'm na chanwn ninau'n awr,
Wir glôd am eni'n Ceidwad mawr.

- 3 Da Feddyg cleifion union yw,
A ffynnon lân i'r aflan ryw :
A bara'r bywyd hyfryd hêdd,
I'r rhai tylodion waelion wedd.
- 4 Rhyfeddod pob rhyfeddod yw,
Fod Iesu yn ddyn, ac yn wir Dduw ;
Ar liniau Mair yn faban gwan,
Yn Dduw presennol yn mhob man.
- 5 Mae'n wisg i'r noethion, lymion lun,
Mae'n nerth i'r gweiniaid, enwog un ;
Mae'n Fugail da i'w ddefaid oll,
Fe fedr gael y rhai sy ar goll.
- 6 Mae pob peth ynddo ef i'w gael,
Sy'n eisieu ar bechadur gwael ;
Yn ie mae ac yn Amen,
I'w blant dilyth, mae byth yn ben.
- 7 Boed y gogoniant iddo ar gân,
Trwy'r ddaear lawr, rhoed mawr a mân ;
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
'N un Duw o hyd, a diwahân.

◆

HYMN CXC. (M. H.)

"Byw i mi yw Crist."

- 1 **BYW** im' yw Crist, er bod mewn bedd ;
Byw im' yn eiriol fry mewn hedd ;
Byw im' yn feddyg i fy nghlwy' ;
Byw'n frawd a phriod imi mwy.
- 2 Byw'n Archoffeiriad ar fy rhan ;
Byw'n nerth a phlaid i f'enaid gwan ;
Byw'n Frenin ar ei orsedd fawr,
I'm hachub a'm gwaredu'n awr.
- 3 Byw imi'n Brophwyd mawr ei ddawn,
I'm dysgu yn rhyfeddol iawn ;

I'm dysgu 'mwadu â mi fy hun,
Gan roi'r gogoniant iddo'n un.

- 4 Fy mywyd yw mewn cyflawnhad ;
Fy ngobaith cadarn am iachâd ;
Fy iachawdwriaeth oll, a'm cân ;
Fy mywyd yn y dwr ar tân. R. J.

—◆—
HYMN CXCI. (M. H.)

O flaen pregeth.

- 1 **B**OED dy awelon pur fel tân,
Yn llosgi'r sothach oll o'i flaen,
A chadw'r weinidogaeth fawr,
A'i llewyrch fel y boreu wawr.
- 2 Chwyth beraroglau'r enaint gwiw,
Nes gwneuthur meirw fyrdd yn fyw ;
O ! anfon dy awdurdod gref,
Ac agor feddau fyrdd â'th lef.
- 3 O ! gwisg holl weision Iesu glân,
A chenadwri megys tân,
A danfon nerth o'r nef i lawr,
Trech na galluoedd uffern fawr. R. J.

—◆—
HYMN CXCII. (M. H.)

Galwad ar Ieuencid.

- 1 **O** ! FILWYR ieuainc, de'wch i gyd,
Yn erbyn satan cnawd a byd :
Os de'wch dan faner Crist, yn wir,
Cewch ranu'r ysbail cyn bo hir.
- 2 Mae'r ieuainc yn aberthau byw,
A chymeradwy iawn gan Dduw ;
A llawen gan angelion nef,
Wel'd plant o dan ei faner ef.
- 3 O ! cofiwch eich Creawdwr mawr,
A rho'wch eich hunain iddo'n awr :

Mae'n caru plant, a mebyd yw,
Yr amser hoffaf gan ein Duw.

- 4 Mae gan Dduw winllan yn y byd ;
De'wch, gweithiwch ynddi, mae'n llawn bryd :
Ar fyr cawn orphwys fry mewn hedd,
A'n galw i'r dragwyddol wledd. P. J.

—◆—
HYMN CXCIII. (M. H.)

Yr Ysgol Sabbathol.

- 1 **C**YSEGRWN flaenffrwyth dyddiau'n hoes,
I garu'r hwn fu ar y groes :
Mae mwy o bleser yn ei waith,
Na dim a fedd y ddaear faith.
- 2 Cael bod yn fore dan yr iau,
Sydd ganmil gwell na phleser gau :
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd,
Yn gysur ac yn hedd o hyd.
- 3 Y plant a wasanaethont Grist,
Cant ddianc byth rhag uffern drist :
Mae myrdd o ie'nctid yn y nef,
Yn berlau yn ei goron ef.
- 4 O ! na threuliaswn yn ddigoll,
O dan iau Crist, fy mebyd oll :
Mae'r hwn a'm prynodd ar y groes,
Yn deilwng o bob awr o'm hoes. P. J.

—◆—
HYMN CXCIV. (M. H.)

Y Sabbath.

- 1 **Y** SABBATH, gwyl nefolaidd yw ;
Ar hwn cyfododd Iesu'n fyw :
Clodforwn ninau Frenin hedd,
Mae wedi perarogli'r bedd.

- 2 O! f'enaïd, nac anghofia'r dydd,
Y daeth y Meichai mawr yn rhydd:
Agorwyd i ni byrth y nef,
Trwy rin ei fuddugoliaeth ef.
- 3 Gwaith rhyfedd oedd creu nef a llawr,
A threfnu'r greadigaeth fawr:
Ond gwaith rhyfeddaf Duw ei hun
Oedd gorphen iachawdwrïaeth dyn.
- 4 Y mae gorphwysfa'n ôl i'r saint,
Mewn gwlad o hedd, O ryfedd fraint!
Lle cânt fwynhau, heb gur na phoen,
Dragwyddol Sabbath gyd â'r Oen. P. J.

—◆—

HYMN CXCV. (M. H.)

Esgyniad Crist.

- 1 I'R lan o'r bedd ein Harglwydd daeth;
Esgynodd fry tu fewn i'r llen:
Galluoedd uffern dug yn gaeth
Trwy'r awŵr lās hyd entyrch nèn.
- 2 O flaen ei gerbyd dysglaer ef,
Bloeddiai angelion ar bob llaw,
Codwch eich penau, byrth y nef;
Chwi ddrysau oesawl, ciliwch draw.
- 3 Yn llydan gwnewch y ffordd yn rhydd,
A throwch yn ol, chwi foltau'r gwawl;
Gwiw Frenin y gogoniant sydd
Yn dod i mewn; mae ganddo hawl.
- 4 Pwy ydyw'r Iôr gogonawl? pwy?
Yr Arglwydd nerthol, cryf mewn câd:
Ei holl elynion, maeddodd hwy;
Yn awr mae'n esgyn at ei Dad. P. J.

HYMN CXCVI. (M. H.)

"Gorphenwyd."

- 1 **G**ORPHENWYD, medd ein Iesu mawr ;
 A'i fywyd rhoes o'i fodd i lawr ;
 Gorphenwyd ! do, fe gaed y dydd ;
 Fe dalwyd iawn, daw'r caeth yn rhydd.
- 2 Gorphenwyd—cynghor Duw heb goll,
 Y ddeddf, a'r addewidion oll ;
 Cyflawnwyd nôd y rhai'n i gyd
 Yn Iesu, Prynwr mawr y byd.
- 3 Gorphenwyd ! clywch y gair i gyd ;
 O ! hyfryd sain, amgylcha'r byd :
 Gorphenwyd ! aed yr adsain lôn
 Trwy nef y nef a'r ddaear grôn. P. J.

HYMN CXCVII. (M. H.)

Crist a'i iachawdwriaeth.

- 1 **M**AE rhyfeddodau rif y dail
 Ym Mherson hynod Adda'r ail ;
 Difyrwch penaf nef y nef
 Yw edrych ar ei degwech Ef. J. H.
- 2 Y Manna pur, a'r golofn dân,
 Yr Arch, a'r Drugareddfa lân ;
 A dwr o'r graig i'w gael bob pryd,
 Fy Iesu ydyw rhai'n i gyd.
- 3 Yr iachawdwriaeth fawr yn Nghrist,
 Swn melus hyfryd yw i'm clust ;
 Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,
 A chordial i'm rhag ofnau yw.

HYMN CXCVIII. (M. H.)

Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **O**ARGLWYDD Dduw bywhâ dy waith
 Trwy holl derfynau daear faith ;

Tros dir a môr dysgleiria 'maes,
Yn nerth dy anorchfygol râs.

2 Mae Babilon yn crynu'n wir,
Mae'n rhwym o gwympo cyn bo hir :
O Arglwydd brysia, rhwyga'r llen,
Boed Sion bur trwy'r byd yn ben.

3 Mae'r seithfed dydd a'r seithfed awr,
Yn agoshau ar Babel fawr :
Fe syrth ei muriau bob yr un,
O flaen Efengyl Mab y dyn.

—◆—
HYMN CXCIX. (M. H.)

Agoriad Addoldy.

1 **M**AWR wyt ein Tad trag'wyddol Fod,
Seraphiaid glân sy'n seinio'th glod ;
Cymysgwn ninau yn dy dŷ,
Ein cân â chân angelion fry.

2 O tyred Arglwydd Ior i'n plith,
Gorchuddia'th Fynydd hwn a'th wlith ;
Cyssegra Di y babell hon,
A'th bresennoldeb ger ein bron.

3 Boed gwir ogoniant fyth ar gân,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan ;
I'r Tri yn Un Trag'wyddol Dduw,
Cyd-roddwn fawl ein dyled yw.

—◆— R. J. LL—LL.

HYMN CC. (M. H.)

Ar ol pregeth.

1 **I**DAD y trugareddau i gyd,
Rhown foliant holl drigolion byd :
Llu'r nef moliennwch Ef ar gân,
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan.

HYMN CCI. (8. 8.)

Ffarwel wae, croeso wynfyd.

- 1 **N**AWR 'rwy'n gwel'd yr ardal hyfryd,
Hen gartrefle, fy Anwylyd ;
Gwlad lle mae pob rhyw gysuron,
Yn llifeirio fel yr afon.
- 2 Ffarwel bellach hen bleserau,
Dwyllodd f'ysbryd fil o weithiau :
Nawr 'rwy' wedi ffeindio hawddfyd,
Nad oes ynndo radd o ofid.
- 3 Mi ge's berl gwell nag o'r India,
Nef a daear byth ni phrisia,
Iesu a'i drysor, dyna ei sylwedd,
Nef y nefoedd yn y diwedd.
- 4 Blwyddau hirion o ryfela,
Yn oruchafiaeth a derfyna :
Fe dry galar am bob beiau,
Yn Hosanna, ond eu maddeu.
- 5 Fe ddaw'r dydd y caf fi ganu,
Conwest bai oedd yn fy maeddu ;
Haleluia nefol hyfryd,
Diwedd pechu, diwedd gofid. W. W.

HYMN CCII. (M. H.)

Dedwyddwch y nef.

- 1 **F**'ENAID cred, anghofia'th adfyd,
Edrych i'r ardaloedd hyfryd :
'Hed o'r byd sy'n fôr o drallod,
Y mae gwleddoedd i ti'n barod.
- 2 Dacw'r gwledydd hyfryd helaeth,
Roddwyd i mi'n etifeddiaeth ;
Lle mae cariad pur yn llifo,
Tros ardaloedd gras heb fino.

- 3 'Rwyf fi'n clywed myrdd o seintiau
'Nawr yn canu eu telynau ;
Ac yn taro ar Hosanna,
Dechreu Anthem pen Calfaria.
- 4 Deng mil o delynau'n canlyn,
Cân heb ddechreu, cân heb derfyn,
Y Cerubiaid, gyda'r seintiau,
Yr un sylwedd eu caniadau. W. W.

—◆—

HYMN CCIII. (8. 8.)

Hyder a dymuniad y Cristion.

- 1 **O**S rhaid yfed dyfroedd Mara,
Mewn anial blin tra paro 'ngyrfa :
O nertha di, fy Nhad, a'm Harglwydd,
F'ysbryd gwan mewn byd o dramgwydd.
- 2 Er cael fy nghuro'n nhrigfau dreigiau,
Suddo'n fynych dan y tônau ;
Fe ddaw'r hyfryd ddedwydd wawr-ddydd,
Na welir t'wyllwch yn dragwydd.
- 3 Yno derfydd fy nghystuddiau,
Troir fy ngalar yn ganiadau ;
Yn lle Mara a'i dwr anhyfryd,
Câf yfed byth o afon bywyd.
- 4 Doed a ddelo, tra b'wyf yma,
Mi ro'f fy hun yn llaw Jehofah :
Efe yw ffynnon iachawdwriaeth,
Sy'n golchi yn lân bob llygredigaeth.
- 5 O na welwn ddydd yn dyfod,
I'm henaid eiddil gael gollyngdod :
O sŵn y rhyfel, a chystuddiau,
A myn'd i mewn i'r pêr drigfanau.

HYMN CCIV. (8. 8.)

Clodforedd y gwardedigion.

- 1 **C**ANED pechaduriaid mawrion,
Fe gaed noddfa i lofruddion ;
Noddfa glyd, rhag llid dialydd,
Noddfa rad y'ngwlad y cystudd.
- 2 Tra rhaid i mi wisgo'r arfau,
Dwyn y groes trwy orthrymderau :
Rho dy gwmni dyna ddigon,
Nes myn'd adre' i wisgo'r goron.
- 3 Canwn mwy am waredigaeth,
Heb ei hail i blant marwolaeth :
Talodd Iesu ein dyledion,
A gorchfygodd ein gelynion.
- 4 Am hyn rhyfeddol fydd y canu,
Pan ddel Sïon oll i fynu ;
At y rhai sy'n awr mor hwylus,
Yn chwareu eu tannau yn Mharadwys.
- 5 Caned nef a daearolion,
Sain Hosanna i Frenin Sïon :
Llawn tosturi yw e'n wastad,
Nid oes diwedd ar ei gariad.

 HYMN CCV. (8. 8.)
Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **A**ED efengyl fel y wawr-ddydd,
Ar led i gludo myrdd trwy'r gwledydd,
Ac aed sain yr udgyrn arian,
I ddadymchwelyd teyrnas satan.
- 2 T'wyned haul ar fyrdd o werin,
Sy'n y dwyrain a'r gorllewin ;
Sôn am Iesu a lanwo ynysoedd,
Fel mae'r dyfroedd yn toi'r moroedd.

- 3 Llanwed moroedd iachawdwriaeth,
Holl gyrau'r byd, a gwir wybodaeth :
Dehau, gogledd, a'r holl wledydd,
Fyddo yn dyfod at Fab Dafydd.
- 4 Doed myrddiynau maith o'r Indiaid,
Hen Iuddewon o Phaganiaid ;
A'r holl ynysioedd a fo'n nesu,
Yn dorf trwy ras tan faner Iesu.
- 5 Llwyddiant i'r cenadau ffyddlon,
Sy'n cyhoeddi efengyl dirion ;
I gael rhyw dorf ddirif (trwy gredu)
Yn berlau hardd y'nghoron Iesu.
- 6 Croeso hyfryd fore hawddgar,
Pan ddel lluoedd nef a daear ;
I gyd ganu am ben Calfaria,
Gyda'u Priod, Halaluia.

HYMN CCVI. (8. 8.)

Tywysog tangnefedd.

- 1 **O** NA chawn i olwg hyfryd,
Ar ei wedd Dywysog bywyd ;
Tegwch byd a'i holl bleserau,
Yn ei ŵydd a lwyr ddiflanai.
- 2 Melus odiaeth yw ei heddwch,
Anghydmareol ei brydferthwch ;
Ynddo'n rhyfedd cyd-lewyrcha,
Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra.
- 3 Uchelderau mawr ei Dduwdod,
A dyfnderoedd ei ufudd-dod,
Sy'n creu synu fyth ar synu,
Yn nhrigolion gwlad goleuni.

D. C.

HYMN CCVII. (8. 8.)

Rhagoroldeb yr Iesu.

- 1 **N**ID yw hardd wrthddrychau daear,
Oll ond dim wrth Iesu hawddgar;
Nid yw'r nefoedd i'w chyd-brisio,
Pe bai nefoedd i'w chael hebddo.
- 2 Iesu ei hunan yw y nefoedd,
Tros fy oes ac yn oes oesoedd;
Nef fy nefoedd fydd ei garu,
Ei fwynhau, a'i bur-foliannu.
- 3 Nid oes neb ond Ef ei hunan,
A wna'r euog brwnt yn burlan;
Mae fe'n ddigon i droseddwr,
Mae fe'n berffaith lawn Waredwr. T. J.
- 4 O na allwn garu'r Iesu,
Yn fwy ffyddlawn, a'i was'naethu;
Dweyd yn dda mewn gair am dano,
Rhoi fy hun yn gwbl iddo.

HYMN CCVIII. (8. 8.)

Tegwch Iesu.

- 1 **I**ESU ydyw'r unig wrthddrych,
Yn dragwyddol sydd i'w chwenych;
Ef sy'n llenwi'r nef â chysur,
Ef a leinw wael bechadur.
- 2 Beth yw dwysaf berlau'r India?
Aur Peru, neu gyfoeth China?
Beth yw'r holl drysorau euraid?
Diddim oll wrth Geidwad enaid.
- 3 Dyma'r un ordeiniodd Duwdod,
I roi perffaith iawn am bechod;
Hwn yw'r un a bia'n wiwfraint,
Gadw enaid rhag digofaint. T. J.

HYMN CCIX. (M. S.)

Diwedd galar, dechreu gwynfyd.

- 1 **B**'LE tro' fy wyneb Arglwydd cu,
Ond atat ti dy hunan :
Pob peth gweledig 'thal ef ddim,
Ond gwneuthur i mi ruddfan.
- 2 Os yw 'ngofidiau yn y byd,
I bara hyd y diwedd ;
O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.
- 3 Po fwyaf gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant ;
Cawn yn lle'n cystudd byr a'n crwys, *
Dragwyddol bwys gogoniant.
- 4 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
Holl chwerwon ddyfroedd Mara ;
Pryd hyn y try pob chwerw nant,
Yn win i blant Jehofah.
- 5 Po mwyaf fo'u cyfyngder hwy,
Bydd fwy fwy eu cysuron :
Eu hedd melusach na'r dil mêl,
A lifa fel yr afon.

W. W.

HYMN CCX. (M. S.)

Tu draw'r Iorddonen.

- 1 **D**UW cadw f'enaid bach o hyd,
Uwch law y byd a'i ddrygau ;
Gan lwyr ddibrisio ei boen a'i wae,
Ei drallod a'i gystuddiau.
- 2 Fel na bwy'n gwrando ar ei dwrf,
Ei gynhwrff a'i ruadau :
Gan deithio'r llwybr cul bob cam,
A meddwl am fy nghartre.

* *cross.*

- 3 Heb gyfeiliorni ar un llaw,
Nes myn'd tu draw'r Iorddonen ;
At seintiau flinodd ar y byd,
Sy'n awr i gyd yn llawen.
- 4 Yn gorphwys yn y Ganaan bur,
Preswylfa'r gwir dduwiolion ;
Tir yr addewid hyfryd draw,
Gwlad lle nas daw gelynion.
- 5 Gorphwysfa dawl, deg, ddi-stwr,
Sydd yno i'r gŵr lluddiedig ;
Afonydd gloyw pur didrai,
I ddiodi'r rhai sychedig.
- 6 Ac yno mae fy Mrenin mawr,
Yn daer yn awr yn eiriol,
Gan bledio ei angeu ddydd a nos,
Yn ffyddlon dros ei bobl. W. W.

—◆—

HYMN CCXI. (M. S.)

Y Cyfaill goreu.

- 1 **C**LODFORWCH bawb ein Harglwydd Dduw,
Doed dynolryw i'w ganmol :
Ei hedd fel afon fawr ddidrai,
Gaiff ddyfrhau ei bobl.
- 2 Ei air a'i ammod cadw wna,
Byth y parha'i ffyddlondeb :
Nes dwyn ei braidd o'u poen a'u pla,
I hyfryd dragwyddoldeb.
- 3 Ni feddai ffrynd, na mam na thad,
A'r cyfryw gariad i mi ;
Mewn culni, gofid, poen, a gwae,
Yn wastad mae'n fy ngharu.
- 4 O fewn i'r byd ni bu yn bod,
Neb i'm erioed mor ffyddlon :
Gwirionedd yw nid oes o'i fath,
O'r diwedd f'aeth a'm calon.

- 5 Caf fwyta ffrwythau prenau plan,
Ar hyd glan afon bywyd ;
Tragwyddol Sabbath gyda'r Oen,
Heb friw, na phoen, na gofid.
- 6 Pan ballo ffafwr pawb a'u hedd,
Duw o'i drugaredd odiaeth ;
Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd a fydd,
Ar gyfyng ddydd marwolaeth. W. W.



HYMN CCXII. (M. S.)

Pen y daith.

- 1 O FUGAIL Israel dwg fi 'mlaen,
I'r dawel lân orphwysfa :
I'th nefol lys o'm poen a'm pla,
I ganu Haleluia.
- 2 Er bod yn hir mewn anial fan,
Yn 'mofyn am orphwysfa ;
O'r diwedd daethum (rhyfedd fraint,)
I'r man mae'r saint yn gwledda.
- 3 Y wisg a'r goron gaf i'm rhan,
Sy'n nghadw gan yr Iesu,
A'r hyfryd balmwydd yn fy llaw,
Cai'n Sïon draw deyrnasu.
- 4 Ymborthi caf mewn gwlad uwch ben,
Ar ffrwythau Pren y Bywyd ;
Ac yfed byth heb boen na chur,
O afon bur a hyfryd.
- 5 Ni all Satan, deddf, na gweddill bai,
I ddamnio rhai crediniol ;
Mae gwaed, yr Oen &g uchel lef,
O fewn i'r nef yn eiriol.

HYMN CCXIII. (M. S.)

Dibyniad ar Grist.

- 1 **R**HAID i mi gael pob gras pob dawn,
O'th drysor llawn yn gyfan ;
Ac oni chaf fy enaid prudd,
A gyll y dydd yn fuan.
- 2 Dy wisg dy hun cyfiawnder hael,
Sydd raid i'm gael y'mlaenaf ;
Nid oes ond ofni dan fy mron,
Nes caffwyf hon am danaf.
- 3 Sancteiddrwydd im', yw'r Oen dinam,
Nghyfiawnder a'm doethineb ;
Fy mhrynedigaeth, o bob pla,
Fy Nuw i dragwyddoldeb.
- 4 Gwyn fyd y rhai dilëaist eu bai,
Eu pechod a'u hanwiredd ;
Gan roi iddynt nerth er cnawd a byd,
I bara hyd y diwedd.
- 5 Dysgwyl yr wyf, a hyn bob cam,
Fel gwyliwr am y boreu,
I brofi cryfder braich dŷ ras,
I'm tynu 'maes o'm beiau. W. W.

HYMN CCXIV. (M. S.)

Haeddiant Crist.

- 1 **M**I wna'm gorphwysfa dawl byth,
Iesu yn dy ddilyth glwyfau ;
Bellach fy ngobaith fydd a'm ple,
'Th fod yn fy lle yn dyoddeu.
- 2 Pur waed ei galon ddaeth yn llif,
Tros fy aneirif feiau ;
I'm canu'n wyn fel lliain main,
Oddiwrth bob stain a brychau.

- 3 Fe ddofodd llid cyfiawnder llym,
'Does ganddo ddim i'w wneuthur ;
Mae'r gwaed yn gwaeddi, hedd yn daer,
Trwy'r nef a'r ddae'r yn eglur.
- 4 O golch fi beunydd, golch fi'n lân,
Golch fi yn gyfan Arglwydd ;
Fy nwyllaw a'm calon, pen a'm traed,
Golch fi â'th waed yn ebrwydd.
- 5 Bedyddia fi â'r Ysbryd Glân,
Fel tân pwerus nerthol ;
Caiff ysbryd, barn, a llosgfan fod,
Ar bechod yn wastadol. W. W.



HYMN CCXV. (M. S.)

Y Gwaredwr Iesu.

- 1 O IESU fy Ngwaredwr llawn,
Fy Iawn a'm Prynedigaeth !
Trwy'th angeu di, fy ngwared ca'
O uffern a marwolaeth.
- 2 Ar ochr f'enaïd tlawd fe fydd,
Ar foreu ddydd marwolaeth ;
Yn wyneb angeu, caf wneud ple,
Gan weiddi Iechydwrïaeth.
- 3 O fewn i'r wlad tu draw i'r bedd,
Caf weled gwedd ei wyneb ;
Ac yn ei fynwes llechu ca',
Hyd eitha' tragwyddoldeb.
- 4 Fe gasgla'm llwch o'r bedd i'r lan,
Yn gyfan ac yn gryno ;
Caf gorff fel fy anwylyd gwiw,
O hyfryd liw'n dysgleirio. W. W.

HYMN CCXVI. (M. S.)

Preswylwyr Tŷ Dduw.

- 1 **D**Y babell di mor hyfryd yw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd ;
Mynych chwenychais weled hon,
Rhag mor dra thirion ydoedd.
- 2 Y man b'ost di, bid bryn neu fro,
Sydd gyflawn o ddyddanwch ;
Yn dy gynteddau'n wastad mae,
Oes, fôr didrai o heddwch.
- 3 O dwg fy enaid llesg i'r lan,
I'r man 'rwyf ti'n preswyllo ;
Wrth deithio'r anialwch mawr yn hir,
'Rw'i gwedi gwir ddiffygio.
- 4 Ant rhagddynt bawb o nerth i nerth,
Nes cael yn brydferth ddyfod,
I 'mddangos i Dduw ger ei fron,
Yn Sion ei breswylfod.
- 5 Pe b'ai yn gorfod ar y rhai'n,
'Rhyd glyn wylofain dramwy ;
Gosodir ffynnon iddynt hwy,
A'r gwlaw a'u lleinw fwy-fwy.
- 6 Derfydd ar fyr eu poen a'u gwae,
Eu trallod a'u cystuddiau ;
Cânt ganu yn y nefoedd wen,
Yn iach ar ben eu siwrnai. W. W.

HYMN CCXVII. (M. S.)

Supper yr Arglwydd.

- 1 **W**EL, dyma wledd, gwledd ein Duw Iôn,
O basgedigion breision,
A gwin puredig yn ddidrai,
I lawenhau y cleifion.

2 On'd gwledd yw hon gyfoethog hael,
 'Does diwedd gael 'mo honi;
 O pwy na anturia 'mlaen yn rhwydd,
 I wledd yr Arglwydd Iesu ?

3 Os claf, os gwan, os tlawd o hedd,
 O dewch i'r wledd yn fuan ;
 Dewch â'ch achwynion o bob rhyw,
 Fe'u hateb Duw ei hunan.

4 Yma cewch wel'd eich Harglwydd mawr,
 Yn rhoddi 'lawr yn hollol,
 Ei hun i angeu, angeu'r groes,
 Yn ddiiddig tros ei bobl.

5 Mi gofia eiriau'm Harglwydd hael,
 'Prydnhawn cyn cael ei hoelio :
 I fwyta ei swper, minau ddof,
 Yn mlaen er côf am dano.

W. W.

—◆—
 HYMN CCXVIII. (M. S.)

O flaen Pregeth.

1 **T**YR'D Ysbryd Glan, i'n c'lonau ni,
 A dod d'oleuni nefol :
 Tydi wyt Ysbryd Crist dy ddawn,
 Sydd fawr iawn a rhagorol.

2 O Ysbryd Glan i'n c'lonau ni,
 Y gwir oleuni danfon ;
 A hefyd zel tra bom ni byw,
 I garu Duw yn ffyddlon.

E. P.

3 Llawenydd, bywyd, cariad pur,
 Ydynt dy eglur ddoniau :
 Dod eli'n llygaid fel i'th saint,
 Ac enaint i'n hwynebau.

4 Gwasgara di'n gelynyion trwch,
 A heddwch dyro i ni :
 Os T'wysog i ni fydd Duw Ner,
 Pob peth fydd er daioni.

- 5 Tydi a addewaist ddysgu, Ion,
Dy weision i lefaru :
Fel yn mhob man y caffo'n rhwydd,
Yr Arglwydd ei foliannu.
- 6 Fel y molianner, yn mhob oes,
Y Duw a roes drugaredd :
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan,
Da datgan ei anrhydedd.

—◆—
HYMN CCXIX. (M. S.)

Dydd y Farn.

- 1 **M**AE dydd y farn yn dod ar frys,
Boed hyn yn hysbys i ni ;
Gorfydd i bawb roi ar g'oedd,
O'u holl weithredoedd gyfri'.
- 2 Bydd yno bawb yn sobr iawn,
Yn derbyn cyflawn ddedfryd ;
Tlawd a chyfoethog wrth y fainc,
Bydd hen ac ieuainc hefyd.

—◆—
HYMN CCXX. (M. S.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **N**I attolygwn dyro lwydd,
O Arglwydd y cynhauaf,
Gan anfon gweithwyr lawer iawn,
O fryd a dawn gwresocaf.
- 2 I'r llafur mawr o anfon di,
Nifeiri o rai ffyddlon,
Gan ddatgan trwyddynt nerth dy ras,
I wael ac atgas ddynion.
- 3 Dy arfer di ein Harglwydd hael,
Yw gweithio trwy wael foddion ;

Am hyn y llefwn, Amlha
Dy rasol wirdda weision.

- 4 Yr wyt ti etto yn parhau,
I ddewis pethau dirym;
A thrwy y rhai'n y tefli i lawr,
Alluocedd mawr fel diddym.

T. J.

—◆—
HYMN CCXXI. (M. S.)

Bedydd.

- 1 **B**OED clod a mawl a pharch a bri,
I'r hynod dri Phersonau,
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan,
Sy'n golchi aflan feiau.

- 2 Agorodd ffynnon i'n glanhau,
O'i drugareddau bythol;
Addewid ro'dd ini a'n plant,
Sy'n llawn o fwyniant nefol.

- 3 Bedyddier ni yn fawr a mân,
A'r Ysbryd Glan a'i radau;
Boed arnom er glanhad a maeth,
Ei helaeth dywalltiadau.

- 4 Rho fendith rad i ni a'n plant,
Er cynnydd ffyniant grasol;
Bendithion dy gyfammod hedd,
Glanhad a gwledd wastadol.

T. J.

—◆—
HYMN CCXXII. (M. S.)

O flaen pregeth.

- 1 **T**YR'D Ysbryd sanctaidd dangos rym,
Dy nerthol lym wirionedd:
Rho rasol fendith yma'n awr,
I fwrw i lawr anwiredd.

2 Rho ddawn a goleu Arglwydd Ior,
I draethu'r cynghor dwyfol;
Ac agor di y galon gau,
I dderbyn d'eiriau nefol.

3 Perffeithia Ior dy nerth sy'n fawr,
Yn ngwyneb dirfawr wendid;
Rho i'r newynog tlawd a chaeth,
Ysbrydol faeth a rhyddid.

4 Wel dyro etto gymhorth rhwydd,
O Arglwydd yr arglwyddi;
Lle'r amlháodd pechod cas,
Gwna di i'th ras ragori.

T. J.

—◆—
HYMN CCXXIII. (M. S.)

Cynhauaf toreithiog.

1 **C**LODFORWN am diriondeb mawr,
Drigolion llawr, datgenwch,
Am ryfeddodau Brenin nef,
Ei weision ef moliennwch.

2 Ti sy'n addfedu cnôd y maes;
Tydi, o'th ras, sy'n trefnu,
Pob dydd o'r tymmor oll a'i rfn,
A hyfryd hin i gasglu.

3 Haul a gwres, maent yn dy law,
Y gwynt a'r gwlaw, bob amser:
Mae gofal dy drugaredd di,
Am danom ni yn dyner.

4 Wrth edrych ar diriondeb Iôn,
Boed uchel sôn am dano;
Pob perchen tafod, yn y llwch,
Cydonwch i'w fendithio.

R. J.

HYMN CCXXIV. (M. C.)

Dymuniadau y Cristion.

- 1 **R**WY'N morio tua chartre'm Ner,
 Rhwng tonau maith yn byw;
 Adyn heb neges tan y ser,
 Ond 'mofyn am ei Dduw.
- 2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro i 'nol,
 A finnau 'dwyf ond gwan,
 O cymer fi Iesu yn dy gôl,
 Yn fuan dwg fi i'r lan.
- 3 A phan bo'n curo f'enaid gwan
 Elynion fel y ser,
 Derchafa'm hysbryd llesg i'r lan,
 I fynwes bur fy Ner.
- 4 O gwna i fy nghalon redeg trwy,
 Oll atat ti dy hun:
 Na bo difyrwch genyf mwy,
 Mewn daear, da, na dyn.
- 5 Nad fi ar aswy, nac ar dde',
 I redeg o dy flaen;
 Ond dilyn llwybrau Brenin ne'.
 Trwy ddyfnder dwr a thân.
- 6 Yn nyfnder profedigaeth du,
 Dos dy hunan o fy mlaen;
 Ond i mi gael bod gyda thi,
 Nid ofnaf ddwr na thân.
- 7 Mi ro' fy 'mddiried ynddo ef,
 Mae'n noddfa lawn i'r gwan;
 Ac er y curo sy arnai lawr,
 Fe gwyd fy mhen i'r lan.

W. W.

HYMN CCXXV. (M. C.)

Gorseddfainc y gras.

- 1 **M**AE pyrth y nef o led y pen,
 Mi wela fôr o waed :
 Y gallaf fi'r ffeiddiaf ddyn,
 Yn hollol gael iachâd.
- 2 Mae'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
 Gwrandewir llais y gwan,
 Wel cyfod bellach f'enaid prudd,
 Anadla tua'r lân.
- 3 Wel anfon eirchion aml ri',
 I mewn i byrth y nef:
 Gwrandewir pob amddifad gri,
 Yn union ganddo ef.
- 4 Ni fethodd gweddi daer erioed,
 A chyrhaedd hyd y nef ;
 Ac mewn cyfyngder f'enaid rhêd,
 Yn union ato ef.
- 5 Mi anturiaf at ei orsedd fwyn,
 Dan eithaf tywyll nos :
 Ac mi 'orphwysaf, doed a ddel,
 Ar haeddiant gwaed y groes. W. W.

HYMN CCXXVI. (M. C.)

Crist yn rhagori ar ddeng mil.

- 1 **A**T Wedd dy wyneb nid yw ddim,
 Drysorau maith y llawr :
 Mae hanner gair o'th enau yn fwy
 Ei rym nag uffern fawr.
- 2 Os edrych 'wnaf i'r dwyrain draw,
 Os edrych wnafl i'r de' :

Yn mhlith a fu, neu ynte ddaw
'Does debyg iddo fe.

3 Ni feddai ar y ddaear fawr,
Ni feddai yn y ne';
Neb ag a bery'n anwyl im';
Yn unig ond Efe.

4 Mae ynddo'i hunan drysor mwy,
Nag 'fedd yr India lawn:
Fe brynodd i mi fwy na'r byd,
Ar groes-bren un prydawn.

5 'Does genyf mwy ond Duw yn Dad,
Yn erbyn pob rhyw wae;
'Does genyf ond ei gariad rhad,
Yn sylfaen i barhau.

6 O na allwn rodio er ei glôd,
Ac iddo bellach fyw;
A phob anadliad fyn'd i maes,
I ganmol gras fy Nuw.

W. W.

—◆—
HYMN CCXXVII. (M. C.)

"Y tlawd hun a lefodd."

- 1 O EDRYCH arnaf, Arglwydd mawr,
Mae bellach yn brydnawn;
O llanw'r euog tlawd sy heb ddim,
O'th nefol ddwyfol ddawn.
- 2 Dyma bechadur truan gwan,
Yn gruddfan dan ei boen,
Yn methu dod i'r ffynnon rad,
Sancteiddiaf waed yr Oen.
- 3 Mae temtasiynau'r ddraig yn gry',
A minnau d'wyf ond gwan:
Nid oes ond dwyfol nerth y nef,
A'm deil i byth i'r lân.

- 4 Mae llid o'r dwyrain ac o'r de',
 Am goncro'm 'chydig ras ;
 Trag'wydddol gariad ydyw ef,
 Wna'r truan gario'r maes.

W. W.

HYMN CCXXVIII. (M. C.)

Gwlad well.

- 1 **F**E'M siomwyd gan bleserau'r llawr,
 Fe'm twyllodd bob yr un :
 Ffowch bob cariadau rho'is ffarwel,
 I ddaear ac i ddyn.
- 2 Ni throf fy wyneb byth yn ol,
 I 'mofyn pleser gau :
 Ond mi a gerddaf tua'r wlad,
 Sy a'i phleser yn parhau.
- 3 Mae seintiau yn diengu i'r lan,
 Yn fyrddiwn o fy mlaen ;
 Minau ymddifad yma'n byw,
 Y'nghanol dwr a than.
- 4 Ac mi debyga' clywai sŵn,
 Nefolaidd rai o'm blaen ;
 Wedi concwerio, a myn'd trwy
 Dymhestloedd dwr a than.

W. W.

HYMN CCXXIX. (M. C.)

Crist yn rhagori ar ddeng mil.

- 1 **N**IS gall angelion pur y nef,
 A'u doniau aml hwy,
 I osod allan werthfawr bris,
 Anfeidrol ddwyfol glwy'.
- 2 Ni welai wrthddrych mewn un man,
 O'r ddaear las i'r ne' ;
 A dâl ei garu tra f'wyf byw,
 Yn unig ond efe.

- 3 Mae ei ffyddlondeb fel y môr,
 Heb fesur ac heb drai :
 A'i drugareddau hyfryd sy,
 'N dragywydd yn parhau.
- 4 Cyflawnder nerth, cyflawnder gras,
 Cyflawnder nef y nef :
 Uwch deall Seraphim a saint,
 Sy'n trigo ynddo ef.
- 5 Mae yn ei heddwch bethau mwy,
 Nag fedd y byd yn un ;
 A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint,
 Oruchaf 'gafoddd dyn.
- 6 Fe brynodd i mi euraidd wisg,
 Trwy ddyodde' marwol glwy',
 A'i angeu fe a guddia'm gwarth,
 I dragwyddoldeb mwy.

W. W.

HYMN CCXXX. (M. C.)

Ymddifyru yn Nghrist.

- 1 **I**ESU, difyrwch f'enaidd drud,
 Yw edrych ar dy wedd :
 Ac mae llyth'renau d'enw pur
 Yn fywyd ac yn hedd.
- 2 A than dy aden dawel bur,
 'Rwy yn dymuno byw ;
 Heb ymbleseru fyth mewn dim,
 Ond cariad at fy Nuw.
- 3 O cau fy llygaid rhag im' wel'd,
 Pleserau gwag y byd ;
 Ac i mi wyro byth oddiar
 Dy lwybrau gwerthfawr drud.

- 4 'Does genyf ond dy allu mawr,
I'm nerthu i fyn'd y'mlaen :
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy nghoncwest a fy nghân.
- 5 Byth, gorfoledda f'enaid mwy,
Dy Briod yw dy Dduw :
Mwy ydyw rhinwedd marwol glwy,
Na phechod o un rhyw. W. W.

—◆—
HYMN CCXXXI. (M. C.)

Hiraeth am ryddhad.

- 1 **R**WY'N edrych dros y bryniau pell,
Am danat bob yr awr,
Tyr'd fy Anwylid, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.
- 2 Tebygwn be bai nhroed yn rhydd,
Maes o'r caethiwed hyn ;
Na wnawn ond canu byth tra bwyf,
Am ras Calfaria fryn.
- 3 Pererin wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw ;
Ac yn rhyw ddysgwyl bob yr awr,
Fod tŷ fy nhad gerllaw.
- 4 Mae arnaf hiraeth am y wlad,
Lle mae torfeydd diri ;
Yn canu'r anthem ddyddiau eu hoes,
Am angeu Calfari.

—◆—
HYMN CCXXXII. (M. C.)

Arweinydd yr Ysbryd.

- 1 **T**YR'D Ysbryd sanctaidd, ledia'r ffordd,
Bydd i mi'n niwl a thân :
Ni cherddai'n gywir hanner cam,
Nes byddi o fy mlaen.

- 2 Mi wyra weithiau ar y dde',
Ac ar yr aswy law ;
Am hyny arwain gam a cham,
Fi i'r Baradwys draw.
- 3 Ddiffygiai ddim er c'yd fy nhaith,
Tra paro gras y ne' ;
Ac er mor lleied yw fy ngrym,
Mae digon ynddo fe.
- 4 Anghyfnewidiol gair y ne',
Ond cyfnewidiol fi ;
Am hyn mi safu doed a ddel,
Mae'r afael sicra fry.

W. W.

—◆—
HYMN CCXXXIII. (M. C.)

Cyflawnder yr iachawdwriaeth.

- 1 **M**AE'R iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lan :
Mae yma ddigon, digon byth,
I'r truan ac i'r gwan.
- 2 'Does yma eisiau byth yn bod,
Trysorau gras yn llawn :
Er maint yr yfed, a'r glanhau,
Sy o fore hyd brydnawn.
- 3 Mae yma drugareddau rhad,
I'r tlawd a'r llariaidd rai ;
A rhyw fendithion maith yn 'stor,
Sy fythol yn parhau.
- 4 Awn bechaduriaid at y dwr,
A darddodd ar y bryn ;
Ac ni gawn drachtio byth heb drai,
O'r afon loyw hyn.
- 5 Fe ylch ein beiau ffwrdd â'i waed,
Fe'n câna oll yn wyn,
Fe'n dwg o'r anial maith i maes,
I ganu ar Sion fryn ;

W. W.

HYMN CCXXXIV. (M. C.)

"Cymdeithas ei ddwyoddefiadau Ef."

- 1 **B**OED dyoddefiadau pur y groes,
I laesu'm cur a'm gwae,
Gruddfanau dyfnion angeu loes,
I'm rhoddi i lawenhau.
- 2 Marwolaeth fy Ngwaredwr mawr,
Yn fywyd pur i mi,
Fel gallwy' roddi'm oll i lawr,
Yn gof am Galfari.
- 3 Fe rodd ei ddwylo pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain ;
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn,
Fel hyfryd liain main.
- 4 Yma dymunwn dreulio'm hoes,
O fore hyd brydnawn ;
Lle cawn i wylo cariad pur,
Yn ddagrau melus iawn.
- 5 Calfaria fryn yw'r unig sail,
Adeilaf arno mwy,
A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod,
Mewn dwyfol farwol glwy. W. W.

HYMN CCXXXV. (M. C.)

Hyder y Cristion.

- 1 **D**AI 'mofyn haeddiant, fyth na nerth,
Na ffafwr neb na'u hedd :
Ond hwnw yn unig gwyd fy llwch,
Yn fyw i'r lan o'r bedd.
- 2 Nid ofnai'r byd, nid ofnai'r bedd,
Rho brawf o'th hedd a'th rym :
Y cwbl sy'm dychrynu'n awr,
A gwymp i lawr yn ddim.

- 3 O anghrediniaeth mawr ei rym,
Ti roddaist i mi glwy :
Ond d'wed a fynech credu wnaf,
Fod doniau'r nef yn fwy.
- 4 Fe'm golchir gan fy nghystudd trwm,
Fe'm purir yn y tân ;
Ac mi ddof allan, pan ddel dydd,
Wedi fy nghânu'n lân. W. W.
- 5 Llaw Duw am daliodd i i'r lan
Yn wyneb tân a dŵr,
Pan llawer gwaith bu'm henaid gwan,
Yn mron a soddi'n siwr.

—◆—
HYMN CCXXXVI. (M. C.)

Dyrchafad Crist.

- 1 **E**SGYN a wnaeth i entrych ne',
I eiriol dros y gwan ;
Fe sugna f'enaid inau'n lân,
I'w fynwes yn y man.
- 2 Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
Ar orsedd fawr y nef,
Ac y mae'r cyfan sydd mewn bod,
Dan ei awdurdod ef.
- 3 Gadawodd y lliciniau'n ol,
Yn arwydd i myfi,
Na raid wrth wisgoedd o unrhyw,
Yn y Baradwys fry. W. W.

—◆—
HYMN CCXXXVII. (M. C.)

Gwreiddyn y mater.

- 1 **M**I ymddiriedaf yn ei air,
Er cymaint yw fy mai ;
Ac fe derfynwyd dydd, ac awr,
Pan caffwy'm gwir ryddhau.

- 2 O gwna fi'n ffyddlon yma o hyd,
Am lefel at dy glod;
Ac na fo pleser fyn'd a mryd,
A welwyd is y rhod.
- 3 Nad fi i foddioni ar ryw rith,
O grefydd heb ei grym:
Ond gwir adnabod Iesu Grist,
Yn fywyd anwyl im'.
- 4 Plant ydym etto dan ein hoed,
Yn dysgwyl am y stad,
Mae'r etifeddiaeth i ni'n dod,
Wrth Destament ein Tad.

W. W.

 HYMN CCXXXVIII. (M. C.)
Digon erbyn angeu.

- 1 **P**AN delo angeu yn ei rwysg,
I dori fy oll i lawr,
Fy unig noddfa werthfawr fydd,
Yn fy Ngwaredwr mawr.
- 2 **F**e saif cyfammod pur y nef,
Pryd hyny yn ei rym,
Pan bo pob cysur is y nef,
Wedi diflanu'n ddim.
- 3 O gad im' mewn tangnefedd pur,
Roi'm hanadl ola' i maes,
Ac mewn gorfoledd hwylio dros
Y cefnfor garw glas.
- 4 A myn'd tan ganu tua'r wlad,
Bwrpaswyd i mi fyw,
Ac wedi gado 'mbell o'm hol,
Gystuddiau o bob rhyw.
- 5 Fe ddaeth y Iubil werthfawr lawr,
Ar ol och'neidio'n hir;
Ac mi ges weled hyfryd ran,
O'r Baradwysaidd dir.

W. W.

2 A rhwng fy mronau caiff e' fod,
Trwy gydol faith y nos;
Nes gwel'd yn gwawrio'r boreu ddydd,
Bwrcasodd dwyfol loes.

3 Ni theimlodd cnawd erioed, na byd
Un cariad c'uwch ei ryw:
A'r hyn wy'n brofi, hyfryd wres
Tufewnol at fy Nuw.

4 Nid dyfnder ac nid uwchder maith,
Na chreadur is y nef,
Einioes, nac angeu, nis gall fy
Ngwahanu oddi wrtho ef.

W. W.

HYMN CCXLIII. (M. C.)

Pleserau dwyfol ras.

1 **D**ARFYDDWN son am bleser mwy,
Yn agos ac yn mhell;
Tra cawn i yfed dyfroedd pur,
O ffynnon lawer gwell.

2 Darfydded dydd, darfydded nos,
Fel mynyd fechan awr;
Tra fawn yn caru a rhoi mhwys,
Ar fynwes f'Arglwydd mawr.

3 Eisteddais dan ei gysgod ef,
A'i ffrwyth oedd felus iawn;
Ac yma treuliwn ddyddiau f'oes,
Fyth fyth yn ddedwydd iawn.

4 Ac megys pren afalau pêr,
Yn nghanol prenau'r coed;
Felly f'Anwlyd yntau 'mhlith
Y meibion sy'n cael clod.

5 F'anwlyd sydd fel lili hardd,
Hyfryda erioed ei liw;
Ag sydd yn maeddu blodau'r hyd,
Posiau pena' eu rhyw.

- 6 Fe wnaeth ei babell yn ein plith,
 A'i bresenoldeb sy,
 Yn troi pob cystudd chwerw loes,
 Yn hyfryd hedd i ni. W. W.

—◆—
 HYMN CCXLIV. (M. C.)

Ysbryd arall.

- 1 **M**I âf yn mlaen yn nerth y nef,
 Tua'r baradwysaidd dir,
 Ac ni orphwysaf nes cael gwel'd,
 Fy etifeddiaeth bur.
- 2 Mae llais i'm galw i maes o'r byd,
 A'i bleser o bob rhyw,
 Minau wrandawa'r hyfryd swm,
 Llais fy Anwylyd yw.
- 3 Iesu yw tegwch mawr y byd,
 A thegwch pena'r nef,
 Ac y mae'r cwbl sydd o werth
 Yn trigo ynddo ef.
- 4 A boed fy mhleser bellach byth,
 O tan ei aden wiw,
 Na foed difyrwch genyf mwy
 Mewn dim, ond yn fy Nuw. W. W.

—◆—
 HYMN CCXLV. (M. C.)

"Gorphwysfa etto yn ol."

- 1 **M**AE pererinion draw o'm blaen,
 Yn canu'r anthem bur,
 Ac heddyw'n edrych fel o bell,
 Ar dd'ryzni'r diffaith dir.
- 2 Maent hwy'n rhyfeddu'r dwyfol ras,
 A'u nherthodd ar en taith;
 A chanu cariad addfwyn Oen,
 Ffyddlonaf yw eu gwaith.

- 3 O nertha finau i edrych draw,
 Heb wyro o un tu,
 Nes i mi gyrhaedd mewn i byrth
 Caersalem newydd fry.
- 4 Rho'r delyn auraidd yn ein llaw,
 Ac yn ein hysbryd dân ;
 Ac yn mheryglon anial dir,
 Erfyniau pur a chân.
- 5 Ni awn fel hyn yn ngwres y nef,
 Fel un lluosog lu,
 Trwy demtasiynau heb ddim rhif
 I mewn i'r nefoedd fry.

W. W.

HYMN CCXLVI. (M. C.)

Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **M**AE turtur yr efengyl fwyn,
 Yn llanw bro a bryn ;
 O de'wn a dringwn fynu fry,
 'Nawr gyda'r awel hyn.
- 2 O hyfryd dawel nefol hîn,
 Mi glywa'r adar mân ;
 'Nawr yn ymbyncio'n felus iawn,
 Y waredigol gân.
- 3 Aeth heibio'r gauaf chwerw du ;
 Y 'storom oer a'r gwlaw ;
 Ac fe nesaodd hyfryd haul,
 Cyflawnder pur gerllaw.
- 4 Mae'r haul yn ddysglaer yn y nef,
 Cyflawnder dwyfol ddyn ;
 Ac mae'n t'wynu yn hyfryd iawn,
 Ar bob drylliedig un.

W. W.

HYMN CCXLVII. (M. C.)

Cyd-glodforedd y gwaredigion.

- 1 **M**AE brodyr i mi aeth y'mlaen,
 Yn holl-iach, a chytun :
 Deng mil o filoedd yw eu cân,
 Er hyn nid yw ond un.
- 2 Mae pawb o'r brodyr yno'n un,
 Heb neb yn tynu'n groes ;
 Yn moli'r Duwdod yn y Dyn,
 A chofio angeu loes.
- 3 Ni theimlir yno unrhyw boen,
 Na chwyno gan un clwy' ;
 Ond pawb mewn hwyl 'n moli'r Oen,
 I dragwyddoldeb mwy.
- 4 Daw'r holl dduwiolion yno y'nghyd,
 O'r gogledd, dê', heb ri' ;
 A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân,
 A'u cân am Galfari. W. W.

◆

 HYMN CCXLVIII. (M. C.)
Y Cyfammod hedd.

- 1 **M**AE addewidion melus wledd,
 Yn gyflawn ac yn rhad,
 Yn dy gyfammod pur o hedd,
 Tragwyddol ei barhad.
- 2 'Rwyf finau yn dymuno dod,
 I'r wledd ddanteithiol fras ;
 Ac felly mi gaf seinio clod,
 Am ryfedd rym dy ras.
- 3 O rhwma fi wrth byst dy byrth,
 I aros tra fwy' byw,
 I edrych ar dy wedd a'th wyrth,
 A'th foli di fy Nuw.

T. J.

HYMN CCXLIX. (M. C.)

"Dysgwyl wrth byst y pyrth."

- 1 **O** EIRIOL droswyf Iesu da,
Fel na ddiffygia'm ffydd;
Ni wna i'm henaid llwm ddim lles,
Onis deil y'ngwres y dydd.
- 2 Gwel f'enaid llesg ar lan y llyn,
Yn gofyn am dy gael;
Tyr'd Iesu da, cynhyrfa'r dwr,
Er gwella 'nghyfiwr gwael.
- 3 Wrth ddrysau moddion cryfion gras,
Er mor anaddas wyf,
I ddysgwyl gair oddiwrth fy Nuw,
'Rwy'n meddwl byw tra bwyf.

E. J.

HYMN CCL. (M. C.)

Effeithiau Iawn Crist.

- 1 **Y**R Iawn a dalwyd ar y groes,
Yw sylfaen f'enaid gwan,
Wrth bwyso arno ddydd a nos,
Rwy'n dysgwyl dod i'r lan.
- 2 Mae brodyr i mi aeth y'mlaen,
Trwy rwystrau fwy na'r rhai'n,
Wrth gadw eu golwg ar y gwr,
Fu'n gwisgo'r goron ddrain.
- 3 Mae dyddiau gruddfan i mi'n hir,
Caethiwed Babel fawr,
O na chawn deimlo'r Iubil fwyn,
Yn agor dorau'r wawr.

HYMN CCLI. (M. C.)

Esgyniad Crist.'

- 1 **P**WY yw y Brenin rhyfedd hwn,
A welwn fel y wawr ?

Ai Adda'r ail ? ai hwn yw'r Oen
A aeth trwy boen i lawr ?

2 O ! byrth tragwyddol, rhoddwch le,
Eneiniog ne' sy'n dod
I'w orsedd, trefnwyd iddo, do,
Cyn seilio trefn y rhod.

3 O feusydd EDOM, dyma'r dydd,
Daw'n D'wysog rhydd i ni,
Er marw, gan ogwyddo'i ben,
Ar groesbren Calfari.

4 O ! caned archangelion nef,
Holl glychau Salem lân,
"Byth, nid i ni, ond iddo ef,"
Fydd ein tragwyddol gân.

R. J.

HYMN CCLII. (M. C.)

Mordaith y Cristion.

1 **A**R för tymhestlog teithio 'rwyf,
I fyd sydd well i fyw,
Gan wenu ar ei 'stormydd oll,
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

2 Drwy leoedd geirwon, enbyd iawn,
A rhwystrau o bob rhyw,
I'm dygwyd, eisoes, ar fy nhaith,
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

3 Er cael fy nhafu o don i don,
Nes ofni bron cael byw;
Diangol ydwyf, hyd yn hyn,
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

4 Ac os oes 'stormydd mwy yn ol,
Y'nghadw gan fy Nuw,
Wynebaf arnynt oll yn hy',
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

- 5 A phan fo'u hymchwydd yn cryfhau,
 Fy angor sicr yw,
 Y dof yn ddyogel drwyddynt oll,
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 6 I mewn i'r porthladd tawel clyd,
 O swn y 'storm a'i chlyw,
 Y caf fynediad llon ryw ddydd,
 Fy Nhad sydd wrth y llyw. E. E.

HYMN CCLIII. (M. C.)

Cyd-glodforedd y gwardigion.

- 1 CYD-GANWN âg angelion glân,
 O flaen yr orsedd mwy :
 Tafodau fyrdd sy'n seinio cân,
 Ond un eu testyn hwy.
- 2 Teilwng yw'r Oen byth, medd y rhai'n,
 O'r clod, a'r parch, a'r bri:
 Teilwng yw'r Oen, atebwn sain ;
 A'i waed fe'n prynodd ni.
- 3 Iesu sydd deilwng byth i gael,
 Urddas, a nerth, a chlod :
 Bendithion fyrdd i'n Harglwydd hael,
 Byth, byth a fyddo'n bod.
- 4 Cyd-ganed nef a daear lawr,
 Glodforedd per di boen,
 I'r hwn sydd ar yr orsedd fawr,
 A mawl di lyth i'r Oen. P. J

HYMN CCLIV. (M. C.)

Emyn y coroniad.

- 1 CLODFORWCH enw Mab Duw Ion,
 Angelion gwynion gwawr ;
 O deuwch a choronwch Ef,
 Yn Llywydd nef a llawr.

- 2 Seraphiaid nef, pob un â'i dant,
Dan ganu moliant mawr,
O deuwch, a choronwch Ef,
Yn Llywydd nef a llawr.
- 3 Ei chwerwaf angeu, byth na bo
I'w saint anghofio'n awr ;
O deuwch, a choronwch Ef,
Yn Llywydd nef a llawr.
- 4 Pob llwyth ac iaith, hil Adda i gyd,
Trwy'r holl gwmpasfyd mawr ;
O deuwch, a chyhoeddwch Ef,
Yn Llywydd nef a llawr. IAGO.

HYMN CCLV. (M. C.)

Erfyniad yn yr Ysbryd Glân.

- 1 O NEFOL awel chwyth yn awr,
Mae bellach yn hwyrhau ;
Er mwyn dy enw Arglwydd mawr,
O tyred i'n bywhau.
- 2 O ddwyfol anorchfygol nerth,
Datguddia'r Aberth mawr :
Rhinwedd y gwaed, yr Iawn, y gwerth,
Datguddia i ni'n awr.
- 3 O wir Ddyddanydd Eglwys Dduw,
Preswylia yn ein plith :
Ac arwain ni fel byddom byw,
O dan dy nefol wlith. R. J. LL—LL.

HYMN CCLVI. (M. B.)

Cyflawnder yr iachawdwriaeth.

- 1 MAE'R iachawdwriaeth rad,
Yn ddigon i bob rhai ;
Agorwyd ffynnon er glanhad,
Pob pechod cas a bai.

- 2 Daw tyrfa rif y gw lith,
Yn iach trwy rin y gwaed :
Pwy wyr na byddaf yn eu plith,
Yn lân o'm pen i'm traed.
- 3 Er lleted yw fy mhla,
Er dyfned yw fy mriw,
Y balm o Gilead a'm hiachâ,
Mae Crist yn feddyg gwiw.
- 4 Dan bwys euogrwydd du,
Edrychaf tua'r groes,
Lle llifodâ gwaed fy Mhriod cu,
Anfeidrol Iawn a roes.



MYMN CCLVII. (M. B.)

Achos ac effeithiau angen Crist.

- 1 **A** I am fy meiau i,
Dyoddefodd Iesu mawr,
Pan ddaeth yn ngrym ei gariad Ef,
O entrych nef i lawr ?
- 2 Cyflawnai'r gyfraith bur,
Cyflawnder gafodd Iawn ;
A'r dyled mawr, er cymaint oedd,
A dalodd Ef yn llawn.
- 3 Dyoddefodd angen loes,
Yn ufudd ar y bryn ;
A'i waed a ylch yr Ethiop du,
Yn lân fel eira gwyn.
- 4 Bu'n angen i'n hangeu ni,
Wrth farw ar y pren ;
A thrwy ei waed y dygir llu,
Trwy angen i'r nefoedd wen.

4 Pan grymmodd Iesu ei ben,
Wrth farw yn ein lle,
Agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
I bur drigfanan'r ne'.

5 Gorchfygodd uffern ddu,
Gwnaeth ben y sarph yn friw;
O'r carchar caeth y dygir llu,
Trwy ras i deulu Duw.

J. E.

◆

HYMN CCLVIII. (M. B.)

Crist yn rhagori ar y Cysgodau.

1 **N**IS gallai gwaed yr holl
Aberthau i gyd o'r bron,
Roi heddwch i'r gydwylod ddu,
Na golchi brynti hon.

2 Ond Crist y nefol Oen,
A ddyg bechodau'r byd;
Ei aberth Ef, a'i waed sy fwy,
Na phwysau'r rhai'n i gyd.

3 Af ato fel yr wyf,
I 'mofyn am iachad;
A'm holl bechodau addef wnaif,
Yn isel wrth ei draed.

4 Mae gobaith f'enaid gwan,
Fy hyder a fy ffydd,
Yn gwir ymorphwys ar ei waed,
Am lwy'r lanhad ryw ddydd.

5 Gwnaeth Iesu gymmod llawn,
Dyoddefodd angeu loes;
Y clod didrai, y mawl dilyth,
Fo byth am waed y groes.

D. T.

HYMN CCLIX. (M. B.)

Cariad anfeidrol Duw.

- 1 **C**YDUNED Sïon lân,
Mewn can bereiddia'i blas,
O fawl am drugareddau'r Ion,
Ei roddion Ef a'i ras.
- 2 P'le gwelir cariad fel
Ei ryfedd gariad Ef?
P'le bu cyffelyb iddo 'rïoed,
Rhyfeddod nef y nef!
- 3 Fe'n carodd cyn ein bod,
A'i briod Fab a roes,
Yn ol ammodau hen y llw,
I farw ar y groes.
- 4 Gwnaeth Iesu berffaith Iawn,
Brydnawn ar Galfari;
Yn ei gyfiawnder pur dilyth,
Mae noddfa byth i ni.
- 5 Anfeidrol ydyw gwerth,
A rhin ei aberth mawr,
I achub rhyw aneirif lu,
O deulu gwael y llawr.
- 6 Y rhai yn berffaith lân,
A beraidd gân i gyd,
I'r bendigedig unig Oen,
Yn iach o boen y byd.

IAGO.

HYMN CCLX. (M. C.)

Yr achos dirwestol.

- 1 **I** BWY mae gwarth ar goedd,
A bloedd a dadwrdd blin?
Ac ochain trwm i bwy y mae,
A gwae, ond yfwyr gwin?

- 2 Ni chwynwn byth ar ol,
Gwlybyroedd meddwol mwy :
I'w gwrthod oll rhoddasom law ;
Pwy etto ddaw ? O ! pwy ?
- 3 Myrddiynau dros y byd,
O'n cyd-ddirwestwyr ceir ;
O'u meddwdod blin, trwy ddirwest dæg,
Ychwaneg a iachêir.
- 4 Y Jubili a ddaeth,
Er rhoddi'r caeth yn rhydd :
Cyd-lawenhawn ddirwestwyr da ;
Hosanna ! dyma'r dydd.

P. J.

—◆—
HYMN CCLXI. (10. 8.)

Dyogelwch yn angeu'r groes.

- 1 NID oes, ni fu, ni ddaw, mewn unrhyw oes,
O gymaint gwerth a gwaed y groes,
Y ddwyfol loes ddyoddefodd Ef ;
O gariad mawr diderfyn 'stor,
Sy fel y môr mewn dwyfol lef.
- 2 O pwy, ymguddiodd yn dy ddwyfol glwy,'
Ac yna fethodd dori trwy ?
Gystuddiau mwy na gwellt y maes ;
Mae'r fuddugoliaeth fawr yn dod,
Hyd yma erioed oddiwrth dy ras.
- 3 Nid oes a ddeil fy ysbryd dan bob croes,
Ond dwyfol nefol farwol loes,
Estyniad f'oes, yw ei fwynhau ;
'Does arall gysur mewn un man,
Fe yw fy rhan byth i barhau.

W. W.

—◆—
HYMN CCLXII. (10. 8.)

Anfeidrol gariad Crist.

- 1 O PWY, all chwilio dyfais dwyfol glwy',
Sy'n anchwiliadwy hollol trwy,

Bob darn o hono oll i gyd ?
Dyfniderau mawr ei gariad ef,
Ddadseinia'r nef, pan ddarffo'r byd.

2 'Does dim, o tan y nefoedd fawr o rym,
A'm deil i'r lan tan gystudd llym,
Ond cariad pur fy Arglwydd cu ;
A hwn a'm nertha i fyn'd yn mlaen,
Trwy ddwr a thân, i'r nefoedd fry.

3 Mwy mwy, yw buddugoliaeth dwyfol glwy,
A'i goncwest helaeth gyrhaedd trwy,
Galonau mwy na rhif y gwllith ;
Yn nydd ei nerth y gwanaf un,
Wrtho a lŷn yn ffyddlon byth.

W. W.

HYMN CCLXIII. (10. 8.)

Llwyddiant yr Efengyl.

1 **E**I glod, sydd heb un terfyn iddo'n bod,
O aed y'mlaen fwy nag erioed,
O gwmpas rhod y ddaear fawr ;
Nes elo swn efengyl bur,
I dori'n glir, fyrddiynau i lawr.

2 Mae mae, rhyw hiraeth ynwy' yn parhau,
Am wel'd yr amser hyny'n glau,
Y pryd y mae fy Arglwydd rhad,
I dderbyn ei ogoniant mawr,
Gan nef a llawr am roddi ei waed.

3 O 'nawr, addfwynaf Iesu tyr'd i lawr,
Helaetha dy freniniaeth fawr ;
C'od dd-dwydd awr iachusol ddydd ;
Rho'r carcharorion fyn'd i maes,
O'r pydew cas heb ddwfr y sydd.

W. W.

HYMN CCLXIV. (10. 8.)

Dedwyddwch y nef.

1 **Y** MAE, y dydd yn dod i'r duwiol rai,
I felys foli Duw'n ddi-drai

Y'mhlith y rhai sydd fry mewn hêdd;
I'r addfwyn Oen, yn canu'n rhwydd,
Ac yn ei wÿdd, cael gwel'd ei wêdd.

W. W.

- 2 Mae, mae, yr amser hyfryd yn neshau,
Pan gaffb'm henaid ei ryddhau,
O'm tŷ o glai, fyn'd tu a'm gwlad:
Nid yma mae 'ngorphwysfa i,
Mae hòno frŷ, yn nhŷ fy Nhad.
- 3 Gwlad, gwlad, o'r lle 'rwy'n dysgwyl llwyr ryddhad,
O law 'ngelynion mawr eu brâd,
Trwy rinwedd gwaed, fy Iesu gwiw;
'Does gelyn mwy a ddaw i'r lân,
I'r hyfryd fan, ar fyr câf fyw.
- 4 Gwledd, gwledd, o fywyd, a thragwyddol hêdd,
Sydd yn y byd tu draw i'r bedd;
Ond hardd fydd gwedd y dyrfa i gyd
Sy'n byw ar haeddiant gwaed yr Oen,
O sŵn y boen, sydd yn y byd.

G.

HYMN CCLXV. (10. 8.)

Hiraethu am wlad well.

- 1 **B**RAINT, braint, yw cael cymdeithas gyda'r saint,
Na welodd neb erioed ei maint,
Ni ddaw un haint, fyth iddynt hwy;
Y mae'r gymdeithas yma'n gref,
Ond yn y nef, hi fydd yn fwy.
- 2 Daw, daw, fy Iesu i'm harwain yn ei law,
O'r anial drwg, i'r ardal draw,
I'r bywyd dystaw, pur, di-boen:
Câf ganu'n llafar gyda'r llu,
Gân Moses fry, a chân yr Oen.
- 3 Ni ddaw, na phoen na gofid, och, na braw,
I neb o'r saint yr ochr draw,
Dont yn ei law, i'r hyfryd wlad:
I seinio i dragwyddoldeb mwy,
Am farwol glwy', ac am y gwaed.

G.

HYMN CCLXVI. (10. 8.)

Cariad Crist.

- 1 **C**LOD, clôd, i'r hwn a'm carodd cyn fy môd,
 Mae'm llêf am ddilyn ol ei droed,
 Nes im' gael dod, i'w dawel hedd :
 I'r lle mae llawnder ar bob llaw,
 Heb boen na braw, tu draw i'r bêdd.
- 2 Efe a'm carodd cyn sylfaenu'r ne',
 Aeth dan law'r lleiddiaid yn fy lle;
 Ei haeddiant e' sy'n awr o'm tu,
 I deithio'r ffordd i'r nef yn lân,
 Af trwyddo y'mlaen, i'r Ganaan fry.
- 3 Pa le y gwnaf fy noddfa dan y ne',
 Ond yn ei glwyfau anwyl e':
 Y bicell gre' aeth dan ei fron,
 Agorodd ffynnon i'm glanhau,
 'Rwy'n llawenhau, fod lle yn hon. G.

HYMN CCLXVII. (10. 8.)

Llawenydd y gwaredigion.

- 1 **B**YDD, bydd, yn llawen Sïon, daeth y dydd,
 I gael o'r diwedd fyn'd yn rhydd;
 Wele, dy Frenin wedi dod,
 Dy holl elynion sydd mewn braw ;
 Gwna ol ei law, boed iddo'r clôd.
- 2 Daw dydd, y cân y dinasyddion sydd,
 Gan rym y don, a'u bron yn brudd ;
 Y bore tawel sydd ger llaw,
 Ac yno bydd soniarus dôn,
 O fawl i'r Oen, heb boen na braw.
- 3 Bydd, bydd, llawenydd na raid bod yn brudd.
 I bawb sy'n meddu bywiol ffydd ;
 Can's dyma'r dydd bydd gweiddi, dewch,
 Chwi fendigedig blant fy Nhad,
 I'r nefol wlad, o'i rad yr ewch. G.

HYMN CCLXVIII. (10. 8.)

Cân y nefolion.

- 1 **F**E gân, y gwaredigion fawr a mân,
 Dragwyddol glôd i'w Priod glân,
 Pan ddelo'r tân i losgi'r tîr:
 Cânt godi eu penau a llawenhau,
 Ei poenus wae, â heibio'n wir.
- 2 Eu cân, fydd am Galfaria fawr a mân,
 Ac oll yn gariad, oll yn dân;
 Yn gwel'd yn lân, lwy'r gwblhau,
 Bob gair a ddaeth o'i enau ef,
 A'i gariad ef byth yn parhau.
- 3 Mae braint, yn awr yn eiddo i bawb o'r saint,
 'Does dafod fyth fynega ei maint;
 Can's diane wnant o wlad y boen,
 I'r fythol wledd, o faith barhad,
 Bwrcasodd gwaed yr addfwyn Oen. G.

HYMN CCLXIX. (10. 8.)

Hiraethu am ollyngdod.

- 1 **D**AETH trwy, fy Iesu glân, a'i farwol glwy,
 Fendithion fyrdd, daw etto fwy,
 Mae ynddo faith, ddiderfyn stor;
 Ni gawsom rai defnynau i lawr,
 Beth am yr awr, cawn fyn'd i'r môr!
- 2 Does mwy, ar ol pob gwledd ond aml glwy',
 A thristwch yn y byd lle 'rwy';
 Mae hiraeth trwy fy enaid cu,
 Am fy rhyddhau o faich y cnawd,
 'Fynd at fy Mrawd, a'm Priod fry.
- 3 Brydnawn, ar y ddedwyddaf awr a gawn,
 Y talodd Iesu'n eitha' llawn,
 Y dwyfol iawn, i'm hanwyl Dad;
 Palmantodd ffordd o Galfari,
 I'r nefoedd fry trwy rin ei waed. G.

HYMN CCLXX. (10. 8.)

Crist a'i ddyweddi.

- 1 **M**AE'N awr yn eistedd ar yr orsedd fawr,
Yn Arglwydd uffern, nef, a llawr,
Hyd fore wawr yr olaf ddydd ;
Pan ollyngo ei ddyweddi ddrud,
O lwch y byd, yn berffaith rydd.
- 2 Yn wir, pryd hyn fe eilw ei briod bur,
Tyr'd yma i mewn i'th nefol dir,
'Roed i ti'n hir, cyn seiliad byd ;
Dy etifeddiaeth nefol yw,
Gwerth gwaed dy Dduw, a'i boenau drud.
- 3 Y rhai'n, a wisgir oll a lliain main ;
Telynau sydd, o beraidd sain,
I ganu Anthem faith o glod
I'r hwn fydd yn teyrnasu mwy,
Fe gafodd glwy', fe oedd erioed.
- 4 'Fydd son, am alar, gruddfan, gwae, na phoen,
Yn nghwmni'r addfwyn anwyl Oen,
O fewn i Sion sanctaidd fry :
Ond yfed dyfroedd dwyfol clir,
A ddaeth yn wir, o Galfari. G.

HYMN CCLXXI. (10. 8.)

Mawl yr Oen.

- 1 **C**LOD, clod, i'r Oen a laddwyd cyn fy mod,
Y parch, a'r mawl i'w enw boed ;
Am iddo 'rïoed, o'i gariad rhad,
Roi serch ar wael syrthiedig ddyn,
Mawr iawn yw rhin, ei ddwyfol waed.
- 2 Daw dydd, i'r carcharorion fyn'd yn rhydd,
O'u holl gadwynau tynion sydd,
Mor felys fydd, eu caniad hwy ;
Am ddyoddefaint addfwyn Oen,
Bydd hyfryd son, heb ddiwedd mwy.

- 3 Daw, daw, yr hyfryd fore, mae gerllaw,
Bydd pawb a'i delyn yn ei law,
Heb ofn na braw, yn nghwmni'r Oen,
Ond canu i dragwyddoldeb maith,
Ar ben y daith, heb friw na phoen.
- 4 Mae, mae, ein Harglwydd hael yn trugarhau,
Ei rad drugaredd sy'n parhau ;
Nis gallwn lai na'i foli'n awr,
Am iddo'n dwyn i oleu'r dydd,
A'n tynu'n rhydd, o'r cystudd mawr. G.

◆

HYMN CCLXXII. (10. 8.)

Ffydd yn ngwaed yr Oen.

- 1 **T**RWY ffydd, yn ngwaed yr Oen i'n gwnaed yn rhydd,
O'n carchar a'n caethiwed prudd ;
Ond ein Mechniydd, fe'i daliwyd e'
I ateb holl ofynion Duw,
Rhyfeddol yw aeth yn ein lle.
- 2 Yn lle, y dynion gwaetha dan y ne',
Yr Oen difai, dyoddefodd e' ;
A hyn wy'n ddadleu, f'anwyl Dduw :
A than ei gysgod, gwnaf fy nyth,
Mi a'i caraf byth, tra byddwyf byw.
- 3 Byw byw, yw'r Iesu'm ffrynd, a'm Prynwr gwiw,
Er iddo gynt gael marwol friw :
A sicr yw, mai byw wna'r saint ;
O herwydd bod eu Ceidwad cu,
Yn eiriol fry, rhyfeddol fraint.
- 4 Braint, braint, 'does neb a all fynegi ei maint,
Yw bod yn un o'r ffyddlon saint ;
Pan ddel digofaint Duw ryw ddydd,
Ar rai digred, fel tymhestl gre',
Y duwiol fe, diangol fydd.

- 5 Parhau mae cariad Duw i'w anwyl rai,
 Hwyl gant yn wastad ei fwynhau,
 Heb achwyn trai yr ochr draw :
 O na bawn gydag ef yn byw,
 Fy Mhriod yw, pa pryd y daw ? G.

MYMN CCLXXIII. (10. 8.)

Canu am rad ras.

- 1 **BYDD**, bydd, rhyw ganu peraidd iawn ryw ddydd,
 Pan ddelo'r caethion oll yn rhydd,
 Fe droir eu ffydd yn olwg fry,
 Cydunant byth heb dewi a sôn,
 I foli'r Oen fu ar Galfari.
- 2 Ond gwledd, sydd etto'n bod tu draw i'r bedd,
 Dros byth i'w chael i'r gwael eu gwedd ;
 Lle bydd caniadau maith di-ri',
 I bara beunydd yn ddi-boen,
 Gan foli'r Oen fu ar Galfari.
- 3 Golch ni, oddiwrth ein beiau aml ri',
 Yn afon werthfawr Calfari,
 Sydd heddyw yn llif o haeddiant llawn :
 Er cymaint ein haflendid ni,
 Yn dorf ddi-ri' ein golchi a gawn.
- 4 Rhad ras yw'r newydd gân, bereiddia ei blas,
 Fu 'rïoed ar wyneb daear lân ;
 Hi ddeil ei blas, pan losgo'r byd,
 A'berwi'r môr a'i donau yn dân,
 Y nefol gân, fydd gras i gyd.
- 5 Mae'r awr i'm gael yn llwyr fy meiau i'r llawr,
 Yn mwriad fy Eiriolwr mawr :
 Bu farw ef, caf finau fyw,
 Er amled yw 'ngelynion cas,
 Mae newydd flas ar air fy Nuw. G.

HYMN CCLXXIV. (10. 8.)

Effeithiau dyoddefaint Crist.

- 1 **G**WYCH sain, fydd eto am y goron ddrain,
Yr hoelion llym, a'r bicell fain,
Wrth gofio rhai'n caiff uffern glwy';
Carcharau tynion aeth yn rhydd,
Fe gaed y dydd, Hosanna mwy.
- 2 Gras, gras, yn genllif grymus ddaeth i maes,
Grisialaidd afon loyw las,
Rhinweddol flas i'r euog rai;
Lle i bechaduriaid yma gaed,
I'w canu'n rhad oddiwrth bob bai.
- 3 I'r làn os bydd in' ddod o'r anial fân,
Bydd hyfryd seinio yn y mât,
Pawb yn ei ran yn moli'r Oen,
Mewn melys anthem, newydd iaith,
Ar ben y daith heb friw na phoen.

J. R.

HYMN CCLXXV. (10. 8.)

Effaith croes Crist.

- 1 **A**ED, aed, y newydd am y dwyfol waed,
Nes golchi myrdd o'r dua gaed,
O'u pen i'w traed yn hardd a gwyn,
Fel byddo'r nef a'r ddaear las
Yn dadsain gras, Calfaria fryn.
- 2 Mawr, mawr, yw grym llewyrchiad nefol wawr;
Try'r nos yn ddydd ar blant y llawr,
Mae'r goleu'n awr yn nerthol wir;
Ond rhagddo'r â hyd hanner dydd;
Pur oleu fydd mewn nefol dir.
- 3 Pwy, pwy, rydd ddim yn erbyn rhei'ny mwy,
Ynguddiodd yn ei ddwyfol glwy'?
Eu dyled hwy gorphenodd ef,
Ei thalu'n llwyr ar ben y bryn;
Ni bleidiwn hyn o flaen y nef.

T. J.

HYMN CCLXXVI. (10. 8.)

Hyder ffydd.

- 1 **T**RWY, trwy, fy Iesu gwiw a'i farwol glwy',
 Y'mlaen yr af, ymlòni'r wy',
 Nac achwyn mwy fy enaid gwan;
 Er llid y ddraig a daear lawr,
 Fy Arglwydd mawr a'm deil i'r lan.
- 2 Er bod, blinderau mynych is y rhod,
 Fy Iesu a'm ceidw dan ei nod;
 Er mwyn ei glod a'i enw glân,
 Rhydd goncwest lawn i'r llesg a'r llaith,
 Ar luoedd maith yn fawr a mân.
- 3 Draw, draw, o gyrhaedd pechod, poen, a braw,
 Caf orphwys ar ei ddeheulaw;
 Mewn gwlad na ddaw un saeth na chlwy',
 Pan ymddatodo'm tŷ o bridd;
 Caf fod yn rhydd heb ofni mwy. T. J.

HYMN CCLXXVII. (10. 8.)

Goruchafiaeth croes Crist.

- 1 **D**AL fi, er fy ngelynyon aml eu rhi,
 A'm golwg tua Chalfari,
 A gwrando gri fy enaid gwan,
 Mewn gorthrymderau o bob rhyw:
 Trwy allu Duw y dof i'r lan.
- 2 Nef, nef, yw llewyrch gras ei wyneb ef,
 A chymhorth ei ddeheulaw gref;
 O flaen ei lef rhyfeddol yw,
 Ffy holl fyddinoedd uffern fawr:
 Trwy ras 'rwy 'nawr hyd yma'n fyw.
- 3 Efe, yw f'unig noddfa dan y nef,
 Yn wyneb gallu uffern gref,
 Ac onidê fy enaid gwiw,
 Soddasai yn y ffos i lawr:
 Ond d'wedai'n awr, 'rwyf etto'n fyw.

- 4 Ei wedd a leinw f'enaid gwan & hedd,
Nes llyncu ofnau, barn, a bedd;
A dyma wledd i enaid trist,
Cael golwg ar ei ddwyfol loes,
Ac ar y groes ogoniant Crist.

R. J.

HYMN CCLXXVIII. (10. 8.)

Y groes yn etifeddiaeth i'r Cristion.

- 1 **E**I groes, a fyddo etifeddiaeth f'oes,
A grym i lynu tan bob loes;
'Rwy'n gwel'd nad oes o dan yr haul,
Neb dal mewn profedigaeth ddwys,
I roddi mhwys, ond Adda'r ail.
- 2 Pob loes, yn un & holl ofidiau f'oes,
Sy'n peri'm grynu dan y groes,
Trwy ddydd a nos, fo'n gweithio 'nawr,
Fy enaid egwan i'th fwynhau,
Sy'n trugarhau wrth lwch y llawr.
- 3 Y cnawd, sydd yn gofidio f'enaid tlawd:
Pwy'm deil tan gystudd, poen, a gwawd?
Y Brawd a aned erbyn loes,
A nertha'm hysbryd tan bob cur;
Fy nghwpan sur ga'dd ar y groes.
- 4 Y byd, a'i wŷg a'i wên, sydd ddrain o hyd;
O'i fewn nid oes im' noddfa glyd,
Ond angeu drud pen Calfari;
Mae yma gysgod diddos iawn,
Maddeuant llawn a hedd yn lli'.

R. J.

HYMN CCLXXIX. (10. 8.)

Crist yn sylfaen, noddfa, a lloches.

- 1 **F**Y sail, a'm nerth, a'm noddfa dan yr haul,
A'm cysur mwy fydd Adda'r ail;
Rho f'adail arno, dyma'r graig,
A grym fy enaid i barhau,
Er llid a gallu drygau'r ddraig.

- 2 Ei glwy', a fydd fy llocheſ gynhes mwy,
Yn mhob rhyw 'stormydd'r elwy' trwy,
A phwy a saif y dydd sy'n dod ?
Ond etifeddion gras a hedd,
Pan wrth ei wedd y syrthia'r rhod.
- 3 Pwy ddaw, yn angeu i 'maflyd yn fy llaw ?
Pan ddelo dychryn brenin braw,
I'm danfon draw i'm cartref hir ;
Nid oes a saif yn graig a thŵr,
Yn ngrym y dwr ond Iesu'n wir.
- 4 Efe, fu rhwng y lladron yn fy lle,
Tan hoelion rhwng y ddae'r a'r ne' ;
A'r bicell gref yn gwanu ei fron,
A ddeil fy enaid yn y lli',
Rhag suddo yn angeu du a'i ddn. R. J.

—♦—

HYMN CCLXXX. (M. N.)

Pererinion ar ben eu taith.

- 1 **O** ARDALOEDD nefol hyfryd,
Draw'r Iorddonen tir y bywyd ;
Gwlad lle mae fy ffryns yn gyson,
Wedi darfod â'u siwrneion ;
Nid oes lludded, nid oes blino
Ar y pererinion yno :
Nid oes poen gyda'r Oen,
Llafur na lludded ;
Torodd angeu, elyn diried,
Holl gadwynau eu caethiwed.
- 2 Nid yw eu llygaid heddyw'n gweled
Dim a'u harwain i gaethiwed ;
Nid yw eu nwydau poeth yn cwrddid,
Dim ag sydd yn ennyn gofid :
Nid yw'r serch yn cael ei 'nynu,
At un gwrthddrych na thal 'garu ;

Y mae'r byd oll i gyd
 A'i wag deganau,
 Wedi rhedeg o'u meddyliau,
 Wrth gael ergyd marwol angeu.

3 Nid rhaid ofni'r cystudd chwerw,
 Croes rhagluniaeth mwy na marw ;
 Nid rhaid ofni'r cryd na'r dwymyn
 Farwol boeth yn llys y Brenin ;
 Y mae golwg ar ddysgleirdeb,
 Duw, yn mhalas tragwyddoldeb
 Yn dwyn hedd, nefol wledd,
 Rhyw angof hyfryd,
 O bob poen, a gwae, a gofid,
 Gawsant yma yn eu bywyd.

4 Rhan o'u pleser hyfryd heddy'
 Ydyw canmawl a rhyfeddu ;
 Torf gerubiaid yn llawn bywyd
 Sydd yn ledio'r anthem hyfryd ;
 Hwytbau yn taro' mewn yn ëon.
 Nôt am nôd a'i gadw yn gyson,
 Nefol dân, saint sy ar y blaen,
 Saint ga's eu prynu !
 Hwytbau yr dyrfa ddaeth i fynu
 O'r caethiwed wedi maeddu.

W. W.

HYMN CCLXXXI. (M. N.)

Rhinweddau aberth Crist.

1 **R**WY'N rhoi mhechod, 'rwy'n rhoi nghanwedd,
 'Nawr yn gryno wrth dy orsedd ;
 Maddeu i'r brwnt, a maddeu i'r aflan,
 Sydd o flaen y faine yn gruddfan ;
 Maith drugaredd wyf yn bledio
 Darfu haeddiant dyn yn gryno ;
 Nid oes dim, noddfa im'
 Rhag grym yr angeu,
 Ond yr aberth wnaed er's dyddiau
 Ar Galfaria tros bechodau.

2 Dacw'r ffynnon bur hawddg^{ara},
 Gànodd filoedd fel yr eira ;
 Dacw'r nant, a dacw'r afon,
 Sydd yn genllif o gysuron :
 Dacw'r dwr, mi gwympaf iddo,
 Doed o honwy'r peth a ddelo ;
 Bellach mwy, treiddiaf trwy,
 Filoedd o ofnau ;
 Mwy yw'r hwn a fu yn dyoddeu,
 Nag aneirif faint fy meiau.

3 Fel un faeddwyd wyf yn gymhwys,
 Etto a'm gobaith am baradwys :
 Mae fy chwant, ac mae fy nwydau,
 Yn fy nwyn tros bob terfynau ;
 Etto mae yma ryw afaelon,
 Am dorfeydd o addewidion,
 Deued gras, foreu glas,
 Hyfryd i'w weled,
 Tored rwydau, a gwareded
 F' enaid euog o gaethiwed.

W. W.

HYMN CCLXXXII. (M. N.)

Golwg ar yr ochr draw.

- 1 O! NA roddai f' Arglwydd tirion,
 Ronyn trai ar ddwr yr afon ;
 Fel y gallai'r gwan fyn'd trosodd,
 Heb ei foddî yn y dyfroedd ;
 O'r Iorddonen angeu chwerw !
 Dyna fy ofn, ofni hwnw ;
 Onidê nawr i'r ne',
 Brefwn am fyned,
 Can's mi flinaiis o'm caethiwed,
 Tan elynion dewrion diried.
- 2 'Dyw fy ngwaith, nid yw fy noniau,
 Ond rhyw sorod heb eu heisiau ;
 Bedd i'm puro oddiwrth fy mrynti,
 Yw'r hyn 'berthyn, oreu i mi ;
 Pridd i'r pridd, a lludw i'r lludw,
 'Madrodd hyfryd ydyw hwnw,

Iddynt hwy, sydd dan glwy'
 Pechod yn gyson,
 Ac yn methu trwy bob moddion
 Glirio gwaelod eu harchollion.

W. W.

- 3 Pan dderchafwyf i'm hardd drigfa,
 I wel'd gogoniant y Messiah ;
 Pa fath olwg nefol hyfryd,
 A fydd ar D'wysog mawr y bywyd ?
 A ydyw ol yr hoelion yno,
 Yn ei draed, ac yn ei ddwylo ?
 Ni holai'n hwy, caf weled mwy,
 Dirgelwch 'rwy'n credu,
 Yn y Drindod a rhyfeddu,
 Nag all calon dyn ddych'mygu

G.

HYMN CCLXXXIII. (M. N.)

Hiriaethu am wlad well.

- 1 'R WYF fi'n myn'd i wlad i drigo,
 Lle mae gloyw ras yn llifo ;
 At gyfeillion mil mwy hawddgar,
 Na neb welwyd ar y ddaear :
 Lle mae cyfoeth heb un terfyn,
 Pleser nefol, dwyfol dirfyn,
 Y'ngwydd yr Oen, heb ddim poen,
 Pechod nac adfyd,
 Ond ymborthi ar wleddoedd hyfryd,
 Fyth, ac fyth yn nhir y bywyd.
- 2 Llid nag un genfigen hefyd,
 Fyth ni ddaw i drothwy'r bywyd ;
 Ni ddaw'r ymadrodd coeg a'r celwydd,
 Ddim o fewn paradwys newydd :
 Tafod wedi ei lwyr sancteiddio,
 Llygad wedi ei berffaith buro,
 Sy'n y wlad, gyda Nhad,
 Anwyl yn trigo,
 'Rwyf fi yma wedi blino,
 Hiraeth sy arna'i am fyn'd yno.

- 3 Bellach gorfoledda fy enaid,
 'Rwyf ar ddianc o'th gaethiwed :
 Fe agorwyd rhydiau'r afon,
 Y mae'r arch o'th flaen yn gyson :
 Cadw afael pan ddel galwad,
 Gadarn yn dy Archoffeiriad :
 Dos i'r dwr, cryf yw'r gwr
 Sydd yn dy dderbyn,
 Ti ai trosodd yn mhen gronyn,
 Mewn i'r wlad 'rys yn dy erfyn. W. W.

—◆—
 HYMN CCLXXXIV. (8. 6. 6.)

Gweddi a hyder y Cristion.

- 1 IESU 'Mrenin mawr, a 'Mhriod,
 Bydd wrth raid i mi'n blaid
 I orchfygu pechod.
- 2 Pâr i'm aros mwy'n dy freichiau,
 Boed fy nyth, ddedwydd byth,
 Yn dy ddilyth glwyfau.
- 3 Hiraeth sy ar fy nghalon dyner,
 Wel'd y dydd, fyn'd yn rhydd,
 Maes o'm poen a'm blinder.
- 4 Gwna fi farw, farw'n ddiau,
 Marw i'r byd, 'nawr yn nghyd,
 A'i holl wael bleserau.
- 5 Iesu helpa f' enaid ddringo
 'Nawr i'r lan tua'r man,
 Y ca'i byth breswyllo.
- 6 Gwynfyd a fae heddyw'n canu,
 'Mhlith y llu, sanctaidd fry,
 Sydd wedi gorchfygu. W. W.

HYMN CCLXXXV. (8. 6. 6.)

Emyn boreuol.

- 1 **D**EFFRO f'enaïd, deffro yn ufudd,
C'od yn awr gyda'r wawr,
Seinia ganiad newydd.
- 2 F'enaïd bach, gas huno'n gynnes ;
Yn ddiloes, tros y nos,
Yn dy ddiddos fynwes.
- 3 Dan dy aden, dawl dyner,
Ces heb wyn, hyfryd hun :
Buddiol fu'm hesmwythder.
- 4 Heddyw rho fy mhwys ar ddwyfron,
Iesu gwiw, 'm Tywysog yw,
Rhag pob rhyw elynion.
- 5 Hyfryd fore o gaethiwed,
Wawria draw, maes o law,
Iesu ddaw i'n gwared.
- 6 Uwch creaduriaid, Iesu cadw,
F'enaïd llon, ar dy fron,
Dirion, nes fy marw. W. W.



HYMN CCLXXXVI. (6. 4. 6.)

Darostyngiad a dyrchafiad Crist.

- 1 **R**HYFEDDA hyd a lled, fy enaid trist,
Uchder a dyfnder maith, marwolaeth Crist!
Pan gym'rodd agwedd gwas, a phechod cas ei blant,
Trwy farw yn ddiŵyn, i'w dwyn i bant.
- 2 Fe gymerth arno'n cnawd, (O ein Brawd ni!)
Fe safai ar ben y bryn, gwnai'n erbyn llu ;
Gan sathru dan cin traed, trwy'i briod waed ei hun,
Ellyllon ar fyr dro, heb ado'r un.

- 3 F'aeth tan y gyfraith faith, hedd ddaeth i ni;
Mwy t'raned Sinai gaeth, beth waeth geni'?
Mae'r llwybr idd' ei gol, yn rhydd i'r nefol had:
Ni feder Satan serth, ddwyn werth ei waed.
- 4 Fe dalai i lawr ar led, ein dyled ni,
Trwy ddyodde' angeu ar, ben Calfari:
A hyn o'i 'wyllys rhydd, can's gwela'i ddydd yn dod,
Ca'i 'lynion cryf a gwan, lawr tan ei droed.
- 5 'Nol rhoddi'n Harglwydd hael, yn wael ei wedd,
Rhyfeddod mwya' 'rioed, yn ngwaelod bedd;
Ond ar y trydydd dydd, yn rhydd yr aeth efe:
Palmantodd lwybr gwych, i entrych ne'.
- 6 'Nol gorphen ar ei waith, i'r nef 'raeth ef;
Lle mae e' yr awr hon, yn gwrando'n llef;
Yn eiriol drosom draw, ar fyr fe ddaw'n rhyddhau;
Mae'r amser ddydd a nos, yn agoshau. W. W.



HYMN CCLXXXVII. (6. 4. 6.)

"Y man lle gorweddodd yr Arglwydd."

- 1 **N**ID allodd angeu du, ddal Iesu'n gaeth,
Ddim hwy na'r trydydd dydd, yn rhydd y daeth;
Ni ddelir un o'i blant, er myn'd i bant y bedd,
Fe'u gwelir ger ei fron, yn llon eu gwedd.
- 2 Wrth wel'd yr angeu du, yn nesu'n awr,
Rwy'n ofni ambell dro, wrth gofio'r awr:
Pan gwelwy'r gwaith trwy ffydd, y trydydd dydd
'wnaeth Duw,
Mae 'ngobaith yn fwy cry', 'doi fynu'n fyw.
- 3 Er pydru y'ngwaelod bedd, yn farwedd fud,
Daw'r Iesu i'm codi'n llon, ger bron ryw bryd!
A'm llygaid inau a'i gwel, mae'r gair dan sel yn wir,
Ar newydd ddedwydd ddydd, boreu-ddydd clir.

- 4 Pan bu fy Arglwydd mawr, yn llawr y bedd,
 Cynhesodd wely i mi, rhag oeri'm gwedd :
 Yn rhydd ryw ddydd a ddaw, rhowch fi a'ch llaw'n
 'run lle,
 Rwy'n caru er yn wan, y fan bu 'fe. G.

—◆—
 HYMN CCLXXXVIII. (6. 4. 6.)

Rhyfedd ras.

- 1 **D**AETH ffrydiau melys iawn, yn llawn fel lli',
 O ffirwyth yr arfaeth fawr, yn awr i ni :
 Hen iachawdwriaeth glir, aeth dros y crindir cras ;
 Bendithion ammod hedd : O ryfedd ras !
- 2 Fe gymerth Iesu pur, ein natur ni ;
 Ennilodd ef i'w saint, bob braint a bri :
 Gadawai'r nef o'i fodd, fe gym'rodd agwedd gwas :
 Ffrwyth y cyfammod hedd : O ryfedd ras !
- 3 Wrth orphwys ar yr Iawn, ni gawn i gyd,
 Felysion ffirwythau'r groes, drwy'n hoes o hyd :
 Mae yma hyfryd win, I flin o beraidd flas ;
 Maddeuant pur a hedd : O ryfedd ras !
- 4 Caed balm o archoll ddofn, y bicell fain ;
 Yn rawnwin ar y groes, fe droes y drain :
 Dechreuwn fawl cyn hir, na flinir ar ei flas,
 Am Iesu'r aberth hedd : O ryfedd ras ! P. J.

—◆—
 HYMN CCLXXXIX. (6. 4. 6.)

Iesu yn blaid.

- 1 **F**E gymerth Iesu blaid, trueiniaid trist ;
 Ysigodd ben y ddraig ; ein craig yw Crist ;
 Cawn ninau fod yn bur, uwch cur a phechod cas,
 Yn berffaith ar ei wedd : O ryfedd ras ! P. J.

- Efe a'i clwyfodd ar y groes,
Daeth hedd i lawr drwy'i farwol loes ;
Ystyried pechaduriaid hyn,
A chofiant am Galfaria fryn.
- 2 Am roddi ei einioes bur i lawr,
Bydd ffrwyth o hyn fel gwlyth y wawr ;
O'r bedd fe ga'dd estyniad oes,
Fe lwydda'i waith er marwol loes :
Ystyried pechaduriaid, &c.
- 3 Diwellir ef, fe wel ei hâd
Yn dod yn llu o bob rhyw wlad ;
Gwybodaeth fel y boreu ddydd
A ddaw, a chyflawnhad trwy ffydd :
Ystyried pechaduriaid, &c.
- 4 Am ddwyn holl felldith drom yn un,
Ein hanwireddau arno'i hun,
Efe a rana'r ysbail fawr,
Gan fwrw'r cedyrn beilch i'r llawr :
Ystyried pechaduriaid, &c.
- 5 Rhwng y troseddwy'r ar y groes,
Dyoddefodd lid a marwol loes,
Ond, llefodd ar ei dad tan glwy',
" O ! rho faddeuant iddynt hwy :"
Ystyried pechaduriaid, &c. R. J.



HYMN CCXCIII. (7au.)

Dymuniadau'r Cristion.

- 1 **A** RGLWYDD ffoed cymylau mwy,
Grym euogrwydd damniol glwy' ;
Rho i mi brofi'th ddwyfol hedd,
Afon bur tu yma i'r bedd ;
Fel y gallwyf ddydd a nos,
Ymddigrifo yn dy groes.

- 2 Oll a wela'i tan y ne',
 Sy'n feunyddiol golli eu lle,
 Angeu yn teyrnasu'n lân,
 Ar greaduriaid fawr a mân,
 Heno marw, heno bedd,
 Fory codwn ar ei wedd.
- 3 Ffarwel bob peth yn y byd,
 Twyll a gwagedd y'ch i gyd,
 Y melysdra pena' gawn,
 Gwenwyn du sy ynddo'n llawn,
 Iesu 'does o nefol rin,
 Ond dy wleddoedd di dy hun.
- 4 Nid wy'n ceisio gan fy Nuw,
 Heddyw hawddfyd o un rhyw,
 Rho i mi feddu'th Ysbryd eun,
 Llechu yn agos it' dy hun,
 Ti gai'm cynnal tan bob croes,
 Goleu ddydd neu dywyll nos.
- 5 Ac er lleied yw fy ngrym,
 Tan dy aden ofna'i ddim;
 Mymryn bach o'th gariad drud,
 Sydd yn fwy nag uffern lid,
 Gwel'd dy wedd, a chredu'th waith,
 F'enaid ddod i ben ei daith. W. W.



HYMN CCXCIV. (7au.)

Cariad Crist.

- 1 **D**ACW gariad nefoedd wen,
 Yn dysgleirio ar y pren;
 Dacw daledigaeth lawn,
 I ofynion trymion iawn,
 Iesu gollodd ddwyfol waed,
 Minau gafodd wir iachad.

- 2 Wele'r llwybr heddyw'n glir,
Tua Chanaan hyfryd dir;
Y mae'r faner fawr yn mlaen,
Fy holl elynion cwympo wnan';
Rhed yr oriau eu rhif i maes,
Caf fyn'd trwy'r Iorddonen las.
- 3 Wele'r Ganaan hyfryd wiw,
Dyma'r ardal caf fi fyw,
Gwlad heb ofid, gwlad heb wae,
Gwleddoedd hyfryd i barhau,
Dwyfol gariad, dwyfol hedd,
Ga'i fwynhau tu draw i'r bedd.
- 4 Iesu gollodd ddwyfol waed,
Minau gafodd wir iachad,
Darfu ymfrost mawr y byd,
Iesu bia'r clod i gyd;
Wrth ei draed dymunwn fyw,
Holl hapusrwydd fy enaid yw. W. W.

—◆—

HYMN CCXCV. (7au.)

Ymnerthu yn ngras Crist.

- 1 **M**AE ein taith i'r nefol fyd,
Trwy anialwch mawr ei hyd;
A bwystfilod ynddo'n llawn,
Oll i gyd yn greulon iawn;
Iesu nid oes ond dy ras,
Ddeil fy enaid trwyddo maes.
- 2 Nid yw'm pechod mawr ei rym,
At dy anfeidrol allu ddim:
Mwy dy bwer, mwy dy ras,
Na chyfrwysdra uffern gas;
Ti goncweriaist er dy glod
Y gelynion cryfa erioed.

3 Draw bu'r fuddugoliaeth iawn,
 Ar Galfaria un prydawn;
 Rhwng y ddaear fawr a'r nef,
 Ildiodd Satan iddo ef;
 Gwerthfawr air ei goncwest drud,
 Wel, gorphenwyd dwyfol lid.

4 Dyma'r dwr, a thyma'r gwaed,
 Sylfaen iachawdwriaeth rad;
 Dyma'r lle mae'r nef ei hun,
 Yn ymfoddloni yn y dyn;
 Dyma fy hawl i a'm ple,
 I feddiannu teyrnas ne'.

W. W.

—◆—

HYMN CCXCVI. (7au.)

Gwaed y taenelliad.

1 **D**ACW'R ffynnon heddyw gaed,
 Dwfwr gloyw pur a gwaed;
 Dacw hi'n tarddu ar y bryn,
 Ylch fy enaid bach yn wyn;
 Dyma'm nerth i fyn'd yn mlaen,
 Dyma sylfaen bur fy nghân.

2 Gair o'i enau sanctaidd ef,
 'Nawr a'm dwg i ganol nef:
 Yn ei eiriau mae'r fath rin,
 Dodant nef a dae'r yn un;
 Gwrando ei lais, a gwel'd ei wedd,
 Yw fy mywyd tu yma i'r bedd.

3 Iesu, gorphwys yn dy glwy',
 Wna fy enaid bellach mwy;
 Dyma'm noddfa werthfawr lawn,
 Fyth o foreu hyd brydnhawn;
 Dyma nghysur oll i gyd,
 Dyma'm nerth i'r nefol fyd.

W. W.

HYMN CCXCVII. (7au.)

Erfyniau am ymward.

- 1 **D**YMA'R tlawd, a'r llesga 'rioed,
Fethodd ddilyn ol dy droed;
Llwybrau pur yw'th lwybrau di,
Oll yn sanctaidd, oll yn gu;
Rhaid fy ngolchi'n hyfryd wyn,
Cyn y teithiwy'r llwybr hyn.
- 2 Miloedd o feddyliau gau,
Yn fy nghalon sy'n parhau;
Nes 'dwy'n treulio'm dyddiau 'gyd,
Yn gystuddiol yn y byd;
Neb ond anfeidroldeb yw,
Ddeil fy enaid gwan yn fyw.
- 3 Danfon i mi'r olew gwir,
Ysbryd y llawenydd pur;
Dangos dy fod im' yn Dduw,
Gwella'r esgyrn wnest yn friw;
Prawf o'th hedd rho im' ar frys,
Ffrwythau'th waed, a ffrwythau'th chwys.
- 4 Mae 'nghydwibod foreu a nawn,
Yn fy marnu'n euog iawn;
Gwaeddi maes mae'r ddeddf yn hy',
Na faddeuwyd i mi fry;
O cyhoedda'r dawel hedd,
Iesu'r ochr yma i'r bedd.

W. W.

HYMN CCXCVIII. (7au.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **C**ANED cenedlaethau'r byd,
Am ei enw mawr y'ng hyd;
Aed i gyrau pella'r ne',
India'r dwyrain, India'r de';
Bloeddied moroedd gyda thir,
Ddyfnder iachawdwriaeth bur.

- 2 Na foed un dyn is y rhod,
 Heb ddadseinio maes ei glod;
 Na foed neb is awyr las,
 Heb gael prawf o'th nefol ras;
 Doed y ddaear fawr yn gron,
 Yfent ddwr y ffynnon hon.
- 3 Deffro f'enaid edrych draw,
 Gwel Galfaria bell gerllaw;
 Dacw'r hoel, a'r bicell fain,
 Dacw'r goron bigog ddrain;
 'Nawr yn gorwedd ar ei ben,
 Cryned dae'r a dued nen.
- 4 Wele f'Arglwydd sydd mewn poen,
 Ffrynd troseddwy'r, addfwyn Oen;
 Poen i angeu, poen at waed,
 Balm o Gilead rydd iachad;
 Ti Physygywr, perffaith Dduw,
 Geidw f'enaid bach yn fyw.
- 5 O dy glwyfau rhed i maes,
 Afon ddwyfol loyw las,
 Sydd yn achub sy'n iachau,
 Myrddiwn o'r aflanaf rai;
 Ac yn rhoddi cyflawn hedd,
 I rai tlota 'rioed eu gwedd.

W. W

HYMN CCXCIX. (7au.)

Rhodio gyda Duw.

- 1 **B**ETH sydd i mi yn y byd?
 Gorthrymderau mawr o hyd;
 Gelyn ar ol gelyn sydd,
 Yn fy nghlwyfo nos a dydd:
 Meddyg archolledig rai,
 Dere'n fuan i'm iachau.

- 2 O na allwn tra f'wyf byw,
 Rodio bellach gyda Duw ;
 Treulio f'oriau iddo'n llwyr,
 O foreuddydd hyd yr hwyr ;
 Canu am ei werthfawr waed,
 Nes meddiannu'r nefol wlad.

M. R.

HYMN CCC. (7au.)

Iachawdwriaeth yn destun cân.

- 1 **D**YMA destun, f' enaid cân,
 Ffynnon i dy olchi'n lân ;
 Meddyginiaeth gwedi 'chael
 I bechadur tlawd a gwael ;
 Golchi'r Ethiop dua'n wyn :
 Cenir am Galfaria fryn.
- 2 Dyma'r ffynnon, dowch bob un,
 Gwelwch hoelio Mab y dyn ;
 Gwaed yn llifo ar y pren
 A foddlonodd nefoedd wen ;
 Dyma ffynnon rydd lanhad
 I bechadur, a iachad.
- 3 Dyma destun, dwyfol yw,
 Gwneyd pechadur marw'n fyw ;
 Dyma syndod nef y nef,
 Trefn ei iachawdwriaeth ef ;
 Cân o'r newydd byth fydd hyn,
 Cofio am Galfaria fryn.

R. J.

HYMN CCCI. (7au.)

Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **W**ELE'R dydd yn gwawrio draw,
 Amser hyfryd sydd gerllaw ;
 Daw'r cenedloedd yn gytun
 I dderchafu Mab y dyn.

- 2 Gwelir teyrnas Iesu mawr,
Yn ben moliant ar y llawr;
Gwelir tŷ ein Harglwydd cu,
Goruwch y mynyddoedd fry.
- 3 Gwelir pobloedd lawer iawn,
Yn dylifo ato'n llawn;
Cyfraith Iesu gadwant hwy,
Ac ni ddysgant ryfel mwy.
- 4 Fe geir gweled Babel fawr,
Gwedi syrthio oll i lawr,
A'r teyrnasoedd mawr eu bri,
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni.

◆

HYMN CCCII. (7au.)

Esgyniad Crist i'r nefoedd.

- 1 **W**ELE angeu llym eu gledd,
Wele agoriadau'r bedd,
Wele nef a daear lawr,
Tan awdurdod Iesu mawr.
- 2 Fry esgynodd Mab y dyn,
Trwy ei werthfawr waed ei hun;
Dwyn tystiolaeth wnaeth y nef,
I fawr werth ei aberth Ef.
- 3 Gwaith gorphenol Iesu yw,
Prynedigaeth dynolryw;
Pob ymadrodd yr un iaith,
Canent mwy ei foliant maith.

◆

HYMN CCCIII. (7. 6. 8.)

Yr enaid blinderog.

- 1 **L**LAWN o ofid, llawn o wae,
A llawn o euogrwydd du,
Byth y byddaf yn parhau,
Heb gael dy gwm'ni cu:

Golwg unwaith ar dy wedd,
A'm cod i'r làn o'r pydew mawr ;
O fy Nuw nac oeda'n hwy,
Rho'r olwg imi'n awr.

- 2 Gwel y truan, gwel y tlawd,
Yn gorwedd wrth dy draed ;
O Samariad bydd yn frawd,
Adfera im' iachad :
Dyro olew yn fy mriw,
A chod fi ar dy anifail cun,
Ac nis gall fyth fyth fy nwyn,
Ond dy allu di dy hun.
- 3 Dyrus daith i mi sydd wan,
A bryniau maith o'm blaen ;
Mi a frawychais lawer gwaith,
Rhag grym y fflamau tân ;
Mae'r Iorddonen heddyw'n fawr,
Os gwir ddychymyg f' enaid gwan ;
Tyred Arglwydd iddi lawr,
Ac yna dof i'r làn.

W. W.

HYMN CCCIV. (7. 6. 8.)

Mawl am angeu Crist.

- 1 **I**ESU, y dirmygedig un,
Ddyoddefodd angeu loes ;
Gan ryw ddiennyddwyr llym,
Yn wirion ar y groes ;
Y gruddfanau rodd e' maes,
Ddaeth a'r trueiniaid oll yn rhydd ;
Bellach holl ganiadau'r nef,
Byth am Galfaria fydd.
- 2 O foreu-ddydd dedwydd iawn,
Pan ddelo'r dorf yn un,
O bob cwr i'r ddaear faith,
I gwrdd a'u Harglwydd cun ;

Derfydd gofid a phob gwae,
 Derfydd temtasiynau maith ;
 Derfydd pechod mawr ei rwyg,
 A derfydd dyrys daith.

- 3 Ac wrth wel'd yn agoshau,
 Fath hyfryd fore wawr ;
 Un diwrnod goleu clir,
 Maith drag'wyddoldeb mawr :
 Pa'm na bawn yn llawen iawn,
 Hyn wy'n 'mofyn ei fwynhau,
 A thyma fref fy enaid gwan,
 Ei wel'd yn agoshau.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCV. (7. 6.)

Canu am gariad Crist.

- 1 **A**NGYLION doent yn gyson,
 Rifedi gw lith y wawr,
 Rhoent eu coronau euraidd,
 O flaen y fainc i lawr :
 Chwareuant eu telynu,
 Y'nghyd â'r saint yn un,
 Fyth, fyth, ni chanant ddigon,
 Am Dduwdod yn y dyn.
- 2 Am angeu'r groes bydd canu,
 I dragwyddoldeb maith ;
 Ond im' gael teimlo ei rinwedd,
 'Rwy bron ar ben fy nhaith ;
 Fy nefoedd yw ei deimlo,
 A'i deimlo'n union sydd,
 Yn troi pob rhyw dywyllwch,
 O'm mewn yn oleu ddydd.
- 3 Mi ganaf tra bo anadl,
 O fewn y ffroenau hyn,
 Am gariad yn dyoddef,
 Ar ben Calfaria fryn ;

Am goron ddrain blethedig,
 Am hoelion garwa eu rhyw,
 I gânu'm henaid euog,
 Fel eira gwyn ei liw.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCVI. (7. 6.)

Rhinwedd dyoddefaint Crist.

- 1 **N**I fuasai genyf obaith,
 Am ddim ond fflamau syth,
 Y pryf nad yw yn marw,
 A'r tywyllwch dudew byth ;
 Oni buasai'r hwn a hoeliwyd,
 Ar fynydd Calfari,
 O ryw anfeidrol gariad,
 I gofio am danaf fi.
- 2 Rwy'n edrych arnaf f' hunan,
 A rhyw gasineb mawr,
 Mwy diddym, mwy disylwedd,
 Na phryfaid mân y llawr ;
 'Does ond yr aberth hwnw,
 Wnawd ar Gaersalem fryn,
 A'm creai oll o newydd,
 A'm gylch i oll yn wyn.
- 3 Mi welaf yn ei fywyd,
 Y ffordd i'r nefoedd fry,
 Ac yn ei angeu'r taliad,
 A roddwyd dros of fi ;
 Yn ei esgyniad gwelaf,
 Drifganau pur y nef,
 A'r wledd dragwyddol berffaith,
 Gaf yno gydag ef.
- 4 Am hyn bydd i mi 'mwadu,
 A'r cwbl yn gytun,
 Pob cylch o ddyledswyddau,
 Goreudeg hardd yn un ;

Yn angeu'r groes yn unig,
 Mae'm iachawdwriaeth lawn,
 Ac am y groes mi ganaf,
 O foreu hyd brydnawn.

W. W.

HYMN CCCVII. (7. 6.)

Crist yn ddigon yn angeu a'r farn.

1 O FLAEN y fainc rhaid sefyll,
 Ië sefyll cyn bo hir,
 Nid oes am nerthai yno,
 Ond dy gyfiawnder pur ;
 Myfi anturia'n ëon,
 Trwy ddyfroedd a thrwy dân,
 Heb oleu ac heb lewyrch,
 Ond dy gyfiawnder glân.

2 Ti Farnwr byw a meirw,
 Sydd ag allweddau'r bedd,
 Terfynau eitha'r ddaear,
 Sy'n dysgwyl am dy hedd ;
 'Dyw gras i ti ond gronyn,
 Mae gras ar hyn o bryd,
 Ryw filoedd maith o weithiau,
 I mi yn well na'r byd.

3 Pwy ddyru i'm falm o Gilead,
 Maddeuant pur a hedd,
 Nee gwneyd i'm hysbryd edrych,
 Yn ëon ar y bedd ;
 A dianc ar wasgfeuon,
 Euogrwydd creulon cry ?
 'Does neb ond ef a hoeliwyd,
 Ar fynydd Calfari.

W. W.

HYMN CCCVIII. (7. 6.)

Mawr yw dirgelwch duwioldeb.

1 O FOROEDD, o ddoethineb,
 Oedd yn y Duwdod mawr,

Fel hyn gyfranu ei' gariad,
 I bryfed gwael y llawr ;
 I wneuthur i'w drugaredd,
 A'i dostur maith y'nghyd,
 I redeg megis afon,
 Lifeiriol dros y byd.

2 'Nol edrych ar ol edrych,
 O gwmpas i mi mae,
 Rhyw fyrdd o ryfeddodau,
 Newyddion yn parhau ;
 Pan bwy'n rhyfeddu un peth,
 Un arall ddaw i mryd,
 O iachawdwriaeth rasol,
 Rhyfeddol wyt i gyd !

3 Ond y rhyfeddod fwya',
 I'r Tad roi' Fab ei hun,
 Mynwesol Fab ei galon,
 I wisgo natur dyn ;
 Wel dyma ddarostyngiad,
 A dyma rodd mor fawr,
 Na welir ei chyffelyb,
 O eitha'r nen i lawr !

4 Bendithion ar fendithion,
 Trysorau angeu loes,
 Grawnsypiau mawrion addfed,
 Yn hongian ar y groes ;
 Sydd yn cwmpasu'm henaid,
 Rhinweddau mawr eu grym,
 A minau yn eu canol,
 Heb allel dywedyd dim.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCIX. (7. 6.)

Rhyfeddodau'r prynedigaeth.

1 O IACHAWDWRIAETH gadarn,
 O iachawdwriaeth glir,
 Fu ddyfais o'th gyffelyb,
 Erioed ar fôr na thir,

Mae yma rhyw ddirgelion,
 Rhy ddyrys ynt i ddyn,
 Ac nad oes all eu dadrys,
 Ond Duwdod mawr ei hun.

2 O ras didranc diderfyn,
 Tragwyddol ei barhad,
 Y'nghlwyfau'r Oen fu farw,
 Yn unig mae iachad ;
 Iachad oddiwrth euogrwydd,
 Iachad o ofnau'r bedd,
 A chariad wedi ei wreiddio,
 Ar sail dragwyddol hedd.

3 O f'enaid gwel fath noddfa,
 Diysgog ynte yw,
 Y'mhob rhyw gyfyngderau,
 Trag'wyddol ras fy Nuw ;
 Ac yma boed fy nhrigfan,
 A fy nhawelaf nyth,
 Yn nyfnder cyfyngderau,
 Sef dan dy aden byth.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCX. (7. 6.)

Mordaith y Cristion.

1 **W**EL f'enaid moria bellach,
 Y'mlaen tua'r hyfryd wlad,
 Fe rwygodd Iesu'r 'stormydd,
 Oddiyma i dŷ fy Nhad ;
 I'r lan o fôr euogrwydd,
 Lle taffodd Adda fi,
 Tua'r wlad lle nad oes moroedd,
 Caersalem hyfryd fry.

2 Gwna i mi gadw'n union,
 A doed hi fel y del ;
 I'r wlad sydd wedi ei haddo,
 Sef tir Immanuel ;

Ac fel bwy' mlaen yn morio,
 Gad i mi draw o bell ;
 Arogli o'i rinweddau,
 A gwel'd o'i drysor gwell.

- 3 Pa ham na thrown fy ngolwg,
 Fyth tua'r nefoedd wen,
 Y'nghanol pob cynddaredd,
 Wy'n weled is y nen ;
 A'm Iesu yn rheoli,
 Yr afreolus lu,
 O ddyfnder uffern isod,
 I bellder nefoedd fry.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCXI. (7. 6.)

Rhinweddau pen Calfaria.

- 1 **D**UW rho i mi ffydd i edrych,
 Yn mhob caethiwed du,
 A phechod arnai'n gwasgu,
 I fynydd Calfari ;
 Gwna i fy nghalon deimlo,
 Dy anghydmareol loes,
 A'm lloches gynhes dawel,
 Yn wastad tan y groes.
- 2 Ni 'drychaf ar ddim arall,
 Yn unig ond tydi,
 Tan hoelion dur yn gruddfan,
 Ar fynydd Calfari ;
 Fy lloches rhag euogrwydd,
 Tr'wy' ar y ddaear hon,
 Fydd tyllau'r hoelion geirwon,
 A chlwyf y waywffon.
- 3 O cred, o cred cai gymhorth,
 I dynu'th lygad de,
 O cred, O cred ca'i allu,
 I dori'th fraich o'i lle ;
 Cred yn yr Oen fu farw,
 Fry ar Galfaria fryn,
 Y fynydd gynta' y credost,
 Cei lawer fwy na hyn.

HYMN CCCXII. (7. 6.)

Pob peth yn barod.

1 **M**AE'R ffynnon yn agored,
 Dowch edifeiriol rai,
 Dowch chwithau yr un ffunud,
 Sy'n methu 'difarhau ;
 Dowch gafodd galon newydd,
 Dowch chwithau na chadd'r un,
 I olchi pob budreddi,
 Yn haeddiant Mab y dyn.

2 Dowch bellach bechaduriaid,
 Nas gwelodd oleu'r dydd,
 Mewn carchar tywyll pygddu,
 Rai etto sydd yn nghudd ;
 Fe gododd haul o'r diwedd,
 Fe gododd y prydawn,
 A egyr eich hamrantaau,
 I wel'd yn ddysglaer iawn.

3 Fe rwygwyd muriau cedyrn,
 Fe dorwyd dorau pres,
 Oedd rhyngom ni a'r bywyd,
 Mae'r bywyd heddyw'n nes ;
 Palmantwyd yr holl lwybrau,
 Mae'r pyrth o led y pen,
 O ddyfnder dinas dystryw,
 I eitha'r nefoedd wen.

W. W

HYMN CCCXIII. (7. 6.)

Pob cyflawnder yn Nghrist.

1 **O**YSBRYD pur nefolaidd,
 Cyn elwy' lawr i'm bedd,
 Trwy ryw athrawiaeth hyfryd,
 Gad i mi brofi'th hedd ;
 Maddeuant, O maddeuant,
 Maddeuant cyfan rhad,

Yw'r cyntaf peth wy'n geisio,
Yr awrhon yn dy waed.

- 2 Mae ynddo nerth diderfyn,
Doethineb mawr yn rhad,
Deng miliwn o rinweddau,
Yn rhagor yn y gwaed ;
Mae ynddo bob rhyw angen,
Sydd ar bechadur gwan,
Tan filoedd o amheuon,
I godi ei ben i'r lân.
- 3 A raid i minau drengu,
O eisieu dyfroedd clir ?
'Rwy' brŷn llewygu'n tramwy,
Y dyrys anial dir :
Dwg fi i'r dyfroedd tawel,
Porfeydd gleision mawr,
Ac mae y rhai lluddedig,
Yn rhoddi eu penau i lawr.

W. W.

HYMN CCCXIV. (7. 6.)

Cariad anghydmareol Crist.

- 1 **F**Y Nuw, fy Nhad, fy Iesu !
Boed clod i'th enw byth,
Boed dynion i dy foli,
Fel rhif y bore wlith ;
O na ba'i gwellt y ddaear,
Oll yn delynau aur,
I ganu i'r hwn a anwyd,
Yn Methle'm gynt o Fair.
- 2 Fe ddaeth i wella archoll,
Trwy gym'ryd clwyf ei hun,
Etifedd nef yn marw,
I wella'r marwol ddyn ;
Yn sugno maes y gwenwyn,
A rodd y sarph i ni,
Ac wrth y gwenwyn hwnw,
Yn marw ar Galfari.

3 Bechadur gwel e'n sefyll,
 Yn llonydd ar y groes,
 Clyw'r gruddfan sy'n ei enaid,
 Tan ddyfnder angeu loes;
 O gwrando ar ei ruddfan,
 Mae pob ochenaidd ddrud,
 Yn ddigon mawr o haeddiant,
 Ei hun i brynu'r byd.

4 Gwel ar y croesbren acw,
 Gyfiawnder mawr y ne',
 Doethineb a thrugaredd,
 Yn gorwedd mewn un lle;
 A chariad anfesuroi,
 Yn awr i gyd yn un,
 Fel afon fawr lifeiriol,
 Yn rhedeg at y dyn.

W. W

HYMN CCCXV. (7. 6.)

Dyrchafiad Crist.

- 1 **I** FYNU daeth o Edom,
 A'i wisg yn goch ei lliw,
 Nis gall'sai un creadur,
 Mewn cadwyn gadw Duw;
 Fe dorodd rym yr angeu,
 Fe 'gorodd ddrysau'r bedd,
 Palmantodd ffordd o'r ddaear,
 Yn awr i ganol hedd.
- 2 Ac yna yr adgyfododd,
 Yn ogoneddus iawn,
 Daeth bore teg a hyfryd,
 'Nol stormus ddu brydnawn;
 Fe goncrodd angeu ei hunan,
 O'r carchar daeth yn rhydd.
 Y gadwyn fawr a dorodd,
 Ar wawr y trydydd dydd.

3 A dyma waith fy Mhriod,
 'Nawr ar ddeheulaw'r Tad!
 Yn dwyn y'mlaen bob gronyn,
 O'm iachawdwriaeth rad;
 Da im' oedd iddo fyned,
 Myrdd o fendithion sy,
 Fwy o'i fod yn y nefoedd,
 Nag yma gyda ni.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCXVI. (7. 6.)

Clodforedd y saint.

- 1 O ARGLWYDD rho im' dafod,
 Na thawo ddydd na nos,
 Ond dweyd wrth bob creadur,
 Am rinwedd gwaed y groes;
 Na ddelo gair o'm genau,
 Yn ddirgel nae ar g'oeedd,
 Ond am fod Iesu anwyl,
 Yn wastad wrth fy modd.
- 2 O Iesu pwy all beidio,
 Dy ganmol ddydd a nos,
 A phwy all beidio cofio,
 Dy farwol ddwyfôl loes;
 A phwy all beidio canu,
 Am iachawdwriaeth rad,
 Ag sydd yn teimlo gronyn,
 O rinwedd pur dy waed.
- 3 Gwaredu ei saint o uffern,
 A phechod drwg ei ryw,
 O safn y bedd ac angeu,
 A'u dwyn i fynwes Duw;
 A'u harwain tros fynyddau,
 A d'rysni anial syth,
 A grëa nef y nefoedd,
 Yn gân heb ddiwedd byth.

- 4 O enw ardderchocaf,
 Yw enw marwol glwy,
 Caniadau archangelion,
 A fydd fath enw-mwy ?
 Bydd yr anfeidrol ddyfais,
 O brynedigaeth dyn,
 Gan raddau filoedd yno,
 Yn cael ei chanu'n un.

W. W.

—◆—

HYMN CCCXVII. (7. 6.)

“ Chwant i'm dattod.”

- 1 **R**WY'N awr yn ffrynd i'r pryfed,
 Er pan ges olwg ffydd ;
 Can gwell na phalas brenin,
 I mi fy ngwely pridd ;
 Mi lechaf yn y ddaear,
 Caiff llwch at lwch i fyn'd ;
 Ond angeu ti gei weled,
 Fod Iesu i mi'n ffrynd.
- 2 Rwy'n rhoi ffarwel o'm calon,
 I'r cwbl is y rhod ;
 'Does arnai fymryn hiraeth,
 Am 'welais etto 'rioed :
 Rwy'n rhoi fy mhlant a'm priod,
 I ei gadwraeth ef ;
 Sy'n trefnu, sy'n gofalu,
 Am ddaear fawr a'r nef.
- 3 Mi gaf fy nghorff i fynu,
 Fel fy anwylyd cu ;
 Heb nwydau drwg byth mwyach,
 I'm blino fel y bu :
 'Does dyn wyr is yr wybr,
 Ddedwydded yw fy lle ;
 Ac nis gall dyn ddych'mygu,
 Dim am bleserau'r ne.

- 4 Heb saeth, heb fraw, heb ofni,
 Heb ofid ac heb boen ;
 Yn canu o flaen yr orsedd,
 Ogoniant pur yr Oen ;
 Yn nghanol myrdd myrddiynau,
 Yn canu oll heb drai ;
 Yr Anthem ydyw cariad,
 A chariad i barhau.

W. W.

HYMN CCCXVIII. (7. 6.)

Cariad a gras Jehofah.

- 1 **O** GARIAD heb ei gymhar !
 A thyna'r testyn sy' ;
 Yn llanw holl ganiadau,
 'R angelaidd sanctaidd lu ;
 Anfeidrol ras rhyfeddol !
 Pe tawai am dano ddyn :
 Fe swniai'r fud grëedigaeth,
 Yn ddiau bob yr un.
- 2 Gras yn llifeirio allan,
 O galon bur y Tad ;
 I drefnu achub dynion,
 O iachawdwriaeth rād ;
 I 'madael a'i Etifedd,
 A'i hoelio ar y pren,
 Par'toi ni le digymhar,
 Tragwyddol uwch y nen.
- 3 A all fy llygredd dōri,
 Er cymaint yw ei lid,
 Hen bwrpas a ddechreuodd,
 Yn hir cyn creu y byd ?
 Na all : y pwrpas hwnw,
 O eiddo'r Drindod mawr,
 Chwilfriwia fy mhechodau,
 'Mhen gronyn bach i lawr.

W. W.

HYMN CCCXIX. (7. 6.)

Gallu Duw o blaid ei bobl.

1 **P**WY elyn all wrthsefyll,
 Nerth sy'n ei freichiau mawr;
 Pan wnaeth o'i air yn unig,
 Y bydoedd uwch y llawr?
 Pwy all ei attal weithio,
 Pwy ddywed wrtho paid?
 'Run yw sy'n arfer helpu,
 'R anghenus tlawd wrth raid.

2 Fe all i'r làn dy godi,
 O ddyfnder llwch y byd,
 A gwneyd pob drwg a gwrrdot,
 Droï er daïoni 'gyd;
 Rhoï olew o lawenydd,
 Yn wastad ar dy ben,
 A'th ddwyn trwy foroedd dyfnion,
 I ganol nefoedd wen.

3 Pe cyhuddwr mawr y brodyr,
 A gelyn dynolryw;
 Ddoi ag achwynion creulon,
 O flaen gorseddfainc Duw;
 Fy mhle yn mhorth y deml,
 A dyna wna y tro;
 Duw ydyw fy Ngwardwr,
 Er unwaith marw fo.

W. W.

 HYMN CCCXX. (7. 6.)
Golygfeydd dyoddefaint Crist.

1 **G**ALARWCH fryniau uchel,
 Ar un o honoch chwi;
 Calfaria oedd ei enw,
 Bu farw ein Harglwydd ni;

- O cofwch greigydd hefyd,
Fod eich Creawdwr doeth,
Ryw ran o dri diwrnod,
Yn gorwedd yn eich croth.
- 2 Chwi erddi cofwch iddo,
I chwysu'r gwaed yn lli',
Mewn gardd yn ochr Salem,
Cyn marw drosom ni ;
Ei chwys a ymgymysgodd,
A gwerthfawr waed ein Duw ;
Pan bwysodd ar ei ysgwydd,
Bechodau dynolryw.
- 3 Chwi goedydd hyn meddylwch,
I Grëwr dae'r a nen ;
Yr hwn a'ch gwnaeth â'i fysedd,
I farw ar y pren ;
Fwyn gloddiau chwi rodd ddefnydd,
Y dur a'r haiarn 'gyd ;
I guro'n ddidrugaredd,
Yn nwylo wnaeth y byd.
- 4 Afonydd pall'soch ddyfroedd,
I'w ddisychedu ef ;
Er oll mai gwaith ei fysedd,
Pob nant, pob afon gref ;
Ei gwpan anghysurus,
A roddwyd iddo'n llawn ;
O finegr a wernod,
A bustl chwerw iawn.

W. W.

HYMN CCCXXI. (7. 6.)

Crist yn rhagori ar gan mil.

- 1 **G**WELL wyt i mi na'r bywyd,
Hyfrydach yw dy wedd ;
Na dim ag sydd weledig,
Yr ochr yma i'r bedd ;

Un awr yn dy gyfeillach,
 Can mil mwy gwerthfawr mae,
 Nag oesoedd maith diderfyn,
 Rhyw bleser i'w fwynhau.

2 A gwell y groes, y gw'radwydd,
 Y gwawd a'r erlid trist;
 Y dirmyg a'r cystuddiau,
 Sydd gyda Iesu Grist;
 Can's yn ei groes mae coron,
 Ac yn ei waed mae bri;
 A phleser yn ei gariad,
 Sydd fwy na'n daear ni.

3 Tan d'aden Iesu llechaf,
 Nid ofnaf yno wêg;
 Na niwed wnel creadur,
 Hyd 'nod angelion drwg;
 Hen Satan a goncweriaist,
 Diffoddaist rym ei saeth;
 Gan waywffon pan gefaist,
 Ar ben Calfaria frath.

W. W.

HYMN CCCXXII. (7. 6.)

Sum y Bibl.

1 **F**Y Iesu yw mer y Bibl,
 'Does bennod nad yw'n son!
 O bell neu ynte o agos,
 Am groeshoeliedig Oen;
 Fe oedd y testamentwr,
 A'i dest'ment ef ei hun,
 Yw'r cyntaf a'r diweddaf,
 Er iachawdwriaeth dyn.

2 Mae yma bur athrawiaeth,
 Yn angenrheidiol sy';
 I geryddu, i adeiladu,
 I hyfforddi i'r nefoedd fry;

- I derfyn eitha'r nefoedd,
 O Arglwydd aed ei sain;
 'Does eiriau tan yr wybren,
 Gyffelyb ddim i'r rhai'n.
- 3 'Does eisieu un gwirionedd,
 Nad yw ef yma i lawr;
 Dychymyg dyn traddodiad,
 Na *chanon counsil* mawr;
 'Madroddion yr hen deidiau,
 Gorchymyn Pab ni chair;
 I helpu dim diffygion,
 Sy'n eisieu yn y gair.
- W.W.

HYMN CCCXXIII. (7. 6.)

Yr Efengyl a'i chysgodau.

- 1 'R EFENGYL gyntaf draethwyd,
 Fe fydd i had y wraig;
 Er maint ei grym a'i dichell,
 I sigo siol y ddraig;
 Fe siga'r ddraig ei sawdl,
 Er cymaint fydd ei fri;
 Ond wrth gael sigo 'sawdl,
 Fe siga ei choryn hi.
- 2 Yr arch a gwialen Aaron,
 Yn dwyn almonau drud;
 Y llechau a'r drugareddfa,
 Cerubiaid oll y'nghyd;
 Y crochan aur a'r manna,
 A'r shecin dysglaer pur;
 Oedd oll yn dweyd rhyw bethau,
 Am y Messiah gwir.
- 3 Fel hyn trwy'r holl gysgodau,
 Canfyddid Iesu Grist;
 Yn Feddyg a Iachawdwr,
 I bechaduriaid trist;

Trwy fydd yn bwyta'r manna,
Yn yr anialwch mawr;
Gwel'd Iesu pren y bywyd,
Yn dod o'r nen i lawr.

W. W.

—◆—
HYMN CCCXXIV. (7. 6.)

Cariad, angeu, ac eiriolaeth Crist.

1 O YSBRYD sancteiddiolaf!
Anadla arna'i lawr;
O'r cariad anchwiliadwy,
Sy 'nghalon Iesu mawr;
Trwy haeddiant Oen Calfaria,
Ac yn ei glwyfau rhad;
Rwy'n dysgwyl pob ryw ronyn,
O burdeb gan fy Nhad.

2 Ond ni ymddengys cymaint,
O'i ras a'i gariad mawr;
Mewn dim a'i waith yn dyfod,
O eitha'r nen i lawr;
Yn prynu gwaith ei ddwylo,
Oddiwrth y llid a fydd;
O ddyfnder mawr trueni,
I'r nefoedd wen ryw ddydd.

3 A thyma ei swydd yr awrhon,
O fewn y nefoedd wen;
Y man y rhowd e' i eistedd,
Ar gyfan oll yn ben;
Sef eiriol tros ei bobl,
Nes cael cyflawni 'gyd;
Yr addewidion dyngwyd,
Cyn iddo seilio'r byd.

W.W.

—◆—
HYMN CCCXXV. (7. 6.)

Haeddiant digyffelyb Crist.

1 O HAEDDIANT annherfynol,
A gras o nefol ryw;
Rhaid i mi gael a wnelo,
Fy heddwch llawn â Duw;

'Dyw gwaith a dyledswyddau,
 Ganmolir trwy'r holl fyd!
 Yn abl maddeu pechod,
 Pe byddent fyrdd y'nghyd.

2 Yn ddwl, yn ddall, yn dywyll,
 Yn aflan oll i gyd;
 Ffieiddiaf un genhedlwyd,
 Erioed o fewn y byd!
 D'wed wrth y brevin addfwyn,
 O gwna drugaredd llawn;
 I aflan ddyn heb ammod,
 I aflan ddyn heb ddawn.

3 Pan delech ti i gredu,
 A'th galon yn y gwaed;
 Fe gwymp dy holl eilunod,
 Yn chwilfrw tan dy draed;
 Dy ffydd a ddengys i ti,
 Yn glir Galfaria fryn;
 Pob eilun fydd yn cwympto,
 Yn y goleuni hyn.

4 Cei'r cwbl fel y mynech,
 Y fynydd caffech ffydd;
 Y t'wyllwch ddod hi'n olaf,
 Gwna ganol nos yn ddydd;
 Hi ysgyfnhâ dy feichiau,
 Er bod hwy'n feichiau mawr;
 Hi sugna bob cysuron,
 O ganol nef i lawr.

W. W.

HYMN CCCXXVI. (7. 6.)

Cyflawnder diderfyn Iachawdwriaeth.

1 O IACHAWDWRIAETH gyflawn,
 Anfeidrol led a hyd;
 Mae'n fwy na'r nef ei hunan,
 Mae'n llawer mwy na'r byd;

Mae'n drysor anchwiliadwy,
 O berlau drud o'r bron ;
 Does dim yn gymhar iddi,
 Sydd ar y ddaear hon.

2 Rhyw gyfoeth anchwiliadwy,
 Sy'n synu'r ddae'r a'r nef ;
 Fe'm llyncir gan ryfeddod,
 Wrth wel'd ei ddyfnder ef ;
 O henffych well ddirgelion,
 Hen lwybrau dyfnion braf ;
 Nid ydwyf yn eich deall,
 Byth eich rhyfeddu wnafl

3 O dere tua'r bywyd,
 Mae myrdd myrddiynau mwy ;
 Erioed nag a feddyliaist,
 I'w gael mewn dwyfol glwy ;
 Mae gwleddoedd ar y ddaear,
 A gwleddoedd yn y nef ;
 Ganwaith a dâl yr India,
 Yn ei gwmpeini ef.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCXXVII. (7. 6.)

Rhyfeddodau'r Iachawdwriaeth.

- 1 O ARGLWYDD Dduw rhagluniaeth,
 Ac iachawdwriaeth dyn,
 Tydi sy'n llywodraethu,
 Y byd a'r nef dy hun :
 Yn wyneb pob rhyw g'ledi,
 Y sydd neu etto ddaw,
 Dod gadarn gymhorth i mi,
 I lechu yn dy law.
- 2 O am gael ffydd i edrych,
 Gyda'r angelion fry,
 I för yr iachawdwriaeth,
 Dirgelwch ynddi sy' ;

Dwy natur mewn un person,
Yn gyson yno gaed,
Anfeidrol a thrag'wyddol,
Yw rhinwedd dwyfol waed.

3. O f'enaid gwel addasrwydd,
Y person dwyfol hwn,
Anturia' iddo'th fywyd,
A bwrw arno'th bwn :
Mae'n ddyn i gydymdeimlo,
A'th holl wendidau'i gyd,
Mae'n Dduw i fynu'r orsedd,
Ar ddiadol, cnawd, a byd.

A. G.

—◆—
HYMN CCCXXVIII. (7. 6.)

Gobaith am gán dragwyddol.

- 1 **C**ANED y genedl gyfiawn,
Daeth Iesu i'w rhyddhau,
Mi wela'r dydd yn dyfod,
Y derfydd ei holl wae,
Mae f'enaid gwan yn credu,
Ar fyr yr ochr draw,
Y'mhlith y dorf aneirif,
Caf delyn yn fy llaw.

- 2 Wel dyma'r lle bydd canu,
Gan seintiau hyfryd sain,
Rhyfeddod fydd fy ngweled,
Yn canu gyda'r rhai'n;
Rhyfeddod nef a daear,
Fydd gweled un mor ddu,
Yn wyn heb un brycheuyn,
Y'mhlith y nefol lu.

G.

- 3 Teilwng yw'r Oen a laddwyd,
O'r holl ogoniant mawr,
Trwy ganol nef y nefoedd,
Ac yma ar y llawr ;

Pan elo'r holl grëedigaeth,
 Yn ulw gan y tan,
 Teilyngdod Iesu dros of,
 Fydd fy nhragwyddol gân. M. R.

◆

HYMN CCCXXIX. (7. 6.)

Rhyddid i'r caethion.

1 **A**GORODD ddrws i'r caethion,
 I ddod o'r cystudd mawr,
 A'i werthfawr waed fe dalodd,
 Ein dyled oll i lawr :
 Nid oes dim damnedigaeth,
 I neb o'r duwiol had,
 Y gwaredigion canant,
 Am rinwedd mawr ei waed.

2 Fe genir ac fe genir,
 Yn nhragwyddoldeb maith,
 Os gwelir un pererin,
 Mor llesg ar ben ei daith,
 A gurwyd mewn tymhestloedd,
 A olchwyd yn y gwaed,
 A gânwyd ac a gadwyd,
 Trwy'r iachawdwriaeth rad.

3 Wel dyma'r un sy'n maddeu,
 Pechodau rif y gwllith,
 Does mesur ar ei gariad,
 Na therfyn iddo byth ;
 Mae'n 'mofyn lle i dosturio,
 Mae'n hoffi trugarhau,
 Trugaredd i'r amddifaid,
 Sydd ynddo i barhau. M. R.

◆

HYMN CCCXXX. (7. 6.)

Purcas Crist.

1 **F**YTH, fyth rhyfeddai'r cariad,
 Yn nhragwyddoldeb pell,

- A drefnodd yn yr arfaeth,
 I'm etifeddiaeth well;
 Na'r ddaear a'i thrysorau,
 A'i brau bleserau y'nghyd,
 Fy nghyfoeth mawr ni dderfydd,
 Yw Iesu brynwr byd.
- 2 Ar noswaith oer fe chwysai,
 Y gwaed yn ddafnau i lawr,
 Ac ef mewn ymdrech meddwl,
 Yn talu'n dyled mawr;
 Fe yfai o'r cwpan chwerw,
 Wrth farw ar y pren,
 Palmantodd ffordd i'r bywyd,
 O'r ddaear hyd y nen.
- 3 Tragwyddol glod i'r cyfiawn,
 Fu farw dros fy mai,
 Fe adgyfododd efiwaith,
 O'r bedd i'm cyfiawnhau;
 Ar orsedd ei drugaredd,
 Mae'n dadleu yn y ne',
 Ei fywyd a'i farwolaeth,
 Anfeidrol yn fy lle.

M. R.

 HYMN CCCXXXI. (7. 6.)

Ymbil am faddeuant.

- 1 **P**ECHADUR wyf o Arglwydd,
 Sy'n curo wrth dy ddôr,
 Erioed mae dy drugaredd,
 Diddiwedd yn ystor;
 Er i ti faddeu beiau,
 Rifedi'r tywod man
 Gwn fod dy hen drugaredd,
 Lawn gymaint ag o'r blaen.
- 2 Dy hen addewid rasol,
 A gadwodd rif y gwllith,
 O ddynion wedi eu colli,
 A gân am dani byth;

Er cael eu mynych glwyfo,
 Gan bechod is y nen,
 Iacheir eu mawrion glwyfau,
 A dail y bywiol bren.

3 Ni cheisiai yn wyneb Moses,
 Ond Iesu i ddadleu nghwyn,
 Y cyfiawn dros'r anghyfiawn,
 Fu farw er fy mwyn;
 Yn ymchwydd yr Iorddonen,
 Ac yn y farn a ddaw;
 Diangol yn y diwedd,
 A fyddaf yn ei law.

4 Gwasgara'r tew gymylau,
 Oddiyma i dŷ fy Nhad,
 Datguddia i mi beunydd,
 Yr iachawdwriaeth rad;
 A dywed air dy hunan,
 Wrth f'enaid clwyfus trist,
 Dy fod yn maddeu meiau,
 Yn haeddiant Iesu Grist.

M. R.

HYMN CCCXXXII. (7. 6.)

Gobaith gwell.

1 **R**WY yma dan y tdnau,
 Yn gruddfan lawer awr,
 Yn methu cadw 'ngolwg,
 Ar y Messiah mawr;
 Ar fyr daw'r dydd ca'i nofio,
 I fewn i'w dawl hedd,
 Ni cholla'r olwg arno,
 Yr ochr draw i'r bedd.

2 Fe dderfydd i mi bechu,
 Iachêir yn lân fy nghlwy',
 Ond byth ni dderfydd canu,
 Am faddeu pechod mwy;

- Caf gorph yr hen farwolaeth,
 I lawr ni chyfyd byth,
 A gwledd ar fynydd Sion,
 Dragwyddol bur ddilyth.
- 3 Ni bydd y wledd ond dechreu,
 Pan ddelo angeu ddydd,
 Fel'r amlhao'r dyrfa,
 Caniadau fwy fwy fydd ;
 Ond pan ddel cyrph y seintiau,
 Yn gryno i gyd o'r bedd,
 Rhyw ddechreu byth heb ddiwedd,
 Fydd y dragwyddol wledd. M. R.

—◆—
 HYMN CCCXXXIII. (7. 6.)

Ymadawiad d'r byd hwn.

- 1 **A**R fyr caf rodio'r llwybr,
 Na ddenai byth yn ol,
 Mi rof ffarwel dragwyddol,
 I'r holl forwynion ffol ;
 Fe dderfydd son am bechod,
 Cystuddiau, poen, a braw,
 Gwynfyd ga'i draw'r Iorddonen,
 Balmwydden yn fy llaw.
- 2 Ymado wnaif a'r babell,
 'Rwy'n trigo ynddi'n awr ;
 Colofnau'r tŷ ddattodir,
 Fe'i cwypir oll i lawr ;
 A pob gwahanglwyf ymaith,
 Glân fuddugoliaeth mwy,
 'Rwy'n canu wrth gofio'r bore,
 Na welir arnai glwy'.
- 3 Os gwelir fi bechadur,
 Rhyw ddydd ar ben fy nhaith,
 Rhyfeddol fydd y canu.
 A newydd fydd yr iaith ;
 Yn seinio buddugoliaeth,
 Am iachawdwriaeth lawn ;
 Heb ofni colli'r frwydr,
 Y boreu na'r prydawn.

HYMN CCCXXXIV. (7. 6.)

Crist yn bob peth.

1 **C**E'S gadarn graig i ymguddio,
 Ce's Feddyg i'm iachau,
 Ce's hefyd Fugail ffyddlon,
 Ce's ffynnon i'm glanhau ;
 Ce's wisg i guddio'm noethni,
 Ce's eli wrth fy nghlwy',
 Ce's Briod diwahaniad,
 Ni byddai amddifad mwy.

2 Ce's ddwfr o'r graig i yfed,
 I dori'm syched mawr,
 Ce's beunydd fara i'w fwyta,
 O'r nef y daeth i lawr ;
 Ce's delyn tu yma i angu,
 Fy holl gystuddiau ffôdd,
 I ganu i'r Oen fu farw,
 Mae'n Briod wrth fy modd.

3 Er bod y'ngrym y rhyfel,
 Y'ngghanol mwg a than,
 Gelynyon am fy nifa,
 Tu ol ac o'r tu blaen ;
 Er dyfined yw fy archoll,
 Ce's olew yn fy mriw,
 A thyma pa'm rwy'n canu,
 A thyma pa'm 'rwy'n fyw.

4 Tra fyddwyf yn y rhyfel,
 Mi edrycha' tua'r nen,
 Er gwaned yw fy ngolwg,
 Mi welaf pwy sydd ben ;
 Y gwr fu dân yr hoelion,
 Sy'n gryf o blaid y gwan,
 A than ei gysgod tawel,
 Mi ddeua'n iach i'r lân.

HYMN CCCXXXV. (7. 6.)

Buddugoliaeth y Cyfryngwr.

- 1 **R**HYFEDDAI'R fuddugoliaeth,
 Ar ben Calfaria fry,
 Wrth farw fe goncweriodd,
 Fy holl elynol lu ;
 Caethiwodd bob caethiwed,
 Rhoes roddion i'w holl saint,
 Na fedr neb tafodau,
 Fynegi byth eu maint.
- 2 Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr,
 Fe gododd Iesu'n fyw,
 Daeth yn ei law alluog,
 A phardwn dynolryw ;
 Gwnaeth etifeddion uffern,
 Yn etifeddion nef,
 Fy enaid byth na thawed,
 A chanu iddo ef.
- 3 Mae hiraeth yn fy nghalon,
 Am wel'd y saint i gyd,
 'Rwy'n profi mwy o hiraeth,
 Am wel'd fy Mhrynwr drud ;
 Rho i mi o wedd dy wyneb,
 A phrofi'th dawel hedd,
 Cyn i mi fyn'd i orwedd,
 I dawel byrth y bedd.
- 4 Mi gysgaf hun yn esmwyth,
 Ar fyr yn llwch y llawr,
 Yn holl-iach wedi gorphen,
 Milwriaeth f' Arglwydd mawr ;
 Heb elyn i fy mlino,
 I dragwyddoldeb maith,
 Caf fuddugoliaeth hollol,
 Yn lân ar ben fy nhaith.

HYMN CCCXXXVI. (7. 6.)

Haeddiant ac eiriolaeth Crist.

1 **DAETH** i mi iachawdwriaeth,
 Trwy eitha' chwys a gwaed,
 Mae'n codi pechaduriaid,
 O'r dyfnder ar eu traed :
 'Dai byth i ymofyn haeddiant,
 Trwy'r nef na'r ddaear lawr,
 Ond haeddiant pen Calfaria,
 Rhinweddau'r aberth mawr.

2 Fe'm siomwyd gan y ddaear,
 Fe'm siomwyd gan y byd,
 Fe'm siomwyd gan fy nghalon,
 Fwy na chan rhai'n i gyd :
 Mewn myrdd o demtasiynau,
 A mil o groesau'r llawr,
 Ni safodd neb yn ffyddlon,
 Ond fy Eiriolwr mawr.

3 Brawd anwyl sy'n ein cofio,
 Mewn oriau cyfyng caeth,
 Brawd llawn o gydymdeimlad,
 Ni chlywyd am ei fath ;
 Brawd cadarn yn y frwydr,
 Fe geidw ei frodyr gwan,
 Yn dirion dan ei aden,
 Fe ddaw a'r llesg i'r làn.

G.

HYMN CCCXXXVII. (7. 6.)

Yn nechreu odfa.

1 **WEL** dyma odfa newydd,
 O Arglwydd dyro rym,
 I ymladd â phla calon,
 A llid gelynyon llym :
 Mae llawer mil o bethau,
 Am gael fy mhen i lawr,
 Nid oes a'm ceidw'n unig,
 Ond gallu'r Meddy mawr.

- 2 O Arglwydd dysg i'm chwilio,
I wirioneddau'r gair,
Nes dod o hyd i'r Ceidwad,
Fu gynt ar liniau Mair :
Mae Ef yn Dduw galluog,
Yn gadarn i iachâu,
Er cymaint yw fy llygredd,
Mae'n ffynnon i'm glanhau.
- 3 Pa Dduw y'mhlith y duwiau,
Sydd debyg i'n Duw ni ?
Mae'n hoffi maddeu'n beiau,
Mae'n hoffi gwrandu'n cri :
Nid byth y deil eiddigedd,
Gwell ganddo drugarhau,
Er maint ein hannheilyngdod,
Mae'i gariad yn parhau.

G.

—◆—

HYMN CCCXXXVIII. (7. 6.)

Ymchwil am wir sylfaen gwynfyd.

- 1 **A**M graig i adeiladu,
Fy enaid chwilia'n ddwys,
Y sylfaen fawr safadwy,
I roddi arni'th bwys :
Bydd melys yn yr afon,
Gael craig a'm deil i'r làn,
Pan byddo pob ystormydd,
Yn euro f'enaid gwan.
- 2 **A** gaiff y fath bechadur,
Sydd ffaidd aflan noeth,
O flaen dy orsedd sefyll,
Pan elo'r byd yn boeth ?
Pryd hyn caf eglur wybod,
Beth yw cyfammod rhad,
A chanu i'm Hanwlyd,
Yn hyfryd dŷ fy Nhad.

- 3 Wrth geisio gwneuthur pob peth,
 'Rwy'n methu gwneuthur dim,
 Wrth geisio concro 'mhechod,
 'Does ynof ronyn rym :
 Wrth fyn'd at bob meddygon,
 Gwaethygu wnaeth fy nghlwyf,
 Anturiaf at yr Iesu,
 Yn arian fel yr wyf. G.
- 4 Am graig yr iachawdwriaeth,
 Fy enaid egwam cân ;
 Y sylfaen fawr dragwyddol,
 A'r hyfryd gongl-faen :
 Fy noddfa rhag ystormydd,
 Fy nghysgod rhag y gwres ;
 Mae'n ganmil mwy rhagorol
 Na chedyrn furiau pres. D. W.

—◆—

HYMN CCCXXXIX. (7. 6.)

"Etholedigaeth gras."

- 1 **R**HYFEDDOL byth rhyfeddol,
 Yw cariad rhad fy Nuw,
 A redodd yn yr arfaeth,
 At ddynion gwael eu rhyw ;
 A'u dewis mewn cyfryngwr,
 A'u rhoddi iddo'n had,
 Ac yntau yn ymrwymo
 Eu hadgymmodi a'i Dad.
- 2 Etholiad heb un ammod,
 Yn sefyll ar y dyn,
 Yn tarddu o foddlonrwydd,
 Ewyllys Duw ei hun ;
 Tragwyddol heb un dechre,
 Anghyfnewidiol yw,
 Mae'r sylfaen a'r adeilad,
 I gyd, o gynghor Duw.

- 3 Etholwyd i feddiannu,
 'R holl ragorfreintiau drud,
 Y moroedd o fendithion,
 Sy 'ngwaed Iachawdwr byd :
 Cyfiawnder a sancteiddrwydd,
 A gogoneddiad llawn ;
 Rhad, rhad fydd anthem Sïon,
 Am fath annhraethol ddawn.
- 4 Mae'r moddion a'r dybenion,
 Mewn cwlwm sicr iawn,
 'Does fodd fod gwell sefydliad,
 Mae'n ddoeth o ras yn llawn ;
 Prif ddyben ethol ydoedd,
 Derchafu gras fy Nuw,
 Ac wrth wneyd hyny achub,
 Myrddiynau o ddynolryw. M—L. R.

HYMN CCCXL. (7. 6.)

Clorianau'r farn.

- 1 **Y** GWR fu ar Galfaria,
 A welir maes o law ;
 Yn eistedd ar ei orsedd,
 A'r glorian yn ei law ;
 A phawb a gesglir yno,
 I'w pwyso ger ei fron ;
 O! f'enaid cais dduwioldeb,
 I droi y glorian hon.
- 2 Daw dydd o brysur bwyso,
 Ar grefydd cyn bo hir ;
 Ceir gwel'd gan bwy mae sylwedd,
 A phwy sydd heb y gwir :
 O! Arglwydd rho i mi adnabod,
 Ar f'ysbryd ol dy law ;
 Can's dyna'r ddelw a'r argraff,
 Arddelir ddydd a ddaw.

- 3 Bydd myrdd o ryfeddodau,
 Ar doriad bore wawr ;
 Pan ddelo plant y tönau,
 Yn iach o'r cystudd mawr ;
 Oll yn eu gynau gwynion,
 Ac ar eu newydd wedd ;
 Yn debyg i'w eu Harglwydd,
 Yn dod i'r làn o'r bedd.



HYMN CCCXLI. (7. 6.)

Edrych ar y pethau ni welir.

- 1 **M**AE torf aneirif wiwlon,
 A'u gwisgoedd oll yn lân,
 Ar uchelderau Sion,
 Yn beraidd iawn eu cân ;
 Ond er y rhif a olchwyd,
 Sydd yn y nef yn awr,
 Mae afon bur y bywyd,
 Yn ngwlad y cystudd mawr.
- 2 Mae cwmwl mawr o dystion,
 Yn iach yr ochr draw,
 I'n Harglwydd a fu'n ffyddlon,
 Yn myd y poen a'r braw ;
 Yn ol eu traed dilynwn,
 Trwy dir y blinder maith ;
 Ar air ein Hrglwydd pwyswn,
 Nes dod i ben y daith.
- 3 Yr oen fydd eu harweinydd,
 At lawn ffynnonau hedd ;
 Fe'u portha yn dragywydd,
 A'i gyflawn felys wledd ;
 Fe'u gwna am byth yn holl-iach,
 Eu dagrau oll fe'u sych ;
 Ni chant eu blino mwyach
 Gan bechod, poen, na nych.

T. J.

HYMN CCCXLII. (7. 6.)

O flaen pregeth.

- 1 **T**YR'D Ysbryd Glan sancteiddiol,
 Anadla'th nerthol ddawn ;
 Gwna heddyw gynhwrf grasol,
 Mewn esgyrn sychion iawn ;
 Rho'th nerthoedd i gydfyned,
 A geiriau pur y nef ;
 Dy air yn nerthol rheded,
 Mewn goruchafiaeth gref.
- 2 Rho nerth o'r nef i'th weision,
 Gwisg hwynt â nefol rym :
 Awchlyma'th eiriau purion,
 Fel gloyw gleddyf llym ;
 Rho air fel saeth i lynu,
 Mewn llawer calon gas ;
 O Iesu myn orchfygu,
 Trwy ryfedd rym dy ras.

T. J.

HYMN CCCXLIII. (7. 6.)

Nerth mewn gorthrymderau.

- 1 **G**ORTHYMDER ar orthrymder,
 Sydd i mi ar fy nhaith ;
 Ac ergyd ar ol ergyd,
 Yn nglyn wylofain maith ;
 Fy Nuw rho i mi brofi,
 Fod pob peth yn ei le,
 A'r cwbl at fy arwain,
 Nes nes i deyrnas ne'.
- 2 A phan y delwy' i fyned,
 Trwy yr Iorddonen gre',
 Rho i mi wel'd Offeiriad,
 Yn daclus yn ei le ;
 Fy Iesu yn ei chanol,
 Fy Iesu ar ei glân,
 Yn cynnal, yn cysuro,
 Yn cadw f'enaid gwan.

T J.

HYMN CCCXLIV. (7. 6.)

Anwylyd yr eglwys.

- 1 **P**WY welaf fel f'Anwylyd,
 Yn hyfryd ac yn hardd ;
 Fel ffirwythlon bren afalau,
 'N rhagori ar brenau'r ardd ;
 Ce's eistedd tan ei gysgod,
 Ar lawer cawod ffin,
 A'i ffirwyth oedd fil o weithiau,
 I'm genau yn well na gwin.

J. T.

HYMN CCCXLV. (7. 6.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **O** GREENLAND rewlyd gribog,
 O draeth yr India goeth ;
 Lle treigla ffrydiau heulog,
 Lwch aur drwy Affrig boeth ;
 O làn aml afon lydan,
 O lawer gwastad bras,
 Hwyr'n galwant i'w dwyn allan,
 O garchar geuffydd gas.
- 2 Beth er i'r per awelon,
 Dros Java chwythu'n hael ;
 Pob golwg yn gysurlon,
 A dyn ei hun yn wael :
 Mae'n ofer trwy haelioni,
 Gael rhoddion Duw ar daen,
 A'r Ethnig yn ei ddellni,
 Yn plygu i bren a maen.
- 3 Oes modd i ni oleuwyd,
 A gwawl o'r nefoedd fry ;
 Nacáu goleuni'r bywyd,
 I ddynion mewn nos ddu ?
 Iechineb, O Iechineb !
 Hyfrydlais i'r byd trist ;
 Cyhoedder dros ei wyneb,
 Felysaf enw Crist.

- 4 Chwi wyntoedd, ewch â'r chwedyl,
 Chwi ddyfroedd, treiglwch høn;
 Fel môr o hedd efengyl,
 A gylcho'r ddaear gròn:
 Dros ddynolryw blin gyflwr,
 Yr Oen ga'dd farwol giwy',
 Gwaredwr, Brenin, Crëwr,
 Mewn bri teyrnased mwy. Cyf. P. J.

—◆—

HYMN CCCXLVI. (8. 8. 6.)

“Pwy yw hon?”

- 1 O PWY yw hon sy'n dod yn hy',
 Yn lew i'r làn, fel rhwng dau lu,
 O'r dywyll Aiphtaidd wlad?
 Gan roddi pwys ei henaid pur,
 Ar Iesu gwiw'r Messiah gwir,
 Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhad.
- 2 Fel bore wawr fe welir hon,
 Teg fel y lloer mae ei hwyneb llon,
 Mewn cariad, gras, a hedd:
 Fel haul heb un brycheuyn du,
 'N ofnadwy fel banerog lu,
 Ond hyfryd yw ei gwedd?
- 3 O'r dyfnder du i'r làn y daeth,
 Tua'r wlad sy'n llifo o fel a llaeth,
 I'r etifeddiaeth fras:
 Yn llawn o hedd mae'n awr mewn hwyl,
 A'i nefol gainc yn cadw hwyl,
 Am ddod o'r Aipt i maes.
- 4 Duw sy iddi'n blaid, hi ga'dd o'i blaen,
 Y cwmwl niwl a'r golofn dân,
 Eneiniad yr holl saint:
 Hi w'yr y ffordd i'r Ganaan draw,
 Ni chyfeiliorna ar un llaw,
 Nes cael meddiannu'r fraint. W. W.

HYMN CCCXLVII. (8. 8. 6.)

"Bywyd yn helaethach."

- 1 **Y**N Eden, cofiaf hyny byth,
 Bendithion gollais rif y gw lith,
 Syrthiodd fy nghoron wiw :
 Ond buddugoliaeth Calfari,
 Ennillodd hon yn ol i mi,
 Mi ganaf tra f'wyf byw.
- 2 Ar Galfari yn ngwres y dydd,
 Y caed y gwystl mawr yn rhydd,
 Trwy golli gwaed yn lli':
 'Nawr dim heb dalu, rhoddwyd iawn,
 Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn.
 Heb ofyn dim i mi.
- 3 Ffydd! dacw'r màn, a dacw'r pren,
 Yr hoeliwyd arno D'wysog nen,
 Yn wirion yn fy lle :
 Y ddraig a sigwyd gan yr un,
 Can's clwyfwyd dau, concweriodd un,
 A Iesu oedd efe. W. W.

HYMN CCCXLVIII. (8. 8. 6.)

Y Cyfaill goreu.

- 1 **O** IESU'M Ffrynd, a'm Prynwr rhad,
 O'th galon wiw, daeth mor o waed,
 I olchi'm ffiadd friw :
 Rho i mi nerth i wneyd fy nyth,
 I'm henaid bach i 'mguddio byth,
 O fewn dy glwyfau gwiw.
- 2 Dros f'enaid i bu'r addfwyn Oen,
 Fel hyn yn dyodde' dirfawr boen :
 I'm gwneyd yn rhydd yn wir :
 'Roedd yn ei fryd, orphenu'r gwaith,
 O eitha' tragwyddoldeb maith ;
 O f'enaid cofia ei gur.

- 3 'Nawr heddwch annherfynol sy,
 O gwr i'r llall i'r nefoedd fry,
 Priodoliaethau yn un :
 Cyflawnder llym yn llawenhau,
 Yn nghol trugaredd faith ddidrai ;
 Darfydded son am ddyn.

W. W.

HYMN CCCXLIX. (8. 8. 6.)

Uchelgais y Cristion.

- 1 O IESU byw, Iachawdwr byd,
 Dwg fi'n glau i'th fynwes glud,
 'Gael prawf o'th gariad cu,
 Sydd well na'r gwin i'm henaid gwan,
 Am hyn 'rwy'n daer am gael dod dan
 Dy dirion aden di.
- 2 Dy gariad dwys yn f'enaid dod,
 Ac yntho fyth gad i mi fod,
 Yn nofio tua'r ne' :
 Nes gado'n deg yr anial dir,
 A landio o fewn i Salem dir,
 O'm gofid, och, a'm gwae.
- 3 Rhyfeddol rin, arfaethol ras,
 I'm Iesu mwyn fy nwyn i maes
 O'r dwfwn bydew pridd :
 Dros f'enaid bach dyoddefodd boen,
 Gan roddi iawn i'm hanwyl Ion :
 Ce's inau fyn'd yn rhydd.
- 4 O wynfydedig ddedwydd awr,
 Ddysgleirwen wir, O hyfryd wawr !
 Caf esgyn uwch y nen :
 Gorphwysfa lân, tragwyddol wledd,
 Caf fi fwynhau mewn dinas hedd :
 Boed hyn ar frys, Amen.

W. W.

HYMN CCCL. (8. 8. 6.)

"Cyrchu at y nod."

- 1 **P**ERERIN wyf i'r Ganaan fry,
 I gynes gol fy Iesu cu,
 Lle ca'i dragwyddol nyth,
 'Mhell uwchlaw sŵn y ddraig a'i saeth,
 Na gelyn mwy i'm gwneyd yn gaeth,
 Cai'n dawel orphwys byth.
- 2 O ball mi wela'm cartre'n wir,
 O fewn i byrth Caersalem bur,
 Pob rhai 'n meddiannu hedd,
 O ddinas deg, o'th fewn nid oes,
 Na haul, na lloer, na thywyll nos,
 Gwynfyd rhai draw i'r bedd!
- 3 Pan ddel yr adgyfodiad mawr,
 Caf godi'n lân o'r ddaear lawr,
 I entrych awyr fry;
 Oddiyno âf mewn nefol hedd,
 I'r nefoedd wen mewn newydd wedd,
 I blith angylaidd lu.
- 4 'Rwy'n awr am ganu'n iach i'r byd,
 Ei bleser gau, a'i boen i gyd;
 Pwy safai ynddo'n hir!
 Dysgwyl a wna' nes del fy Nuw
 I'm dwyn o'm gwae at Iesu gwiw,
 I hyfryd Salem dir.

W. W.

HYMN CCCLI. (8. 8. 6.)

Dyoddefaint Crist.

- 1 **F**Y enaid, nac anghofia groes,
 Annhraethol ing, a phoen, a loes,
 Yr Oen difeius pur:
 Tan wg y byd, ac uffern gref,
 A dwys ofynion llawn y nef,
 Mor ddwfn a dwys ei gur!

- 2 Fy enaid, cofia'r gwpan ddwys,
 Digllonedd nef mewn grym a phwys,
 Y gwpan yfodd E':
 Mewn ing tân faich annhraethol fawr,
 A'i waed yn llifo hyd y llawr,
 Dyoddefodd yn fy lle.
- 3 Fy enaid, cofia Galfari,
 A'r Iesu'n dwyn dy felldith di,
 Yn ddiiddig ar y pren :
 I ddwyn it' fendith lawn a hedd,
 Bu ar y groes, bu yn y bedd,
 O, car ef byth, Amen.

T. J.

HYMN CCCLII. (8. 8. 6.)

Trugareddau Duw yn dragwyddol.

- 1 **P**ARHAU mae hen drugaredd Ior,
 A'i ras yn llanw fel y môr ;
 O caned pawb am hon :
 Mae cyfuwch ag yw'r nef ei hun,
 Mae'n chwilio'r dyfnder am y dyn !
 O caned daear gron.
- 2 Bydd rhyw dragwyddol glod i'r Ion,
 Am ei drugaredd ef bydd sôn,
 Am gofio marwol ddyd ;
 Ei ymgeleddu yn ei waed ;
 Trugaredd heb ei hail a gaed,
 Trugaredd Tri yn Un.
- 3 I lawr y daeth o'r nef at ddyd,
 I'w geisio ac i'w gadw'n un,
 Trwy ras Calfaria fryn.
 Daeth ato yn ei isel radd,
 Yn wael ei lun, ac wedi ei ladd ;
 O f'enaid, cofia hyn.
- 4 Mae hon yn golchi'r brwnt yn lân,
 Mae'n achub pentewynion tân,
 Mae'n codi'r marw'n fyw :

Mae hon yn cuddio noethni'r cas,
Yn gyfiawn trwy anfeidrol ras ;
Rhyfeddol gariad yw.

- 5 O f'enaid, nac anghofia mwy,
Mae meddyginiaeth i dy glwy' :
Cân am Galfaria fryn.
Dim damnedigaeth mwy nid oes,
I'r hwn a gred yn angeu'r groes ;
Mi ganaf byth am hyn.

R. J. .

—◆—
HYMN CCCLIII. (8. 8. 6.)

Dyoddefiadau y Cyfryngwr.

- 1 O COFIWN hoelio Iesu cu,
Ac iddo lyncu angeu du,
Ar groesbren un prydawn :
A chofiwn rwygo'r llen i'r llawr,
Pan y dolefodd Iesu mawr ;
Fe rodd anfeidrol iawn.
- 2 Y chwys a'r gwaed oedd yn yr ardd,
Y dagrau tros ei wyneb hardd,
Oedd brawf o'i ddyndod ef ;
A'i weddi gyda'r Tad yn un,
A dystia'n wir ei fod yn ddyn,
'N wynebu'r 'storom gref.
- 3 Ei lef yn hollti'r meini 'nghyd,
Yn crynu holl derfynau'r byd,
Oedd brawf o'i Dduwdod mawr :
Ac achub lleidr ar y groes,
Yn nyfnder ing ei farwol loes ;
A'i waed yn llif i'r llawr.
- 4 O caned nef âg uchel floedd,
Dadseinied daear oll ar g'oedd,
Ryw anthem bêr i'r Oen ;
Er duo'r haul, a llosgi'r byd,
A syrthio ser y nef y'ng hyd,
Fe'i molir am ei boen.

R. J.

HYMN CCCLIV. (8. 8. 6.)

" Y llef ddystaw fain."

- 1 O'R nef fe ddaeth llef ddystaw fain,
Hyfrydaf a phereiddiaf sain,
Trwy barthau'r ddaear gron :
Ac er dystawed yw y llef,
Caiff pawb ei chlywed is y nef ;
Mae Duw ei hun yn hon.
- 2 Llef radlawn yw a melys iawn,
Cyhoeddiad o faddeuant llawn,
I'r euog gwael ei wedd :
Gwahoddiad i'r anghenus rai,
At bob cyflawnder heb ddim trai ;
Hon yw Efengyl hedd.
- 3 Taranau Sinai, mellt y ddeddf,
Ni allant byth gyfnwid greddf,
Pechadur ar ei daith :
Mwy nerthol yw'r efengyl lân
Na'r gwynt, y ddaear gryn a'r tân ;
Cyflawna hon y gwaith.
- 4 Mae'n meddalhau'r afrywiog fron ,
Ewyllys dyn ennilla hon,
Heb orthrech, cur na thrais :
Hon yw'r newyddion goreu 'rioed ;
I Dduw a'r Oen gogoniant boed,
Byth am yr hyfryd lais.
- 5 Aed sain efengyl cyn bo hir,
I'r dwyrain a'r gorllewin dir,
Y gogledd oer a'r de :
O! profed pawb effeithiau hon ;
Y byd fo'n plygu ger ei bron,
A llwydded yn mhob lle.

HYMN CCCLV. (5. 6. D.)

Cysur y credadyn.

- 1 **Y** CYSUR i gyd sy'n llanw fy mryd,
Bod geny' drysorau uwch gwybod y byd;
Ac er bod hwy 'nghudd, nas gwel hwynt ond ffydd,
Ceir eglur ddatguddiad o honynt ryw ddydd.
- 2 Rhodd y'nt ro'wd yn rhad, gan Iesu a'n Tad,
A brynwyd yn gyfiawn trwy gleisiau a gwaed;
Fel b'ai genym ble, a haeddiant i'r ne',
Trwy rinwedd y poenau ddyoddefodd efe.
- 3 Anfeidrol oedd llid Creawdwr y byd,
Yn erbyn y pechod sy'n damnio o hyd;
Ond Tywysog a gaed, a gollodd ei waed,
Fe brynodd faddeuant a heddwch y Tad.
- 4 Ffordd wnaethpwyd yn llyn, ar Galfari fryn,
I sicrach Paradwys na goll'som cyn hyn;
Ac yno ni gawn i yfed yn llawn,
O wleddoedd y bywyd, heb fore na nawn. W. W.

HYMN CCCLVI. (5. 6. D.)

Iesu yn gwbl-feddyg.

- 1 **FY** Iesu mwy fydd, fy noddfa bob dydd,
O ddyfnder pydewau, fe'm rhoddodd yn rhydd;
Ni feddaf iachad, un dim ond ei waed,
Fy heddwch a'm haeddiant, fy nerth a'm parhad.
- 2 Rhyw afon a gaed, o ddwfr ac o waed,
O'r orsedd ddysgleir-deg, mae'n rhedeg yn rhad;
I wella fy mriw, fy meiau o bob rhyw,
A chànau fy enaid, er dued ei liw.
- 3 Boed yma fy nyth, a'm bywyd i byth,
Yn nghlwyfau'r Oen tyner, a'i lawnder dilyth;
Ac yna caf fyw, er croesau o bob rhyw,
A'm henaid yn llawen, dan aden fy Nuw.

- 4 I olchi fy mai, mae dyfroedd didrai,
Er maint yw fy nghulni, 'dyw'n llenwi dim llai ;
Ac er 'mod i'n awr, yn llesg ar y llawr,
Fe'm cènir yn ddiau, o feiau fu fawr.
- 5 Wel, bellach mi a 'mlaen, trwy ddwr a thrwy dân,
Er cymaint fy nyled, fe'i talwyd yn lân ;
Moliannu mwy fydd, fy mhleser bob dydd,
'Nol agor y carchar, pwy all fod yn brudd. W. W.

HYMN CCCLVII. (5. 6.)

Cyflawnder yr Iachawdwriaeth.

- 1 **R**WY'N gweled bob dydd, mae gwerthfawr yw fydd,
Pan elwy i borth angeu, fy angor a fydd.
- 2 Mwy gwerthfawr im' yw, na chyfoeth Peru,
Mor ddyogel i'm cynnal, ddydd dial ein Duw.
- 3 Ffarwel y fo'r byd, a'i bleser yn nghyd,
Ar drysor y nefoedd, fe redodd fy mryd.
- 4 O melys yw'r wledd, ce's weled ei wedd,
Fy Mrenin a'm Prophwyd, mwyn hyfryd mewn hedd.
- 5 Fy Mhriod a'm Pen, a rwygodd y llen,
Ffordd newydd a bywiol, sy i fyn'd uwch y nen.

W. W.

HYMN CCCLVIII. (5. 6.)

Mawl am gariad Crist.

- 1 **Y**R Iesu yn ddilai, a'm gwared o'm gwae,
Fe safiodd fy mywyd, maddeuodd fy mai.
- 2 Fe'm golchodd i'n rhad, do yn wir yn ei waed,
Gan selio fy mhardwn, rhoes i mi ryddhad.
- 3 Mi welaf fy mod yn awr tân y nod,
O'm Priod cywiraf, dilynaf ei droed.

- 4 Fy enaid i sydd yn awr nos a dydd,
Am ganmol fy Iesu a'm rhoddodd yn rhydd.
- 5 Fe'm cododd i'r lan pan oeddwn yn wan,
Amlygodd f'Anwylyd, fy rhydd-did a'm rhan.

W. W.

HYMN CCCLIX. (5. 6.)

"Sychedodd fy enaid am Dduw."

- 1 **M**AE nghalon i'n friw, mewn syched 'rwy'n byw,
Am yfed o'r dyfroedd, sy'n nefoedd fy Nuw.
- 2 O Arglwydd fy Naf, bryd dywed y caf,
Wel'd gwerth dy wynebpryd, haul hyfryd yr haf.
- 3 Cof genyf fi'r pryd, y buom ni 'nghyd,
Yn rhodio mewn cariad, uwch cyrhaedd y byd.
- 4 Hiraethu 'rwy'n brudd, am fwy-fwy o ffydd,
A gallu i wrthsefyll, ac ennill y dydd.
- 5 Fy enaid dan wae, mewn syched y mae,
Drachefen am brofi, dy hedd a'th fwynhau.
- 6 Duw ffyddlon erioed, y credais dy fod,
Dy heddwch fel afon, yn dirion im' dod.

W. W.

HYMN CCCLX. (5. 6.)

Y golud gwell.

- 1 **O** TYRED i lawr, fy Arglwydd yn awr,
Rho im 'nabod dy enw, dy enw sydd fawr.
- 2 Mae ynot dy hun, well cyfoeth ei rin,
Na *ffeindiodd* marsiandwyr yr India yn gytun.
- 3 Is wybr ni bu, fath fendith i mi,
A'n Iesu i farw, ar Galfari fry.
- 4 A geiriau fy Nuw, sy'n gadarn o ryw;
Fe dd'wedodd cawn gonc'ro 'ngelynion bob rhyw.
- 5 Er bod i mi lu, o greulon rai cry',
Mi safaf yn wrol mae'm Iesu o'm tu.

W. W.

HYMN CCCLXI. (5. 6.)

Rhinweddau croes Crist.

- 1 **T**RWY'R byd y bo sôn, am bwrcas ei boen,
A chaned pob teulu, mai teilwng yw'r Oen.
- 2 Rhyfeddod y byd yw angeu mor ddrud,
A gwreiddyn caniadau'r ffyddloniaid i gyd.
- 3 Mi wela'n ei glwy', gyfiawnder sydd fwy,
Na meithder y moroedd, er lleted ynt hwy.
- 4 Mae meiau o'r fath liw, mor ffiائد eu rhyw.
'Does dim all eu golchi, ond ffynnon fy Nuw.
- 5 'Rwy'n cwympo wrth dy draed, yn 'mofyn iachad,
A Balm o Galfaria, defnynau dy waed.
- 6 Af bellach yn hy' tua'r Ganaan sy fry,
Mi wela'r addewid, yn gadarn o'm tu. W. W.

HYMN CCCLXII. (6. 8. 4.)

Noddfa'r Cristion yn Nuw.

- 1 **T**I Arglwydd yw fy rhan, a'm trysor mawr didrai,
A noddfa gadarn f'enaid gwan, yn mhob gwae;
Ac atat 'rwyf yn ffoi, dy fynwes yw fy nyth,
Pan bo gelynyon yn crynhoi, rifedi'r gw lith.
- 2 O dangos d'allu mawr, dy faith anfeidrol ras,
A dywed wrthyf fi yn awr, caf gario'r maes;
Ac atat 'rwyf yn ffoi, dy fynwes yw fy nyth,
Pan bo gelynyon yn crynhoi, rifedi'r gw lith.
- 3 Tydi fy Nuw ei hun, anfeidrol berffaith Fôd,
Sy'n trefnu daear, da, a dyn, i'th ddwyfol glod;
Cyf'rwydda f'enaid gwan, trwy'r anial ddod yn mlaen,
Ac arwain fi 'mhob dyrys fân, â'th golofn dân.
- 4 Dy Ysbryd sanctaidd cun, dywysodd fyrdd o saint,
Rho i mi brofi ei felys rin, anfeidrol fraint;
Fel dyfroedd gloyw clir, i lônir llesg a'r gwan,
Dyddanwch yn yr anial dir, i'm dal i'r lan. W. W.

HYMN CCCLXIII. (6. 8. 4.)

Anchwiliadwy olud.

- 1 **O** F'ENAIID hed i'r làn, tros fryniau ucha'r byd,
A gwel dy gyfoeth, gwel dy ran, anfeidrol ddrud,
Trysorau o ddwyfol rin, bwrcaswyd i mi'n llawn,
Gan fy Ngwardwr addfwyn cun, ar un prydawn.
- 2 'Fe bellach fydd fy nghân, a'm hamddiffynfa glud,
Fy nhŵr, fy nghraig, a'm noddfa lân, trw'i yn y byd;
Pan talodd dwyfol waed, pwy ofyn i mi mwy?
Can's anfeidroldeb maith a gaed, mewn dwyfol glwy'.
- 3 Mae angeu'r groes yn fwy, na haeddiant yr holl fyd,
Y mae gruddfanau dwyfol glwy', yn gyfoeth drud;
Fe gènir myrdd yn wŷn, oll fel yr eira mân,
Ceir gwel'd rhai ffaidd ar ol hyn, yn berffaith lân.
- 4 Wel, minau anturia' mwy, er cymaint yw fy mai,
Trwy'r haeddiant dwyfol sy'n ei glwy', heb lwfrhau;
O flaen yr orsedd wen, ffeiddiaf ddyn o'r blaen,
Gan gredu gall Tywysog nen, i'm gwneyd yn lân.

W. W.

HYMN CCCLXIV. (6. 8. 4.)

Gruddfan am waredigaeth.

- 1 **O** TYRED addfwyn Oen, Iachawdwr dynolryw,
At wael bechadur sy tan boen, ac ofnau'n byw;
O helpa'r llesg yn awr, i ddringo o'r llawr yn hy',
Tros greigydd geirwon serth i'r làn, i Ganaan fry.
- 2 O dal fi, 'rwyf heb rym, yr ochr hyn na thraw,
Os sefyll wna'i, ni safai ddim, ond yn dy law;
Addewid nefoedd faith, yw'm cymhorth perffaith wir,
Na chyfeiliornaf ar fy nhaith, i Salem bur.
- 3 Yn eitha' grym y dwr, a'r tònau'n curo lawr,
Tywysog nefoedd yw fy Nhwr, a'm Ceidwad mawr;
Fe ddeil fy mhen i'r làn, can's ffrynd i'r gwan yw ef,
Fe'm dwg o'm cystudd yn y mân, i deyrnas nef.

- 4 Dewch bellach yn eich grym, elynion llym yn haid,
Er maint eich nifer 'faeddwch ddim o'r dwyfol blaidd;
F'â'r lluoedd ar eu taith, trwy'r dyfroedd maith y'mlaen,
I'r wlad, sy'n llifo o fel a llaeth, y Ganaan lân.

—◆—
W. W.

HYMN CCCLXV. (6. 8. 4.)

Haeddiant Crist.

- 1 **A**M fod fy Iesu'n fyw, byw hefyd fydd ei saint,
Er gorfod goddef poen a briw, mawr yw eu braint;
Bydd melys lanio draw, 'nol bod o dòn i dòn,
Ac mi ro'f ffarwel maes o law, i'r ddaear hòn.
- 2 O angeu pur y groes, ti bellach fydd fy nghân,
'Doedd dwfr i'w gael ond ar y groes, a'm golchai'n lân;
Y ffynnon loyw lawn, sydd barod iawn o hyd,
I olchi'r Ethiop du yn wyn, hyd eithaf byd. W. W.

—◆—
HYMN CCCLXVI. (6. 8. 4.)

Cnawdoliad Crist.

- 1 **J**EHOFAH' ddaeth i lawr, o blith nefolaidd lu,
Rhyfeddwn ninau oll yn fawr, ei gariad cu!
Henffych i'r dedwydd ddydd, Emmanuel a gaed!
Caiff pechaduriaid fyn'd yn rhydd, trwy werthfawr waed.
- 2 Cymerodd agwedd gwas, i guddio'i ddelw ei hun,
Anfeidrol yw dyfnderoedd gras, i achub dyn:
Henffych i'r dedwydd ddydd, Emmanuel a gaed!
Caiff pechaduriaid fyn'd yn rhydd, trwy werthfawr waed.
- 3 "Gogoniant fo i Dduw," oedd cân y nefol lu,
"Gogoniant," caned dynolryw, mwy achos sy:
Rhodd Duw i ni yw Ef, sy bechaduriaid trist,
O cyd-foliannwn â llu'r nef, am Iesu Grist.

HYMN CCCLXVII. (7. 4.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **Y** MAE'R dyddiau yn dod i ben, dyddiau hyfryd,
Y dyrchefir Brenin nen, tros yr holl-fyd,
Fe â dwyfol angeu drud, pen Calfaria,
Trwy ardaloedd pella'r byd, Haleluia.
- 2 Fe bregethir Iesu a'i ras, mewn awdurdod,
Yn yr India äang fras, yn ddiddarfod. ;
Fe â sw'n yr udgorn clir, hyd yr eitha',
I'r Gorllewin, anial dir, Haleluia.
- 3 Wel, o'r diwedd daeth y dydd, pan caiff caethion,
Eu traed a'u dwylo oll yn rhydd, oedd mewn cyffion ;
Dyma Jubil nefol wiw, pen Calfaria,
Minau ganaf tra f'wyf byw, Haleluia.
- 4 Buddugoliaeth lân a ddaw, yn mhen 'chydig,
Ni ddysgwylwn oddi draw, wrthi'n ddiddig ;
Ar ei allu mae ein ffydd, fe goncweria,
Canu ein pleser ninau fydd, Haleluia. W. W.

HYMN CCCLXVIII. (7. 4.)

Rhinweddau'r groes.

- 1 **O** GALFARIA mae fy hedd, a fy mywyd,
Ac oddiyno mae fy ngwledd, nefol hyfryd ;
Ac o tan ei awel wiw, fyth arosa'.
Ac mi ganaf tra f'wyf byw, Haleluia.
- 2 Minau gredaf yn fy Nuw, mhriod rhyfedd,
Ag fu'n farw, 'nawr sy'n fyw, yn ddiddiwedd ;
Ac er mwyn ei chwys a'i waed, mi wir greda',
Ca'i ngelynion tân fy nhraed, Haleluia,
- 3 Mi ymddifyra wrth ei groes, yn fy mlinfyd,
Ac mi gofia ei ddwyfol loes, nerth fy mywyd ;
Yn mhob cystudd a phob gwae, mi foddlonu',
Y mae'r diwedd yn neshau, Haleluia.

- 4 Dedwydd wyf, mi gana' mwy, dydd sy'n gwawrio,
Pan ca'i roi'm gelynion glwy', sy'n fy mlino;
Nes dod allan o bob pla, mi ddysgwylia',
Ac ar fyrder canu wna', Halleluia. W. W.

HYMN CCCLXIX. (7. 4.)

Y daith ysbrydol.

- 1 'NOL tywyllwch hir y nos, gwawr sy'n codi,
A thrwy haeddiant dwyfol loes, daeth goleuni;
Ledio y mae'r haulwen bur, fwyn bereiddia'.
Tua'r sanctaidd hyfryd dir, Halleluia.
- 2 Bellach fe â'r môr yn ddau, er creuloned,
Fe wna lwybr i ni'n glau, o'n caethiwed;
Ni gawn yn yr anial dir, hyfryd fanna;
Ninau ganwn fyth yn wir, Halleluia.
- 3 Fe ddaw afon loyw glir, dwfr y bywyd,
O'r Messia dwyfol gwir, ein Hanwylyd;
Ni gawn drachtio'r dyfroedd byw, fyth ein gwala;
Canu'n awr ein dyled yw, Halleluia.
- 4 Fe gwymp Amalec i lawr, er ei allu,
Fy mhechodau fach a mawr, oll yn trengu;
Iesu mawr a dalodd iawn, fe orchfyga,
Ninau ganwn foreu a nawn, Halleluia. W. W.

HYMN CCCLXX. (7. 4.)

"Gwardwr cryf."

- 1 F E achubodd ef fy mlaen, Halleluia,
Ar y ffordd i uffern dân, Halleluia;
Yn ei allu des yn ol, Halleluia,
'Nawr 'rwy'n dawl yn ei gol, Halleluia.
- 2 Nid yw orchest i mi'n awr, Halleluia,
Garu fy Eiriolwr mawr, Halleluia;
Nid oes genyf ond efe, Halleluia,
Ar y ddae'r ac yn y ne', Halleluia.

- 3 Ar Galfaria un prydawn, Haleluia,
Cawsom goncwest hyfryd iawn, Haleluia ;
Uffern faith a'i hanferth rym, Haleluia,
Ddarostyngwyd lawr i ddim, Haleluia. W. W.



MYMN CCCLXXI. (7. 4.)

Bendithion Iachawdwriaeth.

- 1 **I**ACHAWDWRIAETH sydd yn awr, dawel hyfryd,
Yn dylifo'n braf i lawr, ddwfr y bywyd ;
Dyma ryfeddodau Duw ! y ffeiddia,
O rai meirw'n dod yn fyw ! Haleluia.
- 2 Darfu'r gauaf chwerw hir, amser sythdod,
Pan oedd cwsg yn llanw'r tir, a phob nychdod ;
Daeth y ddwyfol nefol hin, fwyn bereiddia',
Minau ddrachtiat nefol win, Haleluia.
- 3 Tarddu maes mae'r egin grawn, mewn cysondeb,
Hauwyd gynt yn arfaeth lawn, trag'wyddoldeb ;
Ac ni chollir un o'r had, y rhai lleia',
Blanwyd yno gan ein Tad, Haleluia.
- 4 Dyma orchwyl Brenin ne', ein Hanwylyd,
Nid oedd arall ond efe, ro' i'n iechyd ;
Am ei ras a'i ddwyfol glwy', tra f'om yma,
Cawn ni seinio bellach mwy, Haleluia. W. W.



HYMN CCCLXXII. (7. 4.)

Parhad mewn gras.

- 1 **N**I chaiff fyth o'i ddefaid rhi, fyn'd yn ango',
Ar ei ysgwydd cwyd ef ni, er in' grwydro ;
Ar lân afon ddwyfol wiw, cawn ein gwala,
Porfa fras a dyfroedd byw, Haleluia.

- 2 Bugail yw, fe roes ei waed, dros ei ddefaid,
Ac fe'n prynodd ni yn rhad, o'n caethiwed;
Dygodd ni i brofi blas, dwyfol fanna,
Bellach canwn am ei ras, Halleluia.
- 3 Nid oes terfyn fyth i'w gael, ar ei gariad,
Mae'i drysorau mawrion hael, uwch eu dirnad;
Ynddo ei hunan mae yn llwyr, oll ddymuna',
Minau ganaf foreu a hwyr, Halleluia. W. W.

HYMN CCCLXXIII. (7. 4.)

Anwylid yr eglwys.

- 1 **G**WYN a gwridog hawddgar iawn, yw f'Anwylid,
Donia'r nefoedd sy ynddo'n llawn, peraidd hyfryd;
Daeaf faith ac uchder ne', fyth ni *ffeindia*,
Arall debyg iddo fe, Halleluia.
- 2 Dygodd f'enaid ar ei ol, yn dra rhyfedd,
Minau orphwysaf yn ei gol, hyd y diwedd;
Ffowch greaduriaid o bob rhyw, mwy ni chara',
Wrthddrych arall ond fy Nuw, Halleluia.
- 3 Ynddo ei hunan mae yn llawn, bob trysorau,
Dwyfol berffaith werthfawr iawn, am fy meiau;
Gwir ddoethineb hedd a gras, gwerthfawroca',
Nerth i hollol gario'r maes, Halleluia.
- 4 Dyma sylfaen gadarn gre', trwy fy mywyd,
Credu ac edrych arno fe, yw fy ngwynfyd;
Ynddo bellach drwy bob pla, y gobeithia',
Ac mewn rhyfel canu wna', Halleluia. W. W.

HYMN CCCLXXIV. (7. 4.)

Taith yr anialwch.

- 1 **T**EITHIO 'rwyf fynyddau maith, dyrys anial,
A gelynon ar fy nhaith, sy'n fy attal;
Ond mi wela'm hyfryd wlad, trwy'r eangder,
Ac i mewn i dŷ fy Nhad, dof ar fyrder.

- 2 Mi gaf goncwest yno'n lân, ar elynion,
 Nwydau oedd yn curo o'r blaen, arnai'n gyson,
 Ni ddaw pechod o un rhyw, fyth i'm blino,
 Na'r temtasiwn oreu ei liw, i mewn yno.
- 3 Ond llawenydd fel y môr, sy wrth ei orsedd,
 A thangnefedd ddwyfol 'stor, fyth heb ddiwedd ;
 Mi gaf drachtio'r hyfryd hedd, ffynnon bywyd,
 Sydd yn tarddu o waelod bedd, fy Anwylyd. W. W.

—◆—
 HYMN CCCLXXV. (7. 4.)

Y cynhauaf ysbyrdol.

- 1 O GALFARIA llifodd hedd, dwyfol dirfin,
 Concwest uffern, angeu, a'r bedd, maith diderfyn ;
 Dyna'r awr a thyna'r fan, clwyfwyd hwythau,
 Ag a gurodd f'enaid gwan, fil o weithiau.
- 2 Dyma'r ffrwythau gwerthfawr iawn, melys hyfryd,
 Gawd yn pyngu un prydawn, ar bren y bywyd ;
 Dyma'r pomgranadau pur, doniau dwyfol,
 Ag a'n dwg o'r anial dir, i'r wlad nefol.
- 3 Bellach ninau caru wnawn, ein Hanwylyd,
 Yn ei angeu gwerthfawr llawn, cawsom fywyd ;
 Tân ei aden gynnes glud, boed in'dreulio,
 A difyru'n hoes o hyd, nes el heibio. W. W.

—◆—
 HYMN CCCLXXVI. (7. 4.)

Dychweliad yr afradlawn.

- 1 MYN'D a wnaif dan godi'm llef, a chyfadda',
 Pechu wnes yn erbyn nef, o'th flaen diitha' ;
 Nid wyf deilwng fab i ti, Dad trugarog,
 Rho le i mi yn dy dŷ, fel gwas cyflog.
- 2 Dowch blant afradlon at eich Tad, mae i chwi groeso,
 A fu 'mhell o dir eich gwlad, yn crwydro ;
 Mae'r llo pasgedig wedi ei ladd, ni gawn wledda,
 Ac mae'r gweision etto'n gwa'dd, Haleluia. G.

HYMN CCCLXXVII. (7. 4.)

Ffynnon i olchi pechod.

- 1 **C**ANED nef a daear lawr, fe gaed ffynnon,
I olchi pechaduriaid mawr, yn glaer wynion;
Yn y ffynnon gyda hwy, minau 'molcha',
Ac a ganaf fyth tra fwy', Haleluia.
- 2 Fe genir yno am y gwaed, gliriodd feiau,
Ac am y concwest mawr a gaed, ar Galfaria;
Gan iddo fyn'd i lawr i'r bedd, a chyfodi,
Am hyny byddwn ar ei wedd, yn ei foli. G.
- 3 Dyma'r aberth mae erioed, sôn am dano,
Ar y ddaear 'does yn bod, debyg iddo;
Mae Seraphiaid pena'r nen, yn rhyfeddu,
Wel'd eu Brenin ar y pren, 'nawr yn trengu. W. W.

HYMN CCCLXXVIII. (7. 4.)

Y sylfaen safadwy.

- 1 **C**RAIG safadwy dan fy nhraed, wyf yn 'mofyn,
O dragwyddol faith barhad, rhag y gelyn;
Noddfa gadarn f'enaidd yw, minau gana',
Cododd Iesu o'i fedd yn fyw, Haleluia. G.
- 2 Iesu ein Harchoffeiriad mawr, yn dragwyddol,
Ei werthfawr waed a roes i lawr, dros ei bobl:
Eiriol mae ger bron y Tad, yn ddiffino,
Ac yn dadleu gwerth ei waed, moliant iddo.
- 3 Aed efengyl gras ar led, trwy'r holl wledydd,
Plygu wnelo rhai digred, i Fab Dafydd;
Doed trigolion dae'r a nef, o un galon,
I wel'd mai teilwng ydyw ef, i gael y goron. DR. L.

HYMN CCCLXXIX. (7. 4.)

Dyfod i fynu o'r anialwch.

- 1 **O**S rhaid i'm' ddyoddef ar fy nhaith, dywydd garw,
Cadw f'ysbryd yn dy waith, hyd fy marw:

Yn y babell gyda'r arch, boed fy nghartrau,
A chadw yn fy enaid barch, i dy ddeddfau. J. H.

- 2 Er gorfod goddef llawer loes, ar eu teithiau,
Fe ddaw pwrkas gwaed y groes, yn iach adrau;
Er eu gweled yma yn drist, y'nglyn wylofain,
Pan ddont i orphwys gyda Christ, derfydd cwynfan.
- 3 'Rwy' wedi blino ar y wlad, lle mae pechu,
Am ddod adre' i dŷ fy Nhad, 'rwy'n hiraethu :
Bydd dy hunan Iesu mawr, yn fy nerthu,
Na âd i'm roddi f'arfau i lawr, nes gorchfygu. G.

—◆—
HYMN CCCLXXX. (7. 4.)

Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **Y** MAE heddyw nefol wawr, yn llewyrchu,
Ac yn chwalu'r tywyllwch mawr, fel y fagddu ;
Ernes yw o fore llawn, o'r uchelder,
Ymddyagleiria'n hyfryd iawn, Haul Cyfiawnder.
- 2 Rhaid i'r Iesu'n helaeth gael, y mae'n haeddu,
Gwel'd o ffrwyth ei lafur hael, a'i ddiwallu ;
Myrdd o Negroes, estron lu, dont yn fuan,
Profi gânt ei gariad cu, i rai aflan.
- 3 Ninau 'molchwn gyda hwy, yn y ffynnon,
Mae glanhad trwy farwol glwy', i'n rai duon ;
Ni chaiff trag'wyddoldeb maith, drai na diwedd,
Ar ein cân, a hyfryd waith, ei glodforedd. G.

—◆—
HYMN CCCLXXXI. (7. 4.)

Tegwch Crist.

- 1 **F**Y Anwylyd hawddgar yw, gwyn a gwridog,
Ac ar filoedd Israel wiw, mae'n fanerog ;
Perffaith degwch sy'n ei wedd, Ior tragwydd,
Ef sy gadarn D'wysog hedd, ar lu'r Arglywydd.

- 2 **M**egys lili coch ei liw, ei wefusau,
Yn dyferu myrr yn wiw, gw lithog fiodau;
Mae ei eiriau mawr o werth, ac iachusol,
Yn rhoi adnewyddol nerth, i'r diffygiol.
- 3 **E**i enau ef, ei eiriau llawn, melys odiaeth,
Mae ef oll yn hawddgar iawn, uwch cymbhariaeth;
Wele dyma 'nghyfaill gwiw, a'm Hanwlyd,
Merched Salem, onid yw, Ef yn hyfryd. J. H.

HYMN CCCLXXXII. (7. 4.)

Iawn ac eiriolaeth Crist.

- 1 **A**NGEU ac eiriolaeth Crist, yw ngorfoledd.
Hyn a ddwg i'm henaid trist, lawn dangnefedd:
Collai'r ddeddf ei damniol rym, ar Galfaria;
Dofwyd llid cyfiawnder llym, Haleluia.
- 2 **I**esu yw dyfyrwch f'oes, yn fy mlinfyd;
Ac ymfrostiaf yn ei groes, dros fy mywyd;
Tan ei gysgod, nos a dydd, gwnaf fy nhrigfa;
Fy nhŵr cadarn byth a fydd, Haleluia.
- 3 **I**esu a'i gyfiawnder ef, yw fy mywyd;
Fe'm cymhwysa' i deyrnas nef, trwy ei Ysbryd:
Golchir fi o'm pen i'm traed, fel yr eira,
Trwy rinweddau dwyfol waed, Haleluia.
- 4 **M**ae fy Mhrynwr heddyw'n fyw, ac yn eiriol:
Sail eiriolaeth dros of yw, Iawn digonol:
Ei waith ynof yn y mân, a berffeithia,
Gorfoleddaf yn fy rhan, Haleluia. P. J.

HYMN CCCLXXXIII. (7. 4.)

Brwydr Calfaria.

- 1 **D**ACW'R deg gorchymyn pur, ar Galfaria,
Dacw'r hwn wnaeth fôr a thir, yn y ddalfa;
Dacw'r ddeddf yn gofyn iawn, hyd yr eitha',
Dacw iddi daliad llawn, Haleluia.

CCCLXXXIV. (8. 6. 8. 7.)

Gwledd yr Efengyl.

- 1 **Y** CWBL feddai oll yn un,
 O entrych nen i'r llawr,
 A roed i gadw'n glyd dan sêl,
 Yn haeddiant Iesu mawr :
 Dowch ac yfwch o'r bendithion,
 Sydd yn llifo fel yr afon,
 O Galfaria maes yn gyson,
 Maith gyflawnder, maith gyflawnder
 Heb na therfyn byth na thrai.
- 2 Mae yma ffynnon sy'n glanhau,
 Budreddi brwnt yn lân,
 A hyfryd olchi'r ffaidd cas,
 Yn loyw fel y gwlan :
 Dowch ac yfwch o'r bendithion, &c.
- 3 Maddeuant sy yma perfflaith lawn,
 I'r cystuddiedig rai ;
 Mae'r haeddiant fry yn clirio'n lân,
 Bob rhyw ancirif fai :
 Dowch ac yfwch, &c. . . W. W.

HYMN CCCLXXXV. (8. 6. 8. 7.)

Cadernid Sion.

- 1 **'R** WY'N dysgwyl am yr hyfryd awr,
 'R â fy nghadwynau yn rhydd ;
 Ac mi orfoledda'n awr,
 Wrth feddwl am y dydd :
 Dyma'r fan y gwnaf fy nhrigfan,
 O fewn muriau'r nef ei hunan,
 Uchlaw cyrhaedd byd a Satan,
 Dinas gadarn, dinas gadarn,
 Ar anfeidrol ddwyfol graig.

- 2 'Rwy'n trigo mewn anialwch maith,
 Gwlad galar, a gwlad gwae;
 A themtasiynau ar fy nhaith,
 Sy 'mron a'm llwfrhau:
 Dyma'r fan y gwnaf fy nhrigfan, &c.
- 3 Mae'r gwyntoedd poethion, sychion cry',
 Yn chwythu yn eu grym,
 Taranau a chymylau dŵ,
 Sy'n bygwth niwed im':
 Dyma'r fan, &c. W. W.



HYMN CCCLXXXVI. (8. 6. 8. 7.)

Anchwiliadwy olud Crist.

- 1 **Y**N mhlith holl ryfeddodau'r nef,
 Hwn yw y mwyaf un;
 I wel'd anfeidrol ddwyfol Fod,
 Yn gwisgo natur dyn;
 Mae ynddo drysor fel y cefnfor,
 Byth ni cheisiaf ddim yn rhagor,
 Hedd a bywyd yw ei ffiafor,
 Nefoedd berffaith, nefoedd berffaith,
 Yw cael drachtio ei ddwyfol hedd.
- 2 Doed y trueiniaid yma y'nghyd.
 Yn fintoedd heb ddim rhi';
 Cânt eu diwallu oll yn llawn,
 O ras y nefoedd fry:
 Mae ynddo drysor, fel y cefnfor, &c. W. W.
- 3 Mae mil o filoedd ger ei fron,
 Yn treulio'r amser maith;
 A byth heb gollir cariad pur,
 Na'r pleser yn y gwaith:
 Mae ynddo drysor, fel y cefnfor, &c. G.

HYMN CCCLXXXVII. (8. 6. 8. 7.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **F**Y Iesu Brenin nef a dae'r,
 Ei hunan unig yw,
 Trwy bwrkas llawn ei werthfawr waed,
 Iachawdwr dynolryw ;
 Aed ei air i blith y werin,
 Sy'n y dwyrain a'r Gorllewin,
 Fel bo'i enw mawr heb derfyn,
 Canu iddo, canu iddo, Haleluia gylch y byd.
- 2 Mae clywed newydd am ei waed,
 Yn llifo ar Galfari,
 Yn un o'r pethau mwya' ei fraint,
 A fedd ein daear ni :
 Aed ei air i blith y werin, &c.
- 3 Fe gar y Negro tywyll du,
 E'n hyfryd maes o law,
 Pan tywyno gwawr Efengyl gras,
 I dir yr India draw :
 Aed ei air i blith y werin, &c.
- 4 Fe ddaw'r blynyddau pur i ben,
 Pan tywyno Efengyl gras,
 Fel haul ddysgleirwen yn y nef,
 Yn gylch i'r ddaear las :
 Aed ei air i blith y werin, &c.
- 5 Ac mi ddysgwylia'r hyfryd awr,
 Boreuddydd Jubili,
 Pan ddelo holl dylwythau'r byd,
 I deithio i Galfari :
 Aed ei air i blith y werin, &c. W. W.

HYMN CCCLXXXVIII. (8. 6. 8. 7)

Rhinweddau gwaed Crist.

- 1 **O** DOWCH genhedloedd, dowch yn un,
 Tros rwystrau maith eu rhi',

A gwir ryfeddwch tra f'och byw
 Ddyoddefaint Calfari :
 Clod diderfyn fo i'r Brenin,
 Ddaeth o Jesse hardd flaguryn,
 Alpha, Omega, dwyfol wreiddyn,
 Ffynnon bywyd, ffynnon bywyd,
 I rai'n teithio yn ngwres y dydd.

2 Fe dalodd yr anfeidrol swm,
 Fel Meichai yn ein lle,
 Ac felly fe gymmododd holl
 Briodoliaethau'r ne' :
 Clod diderfyn fo i'r Brenin, &c.

3 Mae cofio heddyw am ei waed,
 O flaen yr orsedd fry,
 Yn creu fath heddwch dwyfol pur,
 I'r holl grediniol ri' :
 Clod diderfyn, &c.

4 Fe ddwg ei saint i'r euraidd fan,
 Y dringodd iddo ei hun,
 A hwy gânt wel'd y dwyfol wedd,
 A wisgodd natur dyn :
 Clod diderfyn, &c.

W. W.

—◆—
 HYMN CCCLXXXIX. (8. 6. 8. 7.)

Anchwiliadwy olud gras.

1 **W**EL, dyma gyfoeth gwerthfawr llawn,
 Uwch holl drysorau'r llawr,
 Wedi ei ro'i gadw oll y'nghyd,
 Yn haeddiant Iesu mawr :
 Boed tragwyddol barch a moliant,
 Fyth i Frenin y gogoniant,
 Ar ei 'Fengyl wen bo'r llwyddiant,
 I ddwyn heddwch, i ddwyn heddwch,
 I derfynau eitha'r byd.

- 2 Ei gariad lifodd ar y bryn,
Fel moroedd mawr didrai,
Ac fe bwrcasodd yno hedd
Tragwyddol i barhau :
Boed tragwyddol barch a moliant, &c.
- 3 Ei gariad bery pan bo'r byd,
A'r haulwen fawr yn ddim,
Ac nid oes cariad yn y byd,
Gyffelyb idd' i'w rym :
Boed tragwyddol barch a moliant, &c.
- 4 Pan syrthio'r ser fel ffygys ir,
Fe bery gras fy Nuw,
A'i faith fyddlondeb tra fo'r nef,
Anghyfnewidiol yw :
Boed tragwyddol barch a moliant, &c. W. W.



HYMN CCCXC. (8. 6. 8. 7.)

Glanhau oddiwrth bob pechod.

- 1 **E**R maint fy llygredd o bob rhyw,
Er cymaint yw eu rhif,
Ac er fy nwydau cyndyn chwith,
S'y'n para fyth yn gryf;
Afon loyw redodd allan,
O tan drothwy'r nef ei hunan,
I olchi'r euog, i olchi'r arian;
Haleluia, Haleluia,
Dwfr heb ddarfod, dwfr heb drai.
- 2 Af at yr orsedd fel yr wyf,
Anfeidrol orsedd gras,
Datguddia f yno nghlwyfau maith,
A'm holl archollion cas :
Afon loyw, &c.

3 Mi welaf lu anfeidrol wyn,
 Yn aml fel y ser,
 Ag fu fel finau oll yn frwnt,
 Yn bur yn nghwmni'm Ner :
 Afon loyw, &c.

4 Wel finau'r eiddil gwana' ei lun,
 Heb ddim ond ffaidd friw,
 Anturiaf at drysorau'r nef,
 Cyfiawnder pur fy Nuw :
 Afon loyw, &c.

W. W.

HYMN CCCXCI. (M. C. D.)

Llwyddiant yr Efengyl.

- 1 **A**ED swm Efengyl bur ar led,
 Trwy barthau'r byd o'r bron,
 Boed llwyddiant drwy deyrnasoedd cred,
 Lle mae pregethiad hon ;
 Fel delo miloedd etto i maes
 O'r tywyllwch cas i fyw,
 Trwy'r India draw, ac Asia fras,
 I ganmol gras ein Duw.
- 2 Aed sain yr udgorn arian mawr,
 Y'mlaen trwy'r anial dir ;
 A doed y werin gyda'r wawr,
 I 'mofyn am y gwir ;
 Helaetha'th babell'r ochr hyn,
 Estyn gortynau i maes ;
 O oes i oes, tra paro'r byd,
 Bydd canmol golud gras.
- 3 Aed mawl a gweddi'r saint i'r lân,
 Fel pêr aberthau byw ;
 A boed serchiadau Sion wan,
 Ar dân yn moli Duw !
 Mewn gemwaith aur bydd hon cyn hir,
 Heb dristwch, cur, na phoen,
 Yn canu am goncwest mawr a gaed,
 Trwy werthfawr waed yr Oen.

HYMN CCCXCII. (7. 8.)

Gwlad well.

- 1 **Y** TIR dymunol peraidd,
 Yr ardal hyfryd euraidd,
 Ag oedd yn mhell yn sefyll draw,
 A ddaeth gerllaw o'r diwedd;
 Er lludded ac er blino,
 Na fydded i'n ddiffygio,
 Yr ym yn nes-nes awn ar frys,
 I mewn i'r llys yn gryno.
- 2 Ac yno ni gawn ganu,
 Y goncwest gwrol hyny,
 Ac oe'm ni'n 'mofyn yn y byd,
 O hyd o hyd ei feddu;
 A rhwymo mewn cadwynau,
 Hen Satan a'n cystuddiau,
 Heb allu ein tentio ar ol hyn,
 Na dannod in' ein beiau.
- 3 Ond gorphwys yn ddihangol,
 O'n tentasiynau'n hollol,
 Mewn maith dangnefedd pur didrai,
 Sydd yn parhau'n dragwyddol;
 A hyfryd ymddifyru,
 Yn ein Hanwlyd Iesu,
 A threulio Sabbath melys gwiw,
 Tragwyddol i'w foliannu.
- 4 Seraphiaid ac angelion,
 Un cwmni dwyfol ffyddlon,
 Blith draphlith a'r holl seintiau 'nghyd,
 Yn canu 'gyd yn gyson;
 Oll mewn rhyw syndod rhyfeld,
 Yn edrych tua'r orsedd,
 Yn drachtio cariad pur dilyth,
 Heb deimlo byth o'i ddiwedd. W. W.

HYMN CCCXCIII. (7. 8.)

Gorphwysfa etto yn ol.

- 1 **M**AE'R dydd yn dod i fynu,
 Cawn gwrdd yn un cwmpeini,
 O fewn i'r wlad sy heb elyn caeth,
 Na phechod 'chwaith i'n drygu ;
 Ac yno ni gawn orphwys,
 O fewn i'r wir baradwys,
 Tan gysgod pren y bywyd cun,
 Yr hwn ei hun a'n prynwys.
- 2 **F**e dderfydd ein cystuddiau,
 Pryd hyn a'n temtasiynau,
 Fydd neb roi beichiau ar ein gwâr,
 Na'n denu oddi ar y llwybrau ;
 Pob niwed wedi symud
 O'r ffordd, gan ein Hanwylyd,
 Heb wylo na galaru mwy,
 Na phoen, na chlwy', na gofid.
- 3 **O**nd canu'r gân dragwyddol,
 Am alw ac am ethol,
 Am gariad ag fu ar y groes,
 Yn marw tros ei bobl ;
 Am fynydd bach Calfaria,
 Gliriodd y dyled mwya',
 Nas gall'sai ei dalu neb yn fyw,
 Ei hun ond Duw gorucha'. W. W.
- 4 **O** gwyn ei fyd y dyrfa,
 Sy'n canu Haleluia,
 Cawn ninau ddianc cyn bo hir,
 I mewn i'r wir orphwysfa ;
 I ganu i dragwyddoldeb,
 Mewn hwyl a nefol undeb,
 Heb gwmwl rhyngom byth mewn hedd,
 A siriol wedd ei wyneb. G.

HYMN CCCXCIV. (7. 8.)

Pob peth yn barod.

1 **H**OSANNA Haleluia,
 I'r Oen fu ar Galfaria,
 Gorphenodd iachawdwriaeth dyn,
 Efe ei hun yw'r noddfa;
 Tragwyddol ddiolch iddo,
 Am faddeu a thosturio,
 Anfeidrol fraint i lwch y llawr,
 Fod croeso'n awr ddod ato.

2 Mae'n achub hyd yr eitha',
 Y pechaduriaid mwya',
 Fe drefnwyd ffordd i gadw dyn,
 Gan Dri yn Un Jehofa;
 Anturiwn ninau ato,
 Mae Iesu'n achub etto,
 A chroeso i bechaduriaid mawr,
 Bob mynyd awr ddod ato.

3 Mae'r dyled wedi ei dalu,
 Ac uffern wedi ei maeddu,
 Gobeithiol garcharorion sy',
 Yn dod yn llu i fynu;
 Mae'r pyrth yn llawn agored,
 Doed Israel o'r caethiwed,
 Pob llesg a gwan byth ger ei fron,
 Cânt wel'd yn llon ei noddod.

D. C.

4 O llanwed iachawdwriaeth,
 Fel môr didrai yn helaeth,
 A doed ynysoedd pell y byd,
 I gyd, gael meddyginiaeth;
 Mae'r Brenin ar ei orsedd,
 Yn cynyg o'i drugaredd,
 I bechaduriaid tlodion gwael,
 Ddod ato i gael ymgeledd.

G.

HYMN CCCXCV. (7. 8.)

Duw yn gwaredu ei bobl.

- 1 **P**A gynhwrf a pha ruddfan,
 Sydd drwy holl faesydd Söan :
 Pa dorf yw hon sy'n dod i maes,
 Heb ynddi neb yn egwan ;
 Duw Abra'm sydd yn gwared,
 Ei hil o'u blinfyd caled,
 A'u dwyn y mae gan ddryllio'r Aipht,
 O'u haiarn bair gaethiwed.
- 2 Pwy rwyga iddi'r dyfroedd,
 Balmanta'r gorddyfnderoedd ?
 A'u harwain drwy'r anialwch maith,
 Gan borthi eu haml floedd ?
 Ei chymhorth llawn digonol,
 Yw'r YDWYF mawr trag'wyddol :
 I'r Ganaan wiw eu harwain wna,
 Trwy wyrthiau tra rhyfeddol.
- 3 Paham y ciliwch ddyfroedd,
 Y neidiwch chwi fynyddoedd ?
 Yr wylwch chwithau greigydd hyll,
 Yr anial dir yn llynoedd ?
 Onid gweddus i ni barchu,
 Ein Crëwr mewn mawrhydi ;
 Yn rhodio o flaen ei braidd yn hardd,
 O'r anial dir i fynu ?
- 4 I bwy, y bryniau oesol,
 Y plygwch chwi yn drefnol ?
 A thi Iorddonen gyflawn gref,
 Y rhedi yn dy wrthol ?
 I'r hwn sy'n pwyso'r bryniau,
 Fel mân-lwch mewn clorianau ;
 Ac yn ei law mae'r moroedd mawr,
 A'u 'nysoedd megys brychau.

D. C.

HYMN CCCXCVI. (7. 6. 5.)

Gobaith gwynfydedig.

- 1 **H**ENFFYCH i'r bore hyfryd,
 'Ddaw gelyn byth nac adfyd,
 I dir y bywyd fry ;
 Y seintiau ddaw y'ng hyd, bob wyneb i'r byd,
 Yn unfryd yno i ganu.
- 2 Fry yn Nghaersalem dawel,
 Y'mhell o swm y rhyfel,
 Caf uchel ganu clod ;
 Fy nefoedd ddiboen, fydd gweled yr Oen,
 Fe dderfydd sôn am bechod.
- 3 Caf wel'd y Bôd anfeidrol,
 Y Tri yn Un tragwyddol,
 Rhyfeddol nefol Oen ;
 Fe'm tynodd yn lân, bentewyn o'r tân,
 Fy enaid cân yn gyson.
- 4 Gwneir diwedd ar bob blinfyd,
 Fy nghystudd mawr, a'm hadfyd,
 Yn nhir y bywyd fry ;
 Tragwyddol fwynhad, yn nheyrnas fy Nhad,
 Heb unrhyw frad i'n drygu.
- 5 Mi gysgaf hân yn dawel,
 Dros enyd yn y grafel,
 Nes dattod trefn y rhod ;
 Ac yno mewn hedd, y codaf o'm bedd,
 Ar ddysglaer wedd fy Mhriod. M. R.

HYMN CCCXCVII. (7. 3.)

Rhinweddau'r Efengyl.

- 1 **M**AE 'Fengyl gras yn t'wynu, mawr yw'r fraint, &c.
 I gasglu llafur Iesu, mawr yw'r fraint ;
 Mae lluoedd maith yn barod, yn y Gaersalem uchod,
 A thyrfa fawr yn dyfod, mawr yw'r fraint, &c.
 Dan faner Iesu isod, mawr yw'r fraint.

- 2 Mae bwrdd yn llawn danteithion, dowch y'mlaen, &c.
 Gan sanctaidd Frenin Sion, dowch y'mlaen ;
 Cawn wledda oll yn ddidig, fry ar y llo pasgedig,
 Ac yfed gwin puredig, dowch y'mlaen, &c.
 Gwir haeddiant Iesu'n unig, dowch y'mlaen.
- 3 Mae uffern wedi ei maeddu, diolch byth, &c.
 A'r dyled wedi ei dalu, diolch byth ;
 Mae T'wysog mawr y bywyd, fry ar ei orsedd hyfryd,
 Yn eiriol dros ei anwylyd, diolch byth, &c.
 Cawn ddianc uwchlaw adfyd, diolch byth.
- 4 Cawn hyfryd deml newydd, cyn bo hir, &c.
 Heb lygredd yn dragywydd, cyn bo hir :
 Fry gyda'r duwiol deulu, sy'n moli'r Arglwydd Iesu,
 Gan uchel lawenyachu, cyn bo hir, &c.
 Heb elyn i'n gorthrymu, cyn bo hir.

—◆—

HYMN CCCXCVIII. (7. 3.)

Yr yrfa ysbrydol.

- 1 **O** RHEDWN bawb yr yrfa, dyma'r dydd, &c.
 I'r bywyd am y cynta', dyma'r dydd ;
 Aeth gwlaw a'r gauaf heibio, mae'r ddaear yn blodeuo,
 A'r adar yn ymbyncio, dyma'r dydd, &c.
 Mae'r durtur fwyn yn seinio, dyma'r dydd.
- 2 Yn wyneb gorthrynderau, af y'mlaen, &c.
 A duon ragluniaethau, af y'mlaen ;
 Er môr a'i dônau mawrion, a dyfroedd Mara chwerwon,
 Ynghyd a'm holl elynion, af y'mlaen, &c.
 Nes gorphwys fry yn Sion, af y'mlaen.
- 3 'Does yma ond trai a llanw, i barhau, &c.
 Ac yfed cwpan chwerw, i barhau ;
 Ond yn y Ganaan nefol, dim eisieu yn dragwyddol,
 Caf ddysglaer ddyfroedd bywiol, i barhau, &c.
 ▲i yfed yn wastadol, i barhau.

- 4 Aeth llu o'r genedl gyflon, oll yn iach, &c.
 I sanctaidd ddinas Sion, oll yn iach ;
 Mae etto dyrfa yn dyfod, o'r cystudd mawr a'r trallod,
 Cawn yno gydgyfarfod, oll yn iach, &c.
 Ar ddysglær wedd ein Priod, oll yn iach.

—◆—
 HYMN CCCXCIX. (6. 8.)

Rhinweddau'r Iachawdwriaeth.

- 1 **O** IACHAWDWRIAETH fawr !
 A lifodd i ni lawr, &c.
 Yn ffrydiau pur grisialaidd byw ;
 Maddeuant i ni gaed, &c.
 A heddwch yn y gwaed, &c.
 O gariad rhad ein Tad a'n Duw.
- 2 Am iachawdwriaeth lawn,
 Foreuddydd a phrydnawn, &c.
 Moliannu gawn yr Iesu gwiw ;
 Dyoddefodd angeu loes, &c.
 Yn ddiiddig ar y groes, &c.
 A'i ddoniau roes i ddynolryw.
- 3 Gorphenwyd talu'n llawn,
 Ar groesbren un prydawn, &c.
 O ddedwydd Iawn ! ni gawn yn llu,
 Faddeuant yn ei waed, &c.
 A hollol wir iachad, &c.
 A Duw yn Dad, mewn cariad eu.
- 4 Rhyw dorf o ddysglær lu,
 O flaen y fainc y sy, &c.
 Yn moli'n gu, a'i mawl ar g'oedd ;
 Angelion pur eu cân, &c.
 A seintiau fawr a mân, &c.
 Yn Salem lân, byth wrth eu bodd. G!

HYMN CCCC. (6. 8.)

Ffynnon i olchi pechod.

- 1 **A** GORWYD ar y bryn,
 Ryw ffynnon rad cyn hyn, &c.
 A'm gylch yn wyn o'm pen i'm traed;
 Mae'n golchi'r dua ei liw, &c.
 Mor wyn a'r eira gwiw, &c.
 Rhinweddol yw y dwyfol waed!
- 2 Y ffynnon loyw hon,
 Yn ol y wayw-ffôn, &c.
 Aeth dan ei fron, daeth i ni fraint;
 Hi ylch y brwnt yn lân, &c.
 Hosanna f'enaïd cân, &c.
 Can's dyma sylfaen yr holl saint.
- 3 Y ffynnon loyw hyn,
 A darddodd ar y bryn, &c.
 Yn ffrydiau o anfeïdrol hedd;
 Rhyw fôr o gariad yw, &c.
 Dy heddwch di fy Nuw, &c.
 A nef y nef yw gwel'd dy wedd.

G.

HYMN CCCCI. (6. 8.)

Ymhyfrydu yn Nuw.

- 1 **M**I dreulia oriau f'oes,
 Yn dawel dan y groes, &c.
 Dim ond cael edrych ar dy wedd;
 Perffeithrwydd pleser yw, &c.
 Y wledd o gariad Duw, &c.
 Fy holl ddyddanwch a fy hedd.
- 2 'Does unrhyw drysor drud,
 Fel Ef o fewn y byd, &c.
 Mae'n gwneyd fy ysbryd llesg yn llon;
 Mwy'n llawen byddai'n byw, &c.
 Yn noddfa bur fy Nuw, &c.
 Dan holl gýstuddiau'r ddaear hon.

3 Mewn dyrys anial le,
 Heb gyfaill is y ne', &c.
 Y gallaf ond cael cwm'ni'm Duw ;
 Ddifyr'u'm hoes mewn hêdd, &c.
 Nes myn'd i byrth y bedd, &c.
 Yn hyfryd wedd dy wyneb gwiw.

4 Rho nerth i ddwyn y groes,
 Tra paro dyddiau f'oes, &c.
 Na âd im' ddigaloni mwy ;
 Wrth wel'd gelynyon lu, &c.
 Eu saethau'n aml sy', &c.
 O cuddia fi, o fewn dy glwy'.

G!

—◆—

HYMN CCCCII. (6. 8.)

Gobaith gwynfydedig.

1 **P**LANT caethion Babilon,
 Do'nt adre' o dôn i dôn, &c.
 Cânt wledda'n llon, mae'r dydd gerllaw ;
 Yn ngwydd eu Harglwydd da, &c.
 O sw'n y byd a'i bla, &c.
 O ddedwydd ha', pa bryd y daw ?

2 Anghenus wyf o hyd,
 Mewn trallodedig fyd, &c.
 Ac nid oes fythol ddim i'w gael ;
 Gyflawna'm heisiau i gyd, &c.
 A'm câna i oll y'nghyd, &c.
 Ond haeddiant drud, fy Iesu hael.

3 Mi wna fy nghartre' mwy,
 Dan gysgod marwol glwy', &c.
 'Does noddfa addas dan y nef,
 I'r euog gael glanhad, &c.
 Ond yn y ffynnon rad, &c.
 O ddwfr a gwaed a gollodd ef.

- 4 'Rwy'n nesu at yr awr,
 I gael fy nhori i lawr, &c.
 A'm doddi i orwedd lle bu Ef;
 Lle i orphwys yno 'fydd, &c.
 Hyd oni ddelo'r dydd, &c.
 Daw Iesu ar gymylau'r nef.
- 5 Dysgwyliwn ronyn bach,
 Cawn ddod yn gwbl iach, &c.
 Ac yna bydd caniadau heb ri';
 A'u sylwedd fydd y gwaed. &c.
 A ddyry im'iachad, &c.
 A'r concwest gaed ar Galfari. G.

—◆—

HYMN CCCCIII. (6. 8. 6.)

Crist yn bob peth.

- 1 **M**I deithia'r anial trwy,
 Y rhinwedd sy'n ei glwy',
 Fy nghadarn sail, yw Adda'r ail,
 Gwnaf f'adail arno mwy:
 Trag'wyddol graig, yw had y wraig,
 Rhag drygau'r ddraig a'i llid;
 Mae'n Feddyg da, fe'm llwyr wellha,
 O'm dyfnaf bla, a'm canu wna,
 Fy nghyfaill gora' i gyd.
- 2 Ni fedda'i dan y ne',
 Yn unig ond Efe,
 Fy noddfa a'm Ner, sydd uwch y'ner,
 A'm llawnder yn mhob lle:
 Fy Nhad a Nhwr, a'm sylfaen siwr,
 Hwn ydyw'r gwr a ge's;
 Ei hun fe roes, ei fath nid oes,
 Mi gym'rai ei groes, tra paro f'oes,
 Gwnaeth lawer i mi o les.

- 3 Ar dân, yn lân bo lu
 Yn canmol Iesu cu ;
 Gwnaeth daliad llawn, ar un prydna wn,
 Am hyny awn yn hy'
 At orsedd Ior mae yma stôr,
 Fyth fel y môr a mwy ;
 Ei haeddiant ef sy'n noddfa gref,
 O ganol nef, fe glyw ein llef,
 Bu'n dyoddef marwol glwy. G.

—◆—
 HYMN CCCCIV. (6. 8. 6.)

Dyfroedd yr Iachawdwriaeth.

- 1 **M**AE'R ffynnon heb ei chau,
 Sy'n golchi'r ffaidd rai,
 Mae croeso yn hon, i bawb yn llon,
 I gael eu llwyr lanhau ;
 Ceir gweled llu, o'r Negroes du,
 Oll wedi eu canu'n lân :
 Mewn ffynnon lawn, o ddwyfol ddawn,
 Ein golchi gawn, yn hyfryd iawn,
 Fil myrdd fel eira mân.
- 2 Un aberth mwy nid oes,
 Ond Iesu fu ar y groes,
 Iachawdwr rhad, trwy rin ei waed,
 Rhydd i'm ryddhad o'm loes :
 Mae'n gadarn Ior, a'i ras yn stor,
 Fel môr o drysor drud ;
 Ac ato ef, sy' ar orsedd nef,
 Dyrchafa'm llef, am gymhorth gref,
 I goncro meiau i gyd.
- 3 Fy unig noddfa yw,
 Yr Oen mae'n Geidwad gwiw,
 Fe gollai ei waed, rhydd lwyr iachad,
 O'i rad i ddynolryw :
 Ei nerth a gâf, pa elyn saf?
 O flaen fy Naf o'r nef ;
 Caf yn y man, er bod yn wan,
 Yr hyfryd lan, yn rhwydd a'm rhan,
 Yn gyfan gydag ef.

- 4 Ior cynnal f'enaïd gwan,
 Trwy'r moroedd mawr i'r lan,
 Yn mlaen o hyd, er cnawd a byd,
 I forio i'r hyfryd fan :
 Cael Manna wrth raid, a'r dwfr dibaid,
 Gwledd dawel fy enaid yw ;
 A phrofi'th hedd, effeithiol wledd,
 A'th hyfryd wedd, tu yma i'r bedd,
 Hyn yw 'nigonedd gwiw.

G.

HYMN CCCC.V. (6. 8. 6.)

Nerth yn ol y dydd.

- 1 YR Arglwydd ar fy nhaith,
 A'm daliodd lawer gwaith,
 Yn nyfnder loes, tan faich a chroes,
 A gorthymderau maith ;
 Yn un heb nerth ar greigiau serth,
 Ce's fyw trwy werth y gwaed ;
 A'r gras a fu, yn rhad o'm tu,
 Mae etto'n gry' i fwrw llu,
 Gelynion tan fy nhraed.

- 2 Paham yr ofnaf lu ?
 Mae cadarn fraich o'm tu ;
 Y rhyfel sydd, o ddydd i ddydd,
 Yn eiddo'm Prynydd cu :
 Wel, ato Ef, am nodded gref,
 Mi goda'm llef a'm cri ;
 Yn llesg a chlaf, taer alw wnafl ;
 Nerth ganddo caf, sef Duw, fy Naf,
 Ein Tad anwylaf ni.

T. J.

HYMN CCCC.VI. (6. 8. 6.)

Udgorn y farn ddiweddaf.

- 1 YR udgorn mawr a gân,
 I alw mawr a mân ;

A'r bore cu, yn ddysglaer lu,
 Caiff Sion Duw y blaen,
 Wrth sain y floedd, daw'n hardd ar g'oedd,
 Er gwaeled oedd ei drych ;
 Yn dyrfa fawr, fel gwllith y wawr,
 Hi edy'r llawr, a dyna'r awr,
 Bydd diwedd ar ei nych.

2 Mae bore mawr yn dod,
 Ei fath ni bu erioed ;
 A'r bore yw, y myn ein Duw
 Ei berffaith glaer-wiw glod :
 Fe wawria'r farn ; a'r byd bob darn,
 A fydd fel gwasarn gwael :
 Caiff mawr a mân ei wel'd ar dân ;
 Ond pêr fydd cân llu Sion lân,
 Llwy'r gyfan oll ar gael.

3 Byth, byth, o'r bore hwn,
 Uwêh blinder, baich, a phwn,
 Uwch ing a phoen yn bur ei hoen,
 Bydd gwraig yr Oen, mi wn :
 Mwynhau y bydd, yn gwbl rydd,
 Y gwleddoedd sydd heb drai ;
 Yn nghartref clud, ei Phrynwr drud ;
 O'i wyneb-pryd daw melys fyd,
 Heb benyd fyth na bai.

T. J.

—◆—
 HYMN CCCCVII. (6. 8. 6.)

Neshad angeu.

1 O DDUW, rho i'm dy hedd,
 A golwg ar dy wedd,
 A maddeu'n awr, fy meiau mawr,
 Cyn'r elwy lawr i'r bedd :
 Ond i'm gael hyn, nid ofna'r glyn,
 Na cholyn angeu'n hwy ;
 Dof yn dy law, i'r ochr draw,
 Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,
 Uwchlaw pob loes na chlwy'.

2 Dy gymborth, Arglwydd, dod,
 I rodio er dy glod,
 A byw trwy ffydd, o ddydd i ddydd,
 Gan estyn at y nôd ;
 Cael treulio'm hoes i Grist a'i groes,
 Er pob rhyw loes a chlwy' ;
 A byw heb wad, i roi mawrhad,
 I gariad rhad, fy Iesu mâd,
 Fydd fy nymuniad mwy.

3 Mae'm rhedfa is y rhod,
 Yn nesu at y nod,
 I'm hymdaith hon, is awyr gron,
 Mae diwedd bron a dod :
 Fy mhabelll frau sydd yn llesghau,
 Ac yn gwanhau o hyd ;
 Ac yn y man, daw'r amser pan
 Bydd f'enaidd gwan, yn fywiol ran,
 Mewn annherfynol fyd.

4 Gogoniant rhown bob pryd,
 I'r Tad a'r Mab unfryd,
 I'r Ysbryd Glan, yn ddiwahan,
 Rhown fawl a'r gân i gyd :
 I'r Un yn Dri, cydunwn ni,
 I roddi mawl bob tro ;
 Llefwn un floedd, i gyd ar g'oedd,
 Megys yr oedd, yn oes oesoedd,
 Y bydd, boed felly bo.

E. E.

HYMN CCCCVIII. (6. 4. 8. 7.)

Buddugoliaeth trwy Grist.

1 **M**AE udgorn Jubili, am haeddiant Calfari,
 Yn seinio'n llon, y newyddion goreu i ni :
 Gwir lawenha fy enaid prudd,
 Ennillodd Iesu mawr y dydd,
 Daw carcharorion angeu, o'u rhwymau oll yn rhydd.

- 2 Yn nyfnder bob rhyw loes, a gorthrymderau f'oes,
 Fy noddfa a'm nerth, yw'r aberth fu ar y groes :
 Rhinweddol haeddiant marwol glwy',
 Yw 'nghysur yn y byd tra bwy',
 A'm hunig ddigonoldeb, i dragwyddoldeb mwy.
- 3 'Deill Pharaoh er ei frad, niweidio'r un o'r had,
 Sy'n tynu fry, at dawel dŷ eu Tad ;
 Ni eill yr anial tywyll du,
 Byth ddrygu neb o'r dedwydd lu,
 Yn dawel sydd dan aden, eu Cadpen Iesu cu.
- 4 Gorchfygodd Brenin hedd, fyd, uffern, angeu a'r
 Priodi wnaeth, yr hon oedd gaeth ei gwedd; [bedd,
 Am hyn crechwena Sion wan,
 O'th ardal lesg a thyr'd i'r lan,
 Tywysog y tangnefedd, da'i rinwedd yw dy ran.
- 5 Rhyw dyrfa fawr heb ri', fu ar ein daear ni,
 Tan lawer loes, a llid, a chroes, a chri ;
 Sy'n awr mewn bywyd hyfryd hoen,
 Ger bron gorseddfainc Duw, a'r Oen,
 Heb deimlo mwy flinderau, effeithiau llid na phoen.

G.

 HYMN CCCCIX. (6. 4. 8. 7.)
Bendithion yr Efengyl.

- 1 **T**EG wawriodd arnom ddydd, a welwyd gynt trwy
 ffydd,
 Gan rai sy'n awr, o'r cystudd mawr yn rhydd :
 Ac os oedd dyled arnynt hwy,
 Foliannu'r Oen, a'i farwol glwy',
 Mae'n dyled ni genedloedd, fil miloedd foli mwy.
- 2 I Ddafydd llawen iawn, oedd clywed d'wedyd awn,
 I dŷ Dduw nef, gwledd gydag ef a gawn ;
 Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,
 Can's llaw alluog enwog wyrth,
 Sydd dan y gwaredigion, o Sion un ni syrth.

- 3 Crist Iesu Brenin nen, fu farw ar y pren,
Gofidus awr, pan rwygai i'r llawr y llen ;
Y gyfraith bur a gadwodd ef,
Mae'n awr yn eiriol yn y nef,
Cyflawniad prynedigaeth, yw grym eiriolaeth gref.
- 4 Trwy Grist a'i werthfawr waed, y daeth maddeuant
rhad,
I ddynolryw ; Iachawdwr gwiw a gaed ;
Ei fywyd pur a'i angeu loes,
A'i ddyoddefaint ar y groes,
A ddygo fy serchiadau tra paro dyddiau f'oes.
- 5 Yr ochr draw i'r bedd, ei saint fydd ar ei wedd,
Hwy gânt i gyd, fyw yn ei hyfryd wedd,
A'u holl ganiadau yn gytun,
Fydd byth am gariad Tri yn Un,
Ac am dragwyddol arfaeth, yn iachawdwriaeth dyn.

G.

◆

HYMN CCCCX. (6. 4. 8. 7.)

Crist oll yn oll.

- 1 **O** DAN dy adenydd di, mae llaeth a mel yn lli',
Yn llenwi i'r llawr, yn afon fawr i ni ;
I faethu gweiniaid fyth yn gu,
A maddeu o'r bron, elynion lu,
Mae hyfryd frenin Sion, Oen tirion fyth o'n tu.
- 2 Fy unig noddfa'n awr, i'm llòni ar y llawr,
A'm gwir iachâu, yw clwyfau'r Meichai mawr ;
Caf yno lechu'n dawl lân,
Yn Iesu cu, a seinio cân,
Pan syrthio'r ser yn gawod, a dyfod diluw o dân.
- 3 Mae ffynnon loyw lawn, yn ffrydio o ddwyfol ddawn,
Yn awr i ni, ein golchi ynddi a gawn ;
Mae yn y nef rhyw dorf yn awr,
A gânwyd ynddi fel y wawr,
A miloedd yn cael trwyddi, eu llòni ar y llawr. G.

HYMN CCCCXI. (6. 4. 8. 7.)

“Tywysog ein hiachawdwriaeth.”

- 1 **P**AM'R ofna'm henaïd lu, mae'm cadarn Iesu cu,
Mewn nefol wlad, ger bron y Tad o'm tu; .
Ni cheisiai'n Dywysog neb ond ef,
Mae'n gadarn graig a noddfa gref,
Mae'n wastad dros ei bobl, yn eiriol yn y nef.
- 2 Fy Nharian a fy Nhwr, a'm sylfaen gadarn siwr,
Fy noddfa a'm nerth, mawr ydyw gwerth y gwr ?
A bryna o'i gryd i bren y groes,
Rifedi'r ser trwy lawer loes,
Dyrchafu'r Brenin Silo, heb fino fyddo f'oes.
- 3 Hwn ydyw'r un a ddaeth, i fynu o Edom gaeth,
O Bosra dir, gorchfygu'n wir a wnaeth ;
Yr hwn fu farw ar y pren,
Balmantodd ffordd i'r nefoedd wen,
Yr hwn fu'n dyoddef dirmyg, fo'r Meddyg fyth Amen.
G.

HYMN CCCCXII. (6. 4. 8. 7.)

Llwyddiant yr Efengyl, a gorfoledd y gwardedigion.

- 1 **C**YFRANWR rhoddwr hael, wrth raid i'r gweiniaid
gwael,
Yw'r Arglwydd Ior, o'i drysor mawr didraul;
Tad i amddifaid ryw, a Barnwr gweddwon union yw,
Cynnorthwy rhai tlodion yn dirion ydyw Duw.
- 2 Mae llais y durtur fwyn, ei chân y'ng hyd a'i chwyn,
Yn seinio'n bêr, nes ennill llawer llwyn; [ddaeth,
Wele'r gauaf heibio'r aeth, ac ar y ddaear blodau
Mae'r adar yn ymbyncio eu mawl, nid cwyno caeth.
- 3 Fe dderfydd dwyn y groes, yn lân â phob rhyw loes,
Cawn ado'r byd, a'r adfyd, ber yw'r oes:
Bydd Sion wych a'i siriol wawr, 'nol codi o'r llwch
a gado'r llawr,
Ar ddysglaer wedd ei Phriod, yn moli'r Duwdod
mawr. G.

HYMN CCCCXIII. (6. 4. 8. 7.)

"Gras am ras."

- 1 **D**RWY aberth Calfari wynebodd atom ni,
 Fel afon fawr, ei ras i'r llawr fel lli';
 Daioni ar ddaioni ddaeth i'r euog a'r anghenog caeth,
 Trwy daro'r graig nes holltodd, y llifodd mêl a llæth.
- 2 Maddeuant yma sydd, a chyfiawnâd trwy ffydd,
 A hedd y'nghyd; I fywyd gras e fydd,
 Yn llifo fel rhyw afon gref, o ganol ei orseddfaine ef,
 Bydd pechaduriaid duon, yn wynion yn y nef.
- 3 Rhyfeddol iawn fydd cân, llu o ben'twynion tân,
 Am Galfari; oll gwedi'u golchi'n lân;
 Pan ddelo'r caethion oll y'nghyd, yn rhydd o bedwar
 cwr y byd,
 Yn Salem bydd gorfoledd—diddiwedd hedd o hyd.
- 4 Gogoniant hon a'i Phen a leinw'r nefoedd wen;
 Bydd troion gras, uwch daear lās heb lèn:
 Cyfiawnder a thrugaredd lân, yn achub pentewynion
 tân;
 Am Geidwad doeth rhyfeddol, bydd eu tragwyddol
 gân. R. J.



HYMN CCCCXIV. (12. 8.)

Cwmwl Tystion.

- 1 **M**AE lluoedd maith y'mlaen, 'nawr o'u carcharau'n
 rhydd,
 A gorfoleddu maen', oll wedi cario'r dydd,
 I'r lân, i'r lân, diangasant hwy,
 Yn ol eu traed y sengwn mwy.

- 2 Gadawn y byd yn ol, y byd y cawsom wae,
Y byd ag sydd bob dydd, yn ceisio'n llwfrhau ;
Ni welwn wlad rhwng ser y nef,
Sy fil o weithiau'n well nag ef.
- 3 A fôdd 'tifeddion gras, yn nyfnder môr i lawr?
Unwaith a ddaeth i maes, o'r dwfwn gystudd mawr ;
Na wna, na wna, ni 'ddown i'r lân,
I dir y bywyd yn y man.
- 4 Cawn wel'd yr addfwyn Oen, fu farw ar y bryn,
Yn medi ffrwyth ei boen, yn hyfryd y pryd hyn ;
Myrddiynau heb rif yn canu y'ng hyd,
I'r hwn fu farw dros y byd. W. W.



HYMN CCCCXV. (12. 8.)

Hyder y Saint.

- 1 **F**E gân 'tifeddion gras, yn beraidd maes o law ;
Wrth weled boddi'r Aipht, a hwythau'r ochr draw :
Fe enaid 'hêd i ben y bryn,
I wel'd y concwest rhyfedd hyn.
- 2 Wel deun yn y blaen, fe gwypodd ofnau mawr,
Ar y gelynion hy, oedd am ein cael ni lawr :
Fe ga w'd y dydd, mi glywa'r nen
Yn canu'r concwest, ar y pren.
- 3 'N awr mae cymylau'r nos, barhaodd amser mawr,
Yn agor ac yn ffoi, o flaen yr hyfryd wawr ;
Fe gwyd yr haul, cawn wel'd yn glir,
Ein hetifeddiaeth cyn bo hir.
- 4 A heibio'r dywyll nos, fe ffy cymylau'r nen,
Fe ddaw'r addewid wir, a'i gciriau'n bur i ben ;
Ceir gwel'd ceir gwel'd yr hyfryd dir,
Ar fyr o dro yn oleu clir. W. W.

HYMN CCCCXVI. (12. 8.)

Gwroldeb milwyr Iesu.

- 1 **M**AE'R Brenin yn y blaen, 'rym ninau oll yn hy;
Ni saif na dwr na than, o flaen fath arfog lu;
Ni awn, ni awn, dan ganu i'r làn,
Cawn wel'd ein concwest yn y man.
- 2 Ni welir un yn llesg, yn myddin Brenin nef,
Can's derbyn maent o hyd, o'i nerthoedd hyfryd ef;
Ni gawn, ni gawn y gloyw win,
Melys ei ryw sancteiddiol rin.
- 3 Er maint yw lled y dwr, er maint yw grym y dôn,
Ac er i'r dymhestl gref, i guro dan fy mron:
'Dyw tönau maith, 'dyw'r dymhestl ddim,
I nerth yr hwn sy'n Briod im'.
- 4 Er bod saethyddion lu, a rhwydau fwy na mwy,
'Rhyd llwybrau Salem fry, a dyrys iawn y'nt hwy:
Fe dyr y rhwyd, fe dry bob saeth,
Oddiwrth ei saint nid oes ei fath. W. W.

HYMN CCCCXVII. (12. 8.)

Concwest yr Efengyl.

- 1 **M**AE'R faner fawr y'mlaen, ei Efengyl Ef yw hon,
Mae uffern lawn o dân, yn crynu'n awr o'i bron;
Hi gwymp, hi gwymp, er maint ei grym,
O flaen fy Iesu 'dyw hi ddim.
- 2 Caned a welodd wawr, yn codi o'r t'wyllwch du,
Caned a brofodd flas, grawn-sypiau'r Ganaan fry:
Ni ddown, ni ddown, i Sïon fryn,
Er maint yr holl anialwch hyn.
- 3 Dystewch elynion mwy, rhowch le tua phen fy nhaith;
Chwi roesoeh i mi glyw', disymwth lawer gwaith:
Y'mlaen, y'mlaen, mae'm trysor drud,
Tu hwnt i derfyn eitha'r byd.

- 4 A thyna'r boreu ddydd, caf finau seinio cân,
 'Nol fy nghaethiwed maith, am waredigaeth lân;
 O foreu ddydd! pa bryd y daw?
 F' anwylyd tyred maes o law. W. W.

—◆—
 HYMN CCCCXVIII. (12. 8.)

"Awn a meddiannwn y wlad."

- 1 **W**EL bellach tyr'd yn mlaen, nag ofna f'enaid mwy,
 Llai grym sy'n uffern dân, na dwyfol farwol
 glwy'—
 Mae'r gwaed, mae'r gwaed, a gollodd ef,
 Yn uwch ei bris o fewn i'r nef.
- 2 Mae'r orsedd wen yn rhydd, aeth Magdalen yn mlaen,
 Manasse hefyd sydd, yn canu'r nefol gân,
 Mi glywa'r swm, swm peraidd yw,
 Am ddwyfol nefol waed fy Nuw.
- 3 O fewn Caersalem lân, mi wela fyrdd o saint,
 Wedi diengu 'mlaen, tros fryniau mawr eu maint,
 Dilynaf ol y dyrfa hon,
 Er dwr, a thân, a llif, a thôn.
- 4 Mi wela draw o bell, baradwys hardd ei gwedd,
 A phrenau lawer gwell, yn perarogli hedd;
 O hyfryd wlad! tu draw bob gwae,
 Gwynfyd ga'i heddyw dy fwynhau. W. W.

—◆—
 HYMN CCCCXIX. (12. 8.)

Haeddiant Crist.

- 1 **F**Y Iesu yw fy Nuw, fy noddfa gadarn gref,
 Ni fedd fy enaid gwan, ddim arall dan y nef:
 Mae ef ei hun a'i angeu drud,
 Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd.

- 2 O ffynnon fawr ei rhin, o ddwyfol win a llaeth,
 Sydd yn ei haeddiant ef, 'does yn y nef ei bath;
 Dowch bawb y'nghyd, gwelwch y fraint,
 A ga'dd y lleiaf un o'r saint.
- 3 Wel ymgysura'n awr, fy enaid eiddil gwan,
 Sy'n cwrddydd bob yr awr, a rhwystrau yn mhob man;
 Mae Duw o'm tu, caf cyn bo hir,
 I wel'd fy meiau yn colli tir.
- 4 Ni chollwyd gwaed y groes, erioed am ddim i'r llawr,
 'Ddyoddefwyd anghy loes, heb ryw ddybenion mawr;
 A thyna oedd ei amcan ef,
 I'm dwyn o'r byd i deyrnas nef. W. W.

—◆—

HYMN CCCCXX. (12. 8.)

“Gair yr addewid.”

- 1 **M**I bwysaf ar ei air, a deued oll yn groes,
 Fy noddfa unig yw, tan eithaf tywyll nos;
 Fe wawria'r dydd, pob tro is nen,
 Ddaw ag addewid nef i ben.
- 2 Ar ei addewid ef, sydd fwy na geiriau dyn,
 Er holl gymylau'r nef, gorphwysaf fi fy hun;
 Fe'm deil i'r lan, a doed a ddel,
 A ddaeth o'i enau sydd dan sel.
- 3 Y gair melysa' erioed, y cryfaf air ei rym,
 Mi a'i hail adroddaf ef, fod Duw yn Briod im':
 Mae hyfryd swm a sylwedd hwn,
 Yn tynu ffwrdd fy maich a mhwn.
- 4 Ar fyr mi fyddaf iach, ni chaf i glywed mwy
 Llais y gorthrymwy'r cās, eu gwawd, na'u dirmyg hwy;
 'Does swm na chri o fewn y wlad
 Lle mae fy Mhriod a fy Nhad. W. W.

HYMN CCCCXXI. (12. 8.)

Dysgwyliad y Cristion.

- 1 **N**I phery ddim yn hir, y ddu dymhestlog nos,
Ni phwyntiwyd oesoedd maith, i neb i gario'r groes :
Mae'r hyfryd wawr, sy'n g'leuo draw,
Yn d'weyd fod bore braf gerllaw.
- 2 Mi wela'r cwmwl du, yn awr y'mron a ffoi,
A gwynt y gogledd sy, ychydig bach yn troi ;
'Nol tymhestl fawr, daw yn y man,
Ryw hyfryd hîn ar f'enaid gwan.
- 3 O na allwn roddi 'mhwys, ar dy ardderchog law,
A gado i gystudd ddod, oddiyma ac o draw :
A byw tan nawdd y dwyfol waed,
Y'ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.
- 4 Mae'm siwrna'i yn y blaen, 'does diweddd ar fy nhaith,
Nes landio mewn yn lân i dragwyddoldeb maith ;
Yr ochr draw fy nghartref yw
O fewn y wlad lle mae fy Nuw. W. W.

HYMN CCCCXXII. (12. 8.)

Cyflawnder yr Iachawdwriaeth.

- 1 **D**YSGLEIRIA fore wawr, 'nol nos o faith barhad,
Datguddia i mi yn awr, ryw ran o'm hyfryd wlad ;
Lle rhedo cariad pur i maes,
Fel mor di drai dros feusydd gras.
- 2 O ffynnon fawr o heddd, o anchwiliadwy fôr,
Sy'n cynnwys ynddo ei hun, ryw annherfynol 'stor,
Ti bia'r clod, wel cymer e',
Trwy'r ddaear, uffern fawr, a'r ne'.
- 3 Noddfa pechadur trist, dan bob drylliedig friw,
A phwys euogrwydd llym, yn unig yw fy Nuw ;
'Does enw i'w gael, o dan y nef,
Yn unig ond ei enw ef

- 4 Pan ddelo'r hyfryd ddydd, i mi gael gwel'd ei wedd,
Ac yfed ffrydiau pur, o'i annherfynol hedd :
'Mhlith lluoedd maith cwmpeini'r nen,
Mi gana'r cariad fu ar y pren. W. W.

HYMN CCCCXXIII. (12. 8.)

"Teilung yw yr Oen."

- 1 **Y**MGRYMED pawb i lawr, i enw'r addfwyn Oen,
Yr enw mwya' mawr, erioed a glywyd sôn :
Y clod, y mawl, y parch, a'r bri,
Fo byth i enw'n Harglwydd ni.
- 2 O nefol addfwyn Oen, sy'n llawer gwell na'r byd,
Mae lluoedd maith y nef, yn rhedeg arno'u bryd :
Mae'th ddawn, a'th ras, a'th gariad drud,
Yn llanw'r nef, yn llanw'r byd.
- 3 Dyoddefodd hoelion dur, fe gollodd ddwyfol waed,
Gwnaeth ni'n offeiriad pur, 'was'naethu ei anwyl Dad ;
Breninoedd y'm o ddwyfol ryw,
Perthynas agos iawn i'n Duw.
- 4 Cawn goronau cyn bo hir, oll fel ei goron ef,
A gwel'd ei ogoniant pur, yn ddysglaer yn y nef ;
A seinio ei glod, a'i ryfedd waith,
I eithaf tragwyddoldeb maith.
- 5 Llawn Haleluia mwy, i Frenin dae'r a ne',
Ddyoddefodd farwol glwy' yn wirion yn fy lle ;
O ddedwydd awr, o ddedwydd loes,
Bu'm Duw yn hongian ar y groes. W. W.

HYMN CCCCXXIV. (12. 8.)

"Ffordd newydd a bywiol."

- 1 **W**EL dacw'r ffordd yn rhydd, agorwyd hi o bob tu !
O ddyfnder daear las i uchder nefoedd fry ;
O dring, O dring, fy enaid mwy !
Mae nerth i'w gael mewn dwyfol glwy'.

- 2 Wel bellach ffown i maes, edrychwn yn y blaen,
Mae golwg hyll yn ol, Sodoma sydd ar dân;
Yn mlaen, yn mlaen, i'r creigydd byw,
Y Söar fach lle mae fy Nuw.
- 3 Yn y mynyddau hyn, ca'i ro'i fy mhen i lawr,
A gorphwys byth yn iach, oddiwrth y 'storom fawr;
N'all dwr na than, i gloddio'm sail,
Er curo arna'i bob yn ail.
- 4 Mae'r ffordd yn awr yn rhydd, o'r ddae'r i entrych ne',
Er pan y daeth fy Nuw, i ddyoddef yn fy lle;
Mae'r nef, mae'r nef, o led y pen,
Can's hi ddyoddefodd ar y pren. W. W.



HYMN CCCCXXV. (12. 8.)

Sicrwydd gobaith.

- 1 **PA'M'R** ofna'm henaid gwan, wrth wel'd aneirif lu
Yn ceisio ammeu'm rhan, a'm hawl i'r Iesu cu?
Gwn mae dilyth wirionedd yw,
Fod cariad Duw yn para byth.
- 2 P'odd gall y Bugail mawr anghofio ei anwyl wyl?
Pan daeth o'r nef i lawr i farw er eu mwyn:
Gwn mae dilyth, &c.
- 3 Os gad fy anwyl Dad fi farw ar fy nhaith,
Beth ddaw o'r arfaeth rad, yn nhragwyddoldeb maith?
Gwn mae dilyth, &c.
- 4 A ddiffodd cariad rhad? ai ofer geiriau Duw?
A gollir rhinwedd gwaed, ac angeu Iesu gwiw?
Gwn mae dilyth, &c.
- 5 Mi greda' etto'n hy', caf fyn'd i ben fy nhaith;
Fy nhawel gartre' fry, o'm poen a'm llafur waith:
Gwn mae dilyth, &c. W. W.

HYMN CCCCXXVI. (12. 8.)

Rhyfeddodau'r Iachawdwriaeth.

- 1 O'R holl gadwedig lu, sy'n teithio i Salem lân,
Myfi yw'r mwya' du, ar bawb yn dwyn y blaen:
Tragwyddol ras, na buasai'm nyth,
Mewn cadwyn byth yn uffern dân.
- 2 Er hyn nid ofnaf mwy, er cynddrwg yw fy ngwedd,
Ca'dd bechod farwol glwy', gan Iesu glân a'i gledd:
Mae'r ddraig yn friw dan draed fy Nghrist,
Mae i'm henaid trist dragwyddol wledd.
- 3 Efe yw'm Meichai mawr, o flaen gorsedd-fainc Ion,
Sy'n eiriol bob yr awr, gan gofio ei ddirfawr boen;
Pa'm'r ofnaf mwy? mae'n llifo 'maes,
I orsedd gras bur waed yr Oen.
- 4 Mae briw y bicell fain, a thyllau'r hoelion dur,
Ac ol y goron ddrain, a chwysau'r groes a'i chur,
Yn dadleu nerth cyfiawnder Naf,
Dros f'enaid claf am heddwch pur. W. W.

HYMN CCCCXXVII. (12. 8.)

Dedwyddwch y saint gwedi marw.

- 1 DAW diwedd ar fy nhaith, a'm pererindod trist,
Gorphena'm llafur waith, caf orphwys gyda'm
Crist:
O fewn ei gol y gwnaf fy nyth,
'Ddychwelaf byth i'r byd yn ol.
- 2 Caf wel'd aneirif lu, o bererinion glân,
O fewn Caersalem fry, a aethant yno o'm blaen,
O ddeutu'r fainc yn moli'n hy',
Fy Iesu cu â pheraidd gainc.

- 3 Caf wel'd fy anwyl Dad, f'arweiniodd ar fy nhaith,
A'm carodd i yn rhad, o drag'wyddoldeb maith :
A'r anwyl Oen fu drosof fi,
Ar Galfari mewn dirfawr boen.
- 4 Wel dyma'r hyfryd wlad, paradwys nefol wiw,
A thŷ fy anwyl Dad, lle byddaf byth yn byw :
Pa'm oedaf fyn'd ? par'towyd fy lle,
O fewn i'r ne' gan f' anwyl ffrynd. W. W

◆

HYMN CCCCXXVIII. (12. 8.)

Adgyfodiad ac eiriolaeth Crist.

- 1 **CYFODODD** Iesu'n wir, meddiannodd orsedd nef,
Trysorau'r nefol dir, sydd yn ei feddiant nef :
Mae'n Llywydd cryf ar nef a llawr,
Ar angeu a'r bedd, ac uffern fawr.
- 2 Cynhesodd, do, â'i ddawn, oer wely llaith y bedd,
Gan ei bereiddio'n llawn, i etifeddion hedd :
Mae heddyw'n fyw, uwch poen a gwae,
Awn ar ei ol i'r man lle mae.
- 3 Mae'n hynaf Frawd i ni, yn eiriol ar ein rhan,
Yn darpar uchel fri, i bawb o'i deulu gwan :
Awn ar ei ol i wely'r bedd,
Cawn godi'n iach mewn hylawn hedd.
- 4 Mae ar ddeheulaw'r Tad, yn eiriol gyda grym,
Ar ddydd yr ing a'r gâd, yn mhoethder rhyfel llym :
Ni chyll, ni chyll, llu Sion wan :
Mae lluoedd cadarn ar ei rhan. T. J.

◆

HYMN CCCCXXIX. (12. 8.)

Eiriolaeth a gras Crist.

- 1 **TAN** bwys fy maich a'm cur, fy ngweddi aed i'r nef,
Y'ng hyd a mygdarth pur, ei lân eiriolaeth Ef :
Gwrandewir cri'r anghenus, gwan ;
Mae Iesu'n eiriol ar ei ran.

- 2 Fy nghwyn boed am ei ras, tra byddwyf is y rhod,
 Tu yma i angeu glas, i rodio er ei glod:
 Ac am y prawf i o'i nefol wledd,
 Yn chwalu arswyd angeu a'r bedd.
- 3 Fy Iesu, boed dy groes, a'th wiw orch'mynion glân,
 Yn bur hyfrydwch f'oes, i ennyn nefol gan :
 Gwisg fi a'th ddelw yma'n wir,
 Ac felly yn gyflawn cyn bo hir.

T. J.

HYMN CCCCXXX. (12. 8.)

Galwad yr Efengyl.

- 1 **D**EWCH hen ac ieuainc, dewch, at Iesu mewn llawn
 bryd,
 Rhyfedd amynedd Duw, ddysgwyliodd wrthym c'yd !
 Aeth yn brydnawn, mae yn hwyrhau,
 Mae drws trugaredd heb ei gau.
- 2 Dewch hen wrthgilwyr trist, at Iesu Grist yn ol,
 Mae'i freichiau 'nawr ar led, fe'ch derbyn yn ei gol :
 Mae Duw yn rhoddi etto'n hael,
 Drugaredd i droseddwy'r gwael.

M. R.

HYMN CCCCXXXI. (12. 8.)

Adgyfodiad Crist.

- 1 '**N**OL marw Brenin hedd, a'r eiddo i gyd yn brudd,
 Fe'i rhoed mewn newydd fedd, ond codai'r trydydd
 dydd :
 Boed hyn mewn cof gan Israel Duw,
 Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw.
- 2 Y Meichai aeth yn rhydd, 'nol rhoddi taliad llawn,
 A Duw'n cyhoeddi sydd, " Yn Hwn ini gefais iawn :"
 Gwnaeth flordd yn rhydd i fyn'd at Dduw,
 Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw.

- 3 Galarwyr Sion aydd, a'ch taith trwy ddwfr a thân,
Paham y byddwch brudd, eich galar troer yn gân :
O cenwch etholedig ryw,
Mae'r Oen a laddwyd etto'n fyw. D. T.

HYMN CCCCXXXII. (12. 8.)

" Y llawd hwn a lefodd."

- 1 **I** FYNU at fy Nuw, fy enaid cwyd dy lef,
Heibio yr euraidd lu, i eithaf nef y nef ;
Gostwng dy glust o'r bryniau fry,
O Arglwydd grasol cofia fi.
- 2 Wyf yma'n wael fy ngwedd, yn euog ac yn wan,
Gelynion creulawn sy'n, f'amgylchu y'mhob man ;
Bydd i mi'n blaid i goncro'r llu,
O Arglwydd grasol cofia fi.
- 3 Yn wyneb uffern ddu, ac angeu mawr ei rym,
Rho i mi nerth wrth raid, bydd di yn nodded im' :
Yn nyfroedd cryf Iorddonen ddu,
O Arglwydd grasol cofia fi. D. C.

HYMN CCCCXXXIII. (12. 8.)

Ymddiried yn Nghrist.

- 1 **E**R chwysu'n ngwres y dydd, i'r lan o Bosra daeth,
A'i waed i'r llawr yn lli, gorchfygodd EDOM gaeth ;
O waelod bedd daeth Iesu'n fyw—
O! f'enaid cân rhyfeddol yw !
- 2 Gobeithia, f'enaid, mwy, anadla tua'r lan,
Mae ar ddeheulaw'r Tad yn eiriol dros y gwan :
Dy frawd a'th briod, gwel, sydd Ben,
Mewn cnawd, ar orsedd nefoedd wen.
- 3 Ymddiried, f'enaid gwan, dy fywyd iddo byth ;
Ei enw, melys inwy, fo dy dragwyddol nyth :
Pob gwên, pob gŵg, pob llid yn un,
Gorchfygwyd do gan Fab y dyn.

- 4 Gorphwysfa ynddo sydd, i'r truan ar ei daith ;
 A than ei gysgod ef, ce's orphwys lawer gwaith,
 O! f'enaïd, gwna d'orphwysfa mwy,
 A'th noddfa yn ei farwol glwy'. R. J.

HYMN CCCCXXXIV. (12. 8.)

Y gair "Gorphenwyd."

- 1 **G**ORPHENWYD, dyma'r gair a bair i f'enaïd gwan,
 Obeithio 'nawr, drwy ffydd, y dof ryw ddydd i'r lan;
 Agorwyd ffordd ar Galfari,
 I'r cyssegr sancteiddiolaf fry.
- 2 Gorphenwyd, ni bydd mwy ar allor aur na phres,
 Un aberth glân na gwaed, na dwr na than, na gwres ;
 Gwnaed iawn anfeidrol ar y groes,
 Fe gofir am ei angeu loes.
- 3 Gorphenwyd, dyma'r dydd, na bydd gwahanlen mwy,
 I attal caeth na rhydd, i wel'd ei ddwyfol glwy' ;
 Mae iachawdwriaeth ynddo'n rhad
 I bawb a ddel i gael iachad.
- 4 Gorphenwyd, dyma'r dydd, mae'r ddraig a'i phen yn
 friw ; [fyw ;
 Er rhwymo'r Meichai'n gaeth, fe ddaeth o'r bedd yn
 O f'enaïd ofnus, cofia, cân
 Byth am ei fuddugoliaeth lân. R. J.

HYMN CCCCXXXV. (12. 8.)

"Pwy yw hon?"

- 1 **P**WY ydyw hon yn wir, a welir fel y wawr ?
 Fel lleuad teg yw hi, mae iddi enw mawr ;
 Pur fel yr haul, ei bath ni bu,
 Ofnadwy fel banerog lu.

- 2 Rhyfeddu mawr a fydd, am gynnydd eglwys Crist,
Ceir gweled yn y man, yr isel, wan, a thrist ;
Mewn tegwch, purdeb, a bri mawr,
Yn llenwi gwyneb daear lawr.
- 3 Ar fyr y daw yn nes, i fynwes Crist yn wir,
Bydd gryfach yn ei gras, perthynas fydd yn glir :
Iuddewon a chenedloedd fydd,
Yn unol dyrfa hardd ryw ddydd. J. H.

HYMN CCCCXXXVI. (12. 8.)

Blwyddyn y Jubili.

- 1 **U**DGENWCH weision Duw, yr udgorn arian mawr,
A chlywed dynolryw, tros barthau daear lawr :
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhyddid gwiw i'r rhai oedd gaeth.
- 2 Trowch bechaduriaid trist, wrth lais efengyl fwyn,
O'ch cyflwr caeth at Grist, fe wrendy Ef eich cwyn ;
Blwyddyn, &c.
- 3 Dadseinied gras en Duw, i bell derfynau'r byd,
A doed ei deyrnas wiw, tros gyrau hwn i gyd ;
Blwyddyn, &c.

HYMN CCCCXXXVII. (12. 8.)

Genedigaeth Crist.

- 1 **D**AETH Llywydd nef a llawr, i wisgo dynol gnawd,
Wel, henffych, Arglwydd mawr, a henffych dirion
Frawd ;
Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael,
A welwyd yn y preseb gwael.
- 2 Mewncnawd i'n tynu'n rhydd, daeth y trag'wyddol Air,
Wel, henffych fyth i'r dydd, y ganwyd Ef o Fair ;
O'i ras fe ddaeth o uchder Ne',
I brofi'r lladdfa yn ein lle.

- 3 I groth y wryf wan, i garchar ac i'r bedd,
Y daeth Efar ein rhan, i haeddu gras a hedd :
Mewn ing a loes ar Galfari,
Agoryd wnaeth y Nef i ni.
- 4 Pa dafod, neu pa ddawn, a fedd angylaidd lu,
A ddywed byth yn llawn, am ras ein Ceidwad cu ?
Ei waed fe rodd, o'i gariad gwiw,
I gàn'u'r lleiddiaid dua'u lliw.
- 5 Mae cariad yn ei wedd, at wael golledig fyd,
Cyfiawnder llym a hedd, yn ymgusanu 'nghyd ;
Trugaredd a gwirionedd pur,
Yn ymddysgleirio yn ei gur.

HYMN CCCCXXXVIII. (12. 8.)

Gwardigaeth oddiwrth bechod.

- 1 **F**E'M gwelir heb un clwyf; Hosanna! f'enaid cân ;
Ac er mai aflan wyf, fe'm, gwneir yn berffaith lân :
Mae rhinwedd yn y dwyfol waed,
I'm golchi'n wyn o'm pen i'm traed.
- 2 Daw boreu y caf fod, heb bechod ac heb boen ;
Ac esgyn uwch y rhod, i ganmol Duw a'r Oen ;
Yn mhlith angylion pur a saint,
Lle na ddaw gelyn byth na haint.
- 3 O! henffych ddedwydd ddydd, y llwyr iachêir fy mhla ;
Y mawl tragwyddol fydd, i'r Iesu'r meddyg da :
Am hyn dadseiniaf " Iddo Ef,"
Yn uwch na holl angylion nef.
- 4 Pan gaffwyflanio fry, yn hyfryd dŷ fy Nhad,
Fy ffydd yn olwg try, a'm gobaith yn fwynhad :
Fy nghariad yma'n egwan sydd,
Ond yno'n fflam angerddol bydd.

P. J.

HYMN CCCCXXXIX. (12. 8.)

Blwyddyn y Jubili.

- 1 **E**R myned oll yn gaeth, a chyfeiliorni'n bell ;
Trwy Iesu Grist fe ddaeth, i'n etifeddiaeth well :
Gwnaeth iawn i'w Dad a hedd i ni,
Trwy waed ei groes ar Galfari.
- 2 Chwi garcharorion prudd, dechreuwch lawenhau :
Fe wawriodd arnom ddydd ; daeth Iesu i'n rhyddhau :
Trwy fuddugoliaeth Calfari,
Fe ddaeth yr hyfryd Jubili.
- 3 I gaethion Babilon, cyhoeddir llawn rhyddhad ;
Dychwelwch adre'n llon, chwi waredigol had :
Ennilodd Crist ein rhyddid ni,
Yn awr daeth Blwyddyn Jubili.
- 4 Aed sain efengyl gras, o gwmpas daear lawr :
Doed pawb i brofi blas, yr iachawdwriaeth fawr ;
I Sion wiw doed torf ddi ri',
Wrth sain pêr udgorn Jubili. P. J.

HYMN CCCCXL. (12. 8.)

"Bod gyda Christ."

- 1 **P**WY gwyna iddynt hwy, y teulu dedwydd llon,
Sydd wedi myned trwy, holl ddrygau'r ddaear hon?
O swm y byd yn ddigon pell,
"Bod gyda Christ sydd lawer gwell."
- 2 Maent wedi dianc draw, uwchlaw pob gofid mwy,
A chystudd byth ni ddaw, i'r un o honynt hwy ;
Goruwch blinderau maent yn mhell,
"Bod gyda Christ sydd lawer gwell."
- 3 Ni welir mo'nynt mwy, yn gruddfan tan y groes,
Yn cwyno gan un clwy, na dyoddef unrhyw loes ;
Gadawsant oll ar ol yn mhell,
"Bod gyda Christ sydd lawer gwell."

- 3 Ond atat mae fy nghri,
 'Does unig ond tydi, all fy nglanhan ;
 Mwy haeddiant sy'n dy waed,
 Na'r pechod mwya' gaed,
 A chryfach cariad rhad, na grym fy mai.
- 4 Cryfach addewid Duw,
 Na'r pechod gwaetha ei ryw, ni saif e ddim ;
 'Dyw natur gadarn gref,
 Ond dim i dân y nef,
 Mae gair o'i enau ef, yn fwy ei rym. W. W.

HYMN CCCCXLIV. (6. 4.)

Hiraeth am oruchafiaeth.

- 1 O GWAWRIA foreu-ddydd,
 Pan caffwy' fyn'd yn rhydd, o'm carchar caeth,
 Pan gwympo'r muriau pres,
 A'r dorau sydd yn rhes,
 A minau fyn'd yn nes, i ben fy nhaith.
- 2 Un golwg ar dy wedd,
 A'm cwyd i'r lan o'r bedd, i'r goleu clir ;
 I deithio yn y blaen,
 Trwy ganol dwr a thân,
 Er gelynyon fawr a mân, i'r sanctaidd dir.
- 3 Pryd hyny mi âf trwy,
 Elynyon mwy na mwy, o ddedwydd ddydd !
 Mae meddwl am y wawr,
 A'r Jubil hyfryd fawr,
 Yn pery i mi'n awr, bron fyn'd yn rhydd.
- 4 'Does yma ddim i'w gael,
 Ond rhyw bleserau gwael, na thal 'mwynhau
 Mae'm hysbryd mewn rhyw gur,
 Am fyned cyn bo hir,
 I'r man mae gwynfyd pur, byth i barhau. W.W.
-

HYMN CCCCXLV. (6. 4.)

Erfyniad am adnewyddiad.

- 1 **O** TYRED Arglwydd mawr,
Dyhidla o'r nef i lawr, gawodydd pur,
Fel byddo i'r egin grawn,
Foreu-ddydd a phrydnawn,
I darddu'n beraidd iawn, o'r anial dir.
- 2 Mae peraroglau'th ras,
Yn taenu o gylch i maes, awelon hedd;
Estroniaid sydd yn dod,
O'r pellder eitha' 'rïoed,
I gwympo wrth dy droed, a gwel'd dy wedd.
- 3 Mae tegwch dy wyneb-pryd,
Yn maeddu oll i gyd, sy ar ddaear las;
Mae pob rhyw nefol ddawn,
Oll yno yn gryno llawn,
Yn tarddu yn hyfryd iawn, o'th glwyfau maes.
- 4 Yn nyfnder dwr a thân,
Calfaria fydd fy nghân, Calfaria mwy,
Y bryn ordeiniodd Duw,
Yn nhragwyddoldeb yw,
I godi'r marw yn fyw, trwy farwol glwy. W.W.

HYMN CCCCXLVI. (6. 4.)

Y Ganaan nefol.

- 1 **M**AE'R Ganaan hyfryd draw
Yn dangos fel gerllaw, yn ngoleu'r ne',
Dowch bellach tua'r wlad,
Gartrefie bur ein Tad,
Na fined dim o'n traed, nes myn'd i'r ne'.
- 2 Grawn-sypiau yno sydd
Yn hongian nos a dydd, ar winwydd pur,
I ddisychedu y rhai,
Fu yn gruddfan tan eu gwae,
O gystudd a phob trai, mewn anial dir.

- 3 Rhyw gariad fâl y môr,
 Anfeidrol berffaith 'stor, heb derfyn mwy,
 Sy'n llifon loyw laes,
 O tan y fainc i maes.
 I etifeddion gras, eu bywyd hwy.
- 4 O heddwch pur y ne!
 'Does neb a'i 'nebydd E', tu yma i'r bedd!
 Ddeallodd neb erioed,
 Sy'n trigo is y rhod,
 Y plaser sydd yn bod, mewn nefol hedd.
- 5 Ond gweled 'rym y wlad,
 A dedwydd dŷ ein Tad, dros fryniau pell :
 Ardaloedd lle y mae,
 Ffynnonau'n dyfrhau,
 Llawenydd yn ddirai, paradwys well. W. ...

◆

HYMN CCCXLVII. (6. 4.)

Goruchafiaeth trwy Grist.

- 1 **W**EL f'enaïd dos yn mlaen,
 Heb ofni dŵr na than, mae genyt Dduw ;
 'Dyw'r gelyn mwya' ei rym,
 I'w allu anfeidrol ddim,
 Fe goncra'm pechod llym, ei elyn yw.
- 2 Mae gwaed ei groes yn fwy
 Na'u natur danbaid hwy, na'u nifer maith,
 Fe faddeu fawr a mân,
 Fe'm gylch yn hyfryd lân,
 Fe'm dwg i yr y blaen, i ben fy nhaith.
- 3 Ac er nad wyf ond gwan,
 Fel hyn mi safaf i'r lan, heb haeddu dim :
 Mae nerth dy fraich yn fwy,
 Na'u holl fyddinoedd hwy,
 Sy'n rhoddi i mi glwy', er maint eu grym.

- 4 Fy meiau fan a mawr,
 Sydd raid eu cael i lawr, cyn byddo hir ;
 Fe fyn cyfreithiau'r ne',
 I dynu'r llygad de',
 A thori'r fraich o'i lle, ei air sydd wir.
- 5 Ac yno mi af trwy,
 Gystuddiau fwy na mwy, ond fy iachâu ;
 Mi ddringa'r creigydd fry,
 Mi nofia'r afon ddu,
 Mi gonc'ra elynion lu heb lwfrhau. W. W.

—◆—
 HYMN CCCCXLVIII. (6. 4.)

Iesu, Brenin y Gogoniant.

- 1 **F**Y Iesu yw fy Nuw,
 Fy Mrawd a'm Priod yw, ffyddlonaf gwir ;
 Fy enaid arwain wnaeth,
 O'r gwledydd tywyll caeth,
 I wlad o fêl a llaeth, Paradwys bur.
- 2 Efe aeth o fy mlaen,
 Trwy ddyfnder dwr a thân, i'r hyfryd wlad :
 Mae'n eiriol yno'n awr,
 O flaen yr orsedd fawr,
 Yn maddeu fach a mawr, o'm beiau'n rhad.
- 3 Mae lluoedd maith y ne'
 Yn cwympo iddo fe, anfeidrol Dduw ;
 Yn canu t'lynau clir,
 Mewn gwyl dragwyddol bur,
 Am waredigaeth wir, i ddynolryw.
- 4 Bydd canu nefol drud,
 Yn llanw'r nef i gyd, byth bythoedd mwy ;
 Seraphiaid tanllyd lu,
 Cerubiaid cywir cu,
 A saint ffyddlonaf hy', blith dra-phlith trwy.
 W. W.

HYMN CCCXLIX. (6. 4.)

Yr achos Cenadol.

- 1 O PRYNWR mawr y byd,
Tyr'd bellach mae'n iawn bryd, mae yn brydnawn ;
Gad i ni wel'd dy ras,
Ar frys yn tori maes,
Tros wyneb daear las, yn genllif llawn.
- 2 Mae gwyliau'r hyfryd wlad,
Gwledd iachawdwriaeth rad, efengyl gras,
A'i hadsain ddwyfol ddrud,
Yn gydsain hardd y'ng hyd,
'Nawr hyd eithafoedd byd, yn swnio maes.
- 3 Fe glywa'r Indiaid draw,
'R efengyl maes o law, yn eitha' ei grym ;
Daw cyrau pella'r byd,
Yn ddu a gwyn y'ng hyd,
I'w golchi yma 'gyd, nid oedant ddim.
- 4 Mae doniau f'Arglwydd mawr,
Yn llifo oll i lawr, fel môr didrai ;
Tros dir Immanuel,
Yn hyfryd laeth a mel,
O sicrwydd pur a sel, byth i barhau. W.W.

HYMN CCCCL. (6. 4.)

"Cyrchu at y nod."

- 1 WEL, bellach awn yn mlaen,
Nac ofnwn ddwr na thân, ni bia'r dydd ;
Ein Brenin cadarn cry',
Yn mlaenaf un o'r llu,
Yn tori rhwystrau sy, mae'r ffordd yn rhydd.
- 2 O'r diwedd daeth yr awr,
Yn nhragwyddoldeb mawr, arfaethwyd Ef ;
Bu farw Brenin nen,
O gariad ar y pren,
Agorwyd led y pen, holl byrth y nef

- 3 Mae heddyw yn y nef,
Fyrddiynau gydag ef, yn canu ei glod ;
Dewch dringwn tua'r lan,
Cawn feddu yn y man,
Yr ardal ddaeth i'n rhan, hyfryda' 'rïoed.
- 4 Ni gerddwn tua'r wlad,
Bwrcasodd ddwyfol waed, y mae gerllaw ;
Fe ledia'r golofn dan,
Trwy foroedd maith ni 'mlaen,
Ac ni gawn seinio cân, yr ochr draw. W. W.

—◆—
HYMN CCCCLI. (6. 4.)

Ffrwythau'r Prynedigaeth.

- 1 CAF weled cyn bo hir,
Bellenig hyfryd dir, Immanuel ;
Yr ardal ddwyfol fras,
O beraidd hyfryd ras,
Sy'n llifo tros y maes, o laeth a mel.
- 2 Torf o addewidion llawn,
O ddyfroedd gloyw iawn, sy ar dori maes ;
Fe red yr afon hyn,
Trwy ganol Sion fryn,
Hi gâna fyrdd yn wyn, mewn nefol ras.
- 3 Yn awr mae ffrwythau'r nef,
Gwerth ei ddyoddefaint ef, hyfryd gerllaw ;
Grawn-sypiau dwyfol gwir,
Gwell nag o Escol dir,
Sy'n dod ar drostan pur, o'r Ganaan draw.
- 4 Mae'n ddiau fod y wlad,
Dragwyddol ei pharhad, o ffrwythau'n llawn ;
Mae'n tyfu ar groesbren fr
Almonau hyfryd pur,
Ffrwyth paradwysaidd dir, pereiddiaf rawn. W. W.

HYMN CCCCLII. (6. 4.)

Rhinweddau haeddiant Crist.

- 1 **A**GORODD Iesu'n wir,
Y ffordd i'r nefol dir, mae heddyw'n rhydd;
Maddeuant yn ei waed,
A chymmod llawn a gaed,
Pob gelyn ro'ir tan draed, 'tifeddion ffydd.
- 2 Mae heddyw afon gras,
Yn llifo'r anial cras, yn ffrydiau pur;
Doed aflan euog rai,
Sy am gael maddeu eu bai,
I'r dyfroedd sy heb drai, ei farwol gur.
- 3 Ei angeu ar y pren,
Agorodd ddrysau'r nen, fe'n tyn o'n gwae;
O rheded arno ein bryd,
A rhedwn ato i gyd,
Nes cyrhaedd uwch y byd, i'r man lle mae. T. J.

HYMN CCCCLIII. (6. 4.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **N**I glywsom Arglwydd Ior,
Am dy ryfeddol 'stor, a'th gyfoeth llawn:
Wyt lawn o ras didrai,
I olchi ymaith fai,
Yr euog aflan rai, datguddia'th ddawn.
- 2 Aed iachawdwriaeth gras,
Tros wyneb daear las, trwy gyhoedd lef;
Aed nerthoedd gyda'r sain,
Am ing a choron ddrain,
Oen Duw a'r bicell fain, a'i gwanodd Ef.
- 3 O myn ogonedd pur,
Trwy loes a marwol gur, y nefol Oen;
Cyfammod sy'n ddiffael,
'Nol hwn rhaid iddo gael,
Llawn gnwd o'i lafur hael, ei ing a'i boen. T. J.

HYMN CCCCLIV. (6. 4.)

Gwledd y saint.

- 1 **M**AE heddyw felys wledd,
Mewn prawf o hyfryd hedd, trwy Grist a'i gur,
'Dyw hyn ond codiad gwawr,
Caiff plant y cystudd mawr,
Llawn wleddoedd uwch y llawr, mewn mwyniant pur.
- 2 Ar aur-delynau'r nef,
Hwy a'i moliannent Ef, heb ball, heb boen ;
Yr anthem felys faith,
Fydd am achubol daith,
A phur rinweddol waith, yr addfwyn Oen.
- 3 Pan ddelo'r saint y'ng hyd,
Uwch poen a maglau'r byd, yn groyw eu cân ;
Caniadau am ei loes,
A rhinwedd llawn ei groes,
Fydd hyd dragwyddol oes, yn Salem lân.
- 4 I'r nefol byrth ni ddaw,
Nac ofn, na phoen na braw, na phechod cas :
Pwy na hiraetha'n wir,
Am rodio'r sanctaidd dir,
Ac yfed dyfroedd clir, Ei ryfedd ras. T. J.

HYMN CCCCLV. (6. 4.)

Erfyn am drugaredd faddeuol.

- 1 **O**ARGLWYDD trugarha,
Er dyfned yw fy mhla, a meiau mawr ;
Dilëa rhei'ny'n rhad,
A maddeu yn y gwaed,
A dyro wir iachad, i'm clwyfau'n awr.
- 2 Golch fi oddiwrth fy mai ;
Ti elli fy nghlanhau, a'm cânu'n wyn ;
Er dyfned yw fy nghlwy'
Anfeidrol ras sydd fwy,
Mae wedi dyfod trwy, Galfaria fryn.

- 3 Am hyny trugarha,
O! Dduw, a llwyr lanhâ, fy meiau 'gyd,
A golch fi yn y gwaed,
Ar Galfari a gaed,
Yr iachawdwriaeth rad, a'r angeu drud.
- 4 Cân Haleluia mwy,
Mae Meddyg i dy glwy', er dyfnded yw ;
Mae modd i'th gyfiawnhau,
Mae ffynnon i'th lanhau,
Y'nghyd a llwyr iachau, dy farwol friw. R. J.

—◆—

HYMN CCCCLVI. (6. 4.)

Taith yr anialwch.

- 1 YN teithio Baca 'rwy',
Gan orfod myned trwy, anialwch blin ;
Edrychaf tua'r nef,
Cyfodaf yno'm llef,
At Dduw ; fe ddichon ef, droi Mara'n win.
- 2 Er ofni lawer gwaith
Na welwn ben fy nhaith, 'rwy' etto'n fyw,
A Sion hardd ger bron,
Lle mae caniadau llon,
Gan holl breswylwyr hon, i enw Duw.
- 3 Fe'm daliodd ar fy nhaith,
Er ofni lawer gwaith, mai marw wnawn ;
Er hyny byw trwy ffydd,
A gras am ras bob dydd ;
A nerthodd f'enaid prudd, O ddwyfol ddawn!
- 4 Rhyfeddu 'rwyf bob cam,
Rhyfeddol d'wedaf am, ddoethineb Duw !
Trwy ddyfnder du fe'm dwg,
Trwy ganol tân a mwg,
Gan dynu da o ddrwg, a'm cadw'n fyw. R. J.

HYMN CCCCLVII. (10au.)

Gwlad well.

- 1 **W**EL f'enaïd cod, sefydla'th wamal fryd,
Mae heibio'n myn'd bleserau pena'r byd;
O dring i fynu, ac anghofia'n awr,
Bob peth a eilw'r ddaear yma'n fawr.
- 2 Draw, draw y'mhell, tu hwnt i'r dwfwn fedd,
Mae'th gysur oll, dy bleser a dy hedd:
Mae Iesu yno, fe ei hunan yw,
'R cwbl a feddi yn farw ac yn fyw.
- 3 Ffarwel, mi af mwy tua gwlad o hedd,
Mi anturia 'mlaen, er dychryniadau'r bedd:
Mi wela 'Mhriod pur addfwynaf draw,
Yn wyneb angeu ar fy n̄heulaw.
- 4 Ffarwel, ffarwel, i welaf is y ne',
Ond im' gael Duw yn unig yn eu lle;
Mae fy nymuniad yn terfynu yn un,
Heb ddim yn eisieu ynddo fe ei hun. W. W.

HYMN CCCCLVIII. (10au.)

Undeb yr eglwys.

- 1 **M**AE eglwys Dduw, trwy'r ddae'r a'r nef yn un,
Y meirw a'r byw, a'u cydsain yn gytun;
"Teilwng yw'r Oen," medd seintiau sy'n y nef,
"Teilwng yw'r Oen," yw'n llafar ninnau a'n llef.
- 2 Darfydded sôn, am bob ymryson mwy,
Partiol farn, a rhagfarn 'lawr a hwy;
Doed ysbryd hedd, tangnefedd yn eu lle,
A chariad pur, o'r cariad sy yn y ne'.
- 3 Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
Yn îr ar lan, afonydd dyfroedd byw;
Yn gwreiddio ar led, a'i ddeil heb wywo mwy,
Yn ffrwytho dan, gawodydd ddwyfol glwy.

- 4 Cenadon hedd, mewn efengylaidd iaith,
 Sy'n galw i'r wledd, dros för yr India faith;
 Caiff Hotentots, coroniaid dua'u lliw,
 Farbaraidd lu, eu dwyn i deulu Duw. A. G.

—◆—
 HYMN CCCCLIX. (10au.)

Glanhad oddiwrth bechod.

- 1 **M**AE haeddiant mawr, rhinweddol waed fy Nuw,
 Yn llawer mwy, na'r pechod gwaetha' ei ryw :
 Ceir maddeu myrdd, o'r beiau mwya' gaed,
 A'r euog brwnt a gênir yn y gwaed.
- 2 O'm pen i'm traed, annhraethol aflan wyf,
 Nid oes lanhad, ond yn ei farwol glwyf;
 Y ffynnon hon, agorwyd ar y bryn,
 Er dued wyf, a'm gylch yn hyfryd wyn.
- 3 Efe yw'r Iawn, dros ein pechodau ni,
 Ei ddryllio a wnaed, ar fynydd Calfari ;
 Ein dyled mawr, a dalwyd yno'n llawn,
 A'r *biliau* oll, a groeswyd un prydawn. G.

—◆—
 HYMN CCCCLX. (10au.)

Ffrwythau'r Prynedigaeth.

- 1 **W**RTH daro'r graig, daeth allan ddyfroedd clir,
 Ein dilyn mae', trwy'r dyrys anial dir :
 Cawn lawenhau, wrth yfed dyfroedd byw,
 A'n golchi'n lân, a'n dwyn i gwmni Duw.
- 2 Mi ganaf byth, am haeddiant dwyfol waed,
 Fy mhrynu a wnaeth, a'm gosod ar fy nhraed ;
 Boddloni'r Tad, a'i gyfraith yn fy lle,
 Ac ennill hawl, i'm byth yn nheyrnas ne'.
- 3 Gwlad dda heb wae, gwlad wedi ei rhoi dan sel,
 Llfeirio mae, ei ffrwyth o laeth a mel :
 Grawn-sypiau gwiw, i'r anial dir sy'n dod,
 Gwlad nefol yw, uwchlaw mynegi ei chlod. G

HYMN CCCCLXI. (10au.)

"Y seren ddydd."

- 1 **C**ONCWERWR yw, fy Iesu a'm Duw, bob awr,
Clod iddo ef, trwy'r nef a'r ddaear lawr:
Addawodd fod, trwy ddwfr a thân o'm plaid,
A'i ddeheu law, gyflawnai fy holl raid.
- 2 Ai seren yw, a'i nerth yn chwalu'n llwyr,
Y tywyll nos, a holl gysgodau'r hwyr?
'Rwy'n gwel'd o bell, ei llewyrch llon trwy ffydd,
A 'nabod 'rwyf, mai hon yw'r seren ddydd.
- 3 Ai haul yw ef? rhoi llewyrch gras ar led,
Ei gylch a'i wres, trwy'r anial dir a red:
Cenedloedd pell, wynebant at y ne',
Gan lawenhau, pan ymddangoso efe. G.

HYMN CCCCLXII. (10au.)

Crist, oll yn hawddgar.

- 1 **I**ESU Grist, y wir winwydden yw,
Ffrwythloni wna, ei holl ganghenau byw;
O hono ef, derbyniant oll bob un,
O'r nefol nodd, sydd ynddo ef ei hun.
- 2 Ar dir na môr, ei debyg gwn nad oes,
Seraphiaid pur, ni thraethant byth ei oes:
Dringo a wna, trwy nerth ei ras o'm gwae,
Nes caffwy'n glir, ei weled fel y mae.
- 3 Darfydded son, am haeddiant dyn a'i rym,
Fe dawdd yn llwyr, o flaen cyfiawnder llym:
Y'nghlwyfau'r Oen, 'r ymfrostia fy enaid tlawd,
Daeth trefn y nef, a Iesu i mi'n Frawd. G.

HYMN CCCCLXIII. (10au.)

Mawl i'r Gwaredwr.

- 1 **D**OED mawr a bach, o is a gwaelach ryw,
Rhoent glod a mawl, i ganmawl enw Duw:
Down ninau i gyd, o eitha'r byd heb wad,
I'w foli'n faith, am iachawdwriaeth rad.

- 2 Ei fywyd glân, ei chwys, a'i ruddfan roes,
A'i angeu'n llawn, dal cyflawn ar y groes:
Daw firwyth ei groes, a grym eiriolaeth gref,
A'r eiddil gwan, yn gadarn gydag ef. G.

—◆—
HYMN CCCCLXIV. (10au.)

Hunan-ymholiad y Cristion.

- 1 **R**HYFEDDU'R wyf, a mawr ryfeddod yw,
Fy ngharu 'rïoed, y gwaela' o ddynol ryw;
Cael yn ei dŷ, o fewn ei furiau le,
Ac enw gwell, nag welir îs y ne'.
- 2 Paham yr wyf, mor bell oddiwrth fy Nuw?
Fy nghalon wag, mor ffol a gwamal yw!
Pa fodd na bai, fy meddwl ddydd a nos,
A'm henaïd fry', wrth Dduw yn glynu'n glos? G.
- 3 Duw attal di, rwysg fy meddyliau ffol,
A dena'm serch, a'm calon ar dy ol:
Yn holltau'r graig, dod i'm ymg'leddfa glyd,
Mewn tawel hedd, nes myn'd trwy'r anial fyd. G.

—◆—
HYMN CCCCLXV. (10au.)

Dyfod i fynu o'r anialwch.

- 1 **B**RAWD yw efe, i'r llwythog ar y llawr,
Dof ar ei bwys, i fynu o'r cystudd mawr:
Ni thrig yn ol, un ewin, er mor wan,
O'r anial dir, fe'i mynir yn y man.
- 2 Fy enaid cod, a dos y'mlaen yn hy',
Ymestyn mwy, tua phorth y ddinas fry;
Lle mae gwir hedd, gorfoledd yn parhau,
A chael o hyd, yn hyfryd eu mwynhau.
- 3 Pa'm'r ofnwn mwy, rhag colyn angeu du,
Can's angeu yw'r porth, i'r ddinas freiniol fry:
Gorchfygu hwn, fy Iesu gwn a wnaeth,
Yn llaw fy Naf, ni arswydaf rym ei saeth. G.

HYMN CCCCLXVI. (10au.)

Y cyfammod gras.

- 1 **CYFAMMOD** hedd, cyfammod cadarn Duw,
Ni syfl o'i le, nid ie a nagê yw ;
Cyfammod gwir, ni chyfnewidir chwaith,
Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.
- 2 Cyfammod rhad, o drefniad Un yn Dri ;
Hen air y llw, a droes yn elw i ni ;
Mae'n ddigon cry' i'n codi i fynu'n fyw :
Ei rym o hyd, yw holl-gadernid Duw.
- 3 Cyfammod pur, ni n'widir yn y ne',
I ddamnio'r plant, os llithrant hwy o'u lle ;
Fe saif ei dir, ni syflir byth mo'i sail,
Mae'n ammod hedd, ar rinwedd Adda'r ail.
- 4 'Does bwlch yn hwn, fel modrwy'n grwn y mae,
A'i g'lw m mor glos, heb os, nac oni bae ;
Nid all y plant ddim gwerthu eu meddiant mwy,
Mae gan Dduw gylch, a'u deil, o'u hamgylch hwy.
- 5 Cyfammod cry', pwy ato a ddyry ddim ?
'Deill byd na bedd, 'chwaith dori ei ryfedd rym ;
Diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd ;
Nid siglo mae, fel gweinion bethau'r byd. E. J.

HYMN CCCCLXVII. (10au.)

Ail-ymweliad.

- 1 **O BASAN** bell, mae'n cyrchu ambell un,
Yn ol i'w dŷ, i'r teulu hardd cytun ;
O ddyfnder môr, daw rhagor etto'n rhydd ;
Y Meichai mwyn, a'u dwyn i oleu'r dydd.
- 2 Er llithro i'r llaid, a llygru defaid Duw,
Cyfammod sy, i'w codi i fynu'n fyw ;
A golchi i gyd, eu holl afindid hwy,
A'u dwyn o'r bedd, heb ddim anmhuredd mwy. E.J.

HYMN CCCCLXVIII. (10au.)

Erfyniad am sylwedd.

- 1 **O**S pren heb wraidd, neu forwyn ffaidd ffol,
 Wyf yn dy dŷ, diau mai nesu'n ol,
 A wnaf cyn hir; fe'm chwythir gan ryw chwant,
 Na ddeuaf byth drachefn i blith dy blant.
- 2 Am hyn fy nghri, a gweddi f'enaidd gwael,
 Ior gwrando di, fi'n gwaeddi'n fwy am gael
 Tu yma i'r bedd am fwy o'th ryfedd ras,
 I'm dal rhag drwg, neu gilwg Satan cas. E. J.

HYMN CCCCLXIX. (10au.)

Mawl i'r Gwaredur.

- 1 **I**OESOEDD maith, mwy na rhifedi'r dail,
 Bydd mawl a chlod, trwy'r nef i Adda'r ail;
 Am fyn'd tan faich dyledwyr gwael eu llun,
 A thalu'n llwyr; a'r tâl oedd ef ei hun.
- 2 Ei hun fe roes tros wael elynol ryw,
 A marw wnaeth, i ni a'n bath gael byw:
 Y Deddfwr glân tan ddeddf a'i garwaf gur!
 O! ryfedd waith ei gariad perffaith pur.
- 3 Os edrych wnawn o'r llawr i uchder ne',
 Nis ceir ei fath; y Cywir yw efe:
 Y Meichai mawr, ddyoddefodd yn y cnawd,
 Y Cyfaill gwiw, a lŷn yn well na brawd. T. J.

HYMN CCCCLXX. (10au.)

"Pwy ydyw hwn?"

- 1 **P**WY ydyw hwn sy'n dod o Edom dir?
 Ymdeithio mae mewn grymus wedd yn wir:
 Mae'n goch ei wisg, gorchfygodd ar y pren:
 Gorchfygu wna hyd eitha'r byd, Amen.

- 2 Gorchfygodd fyd, ac uffern oll, a'r bedd;
 Gan iawnder Nef, a'i ddeddf, fe ennillodd hedd:
 Fe sathrodd lu, do, luoedd maith hyd lawr;
 Mae'n hardd ei wedd, ar ol ei frwydr fawr.
- 3 Ei hun, aeth tan y llafur dirfawr, dwys;
 Ei hun fe wnaeth y gorchwyl mawr ei bwys;
 Ei hun, heb ail, ca'dd luoedd dan ei draed;
 Taenellu wnaeth ei wisg ei hun â'u gwaed. T. J.

—◆—

HYMN CCCCLXXI. (10au.)

Y Bugail da.

- 1 **Y** BUGAIL mwyn o'r nef a ddaeth i lawr,
 I geisio'i braidd, trwy'r erchyll anial mawr;
 Ei fywyd rhodd yn 'sglyfaeth yn eu lle,
 A'u crwydrad hwy ddialwyd arno Fe.
- 2 O grwydrad pell, paradwys daeth i'm nol,
 Yn dirion iawn, fe'm dygodd yn ei gol;
 'Does neb a wŷr, ond Ef, y Bugail mawr,
 Pa grwydro wnes o hyn yd yn awr.
- 3 A'i hyfryd lais, fe'm harwain yn y blaen,
 Cydymaith yw Ef yn y dwr a'r tân:
 Rhag pob rhyw ddrwg, yn nyffryn angeu du,
 Pwy arall fydd, yn nodded i myfi.
- 4 Pan âf i dre, i'r hyfryd gorlan fry,
 Ni chrwydraf mwy oddiwrth fy Mugail eu;
 Wrth gofio'r daith, a'i holl ffyddlondeb Ef,
 Mi seinia'i glod, i entrych nef y nef.
- 5 Fy Mhriod yw, âf ar ei bwys y'mlaen,
 Nes dod i'r lân, o'r anial fydyn lân,
 "Fy Nghyfaill wyt," medd Ef wrth lwch y llawr,
 "A'th Dduw wyf fi," i dragwyddoldeb mawr. D. C.

HYMN CCCCLXXII. (10au.)

Y Deml nefol, Dat. xi. 9.

- 1 **A**GORWYD teml yr Arglwydd yn y nef,
A gwelwyd arch ei lân gyfammod Ef;
Holl ryfeddodau Person Crist a'i waith,
A welir yno i dragwyddoldeb maith.
- 2 Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddysglaer iawn,
A'r gyfraith bur bob iot o honi'n llawn;
Ond i bechadur melys yw y sain,
Fod trugareddfa hefyd rhwng y rhai'n.
- 3 Y tanllyd gledd fu'n effro iawn cyn hyn,
Taranau a mellt ofnadwy Sinai fryn,
Sy'n awr yn dawel yn yr Arch ddilyth,
Y gair GORPHENWYD a'u tawelodd byth.
- 4 Mae'r Archoffeiriad yn taenllu'r gwaed,
Mewn gwisgoedd sanctaidd, laesion, hyd ei draed:
O fewn y llen sancteiddiaf lŷs y nef,
Ac enwau'r llwythau ar ei ddwyfron Ef.
- 5 Priodoliaethau'r nefoedd yn gytun,
Sydd yno'n gwenu ar golledig ddyn;
Mae hedd yn awr o'r nef i'r llawr yn lli',
A noddfa gref o fewn y nef i ni.
- 6 Crist ydyw'r arch a'r drugareddfa rad,
Yn enw hwn anturiwn at y Tad;
Fe wrendy gwyn pechadur heb ei ladd,
Fe gymer blaidd yr enaid isel radd.

IAGO.

HYMN CCCCLXXIII. (10au.)

Rhagddarpariaeth Duw er codi dyn.

- 1 **C**YN llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,
Cyn gosod haul, na lloer, na ser uwch ben;
Fe drefnwyd flordd yn nghyngor Tri yn Un,
I achub gwael, golledig, euog ddyn.

- 2 Trysorwyd gras, ryw annherfynol 'stor,
Yn Iesu Grist, cyn rhoddi deddf i'r môr ;
A rhedeg wnaeth bendithion arfaeth ddrud,
Fel afon gref, lifeiriol dros y byd.
- 3 Mae'r udgorn mawr, yn seinio'n awr i ni,
Olyngdod llawn, trwy'r iawn ar Galfari;
Mawl yn mhob iaith, trwy'r ddaear faith a fydd,
Am angeu'r groes, a'r gwaed a'n rhoes yn rhydd.

P. J.

 HYMN CCCCLXXIV. (10au.)
Cwynfan Sion.

- 1 **M**AE Sion wan yn gruddfan tan y groes,
Yn dysgwyl gwawr, ar lawr tan lawer loes ;
Bywha dy waith, ni phery 'nhaith yn hir,
Rwy'n ofni'r bedd cyn, gwel'd dy wedd yn wir.

 HYMN CCCCLXXV. (11au.)
Afon Iachawdwriaeth.

- 1 **Y**R afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr,
Yw gwraidd fy ngorfoledd a nghysur i'n awr ;
Calfaria roes haeddiant, Calfaria roes hedd,
Calfaria sy'n cadw agoriad y bedd.
- 2 O gyfoeth diderfyn, O gariad a gras,
A redodd fel afon lifeiriol i maes ;
Gras daena i'r dehau a'r dwyrain o'r bron,
Fe nofia myrddiynau i'r bywyd yn hon.
- 3 Wel rhedodd fy nghariad fel afon i maes,
At Brynwr addfwynaf cyfoethog ei ras,
Diflanwch wrthddrychau aneirif eu rhi',
Mae Iesu ei hunan yn ddigon i mi.

W. W.

HYMN CCCCLXXVI. (11au.)

- 1 **M**AE'N bryd i ni ganu ni gawsom y fraint,
 Mae'r rhyfel yn cerdded o ochr y saint ;
 Mae'n Brenin ni'n dyfod â'i gledde ar ei glun,
 Fe sathrodd y gwinwryf bob gronyn ei hun.
- 2 Caf gyda'm Hanwylyd deyrnasu mewn hedd,
 Yn mhell uwch cyrhaeddiad holl ddychryn y bedd,
 Cawn wisgo coronau filiynau y'nghyd,
 A chanmawl byth bythoedd Iachawdwr y byd.
- 3 Y clod, a'r gogoniant, a'r gallu, bob rhyw,
 A redo fel moroedd i enw fy Nuw,
 Y dechreu a'r diwedd o'r ddaear i'r ne',
 O ras ac o haeddiant ei hunan yw E'. W. W.

HYMN CCCCLXXVII. (11au.)

Y Cyfaill goreu.

- 1 **M**I ge's y Ffrynd goreu, fyth, fyth all'sai fod,
 'R' addewid a roddodd, ni thorodd erioed ;
 Er byw'n ei ogoniant, y'nghanol y nef,
 Mewn awr o gyfyngder, fe wrendy fy llef.
- 2 Mae enw f'Anwylyd mor anwyl, mor fawr,
 Hyfrydwch y nefoedd, hyfrydwch y llawr,
 Ni dderfydd ei garu, ni dderfydd ei glod,
 Pan byddo heb seren yn uwchder y rhod.
- 3 Nid oes gan blant dynion un gronyn o law,
 Yn rhyfel ein Harglwydd nag yma na thraw,
 Efe sy'n lladd pechod a phlanu pob gras,
 Efe bia'r enw i mewn ac i maes.
- 4 Cawn wared o'n hadfyd, a'ngofid i gyd,
 Pob terfysg a dwndwr, a chlynhwrf y byd ;
 'Ddaw blinder, na thrallod, na phechod, na phoen,
 Na gelyn, na gormes, i fynwes yr Oen. W. W.

HYMN CCCCLXXVIII. (11au.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **F**E welir rhyw ddyddiau, fy Arglwydd a'i gŵyr,
 Pan darddo goleuni yn nghysgod yr hwyr;
 Pan delo'r gorllewin, y dwyrain a'r de',
 I brofi cawodydd hyfrydaf y ne'.
- 2 O ddyddiau dedwyddaf, wel brysiwch yn mlaen,
 Mae'r arfaeth yn galw, mae pechod yn dân;
 Mae pob peth yn addfed, mae gweddi mewn grym
 O tyred ddeheuwynt, yn attal 'does dim.
- 3 Mae'r faner i fynu, hi liwiwyd mewn gwaed,
 'Does heddwch i'r gelyn nes cwympo dan draed:
 Ni ildia, ni orphwys Tywysog y nef,
 Nes byddo'r holl ddaear yn eiddo iddo Ef. W. W



HYMN CCCCLXXIX. (11au.)

Mawl i'r Gwardwr.

- 1 **W**EL bellach gad i mi ro'i ffarwel i'r byd,
 Ffarwel i'w drysorau a'i bleser y'ng hyd;
 Un gorchwyl sydd genyf byth mwyach i gyd,
 Sef caru a chanu i lachawdwr y byd.
- 2 Moliannwn yr Iesu am hyny bob un,
 Bu farw ar Galfaria'r Imanuel ei hun;
 Fe gym'rodd ein beiau, eu pwysau, a'u poen,
 Dyoddefodd y cwbl mor llariaidd a'r Oen.
- 3 Wel, bellach dechreuwch mae'n ddigon o bry
 I ganu caniadau i lachawdwr y byd;
 Ni seiniwn y ddaear a'r nefoedd uwch ben,
 Hosanna, Haleluia, Hosanna, Amen. W. W.

HYMN CCCCLXXX. (11au.)

“ Teilwng yw'r Oen.”

- 1 **O** GARIAD, O gariad, anfeidrol ei faint,
Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint;
Cael heddwch cydwybod, a'i chànau trwy'r gwaed,
A chorph y farwolaeth, sef llygredd dan draed.
- 2 Nid allai'r holl foroedd, byth olchi fy mriw,
Na gwaed y creaduriaid, er amled eu rhyw;
Ond gwaed y Messiah, a'm gwellha'n ddioben,
Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen.
- 3 Cydganed y ddaear, a'r nefoedd y'nghyd,
Ogoniant tragwyddol, i Brynwr y byd:
Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân,
Am achub anhydyn, bentewyn o'r tân. M. R.

MYMN CCCCLXXXI. (11au.)

Tu yma i'r Gagendor.

- 1 **E**R maint fy nghaledfyd, fy nghlefyd a nghlwyf,
Tu yma i'r gagendor yw'r ochr yr wyf:
Yn nghyrhaedd efengyl fwyn anwyl fy Nuw,
Mae gobaith am danaf y byddaf fi byw.
- 2 Gogoniant, gogoniant, fod llwyddiant i'r Ilef,
Sy'n dyfod a bywyd yn ysbryd y nef;
Mae'n gwneyd plant afradlon, oedd feirwon, yn fyw,
A thorf o elynion yn ddynion i Dduw. E. J.

HYMN CCCCLXXXII. (11au.)

Anthem y gwardedigion.

- 1 **G**OGONIAINT fydd anthem y saint yn gytun,
Pan ddelont o gyrau'r anialwch yn un;
Gogoniant am agor y carchar oedd dyn,
Gogoniant am farw ar Galfari fryn.

- 2 Gogoniant am achub pentewyn o'r tân,
Am ffynnon i olchi pechadur yn lân:
Am wisg idd ei guddio, a'i gadw rhag llid,
Am ras a maddeuant o'i bechod i gyd.
- 3 Gogoniant i'r cyfiawn, O cenwch yn un,
Gorchfygodd y cedyrn, yn Edom ei hun;
Mae'n orsedd gogoniant, tragwyddol tŷ'i Dad,
Mae'n ffordd a gwirionedd, a bywyd yn rhad. R. J.

—◆—
HYMN CCCCLXXXIII. (12au.)

Rhad ras.

- 1 **L**LAIS hyfryd rhad ras sy'n gwaeddi Dihangfa;
Yn nghlwyfau Mab Duw i'r euog gael noddfa;
Fe redodd ei waed yn ffrydiau iachusol,
I olchi aflendid a phechod yn hollol:
Haleluia i'r Oen a bwrcasodd ein pardwn,
'Nol croesi'r Iorddonen drachefn ni a'i molwn.
- 2 Ar angeu ac uffern ca'dd lawn fuddugoliaeth,
Ysbeiliodd holl allu'r tywyllwch ar unwaith;
Holl filwyr y groes gant ynddo dangnefedd,
Fe'u harwain hwy'n sicr i berffaith orfoledd:
Haleluia i'r Oen, &c.
- 3 Yn ol tirio yn iach i'r tawel anneddau,
Ni a seiniwn ei glod ar euraidd delynuau;
Trwy y nefol ardaloedd ni a'i molwn byth bythol,
Wrth rodio ar lenydd yr afon dragwyddol:
Haleluia i'r Oen, &c. D. C.

—◆—
HYMN CCCCLXXXIV. (12au.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **E**HEDA, eheda, Efengyl dragwyddol,
Ar adenydd y wawr yn gyflym a nerthol;
Cyhoedda trwy'r hollfyd fod cymmod &r nefoedd,

Darostwng yn rasol gyndynrwydd y bobloedd.
O! d'wed am yr Iawn sy'n clirio'r euoca',
A'r ffynnon wna'r Ethiop yn wyn fel yr eira.

- 2 Dirgelion y nefoedd, datguddia yn helaeth,
Fod Crëwr y byd yn gwisgo dynoliaeth,
Er arbed yr euog, i'r Iesu Jehofa
Offrymu ei hun ar fynydd Calfaria :
O! d'wed, &c.
- 3 Gwna'r gwylltiaid yn araf, a'r creulon yn dirion,
A chymmod y nef gwna heddwch rhwng dynion ;
Cyhoedda faddeuant i'r euog helbulus,
A thywys y crwydriaid yn ol i baradwys :
O! d'wed, &c. D. C.

—◆—

HYMN CCCCLXXXV. (12au.)

Tragwyddol gartref.

- 1 'R WY'N brysio bob dydd, tua therfyn fy ngyrfa,
Ar fyr yn y pridd, y bydd fy ngorweddfa,
Ergydion beunyddiol sydd yn fy malurio ;
Mae'm pabell ar ogwydd, yn ebrwydd gwna syrthio,
Tragwyddoldeb o'm blaen, sy'n agor ei ddrysau,
Ar ol i'm fyn'd yno, mi fydda'n fy nghartre'.
- 2 Blynyddoedd fy oes, yn gyflym sy'n darfod :
Bob dydd a phob nos, 'rwy'n brysio tua'r beddrod,
Beth ydyw fy amser, a'i fesur ond dyrnfedd ?
Beth ydyw fy einoes, ond cysgod a gwagedd ?
Tragwyddoldeb o'm blaen, &c.
- 3 Wrth edrych yn ol, a chofio fy llwybrau,
Mi welaf mai'n ffol, y treuliais fy nyddiau :
Y pethau sy'n darfod, ga'dd ormod o'm sylw ;
Pa les a wnant i mi, pan ddelwyf i farw ?
Tragwyddoldeb o'm blaen, &c. DR. L.

HYMN CCCCLXXXVI. (8. 7. D.)

Gorphwysfa yn Nghrist.

1 **D**RING fy enaid i'th orphwysfa,
 Uwch y gwynt tymhestlog oer,
 Maes o swm rhuadau'r llewod,
 Maes o gyrhaedd tŷnau'r môr;
 Mi gaf yno tan bob blinder
 Hyfryd dreulio 'nyddiau maes,
 Heb gael briw, na chlais, nac archoll,
 Gan ryw neb gelynion cas.

2 Minau fyddaf ddiiddig ronyn,
 Ac edrychaf tua'r wlad,
 Lle mae mrodyr, lle mae Mhriod,
 Lle mae Mhrynwr, lle mae Nhad;
 Bliniais fyw tu yma i'r afon,
 Mae fy Anwylyd yn y ne';
 Mi a 'mlaen er cuwch y bryniau,
 Rhyd y llwybr 'r aeth efe.

W. W.

HYMN CCCCLXXXVII. (8. 7. D.)

Hunan-ymholiad y Cristion.

1 **A**DDAW gwawr ar ol y plygain,
 Sydd mor dywyll i mi'n awr;
 A ddaw'm gwar i etto'n union,
 Sydd yn teimlo beichiau mawr?
 A raid yfed chwerwach dyfroedd,
 Nag a yfodd un o fil?
 Cyn fy lladd i lwybrau gwamal,
 A fy nwyn i gadw'r cul.

D. M.

HYMN CCCCLXXXVIII. (M. B. D.)

Y Messiah mawr.

1 **B**LANT ffyddlon Sion dewch,
 A llawenhewch i gyd,
 Yn mlaen â chwi fel milwyr da,
 Yn llon er gwaetha'r llid;

O hyfryd ddedwydd awr,
 Messiah mawr a gaed,
 Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
 Yr iachawdwriaeth rad.

2 Er i ni golli'r hedd,
 Yn mharadwysaidd wiw,
 A bod yn fyr o gadw'r fraint,
 Myn'd dan ddigofaint Duw;
 Ni gawsom had y wraig,
 Y gadarn graig i'n traed:
 Henffych i'r dydd, &c.

3 Addewid gafwyd, do,
 'Nol i ni syrthio 'mhell,
 Arfaethol ras hawl in' a roed,
 Gawd ar gyfammod gwell;
 Mae'r sylfaen yn ddigryn,
 Ni chollir un o'r had:
 Henffych i'r dydd, &c.

4 Wel, dyma'r newydd da,
 A lawenycha'r trist,
 Mae'r ddraig a Satan er ein mwyn,
 Mewn cadwyn gyda'n Crist,
 Pan sigodd ef ei siol,
 Fe 'nillodd nefol wlad;
 Henffych i'r dydd a'r boreu daeth,
 A'r iachawdwriaeth rad.

W. W.

HYMN CCCCLXXXIX. (M. B. D.)

Ymestyn at berffeithrwydd.

1 **M**AE arnaf eisiau sel,¹
 A chariad at dy waith;
 Nid rhag ofn y gosp a ddel,
 Nac am y wobr chwaith;
 Ond gwir ddymuniad llawn,
 Ddyrchafu'th gyfiawn glod,
 Am i ti wrthyf drugarhau.
 A chofio am dana'i 'rioed.

HYMN CCCCXC. (M. C. D.)

Y daith ysbrydol.

- 1 **G**ALARU'R wyf mewn dyffryn du,
 Wrth deithio i dy fy Nhad;
 Ar ben y bryniau'n llawenhau,
 Y'ngolwg cyrau'r wlad:
 'Rwy'n ddu fy lliw, a'm gwisg yn wen,
 'Rwy'n llawen ac yn brudd;
 'Rwy'n agos iawn, ac etto 'mhell
 'Rwy'n waeth 'rwy'n well bob dydd. D. J.

HYMN CCCCXCI. (9. 8.)

"Y fan lle gorweddodd yr Arglwydd."

- 1 **"Y FAN** lle gorweddodd yr Arglwydd,"
 Yw enw rhyfeddol y bedd,
 Er pan fu'r Mechniydd yno'n gorwedd,
 Am dridiau yn waeledd ei wedd.
 Fe gododd yn'foreu ddydd Sabbath,
 Gan agor hen ddorau'r du fedd:
 Mae hyn yn rhoi sail imi gredu
 Ceir finau i'r lan ar ei wedd.
- 2 Er claddu perth'nasau mwyn tirion,
 Ac anwyl gyfeillion 'run wedd;
 'Dyw hyny yn symud mo'r dychryn
 Wrth feddwl am fyned i'r bedd.
 Ond pan hwy'n myfyrio ar fedd Joseph,
 Lle claddwyd fy Mhrynwr a'm Duw,
 "Y fan lle gorweddodd yr Arglwydd!"
 'Rwy'n dysgwyl er marw ca'i fyw.
- 3 Fy nyled ar groesbren a dalwyd,
 "Gorphenwyd" ei chlririo hi'n llawn;
 Fy Meichai fu farw ddydd Gwener,
 Yn gynar am dri y prydawn.

Bu'n gorwedd mewn ceufedd gryn dridiau ;
 Mi gofia'n dragywydd "y fan ;"
 Hosanna! mi gana' byth bythoedd,
 Mi wela' fy Meichai ar y lan. J. P.

HYMN CCCCXCII. (M. H.)

Y Sabbath.

- 1 **G**WAITH hyfryd iawn a melys yw,
 Moliannu d'enw di, O Dduw :
 Sôn am dy gariad fore glas,
 A'r nos am wirioneddau'th ras.
- 2 Melys yw dydd y Sabbath llon,
 Na flined gofal byd mo'm bron ;
 O na ba'i nghalon i mewn hwyl,
 Fel telyn Dafydd ar yr wyl !
- 3 Ond mi gaf ogoneddus ran,
 Pan buro gras fy enaid gwan ;
 Mae gwir lawenydd uwch y nen,
 Fel olew pur i loni'm pen.
- 4 Caf wel'd a chlywed yno 'nghyd,
 Oll a ddymunais yn y byd ;
 A'm henaid a gaiff felys waith,
 Yn y tragwyddol fywyd maith. Dr. W.

HYMN CCCCXCIII. (M. H.)

"Teilung yw'r Oen."

- 1 **H**ENFFYCH i enw Iesu gwiw,
 Syrthied o'i flaen angylion Duw ;
 Rhowch iddo'r parch, holl deulu'r nef,
 Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.
- 2 Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,
 Plygwch yn isel wrth ei draed ;
 Fe'ch tynodd a thrugaredd gref,
 Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

- 3 Boed i bob llwyth a phob ryw iaith,
Trwy holl derfynau daear faith ;
Gydganu'n llafar iawn eu llef,
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.
- 4 Er bod eu beiau'n aml iawn,
Mae ganddo iachawdwriaeth lawn ;
Eu canu'n wyn wna Brenin nef,
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

—◆—
HYMN CCCCXCIV. (M. S.)

Ar dymhor gwlyb.

- 1 **D**AIONUS a thosturiol iawn,
A graslawn ydwyt Arglwydd ;
Dy rad drugaredd yn ddïau,
Sydd yn parhau'n dragywydd.
- 2 Wrth rai annheilwng o gael byw,
O Arglwydd Dduw tosturia ;
Ac arbed etto'r flwyddyn hon,
Na thòr mo ffon ein bara.
- 3 O'th ras tosturia wrth rai fføl,
Haeddiannol o dy gerydd ;
Dy fendith ar y wialen dod,
Dysg i ni fod yn ufudd.
- 4 Duw, dod orchymyn oddi fry,
I chwalu y cymylau ;
Can's os gorchymyn genyt gânt,
Attaliant eu costrelau.

J. H.

—◆—
HYMN CCCCXCV. (M. C.)

Ffynnon i olchi pechod.

- 1 **M**I welaf ffynnon lawn o waed,
O waed Immanuel mawr,
Lle gall troseddwy'r mwyaf gaed,
Gael bywyd ynddi'n awr.

- 2 Bu dda i'r lleidr ar y groes,
Ei chaffael yn ei ddydd:
Maddeuwyd holl bechodau'i oes,
A'i enaid aeth yn rhydd.
- 3 Mae llais y nef yn galw'n glir,
Drueiniaid fawr a mân,
I ddyfod iddi heddyw'n wir,
I'w golchi oll yn lân.
- 4 Yr wyf yn dyfod, O fy Nuw,
I 'mofyn am y gwaed:
O golch yn lân y dua'i liw,
Sy'n dysgwyl wrth dy draed.

—◆—
HYMN CCCCXCVI. (M. C.)

Yr achos Dirwestol.

- 1 **M**AE baner rhinwedd ar y maes,
A phechod cas yn ffoi,
Ac o du sobrwydd wele'n awr,
Mae'r frwydr fawr yn troi.
- 2 I lawr daw'r eilun yn ddibarch,
Fel Dagon wrth arch Duw;
Ac fe ddilêir cyn bo hir,
Ei goffa o dir y byw.
- 3 Aed afon iachawdwriaeth gras,
Drwy'r ddaear las o'r bron,
Ac yfed holl genedloedd byd,
O ddyfroedd hyfryd hon.

—◆—
HYMN CCCCXCVII. (10. 8.)

Calfaria fryn.

- 1 **E**R byw, y'mysg gelynion o bob rhyw,
A chael oddiwrthynt fynych friw,
Ond dyna yw fy ngrym yn hyn,
Sef golwg ar y taliad llawn.
Anfeidrol Iawn Calfaria fryn

- 2 Myn'd trwy, analwch dyrus yma 'rwy',
Mewn rhyw drallodion fyrdd a mwy,
Ond trwyddynt hwy af yn ddigryn,
Nes myn'd i mewn i'r Ganaan dir,
Y'ngoleu clir Calfaria fryn.
- 3 Nid oes, a'm ceidw'n dawel dan bob croes,
Ond golwg clir ar angeu loes,
Can's yma troes hi'n olwg syn,
Duw tragwyddoldeb fel yn was,
O ryfedd ras Calfaria fryn.
- 4 Mae gwledd, i'w chael yr ochr yma i'r bedd,
Bob tro ceir golwg ar dy wedd,
Ond O yr hedd geir ar ol hyn!
Wrth gael bob mynyd fwrdd yn llawn,
A byw ar Iawn Calfaria fryn. R. H.

HYMN CCCCXCVIII. (ANTHEM.)

Yr achos Cenadol.

- 1 **T**EYRNASA, Iesu mawr,
Dros y ddaear lawr :
Bydd mynydd tŷ ein Harglwydd ni
Yn fawr ei fri, uwch mynyddau'r llawr,
Pan dŷr nefol wawr :
Daw pobloddd lawer o bob gwlad
At ei draed, am ryddhad a iachad ;
Fe fydd rhyfedd wiw orfoledd,
Sain clodforedd hyfryd iawn ;
Sain Hosanna, Haleluia,
Fydd yn uchel am Galfaria
Pan ddel Jubil lawn. P. J.

HYMN CCCCXCIX. (ANTHEM.)

Cwmp Babilon.

- 1 **F**E gwympir muriau Babel fawr,
Fe'i gwneir yn wastad gyda'r llawr :
Cydlawenhewch anwyliaid nef,
Duw a wrandawodd ar eich llef,

I lawr, i lawr i'r dialeddfor mawr,
 Hi gwymp, hi gwymp mewn mynyd awr :
 Rhyw ddychrynadwy foddion fydd i ddymchwel hon ;
 Ac mwyach bydd yn brudd ei bron :
 O ddedydd awr ! tra mawr gorfoledd fydd,
 Pan welir meibion Sion oll yn rhydd ;
 Pryd hyn y dedwydd fyd ag uchel gân,
 Ddadseinia foliant y Gwardwr glân.

Haleluia, Amen.

- 2 Daw'r byd yn un i foli'r Ion,
 Am fuddugoliaeth Crist bydd son :
 Gorchfygu wna, caiff anghrist glwy',
 Babel a syrth, ni chyfyd mwy,
 Hi gwymp, ei seiliau'n crynu sydd,
 A thost ddymchweliad arni bydd :
 Dadseinir hyn trwy'r nef a'r llawr,
 " Daeth dystryw llwyr ar Babel fawr."
 Neshau mae'r dydd i ganu'r Anthem bêr
 I Dduw a'r Oen gan seintiau rif y sêr,
 " Y ddraig sy'n rhwym, fe ddaeth y Jubili,
 Aeth Iesu'n frenin dros ein daear ni."

Haleluia, Amen.

—◆—
 HYMN D. (ANTHEM.)

Genedigaeth Crist.

- 1 **C**LYWCH ! llu'r nef yn seinio cair,
 Henffych eni Crist o Fair !
 Heddwch sydd rhwng nef a llawr,
 Duw a dyn sy'n un yn awr.
- 2 Dewch bob cenedl îs y rhod,
 Unwch â'r angylaidd glod :
 Bloeddiwch oll â llawen drem,
 Ganwyd Crist yn Bethlehem :
 Clywch ! llu'r nef, &c.

P. J.

HYMN DI. (ANTHEM.)

Yn niwedd odfa.

- 1 **BOED** i ras ein Ceidwad Iesu,
 Ac anfeidrol gariad Duw ;
 A dyddanus wên yr Ysbryd,
 Orphwys arnom tra bo'm byw :
 Felly cedwir undeb perffaith
 Rhyngom oll, a Duw y'nghyd,
 Meddu cawn mewn hoff gymundeb
 Llonder mwy na fedd y byd.
 Haleluia, Amen. *Cyf. R. W.*

HYMN DII. (ANTHEM.)

Marwolaeth y Cristion.

- 1 **BUR** wreichionen oddi fry,
 Gad, O gad dy farwol dŷ :
 Dysgwyl, oedi, brysio, crynu ;
 Pleser mawr a phoen yw trengu !
 Paid, hoff natur, paid â'th gur,
 A gad im' farw i fywyd pur.
- 2 Clywch ! gan engyl sibrawd sy,
 Tyr'd, chwaer ysbryd, esgyn fry :
 Beth yw hyn sy'n dwyn dan sel
 Fy synwyrâu, cau fy ngwel,
 Suddo f'ysbryd, tynu'm ffun ?
 Ai marw yw ? d'wed, f'enaïd cun.
- 3 Mae'r byd yn ffoi, mae'n cilio draw ;
 Mae'r nef yn agor ar bob llaw,
 A sain seraphaidd lu :
 Rho'wch, rho'wch im' hwy ! af uwch y llawr ;
 Pa le mae'th rym, O uffern fawr,
 A'th gòl, O angeu du ? *Cyf. P. J.*

HYMN DIII. (ANTHEM.)

Claddedigaeth y Cristion.

- 1 **C**LYWCH, beth yw'r llais o glaerlys Nêr,
 I'r duwiol feirwon lu,
 Eu henwau sy'n archwaethu'n bêr,
 A'u cwsgle'n eemwyth sŷ,
 Yn Iesu buont feirw'n wir,
 Mor dawel yw eu hun ;
 Gwardedwyd hwy o boen a bai,
 A maglau gwn bob un :
 Y'mhell o'r byd llawn cur a thrais,
 Y maent yn ngwydd eu Duw ;
 Eu llafur blin a'u marwol loes
 Droes yn orphwysfa clyw.

HYMN DIV. (ANTHEM.)

Wrth ymadael.

- 1 **A**RGLWYDD, gollwng di y dyrfa,
 Dan dy fendith, yn dy hedd ;
 Gan ymborthi ar y manna,
 Efengylaidd, dwyfol wledd ;
 Llanw'n henaid â'th ddyddanwch,
 Ninau folwn d'enw glân ;
 A phan ddelom i ddedwyddwch,
 Tra phereiddiach fydd ein cân :
 Dros fyth, Haleluia i Dduw ac i'r Oen,
 Dros fyth, Haleluia, Amen.

HYMN DV. (ANTHEM.)

Trigfan nefol y Cyfawn.

- 1 **Y** CYFIAWN a drig yn y nef gyda Duw a'r Oei
 Yn rhoddi'r clod i Dduw am ei ras,
 A'i fawr gariad rhad :
 Maent wedi cyrhaedd pen eu taith,
 Gyda'r seintiau canant geinciau,
 Nefol odlau, mawl i Dduw, am eu cadw'n fyw.

SALMAU.

SALM I.

- 1 **Y** SAWL ni rodia dedwydd yw,
Yn ol drwg ystryw gynghor :
Ni saif ar ffordd troseddwyr ffol,
Nid eiste'n 'stol y gwatwor.
- 2 Ond ei holl serch ef fydd yn rhwydd,
Ar ddeddf yr Arglwydd uchod :
Ac ar ei ddeddf, rhydd ddydd a nos,
Yn ddiddos ei fyfyrdod.
- 3 Ef fydd fel pren plan ar lân dôl,
Dwg ffrwyth amserol arno :
Ni chrina'i ddalen, a'i holl waith,
A lwydda'n berffaith iddo.

SALM II.

- 1 **G**WAS'NAETHWCH chwiyr Arglwydd nef,
Ac ofnwch ef drwy oglud :
A byddwch lawen yn Nuw cu,
Etto trwy grynu hefyd.
- 2 Cusenwch y Mab, rhag ei ddig,
A'ch bwrw yn ffyrnig heibio :
A gwyn eu byd pob calon lân
A ymddiriedan' ynddo.

SALM. III.

- 1 **A**R Dduw yr Arglwydd â'm holl lais
Y gelwais yn dosturaidd :
Ac Ef a'm clybu i ar frys,
O'i uchel freinllys sanctaidd.

2 Mi orweddaia, ac a gysgais,
 Ac mi a godais gwedi :
 Canys yr Arglwydd oedd i'm dal,
 I'm cynnal, ac i'm codi.

3 I'r Arglwydd byth o achos hyn,
 Y perthyn iachawdwriaeth :
 Ac ar ei bobl y disgyn gw lith,
 Ei fendith yn dra helaeth.

—◆—
 SALM IV.

1 **G**WYBYDDWCH ethol o Dduw Cun,
 Iddo 'i hun y duwiolaf :
 A phan alwyf arno yn hy',
 Efe a wrendy arnaf.

2 Pwy, medd llaweroedd, y pryd hyn,
 A ddengys in' ddaioni ?
 O Arglwydd, dyrcha d' wyneb-pryd,
 Daw digon iechyd i ni.

3 Rho'ist i'n calon lawenydd mwy,
 A hyny drwy dy fendith,
 Nag a fyddai gan rai yn trin,
 Amllder o'u gwin a'u gwenith.

—◆—
 SALM V.

1 **A**RGLWYDD, clyw 'ngweddi yn ddiball,
 Duw, deall fy myfyrdod :
 Erglyw fy llais a'm gweddi flin,
 Fy Nuw, a'm Brenin hyglod.

2 Dof finau tua'th dŷ mewn hedd,
 Am dy drugaredd galwaf :
 Trwy ofn, a pharch, a goglud dwys,
 I'th sanctaidd eglwys treiglaf.

- 3 Can's ti Arglwydd anfoni wlith,
 Dy fendith ar y cyfion ;
 A'th gywir serch, fel tarian gref,
 Rhoi drosto ef yn goron.



SALM VI.

- 1 **O** ARGLWYDD, na cherydda fi,
 Yn mhoethni dy gynddaredd :
 Ac na chosba fi yn dy lid,
 Oblegid fy anwiredd.
- 2 Duw, gwared f'enaid, dychwel di,
 Iachâ fi â'th drugaredd :
 Nid oes yn angeu gof na hawl ;
 A phwy a'th fawl o'r pridd-fedd ?
- 3 Yr Arglwydd clybu Ef fy arch,
 Rhof finau barch a moliant :
 Fe dderbyn fy ngweddi, a'm gwaedd :
 Am hyn yr haedd ogoniant.



SALM VII.

- 1 **O** ACHUB fi, fy Nuw, fy Ner ;
 Can's mae fy hyder ynod :
 Rhag fy erlidwyr gwared fi ;
 Can's mae o'r rheini ormod.
- 2 Ac am fod Duw yn canfod hyn,
 Duw yw f' ynddiffyn inau :
 Duw sydd Iachawdwr i bob rhai,
 Sydd lân ddifai'u calonau.
- 3 I'm Harglwydd Dduw rhof finau glod,
 Caf ganfod ei gyfiawnder :
 A chanmolaf ei enw yn rhwydd,
 Yr Arglwydd o'r uchelder.

SALM VIII.

- 1 **O** ARGLWYDD, ein Ior ni a'n nerth,
Mor brydferth wyt drwy'r holl-fyd!
Dy enw a'th barch a ro'ist uwch ben,
Daear ac wybren hefyd.
- 2 Wrth edrych ar y nefoedd faith,
A gweled gwaith dy fysedd,
Y lloer, y ser, a threfn y rhod,
A'u gosod mor gyfanedd.
- 3 Pa beth yw dyn, it' i'w goffhau,
O ddonian ac anwyl-fraint?
A pheth yw mab dyn, yr un wedd,
Lle rhoi ymgeledd cymaint?

SALM IX.

- 1 **C**LODFORAF fi fy Arglwydd Ion,
O'm calon, ac yn hollawl:
Ei ryfeddodau rhof ar led,
Ac mae'n ddyled eu canmawl.
- 2 Byddaf fi lawen yn dy glod;
Ac ynod gorfoleddaf:
I'th enw O Dduw y canaf glod;
Wyd hynod y Goruchaf.
- 3 Gwna'r Arglwydd hefyd hyn wrth raid,
Trueiniaid fo'u hamddiffyn:
Noddfa a fydd i'r rhai'n mewn pryd,
Pan fo caledfyd arnyn'.

SALM X.

- 1 **O** ARGLWYDD, pa'm y sefi di,
Oddiwrthym ni cyn belled?
Pa'm yr ymguddi di a'th rym,
Pan ydym mewn caethiwed.

- 2 Duw, gweddi'r gwan a glywaist ti,
Ac a gysuri'r galon :
Tro eilwaith atom y glust dau,
A chlyw weddiau ffyddlon.
- 3 Tros yr ymddifaid y rhoi farn,
A'r gwan fydd cadarn bellach ;
Megys nas gall daearol ddyn,
Mo'r pwyso arnyn' mwyach.

—◆—

SALM XI.

- 1 **Y**R Arglwydd o'i orseddfa fry,
At y tlawd try ei olwg :
Gweithredoedd holl hiliogaeth dyn,
I'w lygaid ydyn' amlwg.
- 2 Can's cyfion ydyw'r Arglwydd Ner,
Cyfiawnder mae'n ei garu :
A'i wyneb at yr union try,
A hyny i'w ymg'leddu.

—◆—

SALM XII.

- 1 **O** ACHUB bellach, Arglwydd cu,
Fe ddarfu'r trugarogion :
A'r holl wirionedd ar ball aeth,
O blith hiliogaeth dynion.
- 2 Pur iawn yw geirian'r Arglwydd nef,
A'i 'ddewid ef sydd berffaith,
Fel arian o ffwrn, drwy aml dro,
Wedi' goeth buro seithwaith.

—◆—

SALM XIII.

- 1 **P**A hyd, fy Arglwydd, Dduw dilyth ?
Ai byth yr wyf mewn anghof ?
Pa guddio 'rwyf O Dduw pa hyd,
Dy lân wyneb-pryd rhagof.

- 2 Pe llithrwn ddim rhag maint yw'r llid,
 Fe dd'wedid fy ngorehfygu :
 A llawen fyddai fy holl gas ;
 Dal fi o'th ras i fynu.
- 3 Minau'n dy nawdd a ro'is fy ffydd,
 A'm holl lawenydd eithaf :
 Canaf i'm Duw a'm helpiodd i :
 Gwnaf gerddi i'r Goruchaf.


—◆—

SALM XV.

- 1 **D**YWAID i mi, pa ddyn a drig
 I'th lys barchedig, Arglwydd ?
 A phwy a erys ac a fydd,
 Yn mynydd dy sancteiddrwydd.
- 2 Yr hwn a rodia'n berffaith dda,
 Yr hwn a wna gyfiawnder :
 A'r hwn a draetha o'i galon wir,
 A drig ar dir uchelder.
- 3 Yr hwn sydd isel yn ei fryd,
 Yn caru'i gyd grist'nogion :
 Yr hwn sy'n ofni'r Arglwydd Dduw,
 Ac sydd yn byw yn fyddlon.

—◆—

SALM XVI.

- 1 **C**ADW fi, Dduw, can's rhois fy mhwys,
 A'm coel yn dradwys arnat :
 Fy Arglwydd wyt, mae dan fy mron,
 Y gyffes hon yn wastad.
- 2 Trwy Dduw y syrthiodd i mi ran,
 O fewn y fan hyfrydaf :
 Dygwyddodd i mi er fy maeth,
 Yr etifeddiaeth lanaf.
- 

SALM XVII.

- 1 **G**ALW yr wyf arnat am dy fod,
Yn Dduw parod i wrando :
Gostwng dy glust, a chlyw yn rhodd,
Fy holl ymadrodd etto.
- 2 Cadw fi'n anwyl rhag eu twyll,
Fel anwyl ganwyll llygad :
Y'ngghysgod dy adenydd di,
O cadw fi yn wastad.
- 3 Minau mewn myfyr, fel mewn hûn,
A welaf lun d' wyneb-pryd :
A phan ddihunwyf o'r hân hon,
Y byddaf ddigon hyfryd.

SALM XVIII.

- 1 **O** IOR fy ngrym, caraf di'n fawr,
Fy nghreiglawr, twr f' ymwardd :
Fy Naf, fy nerth, fy nawdd, fy Nuw,
Hwn yw fy holl ymddiried.
- 2 Yna y gelwais ar fy Ner ;
Ef o'r uchelder clywodd :
A'm gwaedd a ddaeth hyd ger ei fron,
A thirion y croesawodd.

SALM XIX.

- 1 **D**ATGAN y nefoedd fawredd Duw,
Yr unrhyw gwna'r ffurfafen :
Y dydd i ddydd, a'r nos i nos,
Sy'n dangos cwrs yr wybren.
- 2 Er nad oes ganddynt air nac iaith,
Da 'dywaid gwaith Duw Lywydd :
Diau nad oes na mor, na thir,
Na chlywir eu lleferydd.

- 3 O Arglwydd, fy Mhrynwr a'm nerth,
Bydded yn brydferth genyd
Fy 'madrodd pan ddel ger dy fron,
A'm myfyr calon hefyd.



SALM XX.

- 1 **G**WRANDAWED di yr Arglwydd Ner,
Pan ddel cyfyngder arnad :
Enw Duw Jacob ein Duw ni,
A'th gadwo di yn wastad.
- 2 O'i gyssegr rhoed it' help a nerth,
A braich o brydferth Sion :
Cofied dy offrwm poeth a'th rodd,
Bo rhai'n wrth fodd ei galon.
- 3 Cadw ni, Arglwydd, â'th law gref ;
Boed Brenin y nef drosom :
Gwrandawed hwnw arnom ni,
A'n gweddi pan y llefom.



SALM XXII.

- 1 **Y**NOT gobeithiai'n tadau ni,
A thydi oedd eu bwled :
Ymddiried ynot, Arglwydd hael,
Ac felly cael ymwarded.
- 2 Lleasant drwy ymddiried gynt,
Da fuost iddynt, Arglwydd :
Eu hachub hwynt a wnaethost ti,
Rhag cyni, a rhag gw'radwydd.
- 3 Trigolion byd a dro'nt yn rhwydd
At yr Arglwydd, pan gofiant :
A holl dylwythau'r ddaear hon
Dont ger ei fron, ymgrymant.

SALM XXIII.

- 1 **Y**R Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni ad byth eisiau arnaf :
Mi gaf orwedd mewn porfa fras
Ar lan dwr gloywlas araf.
- 2 Fe goledd f'enaïd, ac a'm dwg
'Rhyd llwybrau diddrwg, cyfion :
Er mwyn ei Enw mawr dilys
Fe'm tywys ar yr union.
- 3 Pe rhodiwn, nid ofnwn am hyn,
Yn nyffryn cysgod angau :
Wyt gyda mi, â'th nerth, a'th ffon,
Ond tirion ydyw'r arfau ?
- 4 O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd :
A minau a breswyliaf byth
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd.



SALM XXIV.

- 1 **Y**R Arglwydd piau'r ddaear lawr,
A'i llawnder mawr sy'n eiddo :
Yr Arglwydd biau yr holl fyd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo.
- 2 Er hyny, pwy a ddringa'n hy
I gyssegr fry yr Arglwydd ?
A phwy a saif â theilwng wedd
Y'ngorsedd ei sancteiddrwydd ?
- 3 Hon sy gan Dduw'n genedlaeth gref,
A'i ceisiant ef yn effro :
A geisiant d'wyneb, dyma'u maeth
Sef gwir genedlaeth Iago.

SALM XXV.

- 1 **A** RGLWYDD, dangos im' dy ffordd di,
 A phar i mi ei deall :
 Dysg, ac arwain fi yr un wedd,
 Yn dy wirionedd diball.
- 2 I'r sawl a gadwo ddeddfau'r Ion,
 A'i union dystiolæthau,
 Gwirionedd a thrugaredd fydd
 Ei lywydd yn ei lwybrau.
- 3 Er mwyn dy enw, O Arglwydd mau,
 Duw maddau fy anwiredd :
 Can's fy nhroseddiad i mawr yw ;
 Mwy ydyw dy drugaredd.

SALM XXVII.

- 1 **Y**R Arglwydd yw fy ngoleu 'gyd,
 A'm hiechyd : rhag pwy'r ofnaf ?
 Yr Arglwydd yw nerth f'oes : am hyn,
 Rhag pwy doe ddychryn arnaf ?
- 2 Un arch a erchais ar Dduw Naf,
 A hyny a archaf etto :
 Cael dyfod i dŷ'r Arglwydd glân,
 A bod â'm trigfan ynddo.
- 3 I gael ymweled â'i deml deg,
 A hyfryd osteg ynddi,
 Holl ddyddiau f'einoes : sef wyf gaeth
 O fawr hiraeth am dani.

SALM XXVIII.

- 1 **O** A RGLWYDD, erglyw fy llais i,
 A derbyn weddi bruddaidd :
 Pan godwyf fy nwy law o bell,
 Duw, tua'th gafell sanctaidd.

- 2 Bendigaid fyddo'r Arglwydd nef,
 Fe glybu lef fy ngweddi :
 Yr Arglwydd yw fy nerth a'm rhan,
 A'm tarian, a'm daioni.
- 3 Ymddiriedais iddo am borth,
 A chefais gymhorth ganddo :
 Minau o'm calon, drwy fawr chwant,
 A ganaf foliant iddo.



SALM XXIX.

- 1 **R**HODDWCH i enw yr Arglwydd glod,
 Heb orfod mwy mo'ch cymhell :
 Addolwch Arglwydd yr holl fyd,
 Mor hyfryd yw ei babell.
- 2 Yr Arglwydd a rydd i'w bobl nerth,
 Drwy brydferth gyfaneddwch :
 Yr Arglwydd rydd ei bobl y'mhlith
 Ei fendith, a hir heddwch.



SALM XXX.

- 1 **F**Y Nuw, pan lefais arnat ti,
 Y rhoddaist i mi iechyd :
 Cedwaist fy enaid rhag y bedd,
 A rhag diwedd anhyfryd.
- 2 Cenwch i'r Ion, chwi ei holl saint,
 A maint yw gwyrthiau'r Arglwydd :
 A chlodforwch ef ger ei fron,
 Drwy gofion o'i sancteiddrwydd.
- 3 Enyd fechan y sai'n ei ddiig,
 O gael ei fodd trig bywyd :
 Heno brydnawn wylofain sydd,
 Y bore ddydd daw iechyd.

SALM XXXI.

- 1 **M**I a 'mddiriedais ynot, Ner,
Fel na'm gw'radwydder bythoedd :
Duw, o'th gyfiawnder, gwared fi,
A chlyw fy nghri hyd nefoedd.
- 2 Gogwydd dy glust ataf ar frys,
O'th nefol lys i wared :
A bydd im' yn graig gadarn siwr,
Yn dŷ a thŵr i'm gwared.
- 3 Cymerwch gysur yn Nuw Ion,
Ef a rydd galon ynoch :
Ac os gobeithiwch ynddo ef,
Ei law yn gref bydd drosoch.

SALM XXXII.

- 1 **Y** SAWL sy deilwng, gwyn ei fyd,
Drwy fadde'i gyd ei drosedd :
Ac y cysgodwyd ei holl fai,
A'i bechod, a'i anwiredd.
- 2 Rhyw loches gadarn wyt i mi,
Rhag ing y'm cedwi'n ffyddlon :
Amgylchyni fyfi ar led
A cherdd ymwarded gyson.

SALM XXXIII.

- 1 **C**ENWCH i'r Ion fawl a mawrhad,
Wiw gerdd o ganiad newydd :
Cenwch iddo yn llafar glod,
Bid parod eich lleferydd.
- 2 Yr holl ddaear ofned ein Duw,
A phob dŷn byw a'i preswyl :
Ei arch a saif, a'i air a fydd ;
A hyny sydd i'w ddysgwyl.

- 3 A phob cenedloedd dedwydd ynt,
Os Duw iddynt fydd Arglwydd :
A'i etholion efe a'u gwnaeth
Yn etifeddiaeth hylwydd.

—◆—
SALM XXXIV.

- 1 **D**DIOLCHAF fi, a chalon rwydd,
I'r Arglwydd bob amserau :
Ei foliant ef, a'i wir fawrhad
Sy'n wastad yn fy ngenau.
- 2 Wele, y truan a roes lef,
A Duw o'r nef yn gwrando,
Ac a'i gwardodd o'i holl ddrwg,
A'i waedd oedd amlwg iddo.
- 3 Angel ein Duw, a dry yn gylch
O amgylch pawb a'i hofnant :
Ceidw ef hwynt : a llawer gwell
Na chastell yw eu gwarant.
- 4 O profwch, gwelwch ddäed yw
Yr Arglwydd byw i'r eiddo :
A gwyn ei fyd pob dyn a gred,
Roi ei ymddiried ynddo.
- 5 Agos iawn yw ein Duw at gur
Y galon bur ddrylliedig :
A da y ceidw ef bob pryd
Yr ysbryd cystuddiedig.

—◆—
SALM XXXV.

- 1 **C**CYFOD, deffro, fy Nuw i'm barn,
Yn gadarn gyda'm gofid :
Dydi a fyni'r uniondeb ;
Ni watwar neb o'm plegid.

- 2 Minau a ganaf i ti glod,
 Lle bo cyfarfod lluoedd:
 Ac a folaf dy enw a'th ddawn,
 Wrth lawer iawn o bobloedd.

—◆—
 SALM XXXVI.

- 1 **O** MOR werthfawr, fy Arglwydd Dduw,
 I bawb yw dy drugaredd!
 I blant dynion da iawn yw bod
 Y'ngghysgod dy adanedd.
- 2 Cyflawn o frasder yw'r tŷ tau,
 Lle llenwir hwythau hefyd:
 Lle y cânt ddiod genyt Ion,
 O fiasus afon hyfryd.
- 3 O estyn etto i barhau,
 Dy drugareddau tirion:
 Ni a'th adwaenom di a'th ddawn
 I'r rhai sydd uniawn galon.

—◆—
 SALM XXXVII.

- 1 **C**RED ynddo ef, fe'th dddwg i'r lan,
 Myn allan dy gyfiawnder:
 Mor oleu a'r haul haner dydd,
 Fel hyny bydd d'eglurder:
- 2 Iechyd y cyfion sydd o Dduw Ner,
 A'i nerth mewn amser cyffro:
 Cymhorth, ceidw, o drwg y tyn,
 A hyn am gredu ynddo.

—◆—
 SALM XXXVIII.

- 1 **G**AN im' gredu i ti yn rhwydd,
 O Arglwydd Dduw goruchaf:
 Rhwydd a hysbys iawn genyf fi
 Yw, y gwrandewi arnaf.

- 2 Clyw, Arglwydd, fi; herwydd o'th flaen
Yn hollawl mae 'nymuniad :
Ni chuddiwyd mo'm hochenaid i
Oddiwrthyt ti, fy Ngheidwad.
- 3 Duw, nac ymâd, na fydd yn mhell,
Pan ddelo dichell ffyrnig :
Brysia, cymhorth fi yn y byd,
Fy Nuw, a'm hiechyd unig.



SALM XXXIX.

- 1 **O** DANGOS im', fy Arglwydd Ner,
Pa amser y diweddaf
Rifedi 'nyddiau : a pha hyd
O fewn y byd y byddaf.
- 2 Rhoddaist fy nyddiau fel lled llaw ;
I'm heinïoes daw byr ddiwedd :
Diau yn d'olwg di, O Dduw,
Fod pob dyn byw yn wagedd.
- 3 O paid â mi, gad im' gryfhau,
Cyn darfod dyddiau 'mywyd :
O gwna â mi, sy 'mron fy medd,
Drugaredd a syberwyd.



SALM XL.

- 1 **B**UM yn dyfal ddysgwyl fy Ner,
Ef o'r uchelder clybu :
Clust-ymwrandawodd ef fy llais,
Pan lefais ar i fynu.
- 2 Cododd fyfi o'r pydew blin,
A'r pridd tra gerwin tomlyd :
A rhoes ar graig fy nhroed i wau,
A threfn fy nghamrau hefyd,

- 3 A newydd gerdd i'm genau rhoes,
Clod iddo troes yn hylwydd :
Pawb ofnant pan y gwelant hyn,
A chredant yn yr Arglwydd.

—◆—
SALM XLI.

- 1 **G**WYN ei fyd yr ystyriol frawd,
A wnel â'r tlawd syberwyd :
Yr Arglwydd ystyriol o'r nef
A'i ceidw ef rhag drygfyd.
- 2 Yn ei wely pan fo yn glaf,
Rhydd y Goruchaf iechyd :
A Duw a g'weiria oddi fry
Ei wely yn ei glefyd.

—◆—
SALM XLII.

- 1 **Y**R un wedd ag y bref yr hydd
Am yr afonydd dyfroedd :
Felly y mae fy hiraeth i
Am danat ti, Duw'r nefoedd.
- 2 Fy enaid i sychedig yw
Am fy Nuw byw, a'i gariad :
Pa bryd y dof fi ger dy fron,
Fy Nuw a'm cyfion Ynad ?
- 3 Fy Naf a roes y dydd im' hedd,
A'r nos gyfanedd ganu,
I ganmawl fy Nuw, hwn a roes
Im' einioes i'w foliaanu.

—◆—
SALM XLIII.

- 1 **C**AN'S ti yw Duw fy nerth i gyd ;
Paham y'm bwrid ymaith ?
A pha'm yr af mor drwm a hyn,
Gan bwys y gelyn diffaith.

- 2 O gyr dy oleu, moes dy wir ;
 Ac felly t'wysir finau :
 Arweiniant fi i'th breswylfeydd,
 I'th fynydd ac i'th demlau.

—◆—
 SALM XLIV.

- 1 O DEFFRO, cyfod, Dduw, mewn pryd :
 Pa'm ydwyf cyd yn gorwedd ?
 A dihuna, a chlyw fy nghri:
 A chofia fi o'r diwedd.
- 2 Paham y cuddi d'wyneb pryd ?
 O darbod hyd ein blinder,
 Ein henaid mathrwyd yn y llwch,
 Gan dristwch a gorthrymder.

—◆—
 SALM. XLV.

- 1 GWISG dy gleddeu y'ngwasg dy glun,
 O gadarn gŵn gogonedd :
 A hyn sydd weddol a hardd iawn,
 Mewn llwydd a llawn orfoledd.
- 2 Marchog ar air y gwir yn rhwydd,
 Lledneisrwydd a chyfiawnedd,
 A'th law ddehau di a â drwy,
 Bethau ofnadwy rhyfedd.
- 3 A thanat ti pobloedd a syrth,
 Gan wyrth dy saethau llymion ;
 Briwant hwy, a glynant yn glau,
 Ym mronau dy elynion.
- 4 Coffaf dy enw di ym mhob oes,
 Tra caffwyf einioes imi :
 Am hyn y bobloedd a rydd fawl,
 Byth yn dragwyddawl i ti.

SALM XLVI.

- 1 **G**OBATH a nerth in' yw Duw hael :
 Mae help i'w gael mewn cyfwng :
 Daear, mynydd, aent hwy i'r môr ;
 Nid ofnaf f'angor deilwng.
- 2 Gwna i ryfeloedd beidio'n wâr,
 Hyd eitha'r ddaear lychlyd :
 Dryllia y bwa, tyr y ffon,
 Llysg y cerbydon hefyd.
- 3 Y mae yr Arglwydd gyda ni,
 Ior anifeiri luoedd,
 Y mae Duw Iago yn ein plaid,
 Gyr help wrth raid o'r nefoedd.

SALM XLVII.

- 1 **C**ENWCH, a churwch ddwyllaw 'nghyd,
 Holl bobl y byd cyfannedd,
 A llafar genwch i Dduw nef,
 Gan leisio â llef gorfoledd.
- 2 Fe a rydd i ni feddiant siwr,
 Gwlad Iago, gwr a garai,
 Duw a ddyrchafodd wrth y sain,
 Yr Udgorn gain pan leisiai.
- 3 O cenwch, cenwch, glod ein Duw,
 Ein brenin yw, O cenwch,
 Duw dros y byd sy Frenin call,
 Drwy ddeall ymhyfrydwch.

SALM XLVIII.

- 1 **M**AWR ei enw'n ninas ein Duw,
 A hynod yw yr Arglwydd ;
 A'i drigfan ef yno y sydd,
 Yn mynydd ei sancteiddrwydd.

- 2 Tegwch bro, a llawenydd gwlad,
Yw Sïon lathriad fynydd,
Yn ystlysau y gogledd lawr,
Tre'r Brenin mawr tragywydd.
- 3 Adwaenir Duw yn mh'lasau hon,
Yn gymhorth digon hynod:
Ac wele nerth breninoedd byd;
Doent yno i gyd-gyfarfod.
- 4 Ewch, ewch oddiamgylch Sïon sail,
A'i thyrau adail rhifwch,
Ei chadarn fŵr a'i phlasau draw,
I'r oes a ddaw mynegwch.

—◆—

SALM XLIX.

- 1 **G**WELIR mai'r bedd yw lletty'r doeth,
Y ffol a'r annoeth unwedd;
Marw yw'r naill, a marw yw'r llall,
I arall gâd ei annedd.
- 2 Angeu yw terfyn pob dyn byw,
I hwn nid yw ond tamaid;
Myned sydd raid o'r tŷ i'r bedd
Yn rhwym un wedd a'r defaid.
- 3 Daw dydd i'r cyfion dranoeth teg,
Daw im' ychwaneg estyn:
Daw im' o'r bedd godiad i fyw,
Deheulaw Duw a'm derbyn.

—◆—

SALM L.

- 1 **O**FRYN Sïon y daeth Duw Naf,
Hon sydd berffeithiaf ddinas,
Mewn tegwch a goleuni mawr
A llewyrch gwawr o'i chwmpas.

- 2 O ceaglwch ataf fi fy saint,
Y rhai drwy ryddfrait brydferth,
A wnaethant ammod â myfi,
A'i rhwymo hi drwy aberth.

—◆—
SALM LI.

- 1 **T**RUGAREDD dod i mi,
Duw o'th ddaioni tyner ;
Ymaith tyn fy anwiredd mau,
O'th drugareddau lawer.
- 2 Ag isop golch fi'n lân,
Ni byddaf aflan mwyach,
Byddaf fi o'm golchi mal hyn,
Fel eira gwyn neu wynach.
- 3 Duw, crëa galon bur,
Dod i mi gysur beunydd,
I fyw yn well tra fwy'n y byd,
Dod ynof ysbryd newydd.
- 4 O Dduw, na ddyro chwaith,
Fi ymaith o'th olygon,
Ac na chymer dy Ysbryd Glan,
Oddiwrthyf druan gwirion.
- 5 Bydd dda wrth Sion fryn,
O Arglwydd, hyn a fynni :
Ac wrth Gaersalem dy dreftâd ;
A gwna adeilad arni.

—◆—
SALM LII.

- 1 **M**INAU fel olewydden werdd,
Yn nhŷ Dduw, cerdd a ganaf,
Ymddiriedaf iddo yn hawdd,
Byth dan ei nawdd y byddaf.

- 2 Mi a'th folaf, a gobeithiaf,
Byth bythoedd drwy ymddiried;
Da yw dangos ger bron dy saint,
Dy enw a maint dy weithred.

—◆—
SALM LV.

- 1 **M**INAU gweddi'af ar Dduw byw,
Yr hwn a'm clyw mewn amser,
Hwyr a bore a chanol dydd,
A hyn a fydd drwy daerder.
- 2 O bwrw d'ofal ar dy Dduw,
O myni fyw heb syrthio :
Duw a geidw y cyfion byth,
A'r drwg fo'i chwyth i gwympo.

—◆—
SALM LVII.

- 1 **D**Y ras, dy nawdd, fy Nuw, i'm dod,
Sef ynod ymddiriedaf;
Nes myned heibio'r afiwydd hyn,
Dan d'edyn ymgysgodaf.
- 2 Ymddiried f'enaid ar Dduw sydd,
Ar Dduw trwy ffydd y galwaf,
Ac a gwblhaf ei air yn iawn,
Sef cyfiawn yw'r Goruchaf.
- 3 Ymddyrrha Dduw y nef uwchlaw,
Oddiyno daw d'arwyddion,
A bydded dy ogoniant ar
Y ddaear, a'i thrigolion.

—◆—
SALM LXI.

- 1 **E**RGLYW O Dduw fy llefain i,
Ac ar fy ngweddi gwrando :
Rhof lef o eitha'r ddaear gron,
A'm calon yn llesmeirio.

- 2 Dwg fi i dalgraig uwch na mi,
Ac iddi bydd i'm derbyn :
Can's craig o obaith, twr difost,
I'm fuost rhag y gelyn.
- 3 O fewn dy babell y bydd byth,
Fy nhrigfan dilyth dedwydd :
A'm holl ymddiried a fyn fod,
Yn nghysgod dy adenydd.

—◆—
SALM LXII.

- 1 **F**Y unig Dduw ydyw fy mhlaid,
Mae f'enaid yn ei ddysgwyl,
O hono ef, a thrwy ei rym,
Daw iechyd im' o'm hanwyl.
- 2 Yn Nuw yn unig mae i gyd,
Fy iechyd, a'm gogoniant,
Fy Nghraig yw, a'm cadernid maith,
A'm gobaith yn ddilysiant.

—◆—
SALM LXIV.

- 1 **O** ARGLWYDD Dduw, erglyw fy llef,
A chlyw o'r nef fi'n erfyn,
O Dduw cadw fy einioes i,
Y sydd yn ofni'r gelyn.
- 2 Ond yn yr Arglwydd llawenha,
Ac y gobeithia'r cyfion,
A gorfoledda ynddo'n iawn,
Pob dyn ag uniawn galon.

—◆—
SALM LXV.

- 1 **I** TI o Dduw y gweddai mawl,
Yn y sancteiddiawl Sion,
I ti y telirtrwy holl gred,
Bob gwir adduned calon.

- 2 Pawb sydd yn pwyso atat ti,
A wrendy weddi dostur,
Ac atat ti y daw pob cnawd,
Er mwyn gollyngdawd llafur.
- 3 Dy etholedig dedwydd yw,
Caiff nesnes fyw i'th Babell,
Trig i'th gynteddau, ac i'th lys,
A'th sanctaidd weddus gangell.
- 4 Coroni'r ydwyt ti fal hyn,
Y fwyddyn â'th ddaioni,
Y ffordd hyn a'r modd, Duw fy Ner,
Diferaist fraserder arni.

—◆—
SALM LXVI.

- 1 O BOBLOEDD, molwch Dduw ar gais,
A moeswch lais ei foliant:
Hwn sy'n dal bywyd yn y gwaed,
A ddeil ein traed na lithrant.
- 2 Ag offrwm poeth i'th dŷ yr âf,
Talaf fy addunedau,
Y rhai mewn cyfwng, rhag mwy trais,
Addewais â'm gwefusau.
- 3 O dowch yn nes, a gwrandewch chwi
Sy'n ofni Duw tragfythoes:
Mi a fynegaf i chwi'n ffraeth
Pa les a wnaeth i'm heinioea.

—◆—
SALM LXVII.

- 1 TRUGAREDD Duw i'n plith,
A rhoed ei fendith drosom:
A thywyned ei wyneb-pryd,
A'i nawdd, a'i iechyd, arnom.
- 2 Duw, moled pobloedd di,
Rhont fawl a bri trwy'r holl-fyd:
A'r holl genedloedd is wybren,
Byddant lawen a hyfryd.

- 3 Duw, moled pobloedd di,
Rhont fawl a bri trwy'r holl-fyd :
Yna rhydd y tir ffrwyth i'n plith;
A Duw ei fendith hefyd.



SALM LXVIII.

- 1 **B**ENDIGAID fyth fo'r Arglwydd mau,
Am ddoniau ei ddaioni :
A'i iachawdwriaeth i ni'n llwyth,
O ber-ffrwyth ei haelioni.
- 2 Efe 'i hun yw'n Duw ni i gyd,
Sef Duw ein hiechyd helaeth :
Trwy'r Arglwydd Dduw cawn, yn ddiswrth,
Ddianc oddiwrth farwolaeth.
- 3 Clodforwech Dduw, hyny sydd dda,
Ym mhob cyn'lleidfa ddiwael :
A chlodforwech yr Arglwydd Ion,
Chwi sydd o ffynnon Israel.



SALM LXXI.

- 1 **D**UW bydd yn graig o nerth i mi
I gyrchu ati 'n wastad :
A phar fy nghadw i yn well ;
Ti yw fy nghastell caead.
- 2 Fy ngobaith inau a saif byth
Yn ddilyth a safadwy :
Ymddiried ynot Dduw a wnafl,
Ac a'th foliannaf fwyfwy.
- 3 Dy gyfiawnder yn uchel aeth,
Yr hwn a wnaeth bob mawredd :
Duw, pwy y sydd debyg i ti ?
Nid ydym ni ond gwagedd.

SALM LXXII.

- 1 **D**UW, dod i'r Brenin farn o'r nef,
 Dod i'w Fab ef gyfiawndeb:
 Yna y rhydd rhwng pobl iawn frawd,
 Ac i'r dyn tlawd uniondeb.
- 2 Llwydda efe o for hyd for,
 O'r ffrwd hyd oror tiredd:
 Ei gas ymgrymant, llyfant lwch,
 Hyd yr anialwch cyrhaedd.
- 3 Bendigaid fo yr Arglwydd Dduw,
 Sef Duw yr Israel dirion,
 Efe 'n unig byth sy'n parhau
 I wneuthur gwyrthiau mawrion.

SALM LXXIII.

- 1 **P**A'M? pwy O Dduw sydd genyf fi
 Ond tydi yn y nefoedd?
 Dim ni ddymunwn gyd â thi,
 Wrth weini daear leoedd.
- 2 Fy nghalon i, a'm nerth, a'm cnawd,
 Y sydd mewn palldawd beunydd:
 Ond tydi, Dduw, sydd ar fy rhan,
 A'm tarian yn dragywydd.
- 3 Ond mi ddof nes-nes at fy Nuw:
 Fy ngobaith yw i'm calon:
 Y traethaf fi ei nerth, a'i wyrth,
 O fewn dy byrth, merch Sion.

SALM LXXVII.

- 1 **F**Y llais at Dduw, pan roddais lëf,
 Fy llais o'r nêf fe'i clybu;
 A'm llais gweddïais ar Dduw Nêr,
 Pan oedd blinder yn tarddu.

- 2 Yna y cofwn Dduw a'i glôd,
 Pan syrthiai drallod enbyd :
 Yna gweddiwn dros fy mai,
 Pan derfysgai fy ysbryd.

—◆—
 SALM LXXIX.

- 1 O DDUW ein hiechyd, cymhorth ni,
 Er mwyn dy fri gogonol ;
 A gwared, er mwyn d'enw tau,
 Ni rhag pechodau marwol.
- 2 Ninau, dy bobl a'th ddefaid mân,
 A wnawn it' gân ogonawl,
 O oes i oes byth i barhau,
 Ac i'th fawrhau 'n dragwyddawl.

—◆—
 SALM LXXX.

- 1 O DDUW y lluoedd, edrych, gwel,
 A dychwel i ymg'leddu
 Y winllan hon, a blennaist di
 A'th law, a'i rhoddi 'dyfu.
- 2 A dadymchwel nyni i fyw,
 O Arglwydd Dduw y lluoedd :
 Tywynna arnom d' wyneb-pryd,
 Ni a gawn iechyd bythoedd.

—◆—
 SALM LXXXI.

- 1 O CENWCH fawl i Dduw ein nerth,
 Cerdd brydferth cenwch iddo :
 A llafar lais, a genau ffraeth,
 Gerddwriaeth i Dduw Iago.
- 2 Caseion ein Duw, yn ei lid,
 A ostyngesid iddaw :
 Ac ef a roisai yn y tir
 Ammodau hir i'r eiddaw.

- 3 Ein Duw a roisai iddynt borth,
 Trwy frasder cymhorth rhadol :
 Rhoi mel o'r graig, rhoi llaeth yn flith,
 A gwenith yn ddigonol.

—◆—
 SALM LXXXIV.

- 1 **M**AE f' enaid i (fy Ion) mewn blys
 I'th gyssegr lys dueddu :
 Fy nghalon i, a'm holl gnawd, yw
 Yn Nuw byw'n gorfoleddu.
- 2 Gwyn ei fyd a drig yn dy dŷ,
 Caiff dy foliannu ddigon :
 Ac ynot ti sy'n cadarnhau,
 A'th lwybrau yn eu calon.
- 3 Gwell yw na mil, un dydd i'th dŷ ;
 Am hyny mwy dewisol
 Im' fod ar riniog y drws tau,
 Na phlasau yr annuwiol.
- 4 Sef, haul a tharian yw Duw mâd,
 A rydd râd a gogoniant :
 Ni lestair ef ddaioni maith,
 I'r rhai a berffaith rodiant.
- 5 O Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,
 Anfon i lawr dy gymmod :
 Dedwydd yw'r dyn a roddo 'i gred,
 A'i holl ymddiried, ynod.

—◆—
 SALM LXXXV.

- 1 **D**A wyt i'th dir, Jehofa Ner,
 Dychwelaist gaethder Iago :
 Maddeuaist drawsedd dy bobl di ;
 Mae'u camwedd wedi 'guddio.
- 2 Tynaist dy lid oddiarnom ni,
 Troist dy ddiglloni awchlym :
 O Dduw ein nerth, tro ninau'n well,
 A'th lid bid bell oddiwrthym.

- 3 Ai byth y digi wrthym ni?
 A sorri di hyd ddiwedd?
 A saif dy lid o oes i oes?
 Duw, gwrando, moes drugaredd.
- 4 Ei drugaredd, a'i wirionedd
 Ar unwaith cyfarfuant:
 Ei uniondeb, a'i hedd y'ng'hýd,
 Trwy'r tir a'mgyd-gusanant.

—◆—

SALM LXXXVI.

- 1 CAN'S ti, O Arglwydd, ydwyt dda
 I'th bobloedd, a thrugarog:
 I'r rhai a alwant arnat ti,
 Mae dy ddaioni 'n bleidiog.
- 2 O Arglwydd, clyw fy llais mor llym,
 A'm gweddi y'm myfyrdod:
 Clywi fy llais, gweli fy nghlwyf,
 Y dydd y bwyf i'm trallod.
- 3 Can's tydi ydwyt fawr a phur,
 Yn gwneuthur rhyfeddodau:
 A thydi 'n unig wyt yn Dduw;
 Ni cheisiwn amryw dduwiau.

—◆—

SALM LXXXVII.

- 1 O DDINAS Duw, preswylfa 'r Ion,
 Mawr ydyw'r son am danad:
 A gogoneddus air it' sydd
 Uwch trigfenydd yr holl-wlad.
- 2 Ond d'wedir hyn am Sion bêr,
 Fe anwyd llawer ynddi,
 Nid ambell un: can's swcwr da
 Yw Duw goruchaf iddi.

- 3 Cantor tafod, a cherddor tant,
 Pob rhai it' canant fawrglod :
 A thrwy lawenydd mae'n parhau
 Fy holl ffynnonau ynod.

—◆—
 SALM LXXXVIII.

- 1 O DDUW, fy iechyd, nos a dydd
 Mae 'ngweddi 'n ufudd arnad :
 Gostwng dy glust, O Arglwydd nef,
 A doed fy llef hyd atad.
- 2 Y mae fy ngolwg gan dy lid,
 Mewn gofid o fawr gystudd :
 Duw, llefais arnad yn fy mraw,
 Gan godi 'nwylaw beunydd.

—◆—
 SALM LXXXIX.

- 1 MYFYRIAF gerdd, byth i barhau,
 O drugareddau 'r Arglwydd :
 A'i wirionedd i'm genau fydd,
 Hyd dragywydd, yn ebrwydd.
- 2 Pwy sydd debyg i ti, Dduw byw,
 O Arglwydd Dduw y lluoedd ?
 Yn gadarn Ior, a'th wir i'th gylch,
 O amgylch yr holl nefoedd.
- 3 Can's o'r Arglwydd, a'i ddaioni,
 Y daw i ni ymddiffyn :
 O Sanct Israel trwy ei law,
 Oddi yno daw ein Brenin.

—◆—
 SALM XC.

- 1 DUW! buost in' yn Arglwydd da,
 Ac yn breswylfa i drigo,
 O bryd i bryd, felly yr aeth
 Pob rhyw genedlaeth heibio.

- 2 Er cyn rhoi sail un mynydd mawr,
Cyn llunio llawr cwmpas-fyd,
Duw! o drag'wyddol wyt cyn neb,
Hyd dragwyddoldeb hefyd.
- 3 Nid yw dyn, ond fel hûn, neu ail
I addail, neu lifeiriant,
Neu megys glas lysieuyn gwan,
Mor fuan y newidiant.
- 4 Yr hwn y bore gwyrddlas fydd,
A gwawr o newydd arno:
Ond pan tîrer ef brydnawn,
Yn fuan iawn mae'n gwywo.
- 5 O Dduw, gwna weled dy fawr waith,
A'th wyrthiau maith i'th weision,
A'th odidowgrwydd, a'th ffyniant,
Yn mysgr eu plant a'u hwyrion.

—◆—
SALM XCI.

- 1 Y SAWL a drigo, does yn nes,
Yn lloches y Goruchaf,
Ef a ymerys i gael bod
Y'nghysgod hwn sydd benaf.
- 2 Ni ddygwydd niweid it', ond da,
Na phla, na dim echryslon,
I'th eglwys a'th gyn'lleidfa nawdd;
Can's archawdd i'w angylion.
- 3 Fe gaiff fyw yn ddigon o hyd,
Caiff yn y byd hir ddyddiau;
Dangosaf iddo radlawn faeth,
A'm hiachawdwriaeth inau.

—◆—
SALM XCII.

- 1 Y RHAI a blanwyd yn nhŷ Dduw,
Yn goedwydd byw y tyfant,
Ac y'nghynteddau ein Duw ni
Y rhei'ny a flodeuant.

- 2 A dwyn eu ffrwyth a wnant o faint,
Yn amser henaint etto,
Tirfion, iraidd, a phrofadwy
A fyddant hwy yn hilio.
- 3 I ddangos nad traws, ac nad cam
Yw f'Arglwydd a'm cadernid,
Ac nad oes ynddo na chamwedd,
Na dim anwiredd hefyd.

—◆—

SALM XCV.

- 1 **O** DOWCH, a chanwn i'r Arglwydd,
Efe yw llwydd ein bywyd:
Ac ymlawenhawn yn ei nerth,
Ef yw ein prydferth iechyd.
- 2 O down yn unfryd ger ei fron,
A chalon bur ddiolchgar:
Brysiwn at Dduw, dan lawenhau,
A chanwn Salmau'n llafar.
- 3 Can's ef i ni y sydd Dduw da,
A phobl ei borfa ydym:
A'i ddefaid ym, os chwi a glyw
Ei air ef heddyw'n gyflym.

—◆—

SALM XCVI.

- 1 **O** CENWCH glod i'r Arglwydd mad,
A moeswch ganiad newydd:
Yr holl ddaear datgenwch fawl,
Yr Arglwydd nefawl beunydd.
- 2 Cenwch chwi glod i'r Arglwydd nef,
A'i enw ef bendigwch,
A'i iachawdwriaeth trwy grefydd,
O ddydd i ddydd cyhoeddwch.
- 3 Datgenwch byth ei glod a'i rad
Y'ngwlad y cenedlaethoedd,
A'i ryfeddodau ef yn mhlith
Pob amryw amrith bobloedd.

- 4 I'r holl genedloedd d'wedwch hyn,
Yr Arglwydd sy'n teyrnasu :
Nid ysgog y byd sy'n sicr iawn,
Ef a wŷr uniawn farnu.



SALM XCVIII.

- 1 **C**ENWCH i'r Arglwydd newydd gân,
Ei waith fu lân ryfeddod :
Ei law ddehau a'i fraich a wnaeth,
In' iachawdwriaeth parod.
- 2 Curant, canant, o flaen Duw cu,
Yr hwn sy'n barnu'r bydoedd :
I'r byd y rhydd ei farn yn iawn,
Ac yn uniawn i'r bobloedd.



SALM XCIX.

- 1 **Y**R Arglwydd Dduw yw ein brenin,
Er maint yw trin y bobloedd :
Mae'n eistedd rhwng dau gerubyn,
Fe gryn pob daear-leoedd.
- 2 Canys Brenin mawr ydyw'r Ion,
Yn Sion, o'i ddyrchafael :
Ac uwchlaw pobloedd yr holl fyd,
Y sydd o ryddid uchel.
- 3 Dyrchefwch ein Duw Ior am hyn,
Yn Sion fryn cyssegraidd,
Ymgrymwch iddo yn eich byw,
Sef unig Dduw sydd sanctaidd.



SALM C.

- 1 **I**'R Arglwydd cenwch lafar glod,
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd :
Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
Trigolion y ddaear i gyd.

- 2 Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw,
A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod,
Nid ni'n hunain; ei bobl ym ni,
A defaid rhi' ei borfa a'i nod.
- 3 O ewch i'w byrth â diolch brau;
Yn ei gynteddau molwch ef:
Bendithiwch enw Duw hynod,
Rhowch iddo glod trwy lafar lef.
- 4 Can's da yw'r Arglwydd, awdwr hedd,
Da ei drugaredd, a dilyth,
A'i wirionedd i ni a roes,
O oes i oes, a bery byth.



SALM CII.

- 1 **P**AN adeilader Sion wych,
A hon yn ddrych i'r gwledydd;
Pan weler gwaith yr Arglwydd ne',
Y molir e'n dragywydd.
- 2 Hyn fydd pan gasglo pawb y'nghyd,
Yn unfryd i'w foliannu:
A'r holl deyrnasoedd dont y'ngwydd
Yr Arglwydd, i'w was'naethu.
- 3 O cyfod bellach, trugarha,
O Dduw bydd dda wrth Sion;
Mae'n amser wrthi drugarhau,
Fel dyma'r nodau'n union.



SALM CIII.

- 1 **F**Y enaid mawl sanct Duw yr Ion,
A chwbl o'm heigion ynof;
Fy enaid n'ad fawl f'Arglwydd nef,
Na'i ddoniau ef yn anghof.

- 2 Yr hwn sy'n maddeu dy holl ddrwg,
Yr hwn a'th ddrwg o'th lesgedd ;
Yr hwn a weryd d'oes yn llon,
Drwy goron o'i drugaredd.
- 3 Os pell yw'r dwyrain oleu hin
Oddiwrth orllewin fachlud ;
Cyn belled ein holl bechod llym
Oddiwrthym, ef a'i symud.
- 4 Ac fel y bydd nawdd, serch a chwant,
Tad da i'w blant naturiol,
Felly cawn serch ein Tad o'r nef,
Os ofnwn ef yn dduwiol.



SALM CIV.

- 1 O DDUW, mor rhyfedd yw dy waith,
O'th synwyr berffaith dradoeth !
Gwnaethost bob peth â doethder, dawn,
A'r tir sy lawn o'th gyfoeth.
- 2 Duw, pan ollyngech di dy rad,
Fel rhoddi créad newydd,
Y modd hyn wyneb yr holl dir
A adnewyddir beunydd.
- 3 Canaf i'r Arglwydd yn fy myw,
Canaf i'm Duw tra fyddwyf :
Mi a lawenhaf yn fy Ion,
Bydd ffyddlon hyn a wnelwyf.



SALM CV.

- 1 CLODFORED pawb yr Arglwydd nef,
Ar ei enw ef y gelwch,
A'i weithredoedd yn mysg pobloedd,
Yn gyhoedd a fynegwch.

- 2 Ceisiwch yr Arglwydd, a'i nerth mawr,
 A'i fodd bob awr yn rhadlon :
 Cofiwch ei holl ryfeddodau,
 A barn ei enau cyfion.

—◆—
 SALM CVI.

- 1 **M**OLWCH yr Arglwydd, can's da yw,
 Moliennwch Dduw y Llywydd :
 Oblegid ei drugaredd fry
 A bery yn dragywydd.
- 2 O Arglwydd, cofia fi dy was,
 Yn ol dy ras i'r eiddod :
 Ymwel â mi i'm cystudd caeth,
 A'th iachawdwriaeth barod.

—◆—
 SALM CVII.

- 1 **Y** GWAREDIGION canent fawl,
 I Dduw gerdd nodawl gyson :
 Y sawl' achubwyd, caned hyn,
 O law y gelyn creulon.
- 2 Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
 O'i holl orthrymgaeth foddion,
 'Rhyd yr iawn fiordd fe'u dug mewn hedd,
 I dref gyfanedd dirion.
- 3 Addefant hwythau ger ei fron,
 Ei fwynion drugareddau :
 Ac er plant dynion fel y gwnaeth
 Yn helaeth ryfeddodau.

—◆—
 SALM CVIII.

- 1 **M**AWL iti f' Arglwydd, pan ddeffrôf,
 A rôf ym mýsg y bobloedd :
 A chlodfori dy enw a wnâf,
 Lle amlaf y cenedloedd.

- 2 O unig Dduw, bydd in' yn borth,
 Mae'n ofer cymhorth undyn,
 Yn Nuw y gwnawn wrolaeth fawr,
 Fe sathr i lawr ein gelyn.

SALM CIX.

- 1 C YMHORTH di fi Arglwydd fy Nuw,
 Cadw fi'n fyw â'th nodded :
 Fel y gwyper mai gwaith dy law,
 Yw'r lles a ddaw i'm gwared.
- 2 O herwydd ar ddeheulaw'r tlawd
 Y saif ddydd brawd yn gefnog ;
 I gadw ei enaid ef yn gu,
 Rhag ei farnu yn euog.

SALM CX.

- 1 D'WEDAI'R Arglwydd wrth f'Arglwydd man,
 Ar fy llaw ddehau eistedd :
 Nes rhoddi'r rhai a gais dy waed
 Yn fainc-draed it' i orwedd.
- 2 Yn nydd dy nerth dy bobl a ddaw,
 Ag aberth llaw'n wyllysgar,
 Yn sanctaidd hardd daw'r cynyrch tau
 O wlith y borau hawddgar.
- 3 Yr Arglwydd tyngodd, ac ni wâd,
 Ti sy'n Offeiriad bythol,
 Wrth urdd Melchisedec odd' fry
 A bery yn dragwyddol.
- 4 O wir frys i'r gyflafan hon,
 Fe yf o'r afon nesa'
 A gaffo ar ei sfordd yn rhwydd,
 A'r Arglwydd a'i dyrchafa.

SALM CXI.

- 1 **C**LODFORAF fi fy Arglwydd Ion,
O wyllys calon hollol,
Mewn cynnulleidfa ger eu bron,
Mewn tyrfa gyfion rasol.
- 2 Mawr iawn yw gwyrthiau'n Harglwydd ni,
Hysbys i bawb a'i hoffant:
Ei waith a'i iawnder pery byth
A'i wehelyth ogoniant.
- 3 Yr Arglwydd a wnaeth ei goffhau,
Am ryfeddodau nerthol:
Can's Arglwydd noddfawr yw i ni,
Llawn o dosturi grasol.



SALM CXII.

- 1 **D**EDWYDDOL yw mewn buchedd dda,
Y sawl a ofna'r Arglwydd,
A'i orchymynion anwyl ynt,
Bydd iddo helynt hylwydd.
- 2 Ei had fydd nerthol yn y tir,
Bendithir hil rhai union:
Golud a chyfoeth yn ei dy,
Dros byth y pery'n gyfion.



SALM CXIII.

- 1 **C**HWI weision Duw molwch yr Ion,
Molwch ei enw â llafar dôn,
Bendigaid fyddo ei enw ef:
O godiad haul hyd fachlud dydd,
Mawr enw yr Ion moliannus fydd,
Yn y byd hwn, ac yn y nef.

- 2 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,
 A'i foliant aeth uwch nef i gyd,
 Pwy sy gyffelyb i'n Duw ni ?
 Yr hwn a breswyl yn y nef,
 I'r ddaear hon darostwng ef,
 Gwel ef ein cam, clyw ef ein cri.
- 3 Yr hwn sy'a codi'r tlawd o'r llwch,
 A'r rheidus o'i ddiystyrwch,
 I'w gosod uwch penaethiaid byd :
 I'r anmhlantadwy mae'n rhoi plant,
 Hil deg, a thylwyth, a llwyddiant ;
 Am hyn molienwch Dduw i gyd.



SALM CXIV.

- 1 **P**AN ddaeth Israel o'r Aipht faith,
 A thy Iago o estron iaith,
 Juda oedd ei sancteiddrwydd ef,
 Israel oedd benaethiaeth Ior,
 Gwelodd hyn, a chiliodd y môr,
 A throes i'w hol Iorddonen gref.
- 2 Neidiai'r mynyddoedd megys hyrdd,
 A'r bryniau fel ŵyn llament ffyrdd ;
 Cawsant wastad megys llawr dol.
 Ciliaist O for dywed, paham ?
 Tithau, Iorddonen lathraidd lam,
 Pa'm y dadredaist dithau'n d'ol ?
- 3 Chwychwi fynyddoedd, pa'm y ffoech,
 Fel hyrddod ? a pha'm nad arhoech ?
 A chwithau, fryniau, fel ŵyn mân ?
 Am mai rhaid ofni Duw Iago,
 Yr hwn sy'n troi'r graig yn llyn tro,
 A'r callestr yn ffynnon ddwfr glân.

SALM CXV.

- 1 **N**ID i ni, Arglwydd, nid i ni,
Y doddi y gogonedd:
Ond i'th enw dy hun yn hawdd,
Er mwyn dy nawdd a'th wiredd.
- 2 'Rhai a ofnwch yr Arglwydd Ion,
Rhowch arnoch union holl-fryd :
Efe yw'r neb a'ch dwg i'r lân,
Eich porth a'ch tarian hefyd.
- 3 Yr Arglwydd arnoch, arnoch chwi,
A wna ddaioni amlach :
Ac a chwanega ar eich plant
Ei fwyniant yn rymusach.



SALM CXVI.

- 1 **D**A genyf wrando'r Arglwydd nef
Ar lais fy llef a'm gweddi :
Am iddo fy nghlywed i'n hawdd,
Byth archaf ei nawdd imi.
- 2 Cyfion yw'r Ion, trugarog iawn ;
Ein Duw sy lawn o nodded :
Duw a geidw'r gwirion ; bŷm i
Mewn cyni, daeth i'm gwared.
- 3 Mi a gymeraf, gan ro'i mawl,
Y phiawl iachawdwriaeth :
Ac a alwaf, er mwyn fy llwydd,
Ar enw yr Arglwydd benaeth.
- 4 I'r Arglwydd bellach tala'n frau
Fy addunedau cyfion :
Yn Nghaersalem, dy sanctaidd dŷ,
O ffaen dy deulu ffyddlon.

SALM CXVII.

- 1 **O** CENWCH fawl i'r Arglwydd nef,
 Moliennwch ef, genedloedd :
 Molwch ei enw ef trwy'r byd,
 Chwithau i gyd y bobloedd.
- 2 Am ei fod ini yn dda iawn,
 Yr Arglwydd llawn trugaredd :
 A'i air ef fydd yn parhau byth ;
 Sef ei ddilŷth wirionedd.



SALM CXVIII.

- 1 **Y**R Arglwydd sydd im' gyda mi,
 Nid rhaid im' ofni dynion ;
 Yr Arglwydd sydd y'nghyd â mi,
 Er cosbi fy ngelynyon.
- 2 Gwell yw gobeithio yn Nuw cun,
 Nag mewn un dyn o'r aplaf :
 Gwell yw gobeithio yn yr Ion,
 Na'r tywysogion penaf.
- 3 I'm hing gelwais ar f' Arglwydd eu
 Hawdd ganddo fu fy nghlywed :
 Ef a'm gollyngodd i yn rhydd,
 O'i lân dragwyddol nodedd.
- 4 Y maen sy ben congl-faen i ni,
 A ddarfu'r seiri wrthod :
 O'r Arglwydd Dduw y tyfodd hyn,
 Sy gan ddyn yn rhyfeddod.
- 5 Yr Arglwydd a'i gwnaeth, dyma'r dydd
 Er mawr lawenydd ini :
 Ynddo cym'rwn orfoledd llawn,,
 Ymlawenhawn am hyny.

SALM CXIX.

- 1 **P**OB cyfryw ddyn y sydd a'i daith
 Yn berffaith, mae fe'n ddedwydd :
 Y rhai'n fucheddol a rodian'
 Y'nghyfraith lân yr Arglwydd.
- 2 Pa fodd, O Dduw, y ceidw llanc,
 Sydd ieuanc, ei holl lwybrau ?
 Wrth ymgadw, yn ol dy air,
 Pob llwybr a geir yn olau.
- 3 Bydd dda i'th was, a byw a wna,
 A'th air a gadwa'n berffaith :
 A'm llygaid agor di ar led
 I weled rhin dy gyfraith.
- 4 Mor gu, O Arglwydd, genyf fi
 Dy ddeddf di a'th gyfammod !
 Ac ar y rhai'n, o ddydd i ddydd,
 Y bydd fy holl fyfyrddod.
- 5 Dy air i'm traed i llusern yw,
 A llewyrch gwiw i'm llwybrau :
 Tyngais, a chyflawni a wna,
 Y cadwaf dy lân ddeddfau.
- 6 O cynnal fi, fy Arglwydd Naf,
 A byddaf iach dragwyddol :
 Ac yn dy ddeddfau iach y bydd
 Fy llawenydd gwastadol.



SALM CXXI.

- 1 **D**YSGWYLIAF o'r mynyddoedd draw,
 Lle daw i'm help wyllysgar :
 Yr Arglwydd rhydd i'm gymhorth gref,
 Hwn a wnaeth nef a daear.

- 2 Dy droed i lithro ef nis gâd,
A'th Geidwad fydd heb huno :
Wels, Ceidwad Israel lân
Heb hûn na hepian arno.
- 3 Yr Ion a'th geidw rhag pob drwg,
A rhag pob cilwg anfad :
Cei fyn'd a dyfod byth yn rhwydd ;
Yr Arglwydd fydd dy Geidwad.

—◆—
SALM CXXII.

- 1 **I** DY'R Arglwydd pan dd'wedent, Awn,
Im' llawen iawn oedd gwrando :
Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,
Yr un ni syrth oddiyno.
- 2 Caersalem lân, ein dinas ni,
Ei sail sydd ynddi 'i hunan :
A'i phobl sydd ynddi yn gytun,
A Duw ei hun â'i drigfan.
- 3 Can's yno daw y llwythau 'nghyd,
Yn unfryd, llwythau'r Arglwydd :
Tystiolaeth Israel a'i drig-fod,
A chlod i'w fawr sancteiddrwydd.
- 4 Can's yno cadair y farn sydd,
Eisteddfod Dafydd yno :
Erchwch i'r ddinas hedd a mawl,
A llwydd i'r sawl a'th garo.
- 5 O fewn dy gaerau heddwch boed,
I'th lysoedd doed yr hawddfyd :
Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,
A'm cymydogion hefyd.

—◆—
SALM CXXIII.

- 1 **T**UEDDA 'ngolwg at y ne',
Fy Nuw, dy le trigianol :
Fel y try gweision eu llygaid
At ddwylo'u meistriaid bydol.

- 2 Llygaid llawforwyn, ar bob tro,
A ddilyn ddwylo'i meistres.
Dysgwylwn arnat Dduw'r un wedd,
Am dy drugaredd gynea.

—◆—
SALM CXXV.

- 1 **S**AWL a 'mddiriedant yn Nuw Ion,
Byddant fel Sion fynydd,
Yr hwn ni syf : a'i sylwedd fry
A bery yn dragywydd.
- 2 Fel y saif sail Caersalem fry,
A'i chylchu mae mynyddoedd :
Felly yr Arglwydd yn gaer sydd
Dragywydd cylch ei bobloedd.

—◆—
SALM CXXVI.

- 1 **P**AN ddychwelodd ein gwir Dduw Ion
Gaethiwed Sion sanctaidd :
Mor hyfryd genym hyn bob un,
A rhai mewn hun nefolaidd.
- 2 Nyni â'n genau yn dda'n gwedd,
Gorfoledd ar ein tafod,
Y'mhlith cenedloedd d'wedynt hyn ;
Fe wnaeth Duw drostyn' ystod.
- 3 Y rhai sy'n hau mewn dagrau blin
Hwynt-hwy dan ohwerthin medant :
Felly, f'Arglwydd, dan droi y byd,
Dwg ni i gyd i'r meddiant.

—◆—
SALM CXXVII.

- 1 **Y** TY ni adeilado'r Ner,
Ai' n ofer gwaith y seiri :
Ar ddinas hon nis ceidw efô,
Ni thycia gwyllo ynddi

- 2 Os bore godi, os hân hwyr,
A byw trwy lwyr ofidio;
Ofer i gyd : Duw a rydd hân,
I bob rhyw un a'i caro.
- 3 Wele, y plant a ro'ir i ddyn,
Hiliogaeth y'n i'r Arglwydd :
Ac o'i rodd ef daw ffrwyth y bru,
I'w magu mewn sancteiddrwydd.

SALM CXXVIII.

- 1 C EI gyflawn fendith gan Dduw Ion,
Bydd dithau, Sion, ddedwydd :
Fel y gwelych, a goleu drem,
Gaersalem mewn llawenydd.
- 2 Holl ddyddiau d'enioes, plant dy blant,
Cei weled llwyddiant iddynt :
Ac ar holl deulu Israel,
Daw hedd dyogel arnynt.

SALM CXXX.

- 1 O'R dyfnder gelwais arnat, Ion :
O Arglwydd tirion gostwng
Dy glust, ystyria y llais mau,
Clyw fy ngweddïau teilwng.
- 2 Duw, pwy a saif yn d'wyneb di,
Os creffi ar anwiredd ?
Ond, fel y'th ofner di yn iawn,
Yr wyt yn llawn trugaredd.
- 3 Ei drugareddau ânt ar led,
Fe rydd ymwarded ini :
Fe weryd Israel; fel hyn
Fe'i tyn o'i holl ddrygioni.

SALM CXXXII.

- 1 **O** ARGWLWYDD, cyfod i'th esmwyth lys
 A'th arch o rymus fawredd ;
 Gwisged d'offeiriaid gyflon fraint,
 Gwisged dy saint wirionedd.
- 2 Er mwyn Dafydd, dy fyddlon was,
 Na thyn dy ras yn lliiog :
 Ac na wrth'neba di, er neb,
 Mo wyneb dy Eneinniog.

SALM CXXXIII.

- 1 **W**ELE, fod brodyr yn byw 'nghyd,
 Mor dda, mor hyfryd ydoedd !
 Tebyg i olew o fawr werth,
 Mor brydferth ar y gwisgoedd.
- 2 Fel pe disgynai gwllith Hermon
 Yn dô dros Sion fynydd :
 Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwllith
 Ei fendith, yn dragywydd.

SALM CXXXIV.

- 1 **W**ELE, holl weision Arglwydd nef,
 Bendithiwch ef, lle'r ydych
 Yn sefyll yn nhŷ Dduw y nos,
 A'i gyntedd diddos trefnwych.
- 2 Dyrchefwch chwi eich dwylaw glân
 Yn ei gyssegr-lân annedd :
 A bendithiwch, a chalon rwydd,
 Yr Arglwydd yn gyfanedd.
- 3 Yr Arglwydd, â'i ddeheulaw gref,
 Hwn a wnaeth nef a daear,
 A roddo ei fendith, a'i ras,
 I Sion, ddinas hawddgar.

SALM CXXXV.

- 1 **O** MOLWCH enw'r Arglwydd nef,
Ei weision ef molienwch :
Y rhai a saif i'w dŷ a'i byrth,
I'n Duw, a'i fawrwyrt h ceuwch.
- 2 Molwch yr Arglwydd, can's da yw,
Clod i'r Ior byw a berthyn :
Ceuwch ei glod drwy yr holl fyd,
A hyfryd yw y testyn.
- 3 Can's mawr yw'r Arglwydd yn ei lys ;
Mi wn yn hyspys hyny :
Ymhell uwchlaw'r holl dduwiau mân
Mae'r Arglwydd glân, a'i allu.
- 4 Benithier fyth mawr enw'r Ion,
O Sion hen, a barchem :
Bendithier, moler ei enw fo,
Sy'n trigo yn Nghaersalem.



SALM CXXXVII.

- 1 **I**DAN oeddym gaeth yn Mabilon,
Ar lan prif afon groyw,
Mewn coffadwriaeth am Sion,
Hidlason ddagrau'n loyw :
- 2 Rhoddasom ein telynau 'nghrog
Ar goed canghenog irion,
I.le yr oedd prenïau helyg plan
Oddeutu glan yr afon.
- 3 Os & Caersalem o'r cof mau,
Anghofied dehau ganu :
Na throed fy nhafod, oni bydd
Hi'n ben llawenydd imi.

SALM CXXXVIII.

- 1 **Y**MGRYMAF tua'th sanctaidd dŷ,
Dan ganu o'th drugaredd :
A'th enw mawr uwchlaw pob peth,
A'th air difeth wirionedd.
- 2 Doed breninoedd y ddaear hon,
A rhoen' it' union foliant :
Addolent oll ein gwir-Dduw ni,
Can's d'eiriau di a glywsant.
- 3 Yn ffyrdd yr Arglwydd, yr un wedd,
Ac am ei Fawredd, canant :
Gan ddangos trwy'r holl fyd ei fraint,
A maint yw ei ogoniant.
- 4 Uchel yw'r Ion, etto fe wel
Yr ufudd isel ddynion :
A gwel o hirbell, er eu plâu,
Y beilch a'r gwarau sythion.

SALM CXXXIX.

- 1 **A**RGLWYDD, manwl y chwiliaist fi,
Da y'm hadwaeni hefyd :
Eisteddiad, codiad, gwyddost hyn,
A'm meddwl cyn ei dd'wedyd.
- 2 Yr wyt y'ngghylch fy lloches i,
A'm ffyrdd sydd iti'n hysbys :
Nid oes air nas gwyddost ei fod.
Ar flaen fy nhafod ofnus.
- 3 Pe cawn adenydd bore wawr,
A myn'd i för mawr anial :
Yno bydd dy ddeheulaw di,
I'm tywys i, a'm cynnal.
- 4 Can's rhyfedd iawn y gwnaethpwyd fi,
A'th waith di sy ryfeddod :
A'm henaid a wŷyr hyny'n dda,
A hon a wna it' fswrglod.

- 5 Duw prawf fy meddwl i'n fy mol,
 Oes ffordd annuwiol geny',
 Gwel fi, tywys, dwg fi yn f'ol;
 Dod ffordd dragwyddol i mi.

—◆—
 SALM CXXLI.

- 1 **O** BRYSIA, Arglwydd, clyw fy llais,
 O brysur gelwais arnat :
 O'r man lle bwyf gwranddo fy llef,
 A doed i'r nef hyd atat.
- 2 O Arglwydd, gosod, rhag gair ffraeth,
 Gadwraeth ar fy ngenau :
 Rhag im' gam-dd'wedyd, gosod ddor
 Ar gyfor fy ngwefusau.
- 3 Mae 'ngolwg, a'm holl obaith i,
 Duw, arnat ti dy hunan :
 Duw, bydd di'n unig yn fy mhlaid,
 Na fwrw f'enaid allan.

—◆—
 SALM CXXLIII.

- 1 **E**RGLYW fy arch, O Arglwydd mad,
 Wyf arnad yn gweddio :
 O'th wirionedd, a'th gyfiawnedd,
 Gofynaf it' fy ngwrando.
- 2 Fy nwyllaw atat rhois ar led,
 Lle mae f'ymddiried unig :
 Am danat f'enaid sydd, yn wir,
 Un wedd a'r tir sychedig.

—◆—
 SALM CXXLV.

- 1 **M**I a'th fawrygaf di, fy Nuw ;
 Can's tydi yw fy Llywydd :
 Bendithio dy enw byth a wnaif ;
 Mi a'i molaf yn dragywydd.

- 2 Sef graslawn yw ein Harglwydd ni,
Ac o dosturi rhyfedd :
Hwyr ac annyben yw i ddig ;
Llawnfrydig i drugaredd.
- 3 Wele, mae llygaid yr holl fyd
Yn dysgwyl wrthyd, Arglwydd :
Tithau a'u porthi hwynt i gyl,
Bawb yn ei bryd, yn ebrwydd.

—◆—

SALM CXLVI.

- 1 **F**Y enaid, mola'r Arglwydd nef,
Mi a'i molaf ef i'm bywyd :
Dangosaf glod i'm Harglwydd Dduw,
Tra gallwyf fyw neu symud.
- 2 Hwn Dduw a wnaeth nef, daear, môr,
A'r holl ystôr sydd ynddynt :
Hwn a saif yn ei wir ei hun,
Pryd na bo un o honynt.
- 3 Yr Arglwydd yn teyrnasu fydd,
Dy Dduw tragywydd, Sïon :
O oes i oes pery dy lwydd :
Molwch yr Arglwydd tirion.

—◆—

SALM CXLVII.

- 1 **M**OLWCH yr Arglwydd ; can's da yw
Canu i Dduw yn llafar :
O herwydd hyfryd yw ei glod,
A da yw bod yn ddiolchgar.
- 2 Caersalem dinas gyflawn fydd ;
Yr Arglwydd sydd i'w darpar :
Gan gasglu Israel y'nghyd,
A fu trwy'r byd ar wasgar.

- 3 O Caernaleon, gyflawn o lwydd,
Molianna'r Arglwydd ciddod :
O Sion sanctaidd, dod, un wedd,
I' th Dduw glodfocredd barod.

—
SALM CXLIX.

- 1 **CENWCH** i'r Arglwydd, ac iswn fydd,
Ryw ganiad newydd rhyfedd :
A chlywer y nghyn'lleidfa'r saint,
Ei fawr fraint, a'i orfoledd.
- 2 Boed Israel lawen a sfracth
Yn Nuw, a'i gwnaeth yn ddäbrin :
A byddant hyfryd blant Sion
Yn Nuw, eu tirion Frenin.

—
SALM CL.

- 1 **MOLWCH** Dduw yn ei gyssegr len,
Sef ei ffurfafen nerthol :
Molwch ef i'w gadernid llym,
Ac amllder grym rhagorol.
- 2 Holl bethau molent un Duw byth,
Sydd ynddynt chwyth y bywyd :
Rhoent gydgerdd foliant i barhau :
Clodforwn ninau hefyd.

ENWAU YR AWDURON.

- A. G. Mrs. Anne Griffiths, Sir Drefaldwyn.
 D. C. Parch. David Charles, Caerfyrddin.
 D. J. Mr. David Jones, Llanwrda, Deheudir.
 DR. L. Parch. Dr. Lewis, Drefnewydd.
 D. M. Parch. David Morris, Deheudir.
 D. T. Mr. David Thomas, Caerfyrddin.
 Hymn 258.
- D. W. Mr. David Williams, Llandeilo-fach.
 DR. W. Parch. Dr. Watts. Hymn 492.
 E. E. Parch. Evan Evans, Caerlleon.
 E. J. Mr. Edward Jones, Maesyplwm.
 E. P. Parch. Edmund Prys, Meirionydd.
 G. "Grawnsypiau Canaan," gan y
 Parch. Robert Jones, Rhoslan.
- IAGO Parch. James Hughes, Llundain.
 J. E. Parch. John Elias, Môn. Hymn 257.
 J. H. Parch. John Hughes, Pont Robert.
 J. P. Parch. J. Parry, Caerlleon. Hymn 491.
 J. R. Parch. J. Roberts, Llangwm. Hymn 274.
 J. R. LL-LL. Mr. John Roberts, Liverpool. Hymn 440.
 J. T. Mr. J. Thomas, Pentrefoelas. Hymn 344.
 J. T. Parch. John Thomas, Rhaiadr Gwy.
 Hymn 431.
- J. W. Parch. John Williams, Pantycelyn.
 Hymn 72.
- J. W. Mr. John Williams, Morganwg.
 M. R. Mr. Morgan Rhys, Deheudir.
 ML. R. Parch. M. Roberts, Pwllheli. Hymn 339.
 P. J. Mr. Peter Jones, Liverpool.
 R. H. Mr. R. Hughes, Aberffraw. Hymn 497.
 R. J. Parch. R. Jones, Wern, Meirionydd.
 R. J. LL-LL. Mr. Richard Jones, Liverpool.
 T. C. Parch. T. Charles, A.B. Bala. Hymn 43.
 T. J. Parch. Thomas Jones, Dinbych.
 W. W. Parch. William Williams, Pantycelyn,
 " Peraidd Ganiedydd y Cymry."

D.S. Nid ydym yn hysbys o Awduron yr Hymnau sydd heb enw wrthynt.

DANGOSEG

O BOB PENNILL YN MHOB HYMN A SALM DEWY'R
LLYFR.

	TU. DAL.		TU. DAL.
A all fy llygredd ..	240	A thyna'r boreu....	309
A boed fy mhleser..	189	Ac am fod Duw....	359
A dadymchwel	382	Ac am hyny ti gai'r	10
A doed breninoedd ..	104	Ac arnaf y geilw ..	128
A drigo 'nghym. ..	126	Ac er gwaetha grym	8
A Duw sydd yno yn	92	Ac er lleied yw	221
A dwyn eu ffrwyth..	387	Ac er mwyn y gwaed	14
A dyma waith	238	Ac er nad wyf	326
A ddaw gwawr ar ol.	347	Ac fel y bydd nawdd	390
A ddiffodd cariad ..	313	Ac megys pren	188
A fodd 'tiffeddion ...	309	Ac mi debygaf'	179
A fyddi mwy yn ..	219	Ac mi ddysgwylia'r .	285
A gaiff y fath.....	256	Ac os oes stormydd .	193
A geiriau fy Nuw ..	271	Ac ni cheisiai drysor	1
A gwell y groes....	243	Ac ni fydd mo drag.	27
A heibio'r dywyll ..	307	Ac ni fyddai'n hir ..	8
A minau sydd am ..	102	Ac os oes stormydd .	193
A myn'd tan ganu..	185	Ac wrth wel'd yn ..	279
A newydd gerdd ...	372	Ac yn nyfnder	27
A oes neb o'm holl .	4	Ac yna yr adgy.....	237
A phan bo'n curo ..	176	Ac yno mae fy	167
A phan fo'u hym. ..	194	Ac yno mi af.....	327
A phan y delwy....	260	Ac yno ni gawn....	289
A phe doi'r moroedd	92	Achub, achub, mae'n	19
A phob cenedloedd..	369	Adwaenir Duw	375
A raid i gystudd ...	90	Addefant hwythau ..	391
A raid i minau	236	Addewid gafwyd....	348
A rhwng fy mronau	188	Addurna'm henaidd..	38
A than dy aden	180	Aed, aed, y newydd .	207
A thanat ti pobl....	373	Aed afon iachawdwr.	352
A thyma ei swydd..	245	Aed efengyl fel	163
A thyma'r wlad y ffy	91	Aed efengyl gras ..	280

Aed effeithiol addeu. 70	Am graig yr iachaw. 257
Aed ein Halelua .. 122	Am hyn bydd i mi.. 230
Aed heibio'm dydd . 149	Am hyn fy nghri .. 338
Aed iachawdwriaeth . 330	Am hyn rhyfeddol .. 163
Aed i'r dwyrain 74	Am hyny awn yn .. 106
Aed mawl a gweddi . 288	Am hyny trugarha . 332
Aed newyddion iach. 70	Am iachawdwriaeth. 295
Aed sain efengyl .. 268	Am iddo farw ar .. 86
Aed sain efengyl .. 321	Am roddi ei einioes 220
Aed sain yr udgorn . 288	Anfeidrol oedd llid . 269
Aed sw'n efengyl.... 288	Anfeidrol ydyw 898
Aed y nos derfysg... 55	Anfesuredig yw ei.. 99
Aeth heibio'r gauaf . 190	Angeu ac eiriolaeth. 282
Aeth llu o'r genedl . 295	Angeu bellach 77
Af ato fel yr wyf .. 197	Angeu yw terfyn .. 357
Af at yr orsedd 287	Angylion doent yn . 229
Af bellach yn hy .. 372	Angylion, seraphiaid 119
Af ymlaen a doed a 76	Angylion y nefoedd . 127
Ag isop golch 376	Anghenus wyf bech. 88
Ag offrw'm poeth .. 379	Anghenus wyf o.... 297
Agor y ffynnonau .. 50	Anghyfnewidiol gair 182
Agorodd ddrws i'r.. 249	Annyoddefol ydyw.. 25
Agorodd ef yn lled.. 151	Ant rhagddynt bawb 171
Agorodd ffynnon .. 174	Anturiaf ato yn 35
Agorodd Iesu'n 330	Ar angeu ac uffern . 345
Agorwyd ar y bryn 296	Ar ardaloedd maith . 67
Agorwyd teml yr .. 340	Ar aur-delynnau'r .. 331
Agos iawn yw..... 369	Ar dân yn lân 299
Ai am fy meiau i .. 196	Ar dir na môr 335
Ai byth y digi 384	Ar Dduw yn Arg.. 357
Ai haul yw ef..... 335	Ar ei addewid 310
A'i hyfryd lais 339	Ar ei glanau y mae'n 70
Ai seren yw 335	Ar för tymhestlog .. 193
Am angeu'r groes .. 229	Ar fynydd Golgotha 132
Am ddwyn holl 220	Ar fyr bydd lle i mi 137
Am ei fod i ni 396	Ar fyr caf rodio.... 252
Am fod fy Iesu 274	Ar fyr mi fyddaf .. 310
Am fy mod i yn.... 12	Ar fyr y daw yn nes 319
Am graig i adeiladu 256	Ar Galfari yn..... 263

Ar Galfaria un	277	Beth sydd i mi yn..	225
Ar lan y llyn yn ..	107	Beth yw dwysaf....	165
Ar noswaith oer....	250	Beth yw'r cynnwrf ..	70
Ar ochr f'enaïd	170	Beth yw'r udgorn ..	46
Archoffeiriad uwch .	45	Blant ffyddlon Sion	347
Arglwydd anfon dy .	74	B'le tro fy wyneb ..	166
Argl. arwain trwy'r..	50	Blinais ar afonydd..	3
Argl. clyw 'ngweddi	351	Blwyddau hirion ..	161
Argl. dangos im' dy	366	Blynyddoedd fy oes	346
Argl. ffoed cymylau	220	Boed clod a mawl ..	174
Argl. gollwng di ..	356	Boed dy awelon	157
Argl. grasol dyro ..	69	Boed dyoddefiadau .	183
Argl. manwl chwil	403	Boed gwir ogoniant	160
Argl. y lluoedd sydd	93	Boed i bob llwyth ..	351
Arnat Iesu boed....	56	Boed i ni gael	218
Arogl'i'n beraidd....	37	Boed i ras ein.....	355
Aros Iesu yn y	78	Boed Israel lawen ..	406
Aros rony'n barwyd .	79	Boed oesoedd meith.	87
Arosaf ddydd a	322	Boed y gogoniant ..	155
At wedd dy wyneb .	177	Boed yma fy nyth ..	269
Awn bechaduriaid..	182	Braint, braint, 'does	205
Bechadur gwel	237	Braint, braint, yw ..	201
Bedyddia fi a'r Ys. .	170	Brawd anwyl sy'n ..	255
Bedyddier ni yn fawr	174	Brawd yw efe.....	336
Bellach fe a'r môr..	276	Bryd ca'i ddinystrio	137
Bellach gorfoledda .	214	Bryd ca'i wel'd	21
Bellach minau'n ëon	3	Brydnawn, ar y	203
Bellach ninau caru .	279	Bu dda i'r lleidr....	352
Bendigaid fo yr	381	Buddugoliaeth lân..	275
Bendigaid fyddo'r ..	367	Bugail yw fe roes ..	278
Bendigaid fyth	380	Bum yn dyfal	371
Bendigaid fyth fo ..	141	Bum yn wyneb pob .	43
Bendithier fyth	402	Bu'n angeu i'n	196
Bendithion ar fen. . .	232	Bur wreichionen....	355
Bererin llesg gan ..	37	Bydd breninoedd yn	48
Beth dal im' roi fy..	139	Bydd, bydd, llawen.	202
Beth er i'r per awelon	261	Bydd, bydd, rhyw ..	206
Beth sydd i mi mwyl	68	Bydd, bydd, yn llaw.	202
		Bydd canu nefol ..	327

Bydd dda i'th was ..	397	Cân Haleluia	332
Bydd dda wrth Sion	376	Canaf i'r Arglwydd	390
Bydd gwraig yr Oen	153	Caned awelodd	308
Bydd im' yn dirion	108	Caned cenedlaethau'r	224
Bydd melys gofio y	33	Caned nef a daear ..	280
Bydd myrdd o ryf...	259	Caned nef a daearol.	163
Bydd rhyw drag. ..	266	Caned pechaduriaid.	163
Bydd yno bawb yn	173	Caned y genedl	248
Byddaf fi lawen	360	Caniadau newyddion	119
Bynag beth a welodd	15	Can mil o weithiau .	138
Byth byth o'r bore..	301	Can's Brenin mawr	388
Byth gorfoledda....	181	Can's da yw'r Argl.	389
Byth ni dderfydd ..	76	Can's ef i ni y sydd .	387
Byw, byw, yw'r Iesu	205	Can's cyfion ydyw'r	361
Byw heb wres na ..	35	Can's fy Arglwydd o	401
Byw i m' yw Crist..	155	Can's mawr yw'r ..	402
Byw i mi'n Brophwyd	155	Can's o'r Arglwydd .	385
Byw'n Archoffeiriad	155	Can's rhyfedd iawn .	403
Bywyd perffaith yw'th	58	Can's ti Argl. anfoni	358
Bywyd y rheirw....	153	Can's ti O Arglwydd	384
Cadw fi Dduw	362	Can's ti yw Duw ..	372
Cadw fi'n anwyl....	363	Can's tydi ydyw....	384
Cadw ni Arglwydd .	364	Can's yno cadair ...	398
Ca'dd Satan sigo'i..	117	Can's yno daw y....	398
Caed balm o ar.	217	Cantor tafod	385
Caed ffynnon o ddwfr	126	Canwn mwy am....	163
Cael bod yn fore ..	157	Capten mawr ein ..	28
Cael Duw yn Dad, a	41	Cariad Tad a welai'n	71
Caersalem dinas....	405	Caseion ein Duw ..	382
Caersalem lân ein ..	398	Cauwch lygaid nac .	15
Caf fwyta ffrwyth ..	168	Cawn esgyn o'r dy.	130
Caf gyda'm Han. ..	342	Cawn goronau	312
Caf wel'd a chlywed	350	Cawn hyfryd deml..	294
Caf wel'd aneirif ..	314	Cawn wared o'n	342
Caf wel'd fy anwyl..	315	Cawn wel'd yr add. .	307
Caf wel'd y Bod....	293	Cei fanna ar dy....	116
Caf weled cyn.....	329	Cei gyflawn fendith .	400
Calafia fryn	183	Cei'r cwbl fel y	248
Cân fy enaid mwy..	7	Cei'r gwel'd y dyrfa	154

Ceisiwch wisgoedd y	73	Crist ydyw'r arch ..	340
Cenadon hedd mewn	334	Croesau geirwon sydd	58
Cenwch a churwch .	374	Croeso hyfryd fore..	164
Cenwch chwi glod..	387	Cryfach addewid....	324
Cenwch i'r Arglwydd	388	Cudd fy meiau rhag	53
Cenwch i'r Arglwydd	406	Cul yw'r llwybr	12
Cenwch i'r Ion	367	Curant, canat.....	388
Cenwch i'r Ion	368	Cusenwch y Mab ..	357
Ces ddwfr o'r	253	Cwmwl bychan mewn	71
Ces gadarn graig ..	253	Cwyp mil wrth dy	127
Claf wyf a llesg	218	Cydganed nef a	194
Clod, clod i'r hwn ..	202	Cydganed y ddaear	344
Clod, clod, i'r Oen..	204	Cydganwn âg ang...	194
Clodforaf fi fy	360	Cyduned Sion	198
Clodforaf fi fy	393	Cyfammad cry	337
Clodfod pawb	390	Cyfammad hedd....	337
Clodforwch bawb ..	167	Cyfammad pur	337
Clodforwch Dduw ..	380	Cyfammad rhad....	337
Clodforwch enw....	194	Cyfammad rhwng tri	133
Clodforwn am dir...	175	Cyfarwydda'm fhenaid	12
Clyw Arglwydd fi ..	371	Cyfiawnder Duw ..	340
Clyw f'enaid tlawd .	100	Cyfiawnder marwol .	100
Clywch beth yw'r ..	356	Cyffion yw'r Ion....	395
Clywch gan engyl..	355	Cyflawn o frasder ..	370
Clywch llu'r nef....	354	Cyflawnai'r gyfraith .	196
Codi'm llygaid 'rwyf	20	Cyflawnder nerth ..	180
Cododd fyf o'r	371	Cyflawnwyd y gyfr. .	122
Cofia Arglwydd dy .	36	Cyfnewidiol yw fy ..	31
Cof genyf fi'r	271	Cyfod deffro	369
Cofia f'enaid cyn it' .	11	Cyfod haul sy'n	7
Cofia'th boenau	63	Cyfododd Iesu'n ..	315
Coffaf dy enw.....	373	Cyfranwr rhoddwr ..	305
Concwerwr yw	335	Cymer Iesu fi fel ..	63
Coroni yr ydwyt ..	379	Cymerodd agwedd ..	274
Craig safadwy.....	280	Cymerwch gysur ..	368
Cred ynddo ef	370	Cymhorth di fi	392
Creigiau tanllyd....	69	Cyn llunio'r byd....	340
Crist Iesu, Bren. ..	304	Cynhesodd, do, a'i ..	315
Crist Iesu o'r dyfn.	128	Cyrhaeddwn yn y ..	101

Cysegrwn flaenffrwyth	157	Daeth ffrydiau	217
Cheisiais Argl. ddim	53	Daeth i mi iachawd..	255
Chwi angylion sydd.	64	Daeth Llywydd nef a	319
Chwi bererinion. . . .	111	Daeth trwy, fy Iesu .	203
Chwi erddi cofiwch .	242	'Dai mofyn hæddiant	113
Chwi garcharorion .	321	Daionus a thosturiol	351
Chwi goedydd hyn .	242	Dal fi, er fy ngelyn .	208
Chwi weision Duw .	393	Dal fi fy Nuw, dal..	137
Chwi wyntoedd ewch	262	Dal fi'n gadarn byd .	76
Chwilio am danat ..	61	Dal fy llygad, dal ..	52
Chwychwi a brynwyd	350	Dan bwys euogrwydd	196
Chwychwi fynydd..	394	Dan dy aden dawel .	215
Chwyth beraroglau'r	156	Dan sel y cyfammod	134
D'air fel gordd	69	Danfon i mi'r olew .	224
Da feddyg cleifion..	155	Danfon i mi'r Dydd.	91
Da genyf wrando'r..	379	Darfu'r gauaf.	277
Da iawn i bechadur .	131	Darfydded dydd, dar.	188
Da i mi fod yr	78	Darfydded son	333
Da wyt i'th dir	383	Darfydded son	335
Da yw'r groes a	62	Darfydded son am..	188
Dacw gariad fel	75	Datgan y nefoedd ..	363
Dacw gariad nef. . . .	221	Datgenwch glod yr .	93
Dacw lofrudd ar ei..	65	Datguddia'n gyflawn	90
Dacw'r ardal, dacw'r	15	Datguddiwyd dirg. .	122
Dacw'r Brenin mawr	62	Daw boreu y caf ...	320
Dacw'r deg gorchym	282	Daw, daw, fy Iesu..	201
Dacw'r ffynnon bur .	212	Daw, daw yr hyf. . .	205
Dacw'r ffynnon wedi	80	Daw diwedd ar fy ..	314
Dacw'r ffynnon hedd	223	Daw dydd i'r car. . .	204
Dacw'r gelyn ebe ..	79	Daw dydd i'r cyf. . .	375
Dacw'r gwledydd hyf.	161	Daw dydd o brysur .	258
Dacw'r hoelion geir	80	Daw dydd, y cân ..	202
Dacw'r hyfryd fan..	79	Daw miloedd ar ddar.	133
Dacw'r nefoedd fawr	26	Daw'r byd yn un ..	354
Dacw'r un sydd â... .	17	Daw'r holl dduwiol.	191
Dacw'r unig feddyg .	26	Daw'r Hottentots i .	82
Dadseinied gras. . . .	319	Daw tyrfa rif.	196
Daeth blwyddyn y..	129	Dechreu canu, dech.	54
Daeth Crist i wellhau	163	Dedwydd wyf mi ..	276

Dyro'th Ysbryd i ..	69	Ei gariad bery	287
Dyrus daith i mi ...	228	Ei gariad lifodd....	287
Dysg fi fy Nuw ...	143	Ei glod sydd heb ..	200
Dysg fi gerdded....	7	Ei glwy, a fydd	210
Dysg y galon drist..	56	Ei groes a fyddo ...	209
Dysgleiria fore	311	Ei lef yn hollti'r ...	267
Dysgwyl pethau ...	5	Ei had fydd nerthol .	393
Dysgwyl'rwyf ar hyd	52	Ei hun aeth tan....	339
Dysgwyl yr wyf a ..	169	Ei hun fe roes	338
Dysgwyliaf o'r myn.	397	Ei wedd, a leinw ..	209
Dysgwyliwn ronyn .	298	Ein brodyr sydd o'u	114
Dystewch elynion ..	308	Ein Duw a roisai ..	383
'Dyw fy ngwaith nid	212	Ein holl feddyliau ..	99
Dywaid i mi pa	362	Ein hymborth ein ..	123
'Ddaw anghrediniaeth	92	Eisteddais dan ei ..	188
'Ddaw gwewyr na ..	123	Enyd fechan y sai'n	367
'Ddaw pechod cas ..	102	Er bod arnaf ofnau .	51
'Ddaw syched na ..	120	Er bod blinderau ..	208
Ddiffygiat ddim er..	182	Er bod dy haeddiant	146
		Er bod eu beiau....	351
Edrychwch arno....	147	Er bod i mi lu	271
Ef fydd fel pren ..	357	Er bod saethyddion .	308
Efe aeth o fy mlaen	327	Er bod yn hir	168
Efe a'm carodd cyn .	202	Er bod y'ngrym y ..	253
Efe, fu rhwng	210	Er byw y'mysg gel.	352
Efe'i hun yw'n	380	Er cael fy nghuro'n	162
Efe yw f'unig.....	208	Er cael fy nhafu ..	193
Efe yw'm Meichai .	314	Er claddu perth'nas.	349
Efe yw'r Iawn dros .	334	Er cyn rhoi sail ...	386
Efe yw'r Iawn fu ..	34	Er chwysu'n ngwres	317
Eheda, eheda Efengyl	345	Er gofid a blinder ..	121
Ei air a'i ammod ..	167	Er gorfod goddef ..	281
Ei angeu ar y pren .	330	Er gwaetha'r maen .	254
Ei chwerwaf angeu .	195	Er hyn nid ofnafmwy	314
Ei drugaredd	384	Er hyny pwy a	365
Ei drugareddau	400	Er i ni gollir hedd .	348
Ei enau Ef ei	282	Er lleted yw fy	196
Ei fywyd glân	336	Er llithro i'r llaid ..	337
Ei ganmol bellach..	139	Er mai bechan yw..	23

Er maint fy llygredd	287	Fe ddaw'r blynyddau	285
Er maint fy nghaled	344	Fe ddaw'r dydd y ..	161
Er maint yw lled ..	308	Fe dderfydd dwyn ..	305
Er maint yw llid ..	114	Fe dderfydd ein....	290
Er mwyn Dafydd ..	401	Fe dderfydd i mi ..	251
Er mwyn dy enw ..	366	Fe ddofodd llid cyf. .	170
Er myned oll yn ..	321	Fe ddwg ei saint ..	286
Er nad oes gan	363	Fe ddyoddefodd....	56
Er ofni lawer gwaith	332	Fe ddyrchefir myn. .	48
Er pydru y'ngwaelod	216	Fe ennynwyd ynwy'	64
Erglyw fy arch	404	Fe gaiff dy enw	145
Erglyw O Dduw fy .	377	Fe gaiffywyn ddigon	386
Esgyn a wnaeth i ..	184	Fe gan 'tiffeddion ..	307
Etholiad heb un am.	257	Fe gân y gwared. ..	203
Etholwyd i feddiannu	258	Fe ganodd yr ang. .	154
Etto unwaith mi ...	16	Fe gar y Negro	285
Eu cân fydd am ..	203	Fe gasgla'm llwch..	170
Ewch, ewch oddi am	375	Fe geir gweled	227
F'aeth tan y gyf. ..	216	Fe genir ac fe genir.	249
F'anwylyd sydd....	188	Fe genir cyn bo....	218
F'enaïd bach gas ..	215	Fe genir yno am ...	280
F'enaïd cred, ang. ..	161	Fe gerdd fy nhraed .	186
F'enaïd egwan paid .	54	Fe glywa'r Indiaid..	328
F'enaïd egwan paid .	64	Fe goledd f'enaïd ..	365
Fe a rydd i ni.....	374	Fe goncrodd trwy ..	87
Fe achubodd ef fy ..	276	Fe gwymp Amalec .	276
Fe all i'r lan dy	241	Fe gwympir muriau	353
Fe all yr Indiaid ..	89	Fe gymerth arno'n .	215
Fe bellach fydd	273	Fe gymerth Iesu ..	217
Fe bregethir Iesu ..	275	Fe gymerth Iesu pur	217
Fe brynodd i mi....	180	Fe lysg y byd	149
Fe bwysa gwaed dy.	134	Fe'm cododd i'r lan .	271
Fe dalai i lawr	216	Fe'm daliodd ar....	332
Fe dalodd yr an. ..	286	Fe'm golchir gan ..	184
Fe ddaeth i wella ..	236	Fe'm golchodd i'n ..	270
Fe ddaeth y Jubil ..	185	Fe'm gwelir heb ...	320
Fe ddarfu eu rhyf. ..	187	Fe'm portha i	113
Fe ddaw afon loyw .	276	Fe'm siomwyd gan..	179
		Fe'm siomwyd gan..	255

Fe'n carodd cyn....	198	Fy enaid tu a'r nef .	135
Fe 'nillodd Iesu'r ..	106	Fy Iesu, boed dy ..	316
Fe rodd ei ddwylo..	183	Fy Iesu Brenin	285
Fe ro'wd arno bwys .	27	Fy Iesu mwy fydd..	269
Fe rwygwyd mur ..	235	Fy Iesu yw fy Nuw	309
Fe saif cyfammod ..	185	Fy Iesu yw fy Nuw	327
Fe syrth y ser	153	Fy Iesu yw mer....	243
Fe welir rhyw	343	Fy llais at Dduw ..	381
Fe welir Sion fel y..	90	Fy meiau fân a mawr	327
Fe wnaeth ei babell .	189	Fy meiau oedd y ..	187
Fe wnaeth ryfeloedd	93	Fy meiau trymion ..	187
Fe ylch ein beiau ..	182	Fy mhechod maddeu	137
Fe ymad cenfigen ..	48	Fy Mhriod a'm Pen.	270
Fel afon cref lifeiriol	98	Fy Mhriod yw	339
Fel bore wawr	262	Fy Mrawd yw'r Iesu	112
Fel dysgwyl y gwyl.	142	Fy mywyd yw mewn	156
Fel fflamau anger...	126	Fy Naf a roes y dydd	372
Fel hyn trwy'r holl .	244	Fy natur egwan....	43
Fel na bwy'n gwrân.	166	Fy nghalon i a'm ..	381
Fel pe diagynai	401	Fy nghwyn boed am	316
Fel pwysi myrrh ...	187	Fy ngobaith inau a .	380
Fel un faeddwyd....	212	Fy ngweddi dos i'r..	108
Fel ŵyn yn wirion..	152	Fy nharian a fy....	305
Fel y molianner....	173	Fy noddfa gadarn ..	98
Fel y saif sail.....	399	Fy Nuw fy Nhad ..	236
Fry esgynodd Mab .	227	Fy Nuw pan lefais .	367
Fry yn Nghaersalem	293	Fy nwyllaw atat	404
Fy anwylyd hawdd..	281	Fy nyled ar groes ..	349
Fy enaid cod, a dos .	336	Fy Rhosyn Saron ..	112
Fy enaid cofia Galfari	266	Fy sail a'm nerth ..	209
Fy enaid cofia'r	266	Fy unig Dduw	378
Fy enaid dan wae ..	271	Fy unig noddfa yw..	299
Fy enaid i sychedig .	372	Fy unig noddfa'n ..	304
Fy enaid i sydd	271	'Fydd son, am alar..	204
Fy enaid mawl	389	Fyth fyth rhyfedd. .	249
Fy enaid mola'r....	405	Fyth i'r Tad y bo'r .	6
Fy enaid nac angh. .	265	Ffarwel bellach hen.	161
Fy enaid sychedig..	120	Ffarwel bleserau'r ..	113
Fy enaid trist wrth .	34	Ffarwel bob peth ..	221

Ffarwel deganau'r ..	115	Golch fi oddiwrth ..	331
Ffarwel deiau, ffar. .	18	Golch ni oddiwrth ..	206
Ffarwel fo i haedd. .	104	Gorchfygodd Brenin	303
Ffarwel, ffarwel	333	Gorchfygodd fyd ..	339
Ffarwel holl wrth. ..	44	Gorchfygodd uffern .	197
Ffarwel i chwi gynt	4	Gorphenwyd clywch	159
Ffarwel i oll fedd. . .	150	Gorphenwyd, cyngh.	159
Ffarwel mi af.	333	Gorphenwyd, dyma':	318
Ffarwel y fo'r byd ..	270	Gorphenwyd, dyma'r	318
Ffordd a drefnwyd. .	32	Gorphenwyd, dyma'r	318
Ffordd newydd wnaed	151	Gorphenwyd, dyma'r	318
Ffordd nid oes o ...	59	Gorphenwyd, medd .	159
Ffordd wnaethpwyd .	269	Gorphenwyd, ni bydd	318
Ffrydiau tawel byw .	35	Gorphenwyd talu'n .	295
Ffydd dacw'r man ..	263	Gorphwysfa dawel..	167
Ffynnon wyt o bob. .	2	Gorphwysfa ynddo..	318
		Gorthrymder ar orth.	260
Gad i mi ado	186	Gosod babell yng. . .	28
Gad i mi dreulio ...	140	Gras, gras, yn gen. . .	270
Gad i mi ddoed i'r ..	152	Gras yn llifeirio. . . .	240
Gadawn y byd	307	Grawnsypiau yno ..	325
Gadawodd y lliein. .	184	Gronyn o'th hedd ..	139
Gair o'i enau sanct. .	223	Gwaed dy groes. . . .	54
Galar a phechod ..	219	Gwaith gorphenol ..	227
Galaru'r wyf mewn .	349	Gwaith hyfryd iawn. .	350
Galarwyr Sion	317	Gwaith rhyfedd oedd	158
Galerwch fryniau ..	241	Gwaredu ei saint ..	238
Galw yr wyf arnat ..	363	Gwasgara di'n gel ..	172
Gan im' gredu	370	Gwasgara'r tew gym.	251
Gobaith a nerth. . . .	374	Gwas'naethwch chwi	357
Gobeithia f'enaid ..	317	Gwawrddydd, gwawr.	54
Gogoniant am achub	345	Gwawria, gwawria. .	67
Gogoniant fo i Dduw	274	Gwedd dy wyneb sy'n	19
Gogoniant fydd an. .	344	Gweddio'r wyf och. .	139
Gogoniant, gogon. . .	344	Gwel ar y croesbren	237
Gogoniant hon a'i ..	306	Gwel f'enaid	192
Gogoniant i'r cyfiawn	345	Gwel ni yn myn'd. .	152
Gogoniant rhown ..	302	Gwel y truan, gwel .	228
Gogwydd dy glust. .	368	Gwelaf graig a'in ..	68

Gwel'd cleddyf cyf.	132	Gwynfyd a fae	214
Gweled ereill yn	25	Gwyn fyd y rhai	169
Gwelir mai'r bedd	375	Gyda thi mi af	1
Gwelir pobloedd	227	Haul a gwres, maent	175
Gwelir teyrnas Iesu	227	Haul y cyfiawnder	146
Gwell wyt i mi	242	Heb gyfeiliorni	167
Gwell yw gobeithio	396	Heb saeth, heb fraw	240
Gwell yw na mil	383	Hed fel mellten	67
Gwisg dy gleddeu	373	Heddyw rho fy	215
Gwlad dda heb wae	334	Hen efengyl fo'n	72
Gwlad, gwlad o'r lle	201	Henffych gyfeillion	113
Gwlad o d'wllwch	2	Henffych i enw	350
Gwledd, gwledd, o	201	Henffych i'r bore	293
Gwn mai rhinweddol	138	Hiraeth sy ar fy	214
Gwna f'enaid	322	Hiraethu 'rwy'n	271
Gwna fi farw	214	Holl bethau molent	406
Gwna fi fel pren	333	Holl ddyddiau d'ain	400
Gwna fi'n ffrwyth	46	Hon sy gan Dduw	365
Gwna fod d'ogon	152	Hosanna Haleluia	291
Gwna fy enaid fel	46	Hwn Dduw a wnaeth	405
Gwna im' fyn'd ym	109	Hwn ydyw'r un	305
Gwna i mi gadw	233	Hwn yw'r Oen ar	81
Gwna i ryfeloedd	374	Hwy dy fradychodd	187
Gwna ni fel halen	152	Hyfryd fore o gaeth	215
Gwna'r Arglwydd	360	Hyn fydd pan gasglo	389
Gwna'r gwylltiaid yn	346	I b'le'r ai 'mofyn	134
Gwnaed concwest ar	87	I bwy mae gwarth	198
Gwnaeth Iesu ber	198	I bwy y bryniau	292
Gwnaeth Iesu gym	197	I Dad y trugareddau	160
Gwneir diwedd ar	293	I Ddafydd llawen	303
Gwnes addunedau	323	I ddangos nad	387
Gwnes y dewis goreu	13	I dŷ'r Arglwydd pan	398
Gwrandawed di yr	364	I fynu at fy	317
Gwybyddwch ethol	358	I fynu daeth o Edom	237
Gwybyddwch mai'r	389	I gael ymweled	366
Gwych sain, fydd	207	I gaethion Babilon	321
Gwyn a gwridog	278	I groth y wryf	320
Gwyn ei fyd a	383		
Gwyn ei fyd yr	372		

I lawr daw'r eilun ..	352	I'r Iesu boed y	103
I lawr y daeth	266	I'r lan o'r bedd	158
I mew'n i'r porth. ..	194	I'r lanos bydd in'ddod	207
I oesoedd maith....	338	I'r llafur mawr	173
I olchi fy mai	270	I'r nefol byrth	331
I ti O Dduw y	378	I'r sawl a gadwo ...	366
Iachawdwr dynolryw	322	Is wybr ni bu.....	271
Iachawdwriaeth rad .	59	Llais hyfryd rhad ..	345
Iachawdwriaeth sydd	277	Llama fel hydd	141
Iechyd y cyfion	370	Llamu wnaeth dros .	72
Iehofah ddaeth i....	274	Llanwed moroedd ..	164
Iesu a'i gyfiawnder .	282	Llaw Duw a'm dal .	184
Iesu difyrwch.....	180	Llawenydd bythol i'w	99
Iesu ei hunan	165	Llawenydd bywyd ..	172
Iesu ein Harch.	280	Llawn euogrwydd ...	51
Iesu gollodd ddwyfol	222	Llawn Halelua	313
Iesu gorphwys yn ..	223	Llawn o ofid, llawn .	227
Iesu Grist un rhyf. .	47	Lle byddai y'mhlith	137
Iesu Grist y wir....	335	Lle na bydd brad ..	137
Iesu hawddgar rwy'n	14	Llef radlawn yw a..	268
Iesu helpa f'enaid..	214	Lleasant drwy ym. .	364
Iesu Iesu 'rwy't ti'n .	63	Llid nag un gen. ..	213
Iesu llawnder mawr .	10	Llifed ffrwd y dyf..	70
Iesu 'Mrenin mawr .	214	Llon'd y nefoedd ...	99
Iesu nid oes terfyn .	56	Llwch wyf fi, o'r ..	63
Iesu sydd deilwng ..	194	Llwbr cwbl groes ..	38
Iesu ti wyt ffynnon .	23	Llwydda Efe o for..	381
Iesu y dirmygedig un	228	Llwyddiant i'r cen..	164
Iesu ydyw'r unig ..	165	Llygaid llawforwyn .	399
Iesu yw dyfyrwch ..	282	Maddeuaist ganwaith	138
Iesu yw tegwch	189	Maddeuant sy yma .	283
I'm Harglwydd Dduw	359	Maddeuant yma....	306
I'm hing gelwais ..	396	Mae addewidion....	191
Impier hwynt i'w ..	49	Mae angeu'r groes..	273
Ior cynnal f'enaid ..	300	Mae ar ddeheulaw'r .	315
I'r Arglwydd bellach	395	Mae arnaf eisiau ...	348
I'r Arglwydd byth .	358	Mae arnaf hiraeth ..	42
I'r Arglwydd cenwch	388		
I'r holl genedloedd .	388		

Mae Babilon yn ...	160	Mae ffynnon loyw ..	304
Mae baner rhinwedd	352	Mae gan Dduw win .	157
Mae bod yn fyw....	36	Mae gelynion i mi'n	57
Mae bore mawr	301	Mae gobaith f'enaid	197
Mae braint yn awr..	203	Mae gras yn rhyw..	146
Mae briw y bicell ..	314	Mae gwaed ei groes	326
Mae brodyr i mi ...	84	Mae gwedd ei wyneb	154
Mae brodyr i mi ...	191	Mae gwledd i'w chael	353
Mae brodyr i mi ...	192	Mae gwyliau'r hyf. .	328
Mae bwrdd yn llawn	294	Mae haeddiant mawr	334
Mae cariad yn	320	Mae heddyw afon ..	330
Mae clywed newydd	285	Mae heddyw felys ..	331
Mae cofio heddyw ..	286	Mae heddyw yn	329
Mae cwmwl mawr ..	259	Mae hiraeth arnaf ..	42
Mae deng myrddiwn	61	Mae hiraeth yn fy ..	254
Mae doniau f'Argl..	328	Mae hon yn golchi'r	266
Mae Duw anfeidrol .	40	Mae Iesu Grist o'n .	136
Mae dy air yn abl ..	78	Mae llafur enaid ...	82
Mae dy Ysbryd di..	58	Mad llais i'm galw .	189
Mae dydd at ddydd .	85	Mae llais y durtur..	305
Mae dydd y farn ...	173	Mae llais y nef ,...	352
Mae dyddiau grudd.	192	Mae llid o'r dwyrain	179
Mae dyfais parch ..	187	Mae lluoedd maith..	306
Mae eglwys Dduw .	333	Mae lluoedd maith..	327
Mae ei flyddlondeb..	180	Mae mae ein Harg..	205
Mae ein taith.....	222	Mae, mae, rhyw hir.	200
Mae e'n maddeu bei.	60	Mae, mae, yr amser	201
Mae eaw f'Anwylyd	342	Mae meddwl am yr	90
Mae f'enaid i	383	Mae meiau o'r fath	272
Mae 'fengyl gras ...	293	Mae mil o filoedd..	284
Mae fy hwyliu	15	Mae modd i'r caeth.	94
Mae fy nghalon am .	14	Mae'm cydwybod ..	6
Mae fy nghalon am .	39	Mae'm mrodyr uwch	109
Mae fy Mhriod, mae	66	Mae'm rhedfa is y..	302
Mae fy Mhrynwr ..	282	Mae'm siwrnai yn y	311
Mae fy Nuw yn fy .	18	Mae'n achub hyd yr	291
Mae fy nwydau wedi	61	Mae'n awr yn eistedd	204
Mae ffrydiau gorfol.	130	Mae'n brawd wedi ..	123
Mae ffrydiau'r afon .	99	Mae'n bryd i ni ganu	342

Mae'n ddiâu fod y..	329	Mae'r gwyntoedd yn	176
Mae'n eistedd ar ..	184	Mae'r haul yn ddys.	190
Mae'n hynaf Frawd .	315	Mae'riachawdwriaeth	182
Mae'n meddalhau yr	268	Mae'r iachaw. rad ..	195
Mae'n perthyn i mi	135	Mae'r ieuainc yn ..	156
Mae'n wisg i'r noeth.	155	Mae'r lle sancteidd.	119
Mae nghalon i'n friw	271	Mae'r llwybr heddyw	102
Mae 'nghydwybod ..	224	Mae'r manna gwedi	111
Mae nghyfeillion ..	4	Mae'r moddion a'r..	258
Mae ngofid yn yr ar.	96	Mae'r nos yn ffoi ..	82
Mae ngolwg a'm holl	404	Mae'r orsedd fawr ..	177
Mae pawb o'r brodyr	191	Mae'r orsedd wen ..	309
Mae pechod o bob..	323	Mae'r seithfed dydd	160
Mae pen ein taith ..	100	Mae'r udgorn mawr	341
Mae peraroglau'th..	325	Mae rhinwedd yn dy	103
Mae pererinion draw	189	Mae rhyw ddirgelwch	147
Mae pob peth ynddo	155	Mae rhyw foroedd o	20
Mae pyrth y nef....	177	Mae rhyfeddodau rif	159
Mae'r anialwch wedi	20	Mae seintiau yn ..	179
Mae'r Archoffeiriad .	340	Mae Sion wan	341
Mae'r awr i'm gael .	206	Mae tegwch dy wyn.	325
Mae'r Brenin yn y .	308	Mae temtasiynau'r..	178
Mae'r byd yn ffoi ..	355	Mae torf aneirif....	259
Mae'r cloff yn llamu	94	Mae torf aneirif fawr	323
Mae'r cynhauaf yn..	48	Mae turtur yr.....	190
Mae'r deillion yma'n	110	Mae'th drugareddau	91
Mae'r dydd yn dod i	290	Mae udgorn Jubili .	302
Mae'r dydd yn dod i'r	36	Mae uffern wedi....	294
Mae'r dyled wedi ..	291	Mae yma bur ath. ..	243
Mae'r efengyl wen..	74	Mae yma drugaredd.	182
Mae'r etholedig ryw	117	Mae yma ffynnon ..	283
Mae'r faner fawr ..	308	Mae yn ei glwyfau .	89
Mae'r faner i fynu..	343	Mae yn ei heddwch .	180
Mae'r fynydd leiaf ..	149	Mae ynddo'i hunan .	178
Mae'r ffordd yn awr.	313	Mae ynddo nerth di.	236
Mae'r ffynnon heb .	299	Mae yno dri Pherson	118
Mae'r ffynnon yn ..	235	Mae ynot dy hun ..	271
Mae'r Ganaan hyfryd	325	Mae yr Iorddonen ..	103
Mae'r gwyntoedd ..	284	Maent hwy'n rhy. ..	189

Maent wedi dianc ..	321	Mi feddyliais cawn i	65
Maith yw'r nos a ..	51	Mi feddyliais yn y..	57
Manna nefol sy	21	Mi fliniais fod.....	131
Marchog ar air	378	Mi fum wrth borth .	132
Marchog Iesu yn ..	10	Mi gaf fod o flaen ..	75
Marwolaeth fy Ngwa.	183	Mi gaf fy nghorff ..	239
Mawl i ti f'Arglwydd	321	Mi gaf glywed cyd..	24
Mawr ei enw'n ninas	374	Mi gaf goncwest ..	279
Mawriawn yw	393	Mi gaf yfed yno....	18
Mawr oedd Iesu yn .	83	Mi gaf yn y wlad ..	53
Mawr wyt ein Tad .	160	Mi gana am waed ..	106
Megys lili coch ..	282	Mi ganaf byth am ..	334
Melys fel manna ..	140	Mi ganaf tra bo....	229
Melys odiaeth yw ..	164	Mi gara f'anwylyd .	121
Melysyw dydd y Sab.	350	Mi gara fy anwylyd .	89
Mewn cnawd i'n tynu	319	Mi ges arwyddion ..	111
Mewn dyrys anial ..	297	Mi ge's berl gwell..	161
Mewn gwlad o draff.	114	Mi ge's y Ffrynd ..	342
Mewn gwlad o fythol	322	Mi godais i fynu fy .	125
Mewn ymbiliau'n ..	71	Mi gofia eiriau'm ..	172
Mi a gymeraf.....	395	Mi gofiat yno am y .	150
Mi a 'mddiriedais ..	368	Mi greda etto'n hy .	313
Mi af ymlaen er ..	140	Mi gysgaf hân yn .	293
Mi af ymlaen er ..	147	Mi nis gallaf wneyd .	26
Mi af y'mlaen yn ..	189	Mi orweddais ac a ..	358
Mi anturiaf at	177	Mi rof fy 'mddiried .	176
Mi a'th fawrygaf ..	404	Mi rof fy meiau....	105
Mi a'th folaf a	377	Mi welaf dyrfa	186
Mi bwysaf ar ei....	310	Mi welaf draw o....	309
Mi debygwn gwelai'r	77	Mi welaf fy mod ..	270
Mi deithia'r anial ..	298	Mi welaf fyrdd dan .	101
Mi deithiais ran o'r .	84	Mi welaf fyrdd yr ..	91
Mi dora'r c'lymau ..	91	Mi welaf ffynnon ..	351
Mi dreulia oriau ..	296	Mi welaf lu anfeidrol	288
Mi ddymunwn wel'd	55	Mi welaf yn ei fywyd	230
Mi ddysgwyliaf doed	53	Mi wela'n codi'r ser.	149
Mi ddysgwyliaf yno'n	60	Mi wela'n ei glwy ..	272
Mi edrychaf ar i....	17	Mi wela'r cwmwl ..	311
Mi feddylia' fod y ..	16	Mi wn fod fy Mhryn.	124

Mi wn i Grist, mi ..	112	Myfyrio am fyn'd ..	96
Mi wn mae'm beiau	135	Myn'd a wnaf dan..	273
Mi wna fy nghartre'	297	Myn'd trwy, anial. .	353
Mi wna'm gorphwys.	169	Myrddiynau dros ..	199
Mi wyra weithiau ..	182	Na âd fi ymddiried .	146
Mi ymddifyra wrth .	275	Na foed im' garu ..	105
Mi ymddiriedaf yn..	50	Na foed un dyn	225
Mi ymddiriedaf yn .	184	Na'd fi adeiladu'n ..	75
Mil o filoedd myrdd	62	N'ad fi ar aswy	176
Mil o werin chwardd	57	N'ad fi i foddioni ...	185
Miloedd o feddyliau	224	N'ad i mi ofni	108
Minau a ganaf i ti..	370	'Nawr heddwch an .	264
Minau ar y mur....	77	'Nawr mae cym. ..	307
Minau bellach a ob.	81	'Nawr mi glywa'r ..	81
Minau bellach orfol.	75	'Nawr, O fy enaid ..	117
Minau bryfyn gwael	24	'Nawr 'rwy'n gwel'd	161
Minau ddof i'r ffyn.	59	Nef, nef, yw llewyrch	208
Minau fel olewydden	376	Neidia'r mynydd. ..	394
Minau fyddaf ddiddig	347	Nerth os caf mi....	9
Minau ffeiddiaf un .	110	Nerthoedd y tragwy.	69
Minau gerddaf trwy'r	78	Newydd byth a fydd	84
Minau gredaf yn ...	275	Newydd mawr a ...	64
Minau gweddiaf....	377	Newyddion braf a ..	135
Minau mewn myfyr.	363	Ni ail Satan, deddf .	168
Minau'n dy nawdd..	362	Ni attolygwn, dyro .	173
Minau'r gwaela o ..	76	Ni awn fel hyn	190
Moliannwn yr Iesu .	343	Ni bydd y wledd ...	252
Molwch Dduw yn ei	406	Ni chaiff fyth o'i ..	277
Molwch yr Arglwydd	391	Ni chant na phla ..	322
Molwch yr Arglwydd	402	Ni cheisiaf loches ..	148
Molwch yr Arglwydd	405	Ni cheisiai'n wyneb .	251
Mor gu O Arglwydd	397	Ni chollwyd gwaed .	310
Môr sydd ynot o....	13	Ni chwynwn byth ..	199
Mwy gwerthfawr i'm	270	Ni deithiwn yn y ..	106
Mwy mwy, yw budd.	200	Ni 'drychaf ar	234
Mwy yw d'eiriau ...	63	Ni ddaw, na phoen .	201
Mwy yw fy mhleser .	150	Ni ddygwydd niweid	386
Myfi hwn wyf Alpha	125	Ni feddai ar y ddacax	178
Myfyriaf gerdd byth	385		

Ni fedda'i dan y ne' .	298	Nid oes un gwrth. .	138
Ni feddai ffrynd	167	Nid oes yno gofio ..	63
Ni fethodd gweddi..	177	Nid ofnai'r byd	183
Ni fuasai genyf	230	Nid ofni rhag dych.	127
Ni gawn yno wel'd ..	80	Nid rhaid ofni'r	211
Ni gawn wel'd a'i ..	80	Nid yw dyn	386
Ni gerddwn tua'r ..	329	Nid yw hardd wrth.	165
Ni glywsom Arg. ..	330	Nid wy'n ceisio	221
Ni ordeiniwyd fy ..	45	Nid yw eu llygaid ..	210
Ni phery ddim	311	Nid yw'm pechod ..	222
Ni phery'r anial	218	Nid yw orchesti mi'n	276
Ni raid esgyn fry ..	65	Ninau dy bobl	382
Ni theimlir yno	191	Ninau 'molchwn ..	281
Ni theimlodd cnawd	188	Nis dichon byd	37
Ni throf fy wyneb ..	179	Nis gall angylion nef	86
Ni welai wrthddrych	179	Nis gall angylion pur	179
Ni welir monynt ..	321	Nis gall holl hyfryd.	19
Ni welir un yn	308	Nis gallai gwaed ..	197
Ni welodd llygad dyn	89	Nis teimlodd neb ..	86
Ni wyr neb ond sydd	84	Noddfa pechadur ..	311
Nid allai'r holl	344	'Nol cyfeiliorni	186
Nid allodd angeu du	216	'Nol edrych ar ol ..	232
Nid beiau'r plant ..	117	'Nol gorphen ar ei ..	216
Nid dyfnder ac	188	'Nol marw Brenin ..	316
Nid eill moroedd ..	35	'Nol rhoddi'n Har. .	216
Nid fy nef yw ar ..	13	'Nol tywyllwch	276
Nid i ni, Arglwydd .	395	Nyni a'n genau	399
Nid oes, a ddeil fy..	199		
Nid oes a'm ceidw..	353	O achub bellach ...	361
Nid oes angel, nid ..	6	O achub fi fy Nuw .	359
Nid oes arnaf faich .	52	O addfwyn Iesu gad	98
Nid oes enw y'mhlith	12	O agor fy llygaid ..	129
Nid oes ffynnon wedi	17	O am bara i uchel ..	40
Nid oes gan blant ..	342	O am dreiddio i'r ..	40
Nid oes gwrthddrych	37	O am dynu o'r an. .	39
Nid oes neb ond ...	165	O am gael ffydd ...	247
Nid oes, ni fu	199	O am nerth i dreulio	1
Nid oes ond f'Argl.	95	O am yfed yma beu.	38
Nid oes terfyn	278	O anfeidrol berffaith	27

O anfeidrol rym y ..	31	O cenwch glod	387
O angeu pur y	274	O cesglwch ataf.....	376
O anghrediniaeth ..	184	O cofia fi, ger.....	138
O anialwch maith ..	11	O cofia fi pan.....	148
O anwyl Iesu brysia	137	O cofia'th wae	143
O ardaloedd nef. ...	210	O cofiwch eich	156
O Arglwydd clyw ..	384	O cofiwn hoelio Iesu	267
O Argl. cofia fi.....	391	O cred, o cred cai ..	234
O Argl. cofia'th.....	143	O cyfod bellach.....	389
O Argl. cyfod	401	O cynnal fi fy	397
O Argl. dena'm.....	142	O dal fi 'rwyf.....	273
O Argl. dysg i'm ..	256	O dangos d'allu.....	272
O Argl. Dduw byw.	159	O dan dy adenydd ..	304
O Argl. Dduw erglyw	378	O dangos im' fy Arg.	371
O Argl. Dduw rhag.	247	O derchafa'm henaid	5
O Argl. Dduw y.....	383	O dere i ben ddedwydd	134
O Argl. ein Ior.....	360	O dere i ben hap. ..	151
O Argl. erglyw.....	366	O dere tua'r bywyd .	247
O Argl. fy Mhry. ...	364	O deffro cyfod Dduw	373
O Argl. fy Naf.....	271	O dewch y'mlaen yn	88
O Argl. gosod rhag .	404	O doed i ben hwnw .	151
O Argl. na cherydda	359	O dowch a chanwn .	387
O Argl. pa'm y sefi .	360	O dowch genedloedd	285
O Argl. rho im'	238	O dowch yn nes.....	379
O Argl. trugarha ...	331	O down yn unfryd ..	387
O arwain fy enaid ..	131	O dragwyddol iach. .	31
O Baran bell	337	O dwg fy enaid i ..	171
O bell mi wela'm ..	265	O dy glwyfau rhed..	225
O bobloedd molwch .	379	O dyma ddyfais fwy. .	87
O brysia Arglwydd .	404	O dyma syndod	219
O bwrw d'ofal	377	O dystawa 'nghalon .	14
O byrth tragwyddol .	193	O dystewch gynddeir. .	57
O Caersalem gyf. ..	406	O ddedwydd ddydd .	34
O caned archangelion	193	O ddedwydd hapus .	150
O caned nef ag	267	O ddedwydd nefol ..	88
O cau fy llygaid ...	180	O ddinas Duw	384
O cenwch, cenwch..	374	O Dduw ein hiech..	382
O cenwch fawl	396	O Dduw fy iech. ..	385
O cenwch fawl i.....	382	O Dduw gwna	386

- | | |
|------------------------------|-----------------------------|
| O Dduw mor rhy. . . 390 | O fugail Israel 168 |
| O Dduw na ddyro . . 376 | O ffynnon fawr 310 |
| O Dduw rho i'm dy 301 | O ffynnon fawr o . . 311 |
| O Dduw y lluoedd. . 382 | O ffynnon werthfawr 322 |
| O ddwyfol anorchfyg. 195 | O gad i mi'n fuan . . 76 |
| O ddwyreindir gras . 80 | O gad im' mewn . . . 185 |
| O ddyddiau dedwydd. 343 | O Galfaria llifodd . . 279 |
| O ddyfnderoedd iach. 33 | O Galfaria mae fy . . 275 |
| O ddyfnderoedd, O. . 6 | O gariad, O gariad. . 344 |
| O edrych arnaf 178 | O gariad heb ei 240 |
| O eiriol droswyf. . . . 192 | O golch fi beunydd. . 170 |
| O enw ardderchocaf. 239 | O golch fi yn y ffynn 154 |
| O estyn etto i barhau 370 | O groth y goleuni . . 128 |
| O ewch i'w byrth . . 389 | O Greenland rewlyd 261 |
| O f'enaïd gwel add. 248 | O grwydrad pell . . . 339 |
| O f'enaïd gwel ar . . 94 | O gwasgerwch dew . . 55 |
| O f'enaïd gwel fath . 233 | O gwawria foreu . . . 324 |
| O f'enaïd gwel y fan 34 | O gwisg holl weision 156 |
| O f'enaïd hed i'r . . . 273 | O gwna fi'n ffyddlon 185 |
| O f'enaïd nac angh. . 158 | O gwna i fy nghalon 176 |
| O f'enaïd nac angh. . 267 | O gwna i mi brofi . . 79 |
| O feiau mawr beth . 146 | O gwna i mi wylio. . 96 |
| O feusydd Edom . . 193 | O gwrando weddi'r . 105 |
| O fewn Caersalem . . 309 | O gwyn ei byd. 154 |
| O fewn dy babell . . . 378 | O gwyn ei fyd 290 |
| O fewn dy gaerau . . 398 | O gyfiawnder pur . . 11 |
| O fewn i'r anial 150 | O gyfoeth diderfyn. . 341 |
| O fewn i'r byd ni . . 167 | O gyr dy oleu moes. 373 |
| O fewn i'r wlad 170 | O haeddiant annher. 245 |
| O flaen ei gerbyd . . 158 | O heddwch pur y ne' 326 |
| O flaen y drugareddfa 146 | O henffych ddedwydd 320 |
| O flaen y fainc. 231 | O herwydd ar ddeheu 392 |
| O filwyr ieuainc. . . . 156 | O herwydd it' wneuth 127 |
| O fore llawn o hedd. 104 | O hoelia 'meddwl . . 145 |
| O foreuddydd ded. . . 228 | O holl weithredoedd 148 |
| O foreuddydd y briod. 3 | O hyfryd dawl 190 |
| O foroedd o ddoethin. 231 | O hyfryd ddedwydd . 91 |
| O fryn Sion y daeth. 375 | O Iachawdwr pechad. 3 |
| O fryniau Caersalem 130 | O Iachawdwriaeth . . 295 |

O iachawdwriaeth gad	232	O pa bryd y daw . . .	44
O iachawdwriaeth gyf.	246	O paid â mi gad i'm	371
O Iesu byw, Iachawd.	264	O profwch, gwelwch	369
O Iesu fy Ngwardwr	170	O prynwr mawr . . .	328
O Iesu'm ffrynd	263	O pwy, all chwilio ..	199
O Iesu mawr	144	O pwy, ymguddiodd.	199
O Iesu pwy all beidio	238	O pwy yw hon sy'n .	262
O Iesu'r Meddyg ..	107	O ras didranc dider..	233
O Ior fy ngrym	363	O rhedwn bawb yr ..	294
O llanwed iachawdwr.	291	O rhwyga'r tew gym.	39
O llefara addfwyn ..	19	O rhwyma fi wrth ..	191
O maddeu mai, a ..	187	O sancteiddia f'enaïd	58
O melys yw'r wledd .	270	O Sion yr enfyn yr .	128
O molwch enw'r Arg.	402	O tyred addfwyn . . .	273
O mor werthfawr . . .	370	O tyred Arglwydd..	325
O myn ogonedd	330	O tyred Arglwydd Ior	160
O na allwn garu'r ..	165	O tyred awdwr	323
O na allwn rodio ..	178	O tyred awdwr hedd	323
O na allwn roddi . . .	311	O tyred i lawr	271
O na allwn tra f'wyf	226	O tyred i'th ardd ..	153
O na bai cystuddiau .	55	O tyred y gogledd . .	153
O na byddai cariad .	45	O tyred Ysbryd	186
O na byddai oriau ..	55	O unig Dduw bydd .	392
O na chawn i dreulio	42	O wir Ddyddanydd .	195
O na chawn ddifyru .	59	O wir frys i'r gyflafan	392
O na chawn i olwg .	164	O wynfydedig dded .	264
O na chlywn yr udg.	17	O ynfydrwydd! O ffol.	5
O na ddoi dydd yr ..	151	O Ysbryd Glan i'n .	172
O na foed ardal cyn .	151	O Ysbryd pur nefol.	235
O na roddai f'Argl .	212	O Ysbryd sancteidd.	245
O na threuliaswn ..	157	Oer a marwaidd yw .	46
O na welwn ddydd ..	162	Oes moddini oleuwyd	261
O na welwn gopa'r .	77	Offeiriad trag'wyddol	129
O 'nawr addfwynaf .	200	Ofni 'rwyf nas ce's..	25
On'd oes ambell un .	71	O'i gyssegr rhoed ..	364
O nefol addfwyn . . .	312	Oll a welai tan y ne	221
O nefol awel chwyth	195	Omega Alpha mawr	112
O nertha f'enaïd . . .	139	O'm pen i'm traed..	334
O nertha finau i . . .	190	Ond atat mae fy nghri	324

Ond boed fy nghlust	147	Os gwaredi fi o'm ..	2
Ond boed maddeuant	105	Os gwelir fi bechadur	252
Ond canu'r gân	290	Os oedi'r wyt	219
Ond Crist y nefol ..	197	Os pell yw'r dwyrain	390
Ond d'wedir hyn am	384	Os pren heb wraidd .	338
Ond ei holl serch ..	357	Os rhaid im' ddyodd.	280
Ond gorphwys yn ..	289	Os rhaid i mi gael ..	65
Ond gweled r'ym y .	326	Os rhaid wynebu'r ..	39
Ond gwledd sydd etto	206	Os rhaid yfed dyfr...	162
Ond gwledd yw hon .	172	Os tonau gawn a ..	152
Ond llawenydd fel ..	279	Os ydwyt am fy	85
Ond mi ddof nes ..	381	Os yw ngofidiau....	166
Ond mi gaf ogonedd	350	O'th nawdd y daw ..	365
Ond ni ymddengys .	245	O'th ras tosturia....	351
Ond ofer ceisio ..	145		
Ond rhodio gyda ..	116	Pa beth a wnaif fi ...	96
Ond teimlo ei hedd .	145	Pa beth yw dyn	360
Ond y rhyfeddod ..	232	Pa dafod neu pa....	320
Ond yn yr Arglwydd	378	Pa Dduw y'mhlith..	256
O'r diwedd daeth ..	328	Pa feddwl pa 'madr.	125
O'r dyfnder du	262	Pa fodd O Dduw ...	397
O'r dyfnder gelwais .	400	Pa fodd yr afi trwy'r	4
O'r dywyll wlad	148	Pa gynhwrf a pha ..	292
O'r graig y mae'n .	84	Pa hyd fy Arglwydd	361
O'r holl gadwedig ..	314	Paham na thrown ..	234
O'r nef fe ddaeth ..	268	Paham yr ofnaf lu..	300
O'r nefoedd clywch .	154	Paham yr wyf mor .	336
Os â Caersalem o'r .	402	Paham y ciliwch ..	292
Os agori i'm dy ..	53	Paham y cuddi	373
Os ar wely rhaid fy .	65	Paid fy enaid gwan .	52
Os bore godi, os hûn	400	Pa le, y gwnaf	202
Os claf, os gwan ..	172	Pa'm carai'r byd a'i.	139
Os daw gwaradwydd	65	Pa'm carai'r byd na'i	148
Os daw y gyfraith yn	148	Pa'm'r ofna'm hen .	305
Os disgyni addfwyn .	70	Pa'm'r ofna'm hen ..	313
Os edrych wnaif i'r .	177	Pam'r ofnwn dra ..	157
Os edrych wnawn ..	338	Pa'm'r ofnwn mwy..	336
Os gad fy anwyl ..	313	Pa'm pwy O Dduw .	381
Os gelynion ddaw ..	110	Pa'm y caiff bwystfil	28

Pa'm y caraf mwy ..	44	Pe llithrwn ddim ..	362
Pan adeilader Sion..	389	Pe rhodiwn nid ofnwn	365
Pan af i dre	332	Pechadur aflan yw..	34
Pan bu fy Arglwydd	217	Pechadur wyf, da ..	138
Pan byddwy'n myn'd	148	Pechadur wyf'r Arg.	121
Pan ballo ffafr	168	Pechadur wyf O ...	250
Pan bo Sinai i gyd .	29	Pedair mil a saith ..	83
Pan bwy'n myned ..	51	Pelledigion byd	73
Pan delech ti i	246	Pererin llesg a	108
Pan delo angeu . . .	185	Pererin wyf i'r :....	265
Pan ddaeth Israel ..	394	Pererin wyf mewn..	181
Pan ddelo'r hyfryd .	312	Perffeithia Ior dy ..	175
Pan ddelo'r saint ...	331	Pethau chwerwon ..	43
Pan ddel yr adgyfod.	265	Plant caethion	297
Pan dderchafwyf ...	213	Plant ydym etto ...	185
Pan ddychwelodd ..	399	Pleserau'r ddaear ..	186
Pan ddysgwyf 'nabod	145	P'le gwelir cariad fel	198
Pan esgynodd yr hwn	41	Po fwyaf gawn	166
Pan fo'm henaid ...	42	Po mwyaf fo'u	166
Pan gaffwyf lanio ..	320	Pob cyfryw ddyd ...	397
Pan gaffwyf wel'd ..	147	Pob loes, yn un	209
Pan gofiont eu dydd.	119	Pob llwyth ac	195
Pan gwelech fi	143	P'odd gall y Bugail.	313
Pan grymodd Iesu..	197	Priod mawr, a Phen	45
Pan oeddym gaeth .	402	Priod y dragwyddol.	23
Pan 'ro'wn yn gor. .	141	Priodoliaethau'r	340
Pan syrthio'r ser ..	136	Pryd hyn pereiddia .	166
Pan syrthio'r ser ...	287	Pryd hyny caf gly. .	121
Pan ymddattodo'r tŷ	95	Pryd hyny mi	324
Parhau mae cariad .	206	Pur ganiadau i	67
Parhau mae hen ...	266	Pur iawn yw geiriau.	361
Par i'm aros	214	Pur waed ei galon ..	169
Pawb sydd yn pwyso	379	Pwy ddaw, yn angeu	210
Pe b'ai teganau'r ...	116	Pwy ddyry i'm falm	231
Pe b'ai yn gorfod ..	171	Pwy elyn all wrthsef.	241
Pe byddai fy ngolwg	131	Pwy gwyna iddynt..	321
Pe cawn adenydd ..	403	Pwy medd llawer ..	358
Pe cawn y byd i....	139	Pwy, pwy, rydd ddim	207
Pe cyhuddwr mawr .	241	Pwy rwyga iddi'r .	282

Pwy sydd debyg ...	385	Rhwng y troseddwy	220
Pwy welaf fel.....	261	Rhyfedda hyd a lled	215
Pwy welaf o Edom .	124	Rhyfeddai'r fuddug..	254
Pwy wrendy ruddfan	144	Rhyfeddod a bery'n	129
Pwy ydyw hon	318	Rhyfeddod pob rhy.	155
Pwy ydyw hwn	338	Rhyfeddod y byd ..	272
Pwy ydyw'r Ior	158	Rhyfeddol byth rhy.	257
Pwy yw y Brenin ..	192	Rhyfeddol iawn fydd	306
		Rhyfeddol rin, arfae.	264
'R anrhydedd a'r gall.	122	Rhyfeddu a wnaf ..	318
'R Efengyl gyntaf ..	244	Rhyfeddu mawr a ..	319
Rhad ras, yw'r ne ..	206	Rhyfeddu 'rwyf bob.	332
Rhai a ofnwch	395	Rhyfeddu'r wyf	336
Rhai a waredodd ef.	93	Rhyfeddu'r wyf i'r ..	141
Rhaid cael rhyw....	18	Rhyfeddu'r wyf rhy.	142
Rhaid i mi gael pob	169	Rhyw afon a gaed ..	269
Rhaid i mi gael rhyw	97	Rhyw dorf o ddya..	295
Rhaid i'r Iesu'n....	281	Rhyw dyrfa fawr ..	303
Rhan o'u pleser....	211	Rhyw gariad fel ..	326
Rheded afon iach ..	47	Rhyw gyfoeth an. ..	247
Rhedwn ar frys	140	Rhyw loches gadarn	368
Rho ddawn a goleu .	175	Rwy'n awr yn ffrynd	239
Rho fendith rad	174	Rwy bron, 'rwy bron	97
Rho gydwybod wedi.	60	Rwy' fel y gwyliwr .	186
Rho i mi wel'd	145	Rwy' fi'n dechreu ..	22
Rho i mi yfed 'rwy'n	75	Rwy' wedi blino ar .	281
Rho nerth i ddwyn .	297	Rwy yma dan y ton.	251
Rho nerth o'r nef ..	260	Rwy yn terfynu....	100
Rhodaist fy nyddiau	371	Rwyf fi'n caru'r per.	58
Rhoddasom ein tel. .	402	Rwyf fi'n clywed ..	162
Rhoddwch i enw ...	367	Rwyf fi'n myn'd ..	213
Rhodd y'nt ro'wd ..	269	Rwyf finau yn dymu.	191
Rhof ffarwel i'r holl.	64	Rwyf wedi bwrw'r ..	114
Rho'r delyn auraidd.	190	Rwyf yn foddlon ..	8
Rho'r golofn dân y..	50	Rwyf yn teimlo	22
Rhoist i'n calon	358	Rwy'n awr am ganu	265
Rhoist yn fy nghalon	219	Rwy'n blino eisiau ..	97
Rhosyn Saron yw ..	68	Rwy'n brysiso bob ..	346
Rhwng Pih'iroth a..	79	Rwy'n ceisio ymdrei.	143

Rwy'n cofio gair fy	84	Taw f'enaid mwy ..	137
Rwy'n cwympto wrth	272	Tebygwn pe bai	181
Rwy'n dewis Iesu ..	143	Teg wawriodd arnom	303
Rwy'n dy garu er nas	55	Tegwch bro a llawen.	375
Rwy'n dysgwyl am	283	Teilwng yw'r Oen	194
Rwy'n edrych arnaf	230	Teilwng yw'r Oen a	248
Rwy'n edrych dros y	181	Teithio 'rwyf fynydd.	278
Rwy'n gweled bob..	270	Terfysgodd cenhedl	92
Rwy'n gwel'd yr ori.	109	Teyrnasa Iesu mawr	353
Rwy'n morio tua cha.	176	Ti Arglwydd yw fy	272
Rwy'n nesu at yr awr	298	Ti faddeuaist fyrdd o	62
Rwy'n ofni'm nerth	102	Ti farnwr byw a	231
Rwy'n rhoi ffarwel..	239	Ti sy'n addfedu	175
Rwy'n rhoi mhechod	211	Torf o addewidion ..	329
Rwy'n teimlo f'enaid	30	Tra caffwyf rodio'r	136
Rwy'n trigo mewn..	284	Tra fyddwyf yn y ..	253
'Rym yn dy erfyn ..	152	Tra rhaid i mi wisgo	163
Safed haul uwchben	57	Tragwyddol glod i'r	250
Saif Moab ddim o ..	115	Tragwyddoldeb mawr	5
Saint orfoleddant ..	140	Trech yw cariad nag	71
Sancteiddrwydd i'm	169	Trigolion byd a dro.	364
Sawl a 'mddiriedant	399	Tros yr ymddifaid ..	361
Sef graslawn yw	405	Trowch bechaduriaid	319
Sef haul a tharian ..	383	Trugaredd Duw	379
Seiniwn gân, a llon	71	Trugaredd dod i mi	376
Seraphiaid ac angel.	289	Trwy Dduw y syrth	362
Seraphiaid nef, pob	195	Trwy ffydd yn ngwaed	205
Sodoma'r Aipht, y..	107	Trwy Grist a'i werth.	304
Son am Iesu aed ..	72	Trwy'r byd y bo son	272
Syflfed iechyd, syflfed	43	Trwy, trwy, fy Iesu.	208
Taened gweinidogion	66	Trysorwyd gras	341
Taened gwir genad.	72	Tuedda 'ngolwg at y	398
Tan bwys fy maich	315	T'wyned haul ar ..	163
Tan d' aden Iesu ..	243	Tydi a addewaist ..	173
Tan dy aden cedwir	61	Tydi fy Nuw ei hun	272
Taranau Sinai, mell't	268	Tydi fy Nuw, tydi..	149
Tarddu maes mae'r	277	Tyn yr ofnau hen ..	52
		Tynaist dy lid	383
		Tyr'd am hynny Iesu	60

- Tyr'd a'r awelon .. 153
 Tyr'd i fynu o'r anial 13
 Tyr'd Ysbryd Glan i'n 172
 Tyr'd Ysbryd Glan . 260
 Tyr'd Ysbryd sanct. 174
 Tyr'd Ysbryd sanct. 181
 Tyred Arglwydd ar . 78
 Tyred Arglwydd i'r . 7
 Tyred f'enaïd ar i .. 22
 Tyred Iesu i'r anial. 20
 Tyred yr awelon hyf. 25
 Tystiodd fy Nuw .. 147
 Tywyned haulwen.. 16
 Tywysodd hwynt hyd 93

 Uchel yw'r Ion 403
 Uchelderau mawr .. 164
 Udgenwch weision . 319
 Un aberth mwy nid 299
 Un arch a erchais .. 365
 Un golwg ar dy .. 324
 Unwaith trwy ddyo.. 94
 Uwch creaduriaid .. 215

 Wedi it ddyodde' .. 218
 Wel anfon eirchion . 177
 Wel arno bo'm gol. . 124
 Wel bellach awn yn . 328
 Wel bellach dechreu. 343
 Wel bellach f'enaïd . 116
 Wel bellach ffown .. 313
 Wel bellach gad i mi 343
 Wel bellach mi â .. 270
 Wel bellach tyr'd .. 309
 Wel cyn bo hir .. 142
 Wel dacw'r Brenin . 149
 Wel dacw'r ffordd .. 312
 Wel dacw'r hyfryd.. 151
 Wel dacw'r man .. 150

 Wel dere ddedwydd. 85
 Wel deuwch tua'r .. 104
 Wel deuwn yn y .. 307
 Wel dyma gyfoeth . 286
 Wel dyma odfa 255
 Wel dyma'r cariad . 94
 Wel dyma'r concwer. 182
 Wel dyma'r cyfaill . 88
 Wel dyma'r hyfryd . 315
 Wel dyma'r lle 248
 Wel dyma'r newydd 348
 Wel dyma'r un sy'n 249
 Wel, dyma un, O .. 144
 Wel dyma wledd .. 171
 Wel dyro etto gym. 175
 Wel f'enaïd cerdd y. 90
 Wel f'enaïd cod.... 333
 Wel f'enaïd dos y/ml, 101
 Wel f'enaïd dos yn.. 326
 Wel f'enaïd eiddil .. 288
 Wel f'enaïd moria be. 233
 Wel f'enaïd weithian 136
 Wel finau'r eiddil .. 288
 Wel ffowch ar ffrwst 95
 Wel Iesu garaf yn.. 136
 Wel mi ddarfyddaf . 109
 Wel minau anturia' 273
 Wel o'r diwedd daeth 275
 Wel rhedodd fy .. 341
 Wel ymgysura'n awr 310
 Wele angeu llym eu 227
 Wele cawsom y Mes. 81
 Wele f' Arglwydd .. 225
 Wele fod brodyr yn . 401
 Wele holl weision yr 401
 Wele mae llygaid .. 405
 Wele'n chwyu'r daf. 82
 Wele'n dyfod ar y . 62
 Wele'n sefyll rhwng 68

Wele'r dydd yn gwa. 226	Y cysur i gyd sy'n.. 269
Wele'r faner wen i.. 50	Y fan bo'st ti fy.... 110
Wele'r Ganaan hyf. 222	Y fan lle gorweddodd 349
Wele'r Iesu pen rhy. 29	Y ffynnon loyw hon. 296
Wele'r llwybr hedd. 222	Y ffynnon loyw hyn. 296
Wele'r Oen ar fynydd 83	Y gair melysa' erioed 310
Wele Sinai a Chalfa. 33	Y goleuni sy'n ninas 118
Wele y plant a ro'ir. 400	Y gras yr hedd 141
Wele y truan a roes 369	Y gwana wyf a'r .. 143
Wrth daro'r graig .. 334	Y gwardigion can. . 391
Wrth droi fy ngolwg 144	Y gwr fu ar Galfaria 258
Wrth dy orsedd di.. 60	Y Jubili a ddaeth .. 199
Wrth dy orsedd 'rwyf 56	Y llew o lwyth Juda 130
Wrth dy orsedd 'rwyf 59	Y mae dyfroedd Mara 79
Wrth ddrysau modd. 192	Y mae fy ngolwg .. 385
Wrth edrych ar dir . 175	Y mae gorphwysfa . 158
Wrth edrych ar y nef. 360	Y mae gwedd dy wy. 54
Wrth edrych Iesu ar 146	Y mae hapusrwydd 148
Wrth edrych yn ol.. 346	Y mae heddyw nefol 281
Wrth feddwl am y .. 111	Y mae meddwl am . 21
Wrth fy nghuro gan 58	Y mae nefoedd yn .. 21
Wrth geisio gwneu. . 257	Y mae'r dyddiau .. 275
Wrth gofio'i ruddfan. 126	Y mae'r oriau yn fy 9
Wrth gofio'r Jerusa. 120	Y mae rhinwedd gras 59
Wrth orphwys ar yr 217	Y mae, y dydd yn .. 200
Wrth rai annheilwng 351	Y mae yr Arglwydd 374
Wrth weled y fyddin 125	Y maen sy ben congl. 396
Wrth wel'd yr angeu 216	Y man b'ost di, bid . 171
Wyf yma'n wael fy.. 317	Y manna pur, a'r .. 159
Wyneb siriol fy anw. 29	Y Meichai aeth yn . 316
Y Baradwys âf iddi 120	Y penaf drysor hedd. 86
Y Bugail mwyn .. 339	Y plant a wasanaeth. 157
Y byd a'i wŷg a'i wen 209	Y rhai a blunwyd yn 386
Y chwys a'r gwaed.. 267	Y rhai sy'n hau 399
Y clod a'r gogoniant 342	Y rhai yn berffaith . 198
Y cnawd, sydd yn .. 209	Y rhai'n a wisgir oll 204
Y cwbl feddai oll .. 283	Y Sabbath gwyl nef. 157
Y cyflawn a drig yn 356	Y sawl a drigo, doed 386
	Y sawl a'th gaffo... 88

Y sawl ni redia ded. 357	Yn nydd dy nerth dy 392
Y sawl sy deilwng . 368	Yn nyfnder bob rhyw 303
Y tanlyd gledd fu'n 340	Yn nyfnder dwr 325
Y tir dymunol per. . 289	Yn nyfnder pob 150
Y tŷ nid adeilado'r.. 399	Yn nyfnder profedig. 176
Y wisg a'r goron .. 168	Yn ol tirio yn iach . 345
Yma cewch chwi .. 74	Yn Peniel 'rwyf, fy . 147
Yma cewch wel'd .. 172	Yn Sion mae cyfraith 131
Yma dymunwn dreu. 183	Yn teithio Baca 'rwy' 332
Ymado wna'f a'r babel 252	Yn wir pryd hyn .. 204
Ymborthi caf mewn 168	Yn wyneb gorthrym. 294
Ymdrechodd hardd . 123	Yn wyneb uffern .. 317
Ymddiried f'enaid .. 317	Yn y dyfroedd mawr 30
Ymddiried f'enaid ar 377	Yn y ffynnon hon .. 60
Ymddiriedais iddo .. 367	Yn y mynyddau hyn 313
Ymddyrrha Dduw y 377	Yn y rhyfel mi arosaf 16
Ymgrymaf tu a'th .. 403	Yn ymchwydd yr Ior. 85
Ymgrymed pawb i.. 312	Yna eu gwared 391
Yn awr mae ffrwyth 329	Yna y gelwais ar fy . 363
Yn awr mae'r adar . 113	Yna y cofiwn Dduw . 382
Yn dy glwyfau y mae 10	Yna y gelwais ar fy. 363
Yn dy haeddiant'rwyf 23	Ynddo ei hunan mae 278
Yn ddwl, yn ddall .. 246	Yno boed fy mwyd . 9
Yn ddystaw dysgwyl 136	Yno caf dderchafu'r . 40
Yn Eden cofiaf hyny 263	Yno caf fi ddechreu . 24
Yn ei wely pan .. 372	Yno caf fi ddweyd .. 54
Yn eitha' grym y .. 273	Yno derfydd fy nghys. 162
Yn fynych fynych .. 144	Yno llenwir fy ny... 24
Yn ffyrdd yr Argl.. 403	Yno mae fy mwyd .. 41
Yn gorphwys yn y . 167	Yno y derfydd poen. 142
Yn gwisgo gynau .. 323	Ynof fi nid oes ond . 44
Yn nglyn gwylofain. 108	Ynot gobeithiai'n .. 364
Yn lle cario corffo.. 39	Yr afon a lifodd .. 341
Yn lle damnio pente 32	Yr arch a gwialen .. 244
Yn lle, y dynion .. 205	Yr Arglwydd a rydd 367
Yn llydan gwnewch. 158	Yr Argl. a wnaeth .. 393
Yn mhell uwch swm. 149	Yr Argl. a'i ddeheu. 401
Yn mhlith holl ryf. . 284	Yr Argl. a'i gwnaeth 396
Yn Nuw yn unig .. 378	Yr Argl. ar fy nhaith 300

Yr Argl. arnoch ..	395	Yr hwn sydd isel ..	362
Yr Argl. clybu Ef..	359	Yr hwn y bore	386
Yr Argl. Dduw	388	Yr iachawdwriaeth..	159
Yr Argl. o'i orsedd .	361	Yr Iawn a dalwyd ar	192
Yr Argl. piau'r	365	Yr Iesu yn ddilai, ..	270
Yr Argl. sydd i'm ..	396	Yr Ion a'th geidw ..	398
Yr Argl. tyngodd ..	392	Yr ochr draw i'r bedd	304
Yr Argl. yw fy Mug.	365	Yr Oen a laddwyd..	144
Yr Argl. yw fy ngol.	366	Yr Oen fydd eu har	259
Yr Argl. yn teyrnasu	405	Yr udgorn mawr ..	300
Yr holl ddaear	368	Yr un wedd ag y bref	372
Yr holl freniniaethau	133	Yr wyf yn dyfod ..	352
Yr hwn a rodia'n ..	362	Yr wy'n ofni temt.	51
Yr hwn sy'n codi'r..	394	Yr wyt ti etto yn ..	174
Yr hwn sy'n maddeu	390	Yr wyt y'nghylch ..	403



